# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 8 Tachwedd 2018

Amser: 08.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Llinos Madeley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat

(08.45 - 09.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.00)

## 2 Craffu ar Gyllideb Llywodraeth Cymru 2019-20

(09.00 - 10.30) (Tudalennau 1 - 135)

Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

Huw Morris, Cyfarwyddwr Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes

Steve Davies, Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Addysg

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

CYPE(5)-30-18 - Papur 1 - Llywodraeth Cymru

## Egwyl

(10.30 - 10.45)

## 3 Craffu ar Gyllideb Llywodraeth Cymru 2019-20

(10.45 - 12.15) (Tudalennau 136 - 206)

Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Huw Irranca-Davies AC, y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol

Alan Brace, Cyfarwyddwr Cyllid

Albert Heaney, Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio

Jo-anne Daniels, Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

CYPE(5)-30-18 – Papur 2 – Llywodraeth Cymru

## 4 Papurau i'w nodi

(12.15)

**4.1 Gohebiaeth a anfonwyd gan gyngor ieuenctid Castell-nedd Port Talbot ynglŷn â phryderon ynghylch toriadau i grantiau addysg**

(Tudalennau 207 - 213)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-30-18 – Papur i'w nodi 1 (Saesneg yn unig)

**4.2 Llythyr gan Gyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys – ymgynghori ar addewid drafft**

(Tudalennau 214 - 218)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-30-18 – Papur i'w nodi 2

**4.3 Llythyr gan y Cadeirydd at y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20**

(Tudalennau 219 - 220)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-30-18 – Papur i'w nodi 3

**4.4 Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg – ymchwiliad i gyllido ysgolion**

(Tudalennau 221 - 223)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-30-18 – Papur i'w nodi 4

**4.5 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg – rhagor o wybodaeth yn dilyn y cyfarfod ar 20 Medi**

(Tudalennau 224 - 225)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-30-18 – Papur i'w nodi 5

**4.6 Llythyr at y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol – Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)**

(Tudalennau 226 - 228)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-30-18 – Papur i'w nodi 6

**4.7 Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg – Diwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau am ddim yn yr ysgol yng Nghymru yn sgil cyflwyno Credyd Cynhwysol**

(Tudalennau 229 - 230)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-30-18 – Papur i'w nodi 7

**4.8 Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ynghylch yr ymchwiliad i effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach**

(Tudalennau 231 - 232)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-30-18 – Papur i'w nodi 8

**4.9 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ynghylch adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd**

(Tudalennau 233 - 257)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-30-18 – Papur i'w nodi 9 (Saesneg yn unig)

**4.10 Y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor i Dechrau'n Deg: Allgymorth**

(Tudalennau 258 - 268)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-30-18 – Papur i'w nodi 10

**4.11 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – diweddariad 12 mis ar iechyd meddwl amenedigol**

(Tudalennau 269 - 284)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-30-18 – Papur i’w nodi 11

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(12.15)

## 6 Craffu ar Gyllideb Llywodraeth Cymru 2019-20: trafod y dystiolaeth

(12.15 - 12.30)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

**Dyddiad:** **8 Tachwedd 2018**
**Oddi wryh:** **Llywodraeth Cymru**
**Amser:** **09:00 – 10:30**
**Teitl:** **Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2019-20 – Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg**

## Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am y cynigion ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg a nodir yng Nghyllideb Ddrafft 2019-20[1], sy'n adeiladu ar y cynigion a gyhoeddwyd gennym y llynedd. Cyhoeddwyd y gyllideb amlinellol (cam 1) ar 2 Hydref ac yna'r gyllideb fanwl (cam 2) ar 23 Hydref. Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol a fydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

## Cefndir

2. Mae Cyllideb Ddrafft 2019-20 yn darparu cynllun un flwyddyn ar gyfer buddsoddi refeniw a chynllun dwy flynedd (2019-20 and 2020-21) ar gyfer buddsoddi cyfalaf mewn perthynas â darparu addysg yng Nghymru. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r cynlluniau dangosol ar gyfer y MEG Addysg a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2019-20.

3. Mae ffigurau'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2018-19, a gyhoeddwyd ar 19 Mehefin 2018, yn cynrychioli'r cymharydd o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r cynlluniau ar gyfer 2019-20 a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2018-19, ar 19 Rhagfyr 2017, wedi cael eu cynnwys hefyd fel y ffigwr sylfaen ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2019-20.

| Addysg – Crynodeb | £000oedd | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19** | **Cynlluniau ar gyfer 2019-20 fel yng Nghyllideb Derfynol 2018-19** | **Newidiadau 2019-20** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20** |
| Adnoddau | 1,648,670 | 1,623,909 | 38,095 | 1,662,004 |
| Cyfalaf | 203,627 | 176,674 | 29,809 | 206,483 |
| **Cyfanswm y DEL** | **1,852,297** | **1,800,583** | **67,904** | **1,868,487** |
| AME Adnoddau | -97,234 | -126,399 | 24,414 | -101,985 |
| AME Cyfalaf | 661,816 | 816,483 | -15,015 | 801,468 |
| **Cyfanswm yr AME** | **564,582** | **690,084** | **9,399** | **699,483** |
| **Cyfanswm – MEG Addysg** | **2,416,879** | **2,490,667** | **77,303** | **2,567,970** |

[1] Yn y papur hwn mae '/' yn cyfeirio at flwyddyn academaidd sy'n cwmpasu'r cyfnod o 1 Awst tan 31 Gorffennaf ac mae '-' yn cyfeirio at flwyddyn ariannol sef y cyfnod o 1 Ebrill tan 31 Mawrth.

### *Adnoddau*

4. Mae'r gyllideb Adnoddau ar gyfer y MEG Addysg wedi cynyddu £38 miliwn (2.35%) o'i gymharu â'r cynlluniau dangosol ar gyfer 2019-20, a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2018-19 (Rhagfyr 2017). Caiff y newidiadau, sydd wedi'u rhannu yn ôl adnoddau refeniw (cyllidol) ac adnoddau nad ydynt yn arian parod (anghyllidol), eu crynhoi isod.

| **Addysg: Cyllideb Adnoddau** | **£000oedd** | | | | **%** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19** | **Cynlluniau ar gyfer 2019-20 fel yng Nghyllideb Derfynol 2018-19** | **Newidiadau 2019-20** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20** | **% y newid o Gyllideb Atodol Gyntaf 2018-19** | **% y newid o gynlluniau blaenorol 2019-20** |
| Refeniw (Cyllidol) | 1,541,631 | 1,516,870 | 37,980 | 1,554,850 | 0.86% | 2.50% |
| Nad Ydynt yn Arian Parod (Anghyllidol) | 107,039 | 107,039 | 115 | 107,154 | 0.11% | 0.11% |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **1,648,670** | **1,623,909** | **38,095** | **1,662,004** | **0.81%** | **2.35%** |

5. Mae'r cynnydd o £38 miliwn yn cynnwys nifer o ddyraniadau o Gronfeydd Wrth Gefn Llywodraeth Cymru, a grynhoir isod.

| **Addysg: Y gyllideb adnoddau Dyraniadau o Gronfeydd Wrth Gefn** | **BEL** | **2019-20 £000** |
|---|---|---|
| Dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a Dysgwyr o Gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr | Grant Gwella Ysgolion | 8,700 |
| Grant Datblygu Disgyblion – Cronfa Fynediad | Grant Datblygu Disgyblion | 3,554 |
| Ysgolion | Datblygu a Chymorth Athrawon | 15,000 |
| Chweched Dosbarth mewn Ysgolion | Darpariaeth Addysg Bellach | 2,620[2] |
| Gwasanaethau ieuenctid – cymorth iechyd meddwl a chydnerthedd | Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid | 2,500 |
| Cronfa Bontio'r UE cyfran 1 – Cymru Fyd-eang II | Gwariant Rhaglen CCAUC | 1,382 |
| Cronfa Bontio'r UE cyfran 1 a 2 – Ford, Airbus a gweithgynhyrchwyr eraill cydrannau modurol | Cyflogadwyedd a Sgiliau | 3,150 |
| Dyfarniad cyflog i athrawon – elfen chweched dosbarth ysgolion (o'r cyfanswm o £14.8 miliwn)) | Darpariaeth Addysg Bellach | 1,074[3] |
| Cymwysterau Cymru – cronfa ddata QiW (nad yw'n arian parod) | Cymwysterau Cymru | 115 |
| **Cynnydd Net mewn Adnoddau** | | **38,095** |

[2] Er mwyn adfer lefelau'r cyllid ar gyfer chweched dosbarth mewn ysgolion i lefelau 2018-19, mae £9.827m yn ychwanegol wedi cael ei ddyrannu, y mae £7.207m ohono o gyllid Ffyniant i Bawb a ddyrannwyd i'r MEG Addysg yng Nghyllideb derfynol 2018-19 a'r gweddill ar gael o Gronfeydd Wrth Gefn i wrthdroi'r toriad yn llawn.

[3] Roedd cyfanswm y dyfarniad cyflog i athrawon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn £23.5 miliwn dros ddwy flynedd. Ar gyfer 2018-19, bydd £8.7m ar gael drwy grant penodol o fewn y MEG Addysg. Ar gyfer 2019-20, mae cyllid o £13.7m wedi cael ei gynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw (RSG) ar gyfer ysgolion a gynhelir o oedran meithrin i flwyddyn 11, gydag £1.074 miliwn yn cael ei ddyrannu fel grant penodol ar gyfer athrawon mewn addysg ôl-16 (chweched dosbarth mewn ysgolion).

### *Cyfalaf*

6. Mae'r gyllideb gyfalaf Addysg yn £206.5 miliwn ar gyfer 2019-20 ac yn £179.6 miliwn ar gyfer 2020-21, cynnydd o £29.8 miliwn a £24.8 miliwn yn y drefn honno, o'i gymharu â'r cynlluniau dangosol ar gyfer 2019-20 a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2018-19. Caiff y newidiadau, sy'n cynnwys manylion trosglwyddiadau i/o Gronfeydd Wrth Gefn Llywodraeth Cymru, eu crynhoi yn y tablau isod.

| Addysg: Cyllideb Gyfalaf | £000 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19 | Cynlluniau 2019-20 fel yng Nghyllideb Derfynol 2018-19 | Newidiadau 2019-20 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 | Cynlluniau 2019-20 fel yng Nghyllideb Derfynol 2018-19 | Newidiadau 2019-20 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 |
| **Cyfalaf traddodiadol** | 203,627 | 176,674 | 30,000 | 206,674 | 154,750 | 25,000 | 179,750 |
| **Trafodion ariannol[4]** | - | - | (191) | (191) | - | (195) | (195) |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **203,627** | **176,674** | **29,809** | **206,483** | **154,750** | **24,805** | **179,555** |

| **Addysg: cyllideb gyfalaf<br>Dyraniadau i/o Gronfeydd Wrth Gefn** | **2019-20<br>£000** | **2020-21<br>£000** |
|---|---|---|
| Hybiau Cymunedol Addysg | 5,000 | - |
| Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif | 25,000 | 25,000 |
| Ad-daliadau Trafodion Ariannol – Campws Coleg y Cymoedd yn Aberdâr | (191) | (195) |
| **DEL Cyfalaf – cynnydd net** | **29,809** | **24,805** |

### *Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)*

7. Mae'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) yn gysylltiedig â benthyciadau i fyfyrwyr sy'n seiliedig ar y galw ac yn sensitif i'r gyfradd llog a ffactorau macro-economaidd eraill ac felly'n anodd i'w rhagweld. Cytunir ar y gyllideb hon gyda'r Trysorlys bob blwyddyn ac fe'i cyllidir yn llawn. Mae'r gyllideb wedi cynyddu £9.4 miliwn yn 2019-20.

### Tryloywder y cyflwyniad o'r gyllideb

8. Yn unol â chais y Pwyllgor, darperir sylwebaeth sy'n rhoi eglurhad manwl o'r newidiadau i bob Cam Gweithredu yn y MEG Addysg sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn yn **Atodiad A**. Darparwyd esboniad naratif tryloyw i egluro codiadau a gostyngiadau, lle nad yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y papur

[4] Mae cyfalaf trafodion ariannol yn rhan o'r setliad DEL cyfalaf y gellir ei ddefnyddio ar gyfer benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti i drydydd partïon yn unig. At ei gilydd, rhaid ad-dalu'r cyllid i Drysorlys EM. Ar gyfer y MEG Addysg, mae ad-daliadau'n ymwneud â chyllid o £4.5 miliwn a ddyrannwyd i Goleg y Cymoedd yn 2016-17 ar gyfer campws Aberdâr.

tystiolaeth, a chadarnhad sy'n nodi i ac o ble y mae'r trosglwyddiadau wedi cael eu dyrannu.

9. Cafodd cynlluniau'r gyllideb fanwl ar gyfer y MEG Addysg eu cyhoeddi ar 23 Hydref. I hybu tryloywder darperir dadansoddiad o'r newidiadau i'r MEG Addysg fesul Llinell Wariant y Gyllideb (BEL) ar gyfer 2019-20 a 2020-21 (cyfalaf yn unig) yn **Atodiad B**. Mae'r adroddiad yn rhoi manylion dyraniadau Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19, alldro rhagamcanol 2018-19 ac alldro terfynol 2017-18.

**Blaenoriaethau Addysg**

10. Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu ymrwymiad i lwyddiant a llesiant pob dysgwr, ni waeth beth fo'i gefndir neu amgylchiadau personol. I gyflawni hyn, rhaid inni gyfuno tegwch â rhagoriaeth wrth inni godi safonau ar draws system addysg Cymru, ymrwymiad a rennir ar draws y Llywodraeth.

11. Mae'r portffolio Addysg yn gyfrifol am gyflawni nifer o flaenoriaethau a nodir yn Ffyniant i Bawb, yn bennaf dan thema allweddol Uchelgeisiol ac yn Dysgu. Mae'r Gyllideb ddrafft fanwl a gyhoeddwyd ar 23 Hydref yn nodi'r aliniad rhwng yr holl bortffolios, gan gynnwys Addysg, a'r pedair thema a chwe maes blaenoriaeth a nodir yn *Ffyniant i Bawb*.

12. Drwy weithio ar draws ffiniau gallwn fod yn hyderus ynglŷn â Chymru ffyniannus lle bydd addysg o'r oedran cynharaf yn sylfaen ar gyfer oes o ddysgu a chyflawni. Mae *Cenhadaeth Ein Cenedl*, a gyhoeddwyd ychydig dros flwyddyn yn ôl, wedi'u bwriadu'n gyfan gwbl i roi cymorth i gyflawni Uchelgeisiol ac yn Dysgu. Hwn yw ein cynllun gweithredu ar gyfer diwygio addysgiadol yng Nghymru; mae'n adlewyrchu ymgyrch dros hunanwella sy'n cyrraedd ar draws ein system addysg gyfan, i gynorthwyo ein holl bobl ifanc i gyflawni eu potensial. Mae fy mlaenoriaethau i'n glir: codi safonau i bawb, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a darparu system addysg sy'n destun balchder cenedlaethol ac y mae gan y cyhoedd hyder ynddi.

13. Mae sicrhau y darperir cwricwlwm trawsnewidiol yn ganolog i *Cenhadaeth Ein Cenedl*, gyda chwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno a fydd yn barod i gael ei gyflwyno'n statudol ym mis Medi 2022. Mae llwyddiant y cwricwlwm newydd yn dibynnu ar ein proffesiwn addysgu Dyna pam fy mod yn llunio cynigion terfynol i fuddsoddi £15 miliwn mewn ysgolion a fydd yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ag adnoddau da i baratoi ymarferwyr ar gyfer rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith - bydd hyn yn ychwanegol at y cyllid y byddaf yn ei ddarparu yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Byddaf yn gwneud cyhoeddiad arall ar y cyllid hwn cyn bo hir.

14. Mae hyn yn adeiladu ar ein buddsoddiad cyfredol o £10 miliwn ar gyfer diwygio'r cwricwlwm, sy'n cefnogi ein rhwydwaith o ysgolion arloesi (y cwricwlwm; dysgu proffesiynol; a digidol) sydd â rôl ganolog o ran datblygu ein cwricwlwm newydd.

15. Mae'r deg blaenoriaeth ar gyfer addysg y cytunais arnynt gyda Phrif Weinidog Cymru yn dal i fod yn flaenoriaethau allweddol i'm portffolio, ac maent wedi'u cynnwys fel ymrwymiadau yn *Symud Cymru Ymlaen*. Yn y Gyllideb hon rydym yn parhau i flaenoriaethu cyllid yn 2019-20, gan gynnwys:

- buddsoddi mewn lleihau meintiau dosbarthiadau babanod drwy drefnu bod cyllid refeniw o £5 miliwn a chyllid cyfalaf o £5 miliwn ar gael fel rhan o'n hymrwymiad o £36 miliwn ar y cyfan dros dymor y Cynulliad hwn;
- y Grant Datblygu Disgyblion (PDG), gyda bron i £94 miliawn ar gael o'r Grant Datblygu Disgyblion yn 2019-20 i wella canlyniadau i'n dysgwyr difreintiedig. Hefyd, mae buddsoddiad yn y Grant Datblygu Disgyblion – Cronfa Mynediad yn dyblu i £3.554 gan olygu bod y buddsoddiad ar y cyfan ar gyfer BEL y Grant Datblygu Disgyblion yn codi i £97.3 miliwn a chan fynd ati ymhellach i gyflawni ein hymrwymiad i ehangu'r Grant Datblygu Disgyblion;
- dyrannu £2.5 miliawn i'r Grant Ysgolion Bach a Gwledig, fel rhan o'n buddsoddiad ar y cyfan o £10 miliwn, i roi anogaeth ar gyfer arloesi, rhoi cymorth ar gyfer mwy o weithio ysgol i ysgol, lleihau'r baich gweinyddol ar benaethiaid ysgolion a chynyddu defnydd cymunedol o adeiladau ysgolion;
- buddsoddi £1 filiwn ar gyfer ein Hacademi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol, a fydd yn adnabod, yn cefnogi ac yn ysbrydoli arweinwyr ar draws y system gyfan; a hefyd
- aros ar y trywydd cywir i roi ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamond ar waith yn llawn. Rydym eisoes wedi gwneud diwygiadau i'r system cyllid myfyrwyr o 2018-19 a bellach mae gan fyfyrwyr israddedig llawn-amser a rhan-amser fynediad at gymorth sy'n gyfwerth â'r cyflog byw cenedlaethol tra'u bod yn astudio. Bydd myfyrwyr ôl-raddedig yn gallu cael mynediad at y cymorth hwn o 2019/20 hefyd ac mae cynlluniau i ailddosbarthu adnoddau i gyllido blaenoriaethau'r Llywodraeth mewn addysg uwch yn digwydd fel y trefnwyd hefyd.

**Adnoddau / Gwerth am Arian**

16. Mae eglurder o ran sut yr ydym yn defnyddio'n hadnoddau'n effeithiol yn ganolog i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn *Symud Cymru Ymlaen* a *Ffyniant i Bawb*. Unwaith y bydd gwariant wedi'i gynllunio yn unol â'm blaenoriaethau, mae gennyf brosesau sydd wedi hen ennill eu plwyf i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol at y dibenion a fwriadwyd. Mae'r gweithdrefnau llywodraethu a monitro sydd yn eu lle'n adlewyrchu natur ein perthnasoedd â phartneriaid cyflawni.

17. Mae'r cynigion hyn ar gyfer y gyllideb yn adlewyrchu fy ymrwymiad parhaus i ddiogelu a blaenoriaethu buddsoddiadau sy'n ategu mesurau ataliol hyd y gellir. Mae'r penderfyniadau ynghylch gwariant nid yn unig wedi ystyried sut orau i ateb y galw cyfredol am wasanaethau ond maent hefyd wedi canolbwyntio ar ategu ymyriadau sy'n gallu atal problemau rhag codi yn y dyfodol. Mae'r dull ataliol hwn yn rhan bwysig o'n gwaith cynllunio ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, yn awr ac yn y dyfodol.

18. O ddechrau fy mharatoadau ar gyfer y Gyllideb, rwyf wedi canolbwyntio ar sut orau i ddiwallu anghenion cynyddol meysydd gwasanaeth allweddol o fewn y MEG yn wyneb cyllideb arall sy’n gryn her. Dros flynyddoedd dilynol, mae blaenoriaethu gwariant ataliol wedi bod yn ffordd o osgoi ymyriadau mwy costus yn y dyfodol a gwella ansawdd bywydau pobl dros y tymor hir.

**Monitro’r Gyllideb**

19. Gan adeiladu ar waith a wnaed ar gyfer cyllidebau blaenorol, rydym wedi parhau â’n hadolygiad fesul llinell o gyllidebau i sicrhau bod cyllid yn cael ei flaenoriaethu i ategu ein hymrwymiadau allweddol. Yn erbyn cefnlen o gyfyngiadau ariannol parhaus, mae ein blaenoriaethau ar gyfer addysg yng Nghymru’n dal i fod yn ddigyfnewid ac mae ein cynlluniau gwariant cyhoeddedig ar gyfer 2019-20 yn parhau i adlewyrchu hyn.

20. Mae’r holl gyllidebau wedi bod yn cael, ac yn dal i gael, eu monitro a’u herio’n fisol yn ystod 2018-19, i ystyried y rhagolygon diweddaraf a symudiadau yn y gyllideb fel y bo angen. Rwy’n cael diweddariadau ariannol rheolaidd ar y rhagolygon ar gyfer y MEG Addysg i sicrhau bod cyllidebau’n dal i fod ar y trywydd cywir i gyflawni’r blaenoriaethau i Gymru.

21. Rwy’n parhau i gael cyfarfodydd gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid i drafod pwysau yn ystod y flwyddyn ac mewn blynyddoedd yn y dyfodol sy’n effeithio ar fy mhortffolio ac i ystyried effeithiau trawsbynciol ein cynlluniau gwariant.

***Ail Gyllideb Atodol 2018-19 – Trosglwyddiadau***

22. Mae nifer o drosglwyddiadau dros dro yn yr arfaeth ar gyfer Ail Gyllideb Atodol 2018-19 o Gronfeydd Wrth Gefn, a chaiff y rhain eu crynhoi yn y tabl isod.

| Trosglwyddiad | BEL | £000 |
|---|---|---|
| Dyfarniad cyflog i athrawon – o oedran meithrin i flwyddyn 11 | Datblygiad a Chymorth Athrawon | 8,069 |
| Dyfarniad cyflog i athrawon – chweched dosbarth mewn ysgolion | Darpariaeth Addysg Bellach | 631 |
| Credyd Cynhwysol – Prydau Ysgol Am Ddim | Bwyd a Maethiad mewn ysgolion | 4,000 |
| Dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a Dysgwyr o Gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr [5] | Grant Gwella Ysgolion | 3,700 |
| Cronfa Bontio’r UE cyfran 1 – Cymru Fyd-eang II | Gwariant Rhaglen CCAUC | 787 |
| Cronfa Bontio’r UE cyfran 1 – Ford ac Airbus | Cyflogadwyedd a Sgiliau | 1,350 |
| **Cyfanswm** | | **18,537** |

[5] Mae hyn yn ychwanegol at y £5 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer Dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a Dysgwyr o Gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2018-19.

**Effaith Brexit**

23. Bydd effaith Brexit ar ein cyllidebau a'n rhaglenni'n sylweddol ond rydym wedi egluro ein bwriad i ddwyn i gyfrif yr addewidion mewn ymgyrchoedd na fyddai geiniog yn waeth ar Gymru y tu allan i'r UE nag y byddai wedi bod fel arall o fewn yr UE.

24. Mewn datganiad i'r Senedd ar 24 Gorffennaf 2018, cafodd busnesau, prifysgolion a sefydliadau lleol eu sicrhau gan Drysorlys EM y bydd unrhyw gyllid y maent yn ei sicrhau drwy raglenni'r UE, gan gynnwys y Cronfeydd Strwythurol, Horizon 2020 ac Erasmus+, o nawr tan ddiwedd 2020, yn cael eu gwarantu gan Lywodraeth y DU hyd yn oed mewn senario 'dim cytundeb'. Mae swyddogion yn Nhrysorlys Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn cynnal cyswllt â swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU i geisio eglurder a sicrwydd pellach ynghylch yr arweiniad ar y gwarantiad.

25. Bydd unrhyw gyfranogiad yng nghynlluniau Horizon Europe ac Erasmus o fis Ionawr 2021 yn ddibynnol ar y Bartneriaeth Economaidd â'r UE yn y dyfodol, a llwyddiant Llywodraeth y DU i sicrhau cyfranogiad Trydedd Wlad yn y rhaglenni hyn ar ran y DU. Yn ei Phapur Gwyn ym mis Gorffennaf 2018 dywedodd Llywodraeth y DU ei bod "open to exploring participation in the [Erasmus] successor scheme" a "wishes to explore association in Research and innovation programmes, including Horizon Europe".

26. Os ceir cytundeb pontio rhwng y DU a'r UE, mae swyddogion yn ceisio cyfleoedd i ddefnyddio unrhyw gyllid dros ben o'r Cronfeydd Strwythurol a fydd ar gael o ganlyniad i amrywiadau yn y gyfradd gyfnewid neu danwariant ar draws y rhaglenni. Mae hefyd yn debygol y bydd hyblygrwydd presennol o fewn y rhaglenni'n cael ei gynnal, gan alluogi swyddogion i barhau i alinio prosiectau â blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg tan fis Rhagfyr 2023.

27. Rydym wedi dweud o'r dechrau un mai ein rôl ni fel Llywodraeth yw gwneud popeth a allwn i helpu sectorau i baratoi ac addasu i'r heriau sydd o'n blaenau. Dyma pam fod Prif Weinidog Cymru wedi sefydlu Cronfa Bontio'r UE yn gynharach eleni. Mae'r gronfa £50 miliwn wedi cael ei chynllunio ar y cyd â'r sefydliadau a'r busnesau y mae wedi'i bwriadu i'w helpu. Bydd yn rhoi cymorth a chyngor ariannol wedi'u teilwra i fusnesau er mwyn iddynt allu ffynnu y tu allan i'r UE.

28. Mae papurau polisi Llywodraeth Cymru, *Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit* a *Diwygio Trefniadau Ariannu a Chodi Cyllid y DU ar ôl Brexit*, yn trafod cymorth ariannol rhaglenni'r UE i ymchwil a symudedd rhyngwladol ac yn ailddatgan y dymuniad i gyfranogi yn olynydd-raglenni Horizon 2020 ac Erasmus+ ar ôl Brexit. Maent yn amlygu pwysigrwydd Cronfeydd Strwythurol o ran helpu i sicrhau chwarae teg o fewn y DU, drwy fuddsoddi mewn meithrin y capasiti y mae ei angen i gynorthwyo prifysgolion i wneud ceisiadau i gronfeydd ymchwil cystadleuol.

29. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i'w gwneud yn glir bod rhaid i gyllid gan yr UE a gaiff ei wario yng Nghymru ar hyn o bryd gael ei roi i Lywodraeth Cymru

heb unrhyw ymgais gan Lywodraeth y DU i'w fachu neu gymryd cyfran ohono a bod angen i addysg uwch yng Nghymru barhau i gael mynediad at ffynonellau cyllid ehangach yr UE a chyfleoedd a ddarperir gan gynlluniau cyfredol yr UE hefyd. Mae'r papurau'n amlygu bod angen i sefydliadau ledled y DU gydweithio i gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd ar gyfer ymchwil ac arloesi ar y cyd a mynd ati ar y cyd i hyrwyddo Cymru a'r DU fel lle gwych i astudio a gwneud ymchwil.

30. Mae trefniadau cyllid myfyrwyr yr UE wedi cael eu cadarnhau tan flwyddyn academaidd 2019/20 pa un a gaiff y Cytundeb Ymadael ei gwblhau ai peidio. Mae angen i'r sefyllfa o ran blwyddyn academaidd 2020/21 gael ei chadarnhau cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi sicrwydd i fyfyrwyr a sefydliadau a hynny, fan bellaf, erbyn haf 2019 os bydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud.

31. Mae Sefydliadau Addysg Bellach ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr wedi mynegi pryderon ynghylch oedi gan Lywodraeth y DU yn y gorffennol cyn cyhoeddi penderfyniadau ynghylch cyllid myfyrwyr yr UE. Fel Ysgrifennydd y Cabinet rwy'n rhannu eu pryderon ac yn erfyn ar Lywodraeth y DU i fwrw ymlaen yn gyflym â'r gwaith o gynllunio ar gyfer 2020/21 ac i rannu ei holl syniadau gyda ni.

32. Bydd trefniadau ar ôl Brexit ar gyfer ffioedd dysgu a chyllid ar ôl diwedd unrhyw gyfnod pontio ar gyfer y myfyrwyr hynny o'r UE sy'n dod i Gymru ar ôl "y dyddiad penodedig" yn dibynnu ar natur y Bartneriaeth Economaidd yn y Dyfodol â'r UE a gaiff ei negodi gyda Llywodraeth y DU.

33. Disgwylir i'r MEG Addysg gael £54.33 miliwn o dderbyniadau o Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn 2019-20 drwy'r prosiectau React, Twf Swyddi Cymru, Prentisiaethau a Hyfforddeiaethau. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i roi cymorth i gyflawni'r rhaglenni Cymru'n Gweithio a Phrentisiaethau yn 2019-20. Yn unol â gwarantiad y Trysorlys, a fydd yn gwarantu'r holl gyllid sydd wedi'i gymeradwyo ar hyn o bryd mewn senario 'dim cytundeb', mae disgwyl i'r cyfan o'r £54.33 miliwn ar gyfer 2019-20 fod yn rhan o'r gwarantiad.

34. O fewn fy mhortffolio fe ymgymerodd swyddogion â strategaeth ymadael ar gyfer Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn 2016 a oedd yn ystyried y goblygiadau pe bai Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn dod i ben yn 2018, 2020 a 2023 ar gyfer yr ymrwymiadau yn Symud Cymru Ymlaen i ail-lunio cymorth gyda chyflogadwyedd a darparu 100,000 o Brentisiaethau newydd. Bu'r rhain yn sail i drafodaethau, ailgyflunio prosiectau presennol ac estyniadau gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, a arweiniodd at gymeradwyaethau diwygiedig i roi cymorth i gyflawni'r ymrwymiadau yn Ffyniant i Bawb o fewn y MEG Addysg.

**Costau Deddfwriaeth**

35. Mae'r gyllideb yn dal i ystyried ein rhaglen ddeddfwriaethol gyfredol.

36. Mae asesu costau deddfwriaeth a'r effaith ar y rhai y mae'n effeithio arnynt yn rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu polisïau. Rwy'n cydnabod na ellir darparu siec wag ar gyfer deddfwriaeth ac y bydd yn rhaid talu am bob ymrwymiad newydd yn y MEG hwn drwy gyflwyno gostyngiad yn rhywle arall.

37. Dyma pam y cynhelir asesiad cadarn o gostau a manteision pob bil, drwy ymgynghori ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid i ddatblygu'r asesiadau effaith rheoleiddiol a baratoir ar gyfer Biliau'r Llywodraeth. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod ein penderfyniadau'n cael eu goleuo gan y bobl y byddant yn effeithio arnynt.

38. Mae camau'n cael eu cymryd i wella eglurder a chysondeb Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ond mae'n anorfod y bydd newidiadau i'r bil yn ystod gwaith craffu a ffactorau eraill yn arwain at rai amrywiadau rhwng costau a amcangyfrifwyd yn ystod cam yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cyhoeddedig a'r costau gwirioneddol wrth roi'r bil ar waith. Yn unol â'r ymrwymiad a roddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid i'r Pwyllgor Cyllid, darparwyd tabl a oedd yn dangos cost deddfwriaeth i Lywodraeth Cymru o flwyddyn i flwyddyn yn Atodiad C o'r Gyllideb ddrafft fanwl a gyhoeddwyd ar 23 Hydref.

39. Bydd rhaid i unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflwyno deddfwriaeth ar gyfer y diwygiadau i Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol gael eu talu gan ddefnyddio adnoddau presennol o fewn Addysg Uwch (BELS – Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr, y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr / Costau Gweinyddu Cyllid a Thollau EM a Dyfarniadau Cymorth a Dargedir i Fyfyrwyr).

***Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015***

40. Dechreuodd y cyfnod rhoi ar waith yn llawn ar gyfer y system rheoleiddio AU yn gyfreithiol ar 1 Awst 2017. I baratoi ar gyfer hyn, yn ystod 2015-16 a 2016-17, dechreuodd CCAUC y broses o ddatblygu a gweithredu'r prosesau rheoleiddiol. Gwariwyd cyllid gan CCAUC cyn mis Ebrill 2015 na chyfrifir amdano yma gan ei fod yn cynnwys costau anodd i'w meintioli sy'n ymwneud â'r trafodaethau cychwynnol ynglŷn â pha waith fyddai'n angenrheidiol i roi'r system ar waith yn ogystal â chost ystyried ac ymateb i'r ymgynghoriad a'r ddeddfwriaeth ddrafft.

41. Amcangyfrifir bod costau rhoi'r system ar waith i CCAUC, gan gynnwys costau cyfreithiol, fel a ganlyn:

| Blwyddyn | Cyfanswm costau staff<br>£ | Costau cyfreithiol<br>£ | Cyfanswm costau<br>£ |
|---|---|---|---|
| 2015-16 | 12,825 | 35,984 | 48,809 |
| 2016-17 | 247,029 | 16,991 | 264,020 |
| 2017-18 | 239,774 | 4,208 | 243,982 |
| 2018-19 | 79,688 | 0 | 79,688 |
| **Cyfanswm** | **579,316** | **57,183** | **636,499** |

42. Mae gweithgareddau a gwmpesir gan gostau staff yn cynnwys digwyddiadau a chyfarfodydd ymgynghori ffurfiol, a gwaith sy'n ymwneud â'r canlynol:

- datblygu'r Fframwaith Asesu Ansawdd, gan gynnwys ymgynghori, cysylltu â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr, ailsefydlu'r Pwyllgor Asesu Ansawdd (QAC), datblygu arweiniad ar drefniadau partneriaeth; Adolygu'r Gofrestr Sicrhau Ansawdd Ewropeaidd (EQAR); datganiadau o ansawdd llywodraethu; siarteri myfyrwyr a phrosesau pyrth;

- cynllunio Ffioedd a Mynediad 2017/18, 2018/19 a 2019/20, datblygu'r arweiniad, ymgynghori, dadansoddi, asesu, ailadrodd a chymeradwyaethau. Datblygu trefniadau gyda SLC, gan gynnwys cofnodion o bartneriaeth a lefelau ffioedd;
- y Cod Rheolaeth Ariannol, gydag ystyriaeth gan y Cyngor, ymgynghori, ailadrodd gyda'r sector a swyddogion Llywodraeth Cymru a phrosesau deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol;
- datblygu ac ymgynghori ar ddatganiadau ymyrryd dros dro a therfynol;
- datblygu ac ymgynghori ar weithdrefnau cwynion newydd CCAUC;
- cynnal cyswllt â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr, y Swyddfa Fyfyrwyr, Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, y Comisiwn Elusennau, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, Estyn, QAA ac OFFA, yn ogystal â diweddariadau a chyfarfodydd ffurfiol rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru; a
- Seminarau a digwyddiadau gyda'r sector AU; y sector AB, UCM Cymru, Prifysgolion Cymru a Colegau Cymru.

43. Er mwyn darparu'r darlun llawnaf posibl o gostau rhoi'r Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) ar waith ar draws y sector AU, rydym wedi gofyn am wybodaeth gan Prifysgolion Cymru am y costau sy'n deillio o'r broses i sefydliadau AU. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei darparu pan fydd wedi dod i law.

***Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018***

44. Caiff y costau sy'n gysylltiedig â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Rhaglen Trawsnewid ADY ehangach eu nodi yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Ddeddf. Diwygiwyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ym mis Tachwedd 2017. Cafodd y dadansoddiad o gostau'r amryw feysydd o fewn y rhaglen drawsnewid ei nodi yn fy llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, ym mis Rhagfyr 2017.

45. Mae cyfanswm y gwariant arfaethedig ar y Rhaglen Trawsnewid ADY yn £5.736 miliwn y flwyddyn rhwng 2018-19 a 2020-21. Ymhlith y gweithgareddau y mae'n eu cynnwys mae:

- cyllid grant ar gyfer yr arweinwyr trawsnewid ADY, i gydlynu'r broses o ddarparu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol amlasiantaethol, rhanbarthol mewn perthynas â'r fframwaith deddfwriaethol newydd a'i oblygiadau ar gyfer pawb sy'n rhan o gefnogi dysgwyr ag ADY;
- gweithgareddau datblygu'r gweithlu gan gynnwys cyllid grant ar gyfer datblygu sgiliau gwasanaethau arbenigol awdurdodau lleol (er enghraifft athrawon ymgynghorol arbenigol ar gyfer dysgwyr â nam ar eu clyw, nam ar eu golwg neu nam ar fwy nag un o'r synhwyrau), seicolegwyr addysg, a rôl newydd y Cydlynydd ADY; a
- datblygu deunyddiau ac adnoddau i godi ymwybyddiaeth o'r system newydd gan dargedu ymarferwyr, plant, pobl ifanc, teuluoedd a'r cyhoedd.

**Gwybodaeth am effaith unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol gan Senedd y DU**

46. Nid oes unrhyw ddeddfwriaeth gan Senedd y DU sy'n effeithio ar addysg yng Nghymru ar hyn o bryd.

**Goblygiadau Ariannol sy'n deillio o unrhyw is-ddeddfwriaeth yn 2019-20**

47. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol sy'n deillio o unrhyw is-ddeddfwriaeth yn 2019-20.

**Hawliau plant ac ystyriaethau trawsbynciol eraill**

48. O dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, rydym wedi rhoi ystyriaeth gytbwys i'r hawliau a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Nid oes Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y MEG Addysg wedi cael ei gyhoeddi ar wahân, ond mae'n rhan o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol. Mae hyn eto wedi ein galluogi i roi ystyriaeth lawn i anfantais economaidd-gymdeithasol, hawliau plant, y Gymraeg a datblygu cynaliadwy, yn ogystal â'r ffocws ar gydraddoldeb a threchu tlodi.

49. Cyhoeddwyd Asesiad Effaith Integredig Strategol ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Amlinellol 2019-20 (Atodiad C) a Chyllideb Ddrafft Fanwl 2019-20 (Atodiad D). Mae hwn yn rhoi asesiad o effaith y gyllideb ar ysgolion, Addysg Ôl-16 ac Addysg Uwch dan y thema Uchelgeisiol ac yn Dysgu.

50. Fel rhan o'm cyfarfodydd dwyochrog i drafod y gyllideb gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gofynnwyd i mi ystyried, lle y bo'n bosibl, defnyddio offeryn yr asesiad effaith integredig newydd. Fe wnaed hyn ar gyfer nifer o linellau'r gyllideb o fewn y MEG; fodd bynnag, bu hwn yn gyfnod pontio ac ar gyfer nifer o feysydd cafodd asesiadau o'r effaith eu cwblhau gan ddefnyddio'r templedi blaenorol.

51. Rydym yn ymrwymedig i ddefnyddio *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* i wella'r ffordd yr ydym yn gwneud penderfyniadau ynghylch llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ein nod yw sicrhau ein bod yn adlewyrchu egwyddor datblygu cynaliadwy ac mae ein cynlluniau gwariant wedi'u bwriadu i daro cydbwysedd rhwng blaenoriaethau byrdymor a hirdymor. Rydym yn cydnabod yr angen i gydweithio gyda'n partneriaid ac i ddefnyddio ein hadnoddau cyfunol yn effeithiol i gynllunio ar gyfer y dewisiadau anodd sydd o'n blaenau.

52. Mae pedwar diben y cwricwlwm, sy'n disgrifio'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer yr holl ddysgwyr yng Nghymru, yn ategu diben a dyfodol cyffredin y Ddeddf ar gyfer llesiant economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol hirdymor Cymru. Rydym wedi sicrhau bod polisïau a rhaglenni eraill yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gynaliadwyedd, drwy ystyried buddsoddiad y gallwn ei wneud yn awr i atal camau gweithredu drutach yn y dyfodol.

53. Mae *Ffyniant i Bawb* yn egluro nodau'r Llywodraeth hon ac yn darparu eglurder ynglŷn â sut yr hoffem i'r Llywodraeth a phartneriaid cyflawni fod yn rhan o ddull newydd o gyflawni blaenoriaethau. Mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru a phartneriaid cyflawni i wneud y newidiadau pwysig hyn i'n ffordd o weithio.

54. Mae'r strategaeth yn nodi 12 amcan llesiant a'r camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd i'w cyflawni. Ar y cyd â'r datganiad llesiant a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r strategaeth, mae'r amcanion hyn yn nodi'r meysydd lle gall Llywodraeth Cymru wneud y cyfraniad mwyaf i'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru a darparu'r sail ar gyfer partneriaethau cryf gydag eraill.

**Meysydd penodol**

55. Mae'r adran hon yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol yn unol â chais y Pwyllgor.

**Cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion**

***Asesiad gan Ysgrifennydd y Cabinet o ddigonolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer cyllidebau ysgolion yn 2019-20 a gwybodaeth am unrhyw ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio gwarchod cyllidebau ysgolion, gan gynnwys unrhyw newid rhwng 2018-19 a 2019-20 yn y swm o arian yn y Setliad Llywodraeth Leol a ddyrannwyd yn fwriadol ar gyfer cyllidebau ysgolion***

56. Fel y mae'r Pwyllgor yn ei nodi, mae'r prif gyllid y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu ar gyfer ysgolion yn dod drwy Grant Cynnal Refeniw'r Setliad Llywodraeth Leol sydd wedi'i gynnwys o fewn y MEG Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. O fewn y setliad mae Llywodraeth Cymru yn nodi Asesiad o Wariant Safonol (SSA) ar gyfer pob awdurdod lleol. Cyfrifiad tybiannol gan Lywodraeth Cymru yw hwn o'r hyn y mae ar bob awdurdod lleol ei angen i ddarparu lefel safonol o wasanaeth, o ystyried lefel y cyllid sydd ar gael a chan gynnwys tybiaeth ynghylch incwm a gaiff ei greu drwy'r dreth gyngor. Mae dadansoddiad o'r newidiadau rhwng 2018-19 a 2019-20 yn swm y cyllid a ddyrennir yn dybiannol ar gyfer 'gwasanaethau ysgolion' yn y setliad wedi'i gynnwys yn **Atodiad C**.

57. Mae'n bwysig nodi nad targedau gwariant yw Asesiadau o Wariant Safonol. Awdurdodau Lleol sy'n llwyr gyfrifol am benderfynu faint o gyllid a ddyrennir i bob ysgol unigol, ac yn unol â'u swyddogaeth statudol i sicrhau darpariaeth addysg briodol ar gyfer yr holl ddysgwyr yng Nghymru. Mae pob Awdurdod Lleol yn pennu ei fformwla ei hun ar gyfer cyllido ysgolion gan ymgynghori ag ysgolion drwy eu fforwm cyllidebau ysgolion, ac yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol a ddarperir gan *Reoliadau Cyllid Ysgolion (Cymru) 2010*.

58. Caiff y fformwla ar gyfer cytuno ar y cyllid a ddyrennir i Awdurdodau Lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw ei gytuno gyda Llywodraeth Leol drwy'r Is-Grŵp Cyllid, sy'n rhan o'n cynllun partneriaeth statudol gyda llywodraeth leol yng Nghymru. O fewn y system, mae potensial yn bodoli i wneud newidiadau sylweddol i'r

fformwla cyllido, ond rhaid i hyn gael ei wneud gydag ymrwymiad ar y cyd gan lywodraeth leol, drwy'r trefniadau partneriaeth sy'n bodoli. Hyd yma, nid ydym wedi cael neges gyson ynglŷn â hyn gan lywodraeth leol.

59. Pan gyhoeddwyd cynlluniau dangosol ar gyfer 2019-20 cydnabuwyd, er gwaethaf y mesurau yr oeddem wedi'u cymryd i ddiogelu llywodraeth leol rhag effaith lawn y cyni cyllidol a oedd yn cael ei theimlo mewn mannau eraill, fod llywodraeth leol yng Nghymru'n dal i wynebu gostyngiad o 1% yn nhermau arian parod yn 2019-20 o'i gymharu â 2018-19. Yn y gyllideb ddrafft hon, rydym wedi gwneud nifer o ddyraniadau i ysgolion fel rhan o'r setliad llywodraeth leol i leddfu effaith y gostyngiad hwn. Mae hyn yn cynnwys cyllid o £7 miliwn ar gyfer prydau ysgol am ddim o ganlyniad i gyflwyno'r Credyd Cynhwysol ac £13.7 miliwn i gefnogi'r dyfarniad cyflog i athrawon ysgol.

60. Er mai'r cyllid heb ei glustnodi yw'r ffynhonnell cyllid unigol fwyaf sydd ar gael i lywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru, nid hon yw'r unig ffynhonnell ar gyfer y cyllid yr ydym yn ei ddarparu neu sydd ar gael i Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Rydym yn darparu cyllid grant sylweddol drwy, er enghraifft: y Grant Datblygu Disgyblion; Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol, sy'n cynnwys y Grant Gwella Addysg (EIG) i Ysgolion; ein Grantiau Arloesi; a'n cymorth i Awdurdodau Lleol ar gyfer ysgolion bach a gwledig ac ar gyfer meintiau dosbarthiadau. Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio i liflinio ein cyllid grant rhanbarthol i gonsortia. Eleni mae dau grant, sy'n cyfeirio dros £230 miliwn at y rheng flaen. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol yn nifer y trefniadau grantiau unigol dros amser. Rydym yn bwriadu defnyddio dull tebyg gyda'n cyllid grant ar gyfer Awdurdodau Lleol dros y flwyddyn ariannol nesaf ac rydym wedi dechrau ar y broses hon yn barod, gan gefnogi'r agenda ehangach o ran llywodraeth leol, sy'n golygu parhau i annog Awdurdodau Lleol i liflinio gwasanaethau.

61. Rhaid i ni barhau i ddiogelu ein hysgolion rhag effaith blynyddoedd dilynol o fesurau cyni cyllidol a byddwn yn parhau i alw am wario adnoddau ychwanegol ar ysgolion. Dyna pam ein bod yn cwblhau cynigion i fuddsoddi £15 miliwn yn ychwanegol mewn ysgolion, drwy'r MEG Addysg, yn 2019-20. Bydd hyn yn ychwanegol at y cyllid y byddaf yn ei ddarparu yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Byddaf yn gwneud cyhoeddiad am y cyllid hwn cyn bo hir.

62. O ganlyniad, yn y Gyllideb ddrafft hon, trefnwyd fod cyllid o £8.7 miliwn ar gael o Gronfeydd wrth Gefn ar gyfer Dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a Dysgwyr o Gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn 2019-20, gan gynnal y cyllid hwn ar lefelau 2018-19. Rwyf hefyd wedi penderfynu defnyddio cyllid *Ffyniant i Bawb*, sy'n gyfanswm o £18.3 miliwn, i gefnogi'r Grant Gwella Addysg a Chweched Dosbarth mewn Ysgolion:

- Grant Gwella Addysg o £11.093 miliwn;
- Cyllid i Chweched Dosbarth mewn Ysgolion o £7.207 miliwn, sydd o'i gyfuno â'r cyllid ychwanegol o £2.620 miliwn o Gronfeydd Wrth Gefn yn gyfanswm o £9.827 miliwn.

***Goblygiadau sy'n codi o gynyddu tâl athrawon ac unrhyw ddarpariaeth yn y gyllideb i adlewyrchu hyn***

63. Rydym yn dyrannu'r cyfan o'r £23.5 miliwn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Du ar 13 Medi i gyllido'r dyfarniad cyflog i athrawon. Ar gyfer 2018-19, bydd £8.7 miliwn ar gael fel grant penodol o fewn y MEG Addysg, a bydd y cyllid yn cael ei ffurfioli yn yr Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2018-19. Yn 2019-20, trefnwyd fod cyllid o £14.8 miliwn ar gael, ac o hwnnw:

- mae £13.726 miliwn wedi cael ei gynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw o fewn y MEG Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, ar gyfer ysgolion a gynhelir o oedran meithrin i flwyddyn 11; ac
- mae £1.074 miliwn wedi cael ei ddyrannu i'r BEL Darpariaeth Addysg Uwch o fewn y MEG Addysg, i'w ddyrannu ar gyfer athrawon yn y chweched dosbarth mewn ysgolion.

***Diweddariad ar lefel cronfeydd wrth gefn ysgolion, gan gynnwys nifer yr ysgolion sy'n rhagori ar y trothwyon ariannol a nodir yn Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, y gall awdurdodau lleol gyfarwyddo ysgolion i wario neu adennill arian dros ben (gan gynnwys dadansoddiad gan awdurdod lleol). Gwybodaeth am unrhyw achosion lle mae awdurdodau lleol wedi defnyddio'r pwerau hyn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf***

64. Cafodd diweddariad ar sefyllfa cronfeydd wrth gefn ysgolion ar 31 Mawrth 2018 ei gyhoeddi gan StatsCymru[6] ar 17 Hydref. Y sefyllfa ar y cyfan yw bod lefel gyffredinol y cronfeydd wrth gefn a ddelid gan ysgolion yng Nghymru'n £50 miliwn ar 31 Mawrth 2018, sy'n cyfateb i £111 am bob disgybl. Mae hyn yn gynnydd o 10% neu £4.4 miliwn o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

65. Nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth gan Awdurdodau Lleol sy'n dynodi pa un a ydynt wedi defnyddio'r pwerau a nodir yn *Rheoliadau Cyllid Ysgolion (Cymru) 2010* ai peidio. Fodd bynnag, o'n gwaith ymgysylltu â swyddogion cyllid awdurdodau lleol rydym yn deall ei bod yn well gan awdurdodau weithio gydag ysgolion i fynd i'r afael â materion drwy ymgysylltu parhaus lle bynnag y bo'n bosibl. Mae pwerau i gyfarwyddo ysgolion i wario ac i adennill arian dros ben mewn cyllidebau yn un o nifer o offer sydd ar gael i Awdurdodau Lleol i gynorthwyo ysgolion â rheolaeth ariannol dda. Drwy ein cynlluniau peilot rheolwyr busnes a rheolwyr busnes cymunedol, mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol cyfranogol yn gweithio ar y cyd i gynorthwyo ysgolion i wella'u capasiti rheolaeth fusnes a gwireddu cyfleoedd i ganolbwyntio mwy o amser eu pennaeth a'u huwch arweinwyr ar ddysgu ac addysgu.

[6] https://gov.wales/statistics-and-research/reserves-held-schools/?lang=cy

**Cyllid ar gyfer gwella ysgolion**

***Dadansoddiad manwl o sut y dylai'r buddsoddiad ychwanegol gwerth £100 miliwn mewn safonau ysgolion, y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddo dros oes y Cynulliad hwn, gael ei ddyrannu a'i ddefnyddio yn 2019-20. Diweddariad ar sut y caiff gwariant y £100 miliwn ei broffilio drwy'r Cynulliad hwn a'r hyn y mae'n cael ei ddefnyddio ar ei gyfer***

66. Caiff dadansoddiad dros dro o'r £2.5 miliwn a ddyrannwyd i'r BEL Codi Safonau Ysgolion yn 2019-20, fel rhan o'n hymrwymiad gwerth £100 miliwn, ei nodi yn **Atodiad D**.

67. Yn dilyn adroddiad y Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2018-19, archwiliad mewnol o'r ymrwymiad, a chan ystyried nifer o ddatblygiadau allweddol ers ei gyflwyno, gan gynnwys cyhoeddi *Cenhadaeth Ein Cenedl*, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion gynnal adolygiad o'r ymrwymiad gwerth £100 miliwn. Mae hwn ar y gweill, gan gynnwys ystyried sut y dyrennir cyllid dros y ddwy flynedd ariannol nesaf i sicrhau bod hynny'n dal i adlewyrchu ein blaenoriaethau allweddol ac yn cyflawni'r ymrwymiadau yn *Ffyniant i Bawb*. O ganlyniad, mae'r ffigyrau a nodir yn y tabl yn amodol ar gytundeb terfynol gennyf fi a byddant yn cael eu goleuo gan ganlyniad yr adolygiad.

68. Erbyn diwedd 2019-20, byddaf wedi buddsoddi £75 miliwn mewn Codi Safonau Ysgolion, gyda'r gweddill yn cael ei ddyrannu yn 2020-21.

***Rhestr o linellau gwariant y gyllideb, ar sail unigol a chyfan, o fewn y MEG Addysg sy'n cyllido codi safonau ysgol yn bennaf, ar gyfer 2016-17, 2017-18, 2018-19 a 2019-20 (yn unol gydag Argymhelliad 31 o'n hadroddiad ar yr ymchwiliad, Cyrraedd y nod? Cyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol).***

69. Yn fy ymateb i Adroddiad y Pwyllgor, Cyrraedd y Nod? ar 25 Medi, fe nodais fy safbwynt mewn perthynas ag Argymhelliad 31 ac fe gadarnheais y byddai dadansoddiad yn cael ei ddarparu fel rhan o'r papur hwn. Ceir dadansoddiad o bob BEL o fewn y MEG Addysg sy'n cyfrannu at godi safonau ysgolion ar gyfer y cyfnod 2016-17 i 2019-20 yn **Atodiad E**.

**Lleihau effaith amddifadedd a thlodi**

***Sut y mae'r MEG Addysg yn adlewyrchu ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd a thlodi a'i effaith ar gyflawniad addysgol.***

70. Rydym yn parhau i fuddsoddi symiau digynsail – dros £190 miliwn eleni a'r flwyddyn nesaf o'r BEL Grant Datblygu Disgyblion sy'n cynnwys pob elfen o'r Grant Datblygu Disgyblion, gan gynnwys y Grant Datblygu Disgyblion – Cronfa Mynediad, i roi cymorth i wella canlyniadau i'n dysgwyr difreintiedig. Mae torri cylch anfantais a thlodi'n ymrwymiad hirdymor. Rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i'r Grant Datblygu Disgyblion am weddill tymor y Cynulliad hwn.

71. Ers ei gyflwyno yn 2012, mae'r Grant Datblygu Disgyblion wedi cefnogi nifer sy'n cyfateb i fwy na 450,000 o ddysgwyr. Rwy'n cytuno bod rhaid i ni sicrhau adenillion ar fuddsoddiad. Nid oes ateb cyflym wrth leihau'r bwlch cyrhaeddiad. Mae'n broblem ryngwladol sydd â'i gwreiddiau mewn hanes cymdeithasol. Rwy'n glir bod rhain i ni gadw at y trywydd a pharhau i flaenoriaethu cymorth i'n dysgwyr difreintiedig ac agored i niwed.

72. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg sy'n galluogi myfyrwyr o'r aelwydydd ar yr incwm isaf i barhau â'u hastudiaethau yn y sector addysg bellach. O 2018/19 bydd gan fyfyrwyr mewn addysg uwch y pecyn costau byw mwyaf teg yn y DU. Mae'n gwarantu bod myfyrwyr yn cael cymorth sy'n gyfwerth â'r cyflog byw cenedlaethol tra'u bod yn astudio ac yn darparu cymorth anad-daladwy seiliedig ar brawf modd i'r myfyrwyr hynny sydd fwyaf mewn angen. Bydd hyn yn gwneud addysg uwch yn agored i bobl na fyddent wedi gallu ystyried mynd i'r brifysgol yn y gorffennol.

***Sut y mae argymhellion ein hadroddiad ar ein hymchwiliad Cyrraedd y nod? Cyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol, wedi dylanwadu ar ddyraniad y MEG Addysg ar gyfer 2019-20.***

73. Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei argymhellion ac roedd yn dda gennyf allu derbyn y mwyafrif helaeth.

74. Ym mis Mawrth eleni fe benderfynais gytuno ar ddyraniadau Grant Datblygu Disgyblion ysgolion am ddwy flynedd – 2018-19 a 2019-20. Fe wnes i hyn er mwyn rhoi rhywfaint o sicrwydd i ysgolion ynghylch eu cyllid yn ystod cyfnod o her ac anrhagweladwyedd ariannol sylweddol. Roedd y penderfyniad hwn yn gysylltiedig â chyflwyno'r credyd cynhwysol hefyd; bydd pennu dyraniadau digyfnewid am gyfnod o ddwy flynedd yn rhoi amser i ystyried goblygiadau'r credyd cynhwysol ar gyfer dyraniadau'r Grant Datblygu Disgyblion yn y dyfodol.

***Diweddariad ar gronfa Mynediad y Grant Datblygu Disgyblion a sut y caiff ei ddyrannu a'i ddosbarthu, gan gynnwys faint o deuluoedd sy'n elwa.***

75. Cyn yr haf fe gyhoeddon ni fod y Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ehangu drwy gyflwyno'r Gronfa Mynediad. Dyrannwyd £1.777 miliwn yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2018-19 i gefnogi'r gronfa. Gweithiodd fy swyddogion yn agos gyda llywodraeth leol yn ystod yr haf i sicrhau bod teuluoedd yn gallu cael mynediad at y grant mewn da bryd cyn dechrau'r flwyddyn academaidd newydd.

76. Fel rhan o'r gyllideb ddrafft hon, rydym wedi dyrannu £3.554 miliwn yn 2019-20 i ddyblu swm y cyllid ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion – Cronfa Mynediad, i gefnogi rhieni a theuluoedd ledled Cymru. Mae fy swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn ystyried yr opsiynau ar gyfer targedu'r cyllid ychwanegol hwn a byddant yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ein dull.

77. Mae'r Grant Datblygu Disgyblion – Cronfa Mynediad yn fwy hyblyg a pherthnasol i anghenion dysgwyr difreintiedig. Rydym wedi: ehangu cymhwystra, drwy gynnwys y rhai sy'n dechrau eu haddysg yn ogystal â'r rhai

sy'n symud i'r ysgol uwchradd; ehangu'r ystod o eitemau y gellir eu prynu; a chynyddu swm y cyllid am bob plentyn i £125 (o £105 dan y Grant Gwisg Ysgol blaenorol).

78. Mae'n rhy gynnar i wybod ar y cam hwn beth yw'r effaith neu faint o deuluoedd sydd wedi cael cymorth – bydd yr wybodaeth hon yn cael ei darparu gan awdurdodau lleol maes o law.

**Y gweithlu addysg**

***Manylion am ddyraniadau'r gyllideb i ariannu diwygiadau Llywodraeth Cymru ar Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon a datblygu cynnig dysgu proffesiynol cenedlaethol ar gyfer y gweithlu addysg, a'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon.***

79. Trefnwyd fod oddeutu £0.160 miliwn ar gael o gyllideb y Polisi AGA o fewn y BEL Datblygu a Chymorth Athrawon yn 2018-19 a 2019-20 i gyllido diwygiadau Llywodraeth Cymru i Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA).

80. Dechreuodd ein cynllun cymhelliant cyfrwng Cymraeg Iaith Athrawon Yfory ym mis Medi, a hwnnw wedi'i dargedu at fyfyrwyr sy'n dilyn rhaglen AGA uwchradd ôl-raddedig gymwys er mwyn eu galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym wedi dyrannu costau hyd at £0.376 miliwn ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19 o'r gyllideb Grantiau Hyfforddi ac Addysgu o fewn y BEL Datblygu a Chymorth Athrawon i gefnogi'r cynllun cymhelliant newydd.

81. Ym mis Mai fe gyhoeddais gynigion ar gyfer TAR ran-amser newydd, a ddarperir yn genedlaethol, ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20. Bydd hyn yn cynnwys llwybr cenedlaethol newydd, hynod glodfawr i addysgu, sef y Llwybr i Addysgu sy'n Seiliedig ar Gyflogaeth, a fydd yn rhan o gyfres gydlynus o lwybrau amgen o safon uchel i addysgu. Rydym wedi dyrannu hyd at £0.9 miliwn yn 2018-19 a 2019-20, o'n cyllideb Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Seiliedig ar Gyflogaeth o fewn y BEL Datblygu a Chymorth Athrawon, i ddatblygu a chyflawni'r cynigion hyn.

82. Mae hyd at £0.2 miliwn wedi cael ei ddyrannu yn 2018-19 a 2019-20 i ymgyrch cyfathrebu a marchnata ar gyfer Addysgu yng Nghymru, a hwnnw'n dod o'n cyllideb Grantiau Hyfforddi ac Addysgu o fewn y BEL Datblygu a Chymorth Athrawon.

83. Trefnwyd fod £0.563 miliwn pellach ar gael yn 2018-19 i roi cymorth i roi'r safonau addysgu ac arwain proffesiynol newydd ar waith, ac i ddatblygu safonau proffesiynol ar gyfer staff cymorth ac ymgynghorwyr her. Y bwriad yw dyrannu tua £0.460 miliwn i ysgolion, drwy gonsortia rhanbarthol, drwy ffrydiau cyllido grantiau arloesi presennol i gefnogi dysgu proffesiynol ac ymchwil broffesiynol mewn ysgolion sy'n canolbwyntio ar Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu a Safonau Addysgu ac Arwain Proffesiynol. Bydd gweddill y cyllid yn cefnogi datblygiad safonau ar gyfer staff cymorth ac ymgynghorwyr her a gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu mewn perthynas â'r holl safonau.

***Gwybodaeth am unrhyw arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i Gyngor y Gweithlu Addysg.***

84. Mae Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yn gweinyddu nifer o weithgareddau ar ran Llywodraeth Cymru lle darperir cyllid drwy grant blynyddol i gefnogi'r gweithgareddau hyn. Trefnwyd fod cyllid hyd at £6.025 miliwn ar gael i Gyngor y Gweithlu Addysg yn 2018-19 i gefnogi'r gwaith hwn, gan gynnwys;

- gweinyddu a hysbysu ynghylch Statws Athro Cymwysedig (QTS); Sefydlu, apeliadau ac ardystio;
- gweinyddu'r rhaglenni Sefydlu, Datblygiad Proffesiynol Cynnar (EPD) Meistr mewn Ymarfer Addysgol (MEP).
- gweinyddu, cynnal a datblygu'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PLP);
- datblygu'r Pasbort Dysgu Proffesiynol mewn modd pwrpasol;
- cyfraniad at y ffi gofrestru ar gyfer ymarferwyr y mae'n ofynnol iddynt gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg;
- gweinyddu a hysbysu ynghylch Achrediad Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA).

***Darpariaeth y gyllideb ar gyfer yr Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol.***

85. Mae sefydlu'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol yn amcan penodol o fewn y thema Uchelgeisiol ac yn Dysgu, i gefnogi arweinwyr ein hysgolion yn y dyfodol a fydd yn gweithredu fel y grym ysgogol ar gyfer ein diwygiadau. Rydym wedi neilltuo £1 filiwn y flwyddyn o'r BEL Codi Safonau Ysgolion i gefnogi'r academi newydd, a ddaeth yn weithredol o fis Medi.

86. Mae'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol gyntaf gweithrediad yr Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol a llythyr cylch gwaith tair blynedd wrthi'n cael eu cytuno ar hyn o bryd. Byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ym mis Tachwedd unwaith y bydd y cynllun wedi cael ei gymeradwyo. Bydd y llythyr cylch gwaith yn nodi amcanion ar gyfer defnyddio'u cyllid yn 2018-19 gan gynnwys; datblygu'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol fel sefydliad; cael effaith ar argaeledd ac ansawdd darpariaeth arweinyddiaeth ledled Cymru a sicrhau eu lle ar flaen y gad o ran syniadau strategol o fewn yr haen ganol.

***Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau ariannol o'r cynlluniau peilot clwstwr athrawon cyflenwi ac ystyriaeth barhaus arall o ddiwygiadau perthnasol***

87. Mae'r prosiect peilot Clystyrau Athrawon Cyflenwi mewn Ysgolion yn cael ei gyllido o'r BEL Codi Safonau Ysgolion. Dyrannwyd £2.7 miliwn ar draws tair blynedd ariannol (2017-18 i 2019-20) i dalu costau'r prosiect peilot ar draws dwy flynedd academaidd (2017/18 a 2018/19).

88. Anfonwyd llythyrau cynnig grant at awdurdodau lleol a oedd yn cyfranogi ledled Cymru ym mis Tachwedd 2017. Mae'r grant yn daladwy yn erbyn gwariant gwirioneddol ar gyflogau ac argostau a ysgwyddir i gynnal cyflogaeth 50 o athrawon ychwanegol mewn ysgolion i: gyflenwi yn ystod absenoldebau wedi'u

cynllunio a heb eu cynllunio gan athrawon, yn hytrach na defnyddio staff asiantaeth; codi safonau a darparu parhad o ran y dysgu ar gyfer disgyblion; a chysondeb cyflogaeth i athrawon sydd wedi cymhwyso'n ddiweddar. Nod y prosiect peilot yw cynnig dull cynaliadwy a hyfyw i ysgolion sy'n eu galluogi i ddiwallu eu hanghenion cyflenwi yn ystod absenoldeb gan ychwanegu gwerth a meithrin capasiti ar draws y clystyrau o ysgolion.

89. Mae'r prosiect peilot yn cael ei werthuso gan Ymchwil ARAD ar hyn o bryd i fesur ei effeithiolrwydd. Mae hyn yn cynnwys y manteision o ran costau a darparu tystiolaeth ategol megis astudiaethau achos fel bod ysgolion ac awdurdodau lleol, fel cyflogwyr athrawon, yn gallu ystyried manteision y math hwn o ddull sy'n seiliedig ar fodel cyflogi uniongyrchol.

**Cwricwlwm Cymru**

***Diweddariad ar gyllid i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a dylunio'r Cwricwlwm newydd i Gymru.***

90. Rydym wedi dyrannu cyfanswm o £20 miliwn dros y cyfnod o ddwy flynedd rhwng 2018-19 a 2019-20 i roi cymorth i ddatblygu'r cwricwlwm newydd a'i roi ar waith yn barod ar gyfer ei gyflwyno yn 2022. Daw'r cyllid hwn o BEL Adolygu'r Cwricwlwm (£4.5 miliwn y flwyddyn) a BEL Datblygu a Chymorth Athrawon (£4.5 miliwn y flwyddyn). Drwy ein dull Ysgolion Arloesi cydweithredol rydym wedi buddsoddi yn arbenigedd a phrofiad ysgolion ac ymarferwyr wrth inni fynd ati ar y cyd i ddatblygu a chyflwyno'r cwricwlwm newydd. Ysgolion fydd prif fuddiolwyr ein cyllid i ddiwygio'r cwricwlwm o hyd yn 2019-20.

***Cyllid arfaethedig yn y dyfodol ar gyfer y cwricwlwm newydd, o ystyried ei bod yn rhaglen waith hirdymor, a sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau cynaliadwyedd y cyllid.***

91. Rydym yn buddsoddi yn y trefniadau pontio i gwricwlwm newydd Cymru drwy ein cyllidebau diwygio a'n rhaglen arloesi. Mae dysgu proffesiynol yn allweddol i gynaliadwyedd llwyddiannus cwricwlwm newydd Cymru yn y dyfodol ac rydym yn buddsoddi yn nysgu ac addysgu ein hathrawon ac ymarferwyr yn ein hysgolion drwy'r rhaglen arloesi.

**Maint dosbarthiadau babanod**

***Diweddariad ar ddarpariaeth y gyllideb ar gyfer lleihau maint dosbarthiadau babanod; faint o ysgolion, dosbarthiadau a disgyblion fydd yn elwa yn 2019- 20 a 2020-21.***

92. Trefnwyd fod cyllid sy'n gyfanswm o £36 miliwn (cyllid cyfalaf o £20 miliwn a chyllid refeniw o £16 miliwn) ar gael dros dymor y Cynulliad hwn i leihau meintiau dosbarthiadau babanod. Ar gyfer 2019-20, rydym wedi neilltuo cyllid refeniw o £5 miliwn (£2 miliwn o'r BEL Codi Safonau Ysgolion a £3 miliwn o'r BEL Grant Gwella Ysgolion) a chyllid cyfalaf o £5 miliwn o'r BEL Seilwaith Addysg i gefnogi'r ymrwymiad hwn.

93. Y meini prawf ar gyfer y Grant Lleihau Meintiau Dosbarthiadau Babanod yw dosbarthiadau babanod o 29 neu fwy mewn ysgolion sydd ag o leiaf un neu gyfuniad o'r canlynol:

- lefelau sylweddol o gymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim;
- lefelau sylweddol o AAA;
- lle nad Cymraeg/Saesneg yw'r iaith gyntaf; a/neu
- canlyniadau is na'r cyfartaledd – lle mae'r ysgol wedi cael ei rhoi yn y categori Coch neu Ambr yn y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion.

94. Mae dros 90 o athrawon ychwanegol ac 18 o gynorhwywyr dysgu Lefel Uwch yn cael eu penodi mewn dros 90 o ysgolion ledled Cymru drwy elfen refeniw y grant. Bydd 34 o ysgolion yn elwa o greu dros 50 o ystafelloedd dosbarth ychwanegol drwy elfen gyfalaf y grant lle bo angen er mwyn lleihau maint dosbarthiadau babanod. Bydd hyn yn golygu y bydd tua 100 o ysgolion yn derbyn cyllid cyfalaf a/neu refeniw a fydd yn eu galluogi i aildrefnu gan arwain at ddosbarthiadau babanod llai o faint. Bydd hyn o fudd i'r 400 o ddosbarthiadau babanod yn yr ysgolion hyn, sy'n cyfateb i oddeutu 10,700 o ddisgyblion o oedran babanod sy'n mynychu'r ysgolion hyn a fydd yn cael budd o'r cyllid grant.

***Diweddariad ar ddyraniadau refeniw £16 miliwn a'r cronfeydd cyfalaf £20 miliwn.***

95. Mae'r elfen refeniw o £16 miliwn sy'n rhan o'r grant wedi cael ei dosbarthu i awdurdodau lleol ar sail fformiwla sydd wedi'i bwysoli fel a ganlyn:

- 60% mewn perthynas â'r elfen Asesiad Seiliedig ar Ddangosyddion (IBA) Addysgu a Gwasanaethau Eraill Ysgolion Meithrin a Chynradd o'r Asesiad o Wariant Safonol
- 40% mewn perthynas â nifer y dosbarthiadau babanod o 29 a throsodd ym mhob awdurdod lleol.

96. Awdurdodau lleol sy'n gweinyddu'r grant ar ran Llywodraeth Cymru ac roedd yn ofynnol iddynt gyflwyno achos busnes a oedd yn dangos sut y mae eu cynnig yn cyrraedd y nod sylfaenol, sef lleihau meintiau dosbarthiadau babanod mewn ysgolion sy'n bodloni'r meini prawf. Mae achosion busnes pob un o'r 22 o awdurdodau lleol wedi cael eu cymeradwyo bellach. Ceir dadansoddiad o ddyraniadau refeniw dros oes y grant yn **Atodiad F**.

97. Cynhaliwyd proses gynigion ar gyfer yr elfen gyfalaf o £20 miliwn sy'n rhan o'r Grant – cyflwynwyd cynigion gan 17 o awdurdodau lleol, lle mae lleihau meintiau dosbarthiadau babanod mewn ysgolion sy'n bodloni'r meini prawf yn dibynnu ar greu ystafelloedd dosbarth ychwanegol. Mae pob un 'r 17 cynnig wedi cael ei gymeradwyo yn rhannol neu'n gyfan gwbl gyda phrosiectau sy'n dod i gyfanswm o £17.9 miliwn wedi'u cymeradwyo hyd yma.

***Manylion am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn asesu gwerth am arian y buddsoddiad mewn lleihau maint dosbarthiadau babanod, sut y bydd yn mesur llwyddiant yr arian, a pha dargedau neu ganlyniadau dymunol sy'n cael eu pennu.***

98. Roedd yn ofynnol i achosion busnes awdurdodau lleol ar gyfer yr elfen refeniw o'r grant gynnwys ystod o ddata a oedd yn nodi'r cymorth presennol sy'n cael ei roi i'r ysgolion a dargedir, data ynghylch meintiau dosbarthiadau babanod, niferoedd y disgyblion sy'n gymwys i gael PYADd, anghenion dysgu ychwanegol, cymarebau rhwng athrawon a disgyblion, perfformiad a phresenoldeb. Roedd hefyd yn ofynnol iddynt ddarparu manylion canlyniadau a ragwelir yn unol â'r meini prawf ar gyfer y grant.

99. Bydd y data gwelodlin hwn yn cael ei ddefnyddio i fonitro cynnydd tuag at y canlyniadau dros bedair blynedd y grant. O ran y mesur o lwyddiant, rydym yn disgwyl gweld gostyngiad ym meintiau dosbarthiadau babanod yn yr ysgolion a dargedir. Byddwn yn monitro nifer a chanran y disgyblion mewn dosbarthiadau o 29+, ynghyd â nifer yr athrawon a benodir drwy'r grant.

100. Rydym yn disgwyl gweld gwelliant mewn deilliannau ar gyfer disgyblion o oedran babanod yn yr ysgolion a dargedir. Byddwn yn monitro perfformiad yr ysgolion hyn o ran Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen a pherfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim a'r rhai ag AAA. Lle mae gan y dosbarthiadau hyn lefelau uchel o ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYADd byddem yn disgwyl gweld gostyngiad yn y bwlch rhwng y plant hyn a'u cyfoedion ac yn rhagweld y bydd llai o'r ysgolion hyn mewn categorïau Coch neu Ambr. Byddwn hefyd yn ystyried y pecyn cyffredinol o gymorth y mae ysgolion yn ei gael i godi safonau er mwyn mesur effaith y cyllid.

101. Ynghyd â manteision meintiol byddem hefyd yn disgwyl gweld lleihad yn llwyth gwaith athrawon yn yr ysgolion a dargedir, gan gynyddu maint ac ansawdd yr amser y mae athrawon yn ei dreulio gydag unigolion a chynnydd cysylltiedig yn llesiant athrawon a disgyblion. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwerthuso'r grant ar ddiwedd cyfnod y grant.

**Lleoedd dros ben ac ysgolion bach/gwledig**

***Diweddariad ar y grant ysgolion bach a gwledig, sut y caiff ei ddyrannu a'r hyn y mae'n cael ei ddefnyddio ar ei gyfer.***

102. Mae cyfanswm o £10 miliwn (£2.5 miliwn y flwyddyn) wedi cael ei fuddsoddi yn y Grant Ysgolion Bach a Gwledig, o'r BEL Codi Safonau Ysgolion, dros y cyfnod rhwng 2017-18 a 2020-21. Dyrennir y grant i awdurdodau lleol ar sail fformiwla gan ymgorffori ffactorau ar gyfer teneurwydd poblogaeth a meintiau ysgolion fel a ganlyn:

- 70% gan gyfeirio at deneurwydd poblogaeth (yn seiliedig ar y boblogaeth ym mhob awdurdod lleol y tu allan i aneddiadau uwchlaw trothwyon poblogaeth benodedig o Gyfrifiad Poblogaeth 1991); a

- 30% gan gyfeirio at nifer yr ysgolion cynradd a gynhelir gan yr awdurdod lleol sydd â llai na 90 o ddisgyblion.

103. Dibenion allweddol y cyllid grant yw:

- rhoi anogaeth i arloesi, e.e. defnyddio technolegau digidol newydd i frwydro yn erbyn problem arwahanrwydd proffesiynol (gan gynnwys ystafelloedd dosbarth rhithwir);
- rhoi cymorth ar gyfer mwy o weithio ysgol i ysgol, gan gynnwys cydweithio a ffedereiddio;
- rhoi cymorth gweinyddol ychwanegol lle mae gan y pennaeth ymrwymiad addysgu wedi'i amserlennu sy'n sylweddol (dros 10% o'r amserlen); a hefyd
- cynyddu defnydd cymunedol o adeiladau ysgolion, lle ceir tystiolaeth o alw, boed at ddibenion addysgol neu anaddysgol.

104. Mae bron pob cynnig yn cynnwys elfen o weithio ysgol i ysgol. Mae hyn yn cynnwys athrawon/penaethiaid yn cydweithio ar draws ysgolion ar ddatblygiad personol a meysydd sydd o fudd i'r ddwy ochr, rhannu swyddi arbenigol, ysgolion yn cydweithio i ddatblygu polisïau a gweithdrefnau cyffredin a rhai ysgolion yn datblygu ffederasiynau mwy ffurfiol dan un corff llywodraethu. Ceir enghreifftiau hefyd o ysgolion yn penodi staff gweinyddol i leihau'r baich gweinyddol ar benaethiaid; mewn rhai achosion caiff y swyddi hyn eu rhannu ar draws ysgolion. Mae rhai ysgolion yn defnyddio'r cyllid i gynyddu defnydd cymunedol o adeiladau ysgolion, er enghraifft i adeiladu ystafell newid i hwyluso defnydd gan y gymuned o gae pêl-droed ysgol. Hyd yma mae tua 400 o ysgolion yn cael budd o'r grant.

***Sut y mae'r grant yn cael ei werthuso am werth am arian.***

105. Mae dibenion allweddol y grant eu hunain yn adlewyrchu ystyriaethau gwerth am arian. Er enghraifft, mae ffederasiynau'n galluogi ysgolion i ddod ynghyd dan un corff llywodraethu gan rannu arfer gorau, arbenigedd, staff ac adnoddau er budd yr holl ysgolion yn y ffederasiwn. Er mai'r nod ar y cyfan yw gwella canlyniadau mae hyn yn aml yn arwain at arbedion o ran costau i'r ysgol. Mae agor safle ysgol i'r gymuned ehangach yn gallu creu incwm i'r ysgol, gan helpu i sicrhau bod ysgolion yn dal yn hyfyw o fewn eu cymunedau.

106. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am weinyddu'r grant ac mae'n ofynnol iddynt gyflwyno cynigion wedi'u costio. Mae talu'r grant yn amodol ar dderbyn a chymeradwyo adroddiad boddhaol ar y cynnydd. Cymerir ystyriaethau gwerth am arian i ystyriaeth fel rhan o'r broses gymeradwyo.

***Gwybodaeth am unrhyw ddarpariaeth y gyllideb sy'n gysylltiedig â chyhoeddi'r Cod newydd Trefniadaeth Ysgolion a'r newidiadau polisi y mae'n eu cwmpasu.***

107. Cafodd y Cod Trefniadaeth Ysgolion drafft[7] ei osod gerbron y Cynulliad am 40 diwrnod ar 17 Medi 2018, yn unol â gofynion *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013*. Caiff y newidiadau i bolisïau a gwmpesir gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig eu nodi yn y Memorandwm Esboniadol[8] sy'n cyd-fynd â'r Cod drafft. Nid oes darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y MEG Addysg sy'n gysylltiedig â chyhoeddi'r Cod diwygiedig, gan bod y costau'n gysylltiedig â staff.

**Y Grant Gwella Addysg (EIG)**

***Gwybodaeth am ddarpariaeth y gyllideb yn 2019-20 a chymhariaeth â blynyddoedd blaenorol.***

108. Yn seiliedig ar gynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol, rhagamcanwyd y byddai'r Grant Gwella Ysgolion yn gostwng £11.093 miliwn yn 2019-20. Yn ein Cyllideb ddrafft ar gyfer 2019-20, rwyf wedi defnyddio ein cyllid *Ffyniant i Bawb* (a ddyrannwyd yng Nghyllideb derfynol 2018-19) i adfer y cyllid hwn. Nid yw'r newid hwn yn gyfystyr â chael gwared ar gyllid yr oedd y MEG Addysg yn ei gyfrannu i'r MEG Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yng nghyllideb ddrafft y llynedd, fel a adlewyrchir yn y tablau BEL yn **Atodiad B**.

109. O ganlyniad i'r newid hwn, byddwn yn dal i drefnu bod mwy na £118 miliwn ar gael drwy'r Grant Gwella Addysg yn 2019-20, a fydd yn darparu adnoddau ychwanegol ar gyfer consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol. Byddwn yn parhau i ddiogelu'r elfen o'r grant sy'n ymwneud â darpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen.

***Copi o'r fframwaith canlyniadau a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer monitro effaith y Grant Gwella Addysg ac unrhyw faterion o ran canllawiau i gonsortia rhanbarthol, neu ganllawiau ganddynt.***

110. Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio i liflinio ein grantiau i gonsortia rhanbarthol, gan ddarparu dim ond dau brif ddyfarniad grant yn 2018-19: y Grant Datblygu Disgyblion a Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol. Mae Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol yn cwmpasu'r Grant Gwella Addysg.

111. Ym mis Rhagfyr 2017 ysgrifennodd fy swyddogion at Reolwyr Gyfarwyddwyr y consortia gan roi llythyr cyllido iddynt, a oedd yn cadarnhau'r dyraniadau grant dangosol a'r disgwyliadau ar gyfer 2018-19. Roedd y llythyr yn gofyn i gonsortia gymryd ein blaenoriaethau a'n camau gweithredu a nodir yn *Cenhadaeth Ein Cenedl* i ystyriaeth yn eu cynlluniau busnes, yn eu cynlluniau cyhoeddedig lefel uchel ac yn eu cynlluniau ategol manwl. Anfonwyd llythyr cyllido diwygiedig at Reolwyr Gyfarwyddwyr y consortia ym mis Mawrth ynghyd â'r fframwaith

[7] SUB-LD11730 – Cod Trefniadaeth Ysgolion
[8] http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld11730-em/sub-ld11730-em-w.pdf

canlyniadau drafft a'r dyfarniad grant. Mae fframwaith canlyniadau a chynlluniau busnes y consortia rhanbarthol ar gael ar eu gwefannau.

***Dyraniadau i bob consortiwm rhanbarthol ar gyfer pob blwyddyn ers 2015-16 a dyraniadau arfaethedig ar gyfer 2019-20.***

112. Mae dyraniadau'r Grant Gwella Addysg i'r consortia ar gyfer y blynyddoedd o 2015-16 i 2019-20 (dangosol) wedi'u cynnwys yn y tabl isod. Cyflwynir y ffigyrau fel ffigyrau net nad ydynt yn cynnwys unrhyw gyllid cyfatebol gan ALlau.

| **Consortiwm** | **£000** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2015-16** | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20 dangosol** |
| CSC | 43,461 | 41,359 | 41,210 | 35,607 | 35,591 |
| GwE | 30,920 | 29,398 | 29,186 | 26,638 | 26,629 |
| ERW | 39,978 | 38,079 | 37,752 | 33,609 | 33,604 |
| EAS | 26,661 | 25,446 | 25,134 | 22,285 | 22,314 |
| **Cyfanswm** | **141,021** | **134,282** | **133,282** | **118,138** | **118,137** |

***Cadarnhad o'r dibenion y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Grant Gwella Addysg gael ei ddefnyddio ar ei gyfer ac unrhyw asesiad sydd ar gael ar faint a gaiff ei wario ar bob un o'r rhain yn y drefn honno.***

113. Diben Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol, y mae'r Grant Gwella Addysg yn rhan ohono, yw cynorthwyo'r consortia rhanbarthol a'r awdurdodau cysylltiedig yn y consortiwm i gyflawni ein dyheadau a'n blaenoriaethau ar gyfer ysgolion ac addysg a nodir dan y thema Uchelgeisiol ac yn Dysgu yn ein strategaeth genedlaethol, *Ffyniant i Bawb*, a'n cynllun gweithredu ar gyfer addysg, *Cenhadaeth Ein Cenedl*.

114. Mae'r llythyr cyllido a anfonwyd at Gonsortia ym mis Rhagfyr 2018 wedi'i ffurfioli o fewn dau ddyfarniad grant ffurfiol i gonsortia rhanbarthol, sef y Grant Datblygu Disgyblion a Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol.

115. Mae'r llythyr cyllido'n nodi ein blaenoriaethau cenedlaethol trosfwaol ar gyfer 2018-19 a sut y dylid cyflawni'r rhain yng nghyd-destun *Cenhadaeth Ein Cenedl*. Rhaid i'r cyllid gynorthwyo consortia i gyflawni ein blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer addysg, sydd wedi'u canoli ar gwricwlwm trawsnewidiol a ffocws ar bedwar amcan galluogol allweddol y bydd eu camau gweithredu'n eu hategu:

- Datblygu a darparu proffesiwn addysg o ansawdd da
- Arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i godi safonau
- Ysgolion cryf a chynhwysol sy'n ymrwymedig i ragoriaeth, tegwch a llesiant
- Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn sy'n ategu system hunanwella.

116. Bydd y canlyniadau'n cael eu hategu gan ystod o fesurau a dangosyddion perfformiad allweddol, fel y nodir yng nghynlluniau busnes consortia a byddant yn rhan o'r dull Fframwaith Canlyniadau Addysg.

117. Mae'r Grant Gwella Addysg yn un o nifer o ffrydiau cyllido sy'n ategu ein blaenoriaethau cenedlaethol ac er bod cyfle i'w ddefnyddio'n hyblyg, mae'n dal i ganolbwyntio'n bennaf ar y Cyfnod Sylfaen a dysgu ac addysgu mewn ysgolion.

***Gwybodaeth am y canllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno i gonsortia ac awdurdodau lleol ar ddefnyddio'r Grant Gwella Addysg.***

118. Mae fy swyddogion yn ymgysylltu'n rheolaidd â Rheolwyr Gyfarwyddwyr consortia ac fe wnaeth Llywodraeth Cymru nodi ein blaenoriaethau a gofyn i gonsortia strwythuro'u cynlluniau busnes ar sail amcanion trosfwaol a galluogol yn *Cenhadaeth Ein Cenedl*. Bu fy swyddogion yn trafod nifer o ddisgwyliadau gyda Rheolwyr Gyfarwyddwyr consortia ac yn rhannu gwybodaeth a oedd wedi'i bwriadu ar gyfer y dyfarniad grant, megis yr angen parhaus i weithio tuag at gymarebau'r Cyfnod Sylfaen; lleihau'r gwariant ar weinyddu lle y bo'n bosibl a defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar ysgolion o bennu eu cynlluniau gwariant, gan gynyddu i'r eithaf y cyllid a ddirprwyir i ysgolion.

119. Mae telerau ac amodau'r grant hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod y grant yn cael ei drefnu ar sail nifer o ragangenrheidiau a gofynion gan gynnwys:

- Gofynion a disgwyliadau polisi gan gynnwys ar gyfer Dysgu yn y Gymru Ddigidol
- Cynaliadwyedd a gweithredu sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion
- Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol
- Cydweithio rhwng consortia
- Dull teg
- Gweithio ar sail clystyrau lle y bo'n briodol
- Cymorth Ymgynghorwyr Her a Chynlluniau Datblygu Ysgolion
- Gwerth am Arian ac ychwanegedd cyllid
- Cynyddu i'r eithaf y cyllid i ysgolion
- Lleihau i'r eithaf gostau gweinyddu a rheoli
- Cymorth i Ddylunio a Datblygu'r cwricwlwm newydd
- Y Gymraeg
- Grant Gwella Addysg – Y Cyfnod Sylfaen; Cymorth ar gyfer Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg; a chyllid cyfatebol Awdurdodau Lleol

**Cefnogaeth ar gyfer dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr**

***Diweddariad ar y sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer y dull o gyllido cefnogaeth i ddysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a chyfanswm y cyllid a ddarperir.***

120. Mae'r penderfyniad yn 2018-19 i gynnwys cymorth i ddysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a Dysgwyr o Gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr wrth flaenoriaethu cyllid i Lywodraeth Leol yn adlewyrchu bwriad Llywodraeth Cymru y dylai'r dysgwyr hyn gael eu cefnogi drwy wasanaethau addysg lleol craidd; ni ddylai fod yn ychwanegiad.

121. Fodd bynnag, rydym wedi gwrando'n ofalus ar y pryderon a godwyd wedyn a chytuno ar £8.7 miliwn yn ychwanegol yn 2018-19 i gynorthwyo'r holl Awdurdodau Lleol i roi cymorth i'r dysgwyr hyn. Roedd y cyllid hwn yn cydnabod bod pontio'r gwasanaeth i un sy'n fwy cynaliadwy yn y tymor hir yn cymryd amser.

122. Ar gyfer 2019-20, dyrannwyd £8.7 miliwn o'r Cronfeydd Wrth Gefn i'r BEL Grant Gwella Ysgolion, i gynorthwyo pob un o'r 22 awdurdod lleol i barhau i ddatblygu model cynaliadwy.

***Sut y mae defnydd ac effaith yr arian hwn yn cael ei fonitro a'i werthuso.***

123. Bydd defnydd o'r cyllid yn cael ei fonitro yn unol â'n hegwyddorion cyffredinol ar gyfer monitro grantiau.

124. Ochr yn ochr â hyn, rwy'n awyddus i'm swyddogion weithio gyda llywodraeth leol i ystyried modelau posibl ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys ystyried y defnydd gorau o gyllid a mecanweithiau ar gyfer monitro a gwerthuso.

***Y fformiwla a ddefnyddir i ddyrannu'r cyllid trosiannol gwerth £8.7 miliwn yn 2018-19 a'r dull arfaethedig ar gyfer 2019-20.***

125. Roedd y dyraniadau ar gyfer 2018-19 yn seiliedig ar ddata CYBLD 2017 ar gyfer dysgwyr Prydeinig nad ydynt yn wyn, gan arwain at y dyraniadau a nodir yn y tabl yn **Atodiad G**. Rwy'n disgwyl i ddull tebyg gael ei ddefnyddio i ddyrannu'r cyllid ar gyfer 2019-20.

**Y consortia rhanbarthol**

***Manylion am faint o arian Llywodraeth Cymru sy'n cael ei sianelu drwy'r consortia rhanbarthol, gan gynnwys dadansoddiad (lle bo modd) o'r gwahanol ffrydiau cyllido ac o ba linellau gwariant y gyllideb y cânt eu hariannu.***

126. Fel y cadarnhawyd, ysgrifennodd fy swyddogion at y consortia ym mis Rhagfyr 2017, gan nodi'r cyllid sydd ar gael ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19 drwy'r Grant Datblygu Disgyblion a Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol.

Mae'r llythyr cyllido, sydd wedi'i strwythuro ar sail yr amcanion trosfwaol a galluogol yn *Cenhadaeth Ein Cenedl*, yn darparu manylion y ffrydiau cyllido canlynol:

- Grant Datblygu Disgyblion (BEL y Grant Datblygu Disgyblion)
- Grant Gwella Addysg (BEL Grant Gwella Ysgolion)
- Grantiau arloesi (BEL Adolygu'r Cwricwlwm)
- Grant Codi Safonau Ysgolion i'r consortia (BEL Codi Safonau Ysgolion)
- Grant DPP Cam II Dysgu yn y Gymru Ddigidol (BEL Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg)
- Cymorth Ieithoedd Tramor Modern Dyfodol Byd-eang (BEL Cwricwlwm ac Asesu)
- Grant TGAU (daw'r ffrwd gyllido i ben ar ddiwedd 2018-19)
- Cymorth gyda'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol (BEL Llythrennedd a Rhifedd)

***Gwybodaeth am faint o'r arian a dderbynnir gan y consortia a gedwir yn ganolog gan y consortia a faint sy'n cael ei drosglwyddo i awdurdodau lleol ac ysgolion.***

127. Mae fy swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o gyllid i gonsortia, gan gydnabod bod y ganran o'n cyllideb ysgolion o fewn y MEG Addysg a ddarperir ar gyfer a thrwy gonsortia wedi cynyddu dros amser. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar y Grant Gwella Addysg a'r elfen Plant sy'n Derbyn Gofal o'r Grant Datblygu Disgyblion. Caiff ein bwriadau eu nodi'n glir yn y dyfarniad grant, sef y dylai'r mwyafrif o'r cyllid gael ei ddirprwyo i ysgolion. Yn unol â'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, mater i Awdurdodau Lleol yw costau craidd gweithio'n rhanbarthol a dylent gael eu cyllido o'r cyfraniadau craidd y maent yn eu darparu ar gyfer gweithio'n rhanbarthol. Er enghraifft, lle mae'r Grant Gwella Addysg yn y cwestiwn mae'n ofynnol dirprwyo 80% o'r ffrwd cyllid grant i ysgolion. Mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddirprwyo bron yn gyfan gwbl i ysgolion ac eithrio rhai meysydd gan gynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal.

***Diweddariad ar unrhyw asesiadau a wnaed o effaith a gwerth am arian y consortia.***

128. Mae nifer o ymarferiadau allanol i asesu effaith a gwerth am arian y consortia wedi cael eu cynnal ers i'r consortia gael eu sefydlu gyntaf yn 2012. Mae'r adolygiadau hyn wedi bod yn hanfodol i ategu datblygiad gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol a darparu cyfeiriad o ran y camau nesaf, sef:

- Adolygiad ar y cyd gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ar y thema *"Cyflawni Gwelliant trwy Gonsortia Addysg Rhanbarthol"* 2015 (gan gynnwys datblygu fframwaith arolygu ar gyfer y consortia rhanbarthol);
- Arolygiad o'r consortia rhanbarthol gan Estyn yn 2015 ac ymweliadau dilynol yn 2017;
- Roedd adolygiadau gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) o system addysg Cymru yn 2014 a 2016 yn

cefnogi'r dull sy'n ymwneud â gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol o ran y darbodion maint a'r lefelau uwch o gydweithio y maent yn eu darparu. Roeddent yn gwneud argymhellion y dylid cryfhau'r seilwaith ymhellach i gefnogi'r gwaith o wella ysgolion yn y dyfodol.

129. Mae'r adolygiadau hyn wedi helpu Llywodraeth Cymru a'r consortia i fireinio a gwella effeithlonrwydd eu gwaith. Rydym yn dal i adolygu hyn yn gyson. Dan drefniadau gwerthuso a gwella arfaethedig, rydym yn ystyried sut i wneud y gorau o broses hunanarfarnu wedi'i dilysu, a adolygir gan gymheiriaid i oleuo ffyrdd o wneud y consortia'n fwy effeithiol a gwella gwerth am arian.

**Estyn**

***Gwybodaeth am y broses ar gyfer pennu dyraniad cyllideb Estyn, gan gynnwys pa drafodaethau sy'n cael eu cynnal gyda'r arolygiaeth ar ei lefelau cyllid gofynnol.***

130. Mae swyddogion yn Llywodraeth Cymru mewn cyswllt rheolaidd ag Estyn i drafod materion ariannol yn ystod y flwyddyn a chyllidebau ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Mae hyn yn cynnwys dyraniadau cyfalaf a dyraniadau nad ydynt yn arian parod. Mae'r gyllideb ddangosol ar gyfer Estyn yn 2019-20 wedi cael ei hadolygu yn dilyn adborth gan swyddogion Estyn ynghylch eu gallu i gyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol â'r dyraniad cyllidebol o £0.597 miliwn a gynigiwyd yng nghyllideb y llynedd. Bu gostyngiad o £0.2 miliwn hefyd i adlewyrchu gofyniad diwygiedig Estyn am ddyraniadau nad ydynt yn arian parod. O ganlyniad, mae BEL Gwariant Rhaglen Estyn (adnoddau), o fewn y MEG Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, wedi cynyddu £0.397 miliwn yng Nghyllideb ddrafft 2018-19, gan olygu bod cyfanswm cyllideb adnoddau Estyn yn codi i £10.853 miliwn yn 2019-20.

***Unrhyw oblygiadau i gyllideb Estyn neu linellau cyllideb Llywodraeth Cymru o adroddiad yr Athro Donaldson, Arolygiaeth Ddysgu, ac ymateb Llywodraeth Cymru.***

131. Mae fy swyddogion yn gweithio gydag Estyn i ystyried argymhellion yr adroddiad a'u goblygiadau ar gyfer y broses diwygio addysg a byddant hefyd yn archwilio unrhyw oblygiadau o ran costau ar gyfer Estyn a Llywodraeth Cymru os caiff yr argymhellion eu rhoi ar waith.

**Cymwysterau**

***Y dyraniad i Cymwysterau Cymru a sut y mae hyn yn cymharu â blynyddoedd blaenorol.***

132. Caiff y dyraniad cyllid grant i Cymwysterau Cymru ar gyfer 2019-20 a blynyddoedd blaenorol fel y cymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei nodi yn y tabl isod. Er nad oes unrhyw newidiadau i'r cyllid cymorth grant ar gyfer Cymwysterau Cymru yn 2019-20, mae cynnydd i'r gyllideb nad yw'n arian parod (ar gyfer dibrisiant ac amorteiddiad) o £0.115 miliwn, i adlewyrchu'r costau sy'n gysylltiedig â'r gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru.

| | 2016-17 £000 | 2017-18 £000 | 2018-19 £000 | 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Cymorth Grant | 8,304 | 8,042 | 8,042 | 8,042 |
| Cyllid Nad Yw'n Arian Parod | 100 | 100 | 100 | 215 |
| **Cyfanswm** | **8,404** | **8,142** | **8,142** | **8,257** |

***Gwybodaeth am y broses ar gyfer pennu dyraniad cyllideb Cymwysterau Cymru, gan gynnwys pa drafodaethau sy'n cael eu cynnal gyda'r rheoleiddiwr ar ei lefelau cyllid gofynnol.***

133. Erbyn diwedd mis Tachwedd, cyn y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, mae Llywodraeth Cymru yn anfon llythyr dyrannu grant drafft at Cymwysterau Cymru. Wedyn anfonir llythyr dyrannu grant terfynol cyn gynted â phosibl, ac fel arfer yn ddim hwyrach nag un mis, ar ôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyo'r gyllideb derfynol. Mae'r llythyr hwn yn cynnwys y ffigwr dyraniad grant y pleidleisiwyd drosto a chyfansymiau unrhyw reolaethau cyllidebol cysylltiedig.

134. Mae'r llythyr dyrannu grant yn adlewyrchu faint o annibyniaeth sydd gan Cymwysterau Cymru, yn yr ystyr nad yw'r llythyr yn cynnwys rhestr o amcanion y disgwylir iddynt gael eu cyflawni â'r cyllid a roddir. Fodd bynnag, gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo Cymwysterau Cymru i roi sylw i agweddau penodol ar bolisi'r Llywodraeth neu faterion eraill a gofyn i Cymwysterau Cymru roi gwybodaeth neu gyngor i Weinidogion Cymru ynghylch materion penodol sy'n ymwneud ag unrhyw swyddogaethau a gyflawnir ganddo.

135. Y Gangen Nawdd o fewn Llywodraeth Cymru yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer Cymwysterau Cymru ac mae'n cynnal cyswllt rheolaidd â hwy i adolygu perfformiad ariannol y sefydliad yn erbyn y gyllideb. Mae'r Gangen yn monitro priodoldeb gweithgareddau Cymwysterau Cymru drwy arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

**Addysg cyfrwng Cymraeg**

***Darpariaeth y gyllideb i gefnogi strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) awdurdodau lleol.***

136. Mae'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn darparu sail i gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru. Mae hyn hefyd yn cynnwys addysg ddwyieithog ac addysg iaith Gymraeg. Mae eu datblygu'n ofyniad statudol i awdurdodau lleol.

137. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio cyllid o nifer o ffynonellau i roi eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) ar waith gan gynnwys gweithgareddau a gefnogir ac a gyflawnir drwy Raglen Gyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif a Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol (RCSIG). Wrth gyflawni eu RCSIG, gofynnir i'r consortia rhanbarthol sicrhau bod y rhaglen o weithgareddau a gyllidir yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdodau lleol.

138. Penodwyd Aled Roberts i sefydlu Bwrdd Cynghori i adolygu'r ddeddfwriaeth sy'n tanategu gwaith cynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, yn benodol y rheoliadau cyfredol ar gyfer Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013). Cyfarfu Bwrdd Cynghori Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg am y tro cyntaf ar 17 Mai. Mae cyllideb o £0.1 miliwn wedi cael ei dyrannu o'r BEL Cymraeg mewn Addysg i gefnogi'r gweithgarwch hwn.

139. Mae'r BEL Cymraeg mewn Addysg hefyd yn cefnogi'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg drwy raglenni i gefnogi defnydd anffurfiol o'r iaith, datblygu sgiliau iaith ymarferwyr drwy'r Cynllun Sabothol, a chomisiynu adnoddau dysgu ac addysgu.

140. Sefydlwyd cronfa o £30 miliwn ar gyfer y Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg gyda chymorth ychwanegol o raglen Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant ar gyfer prosiectau cyfalaf i gefnogi'r twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Gwahoddwyd awdurdodau lleol i gynnig am gyllid a chafwyd ceisiadau gan bob un o'r 22 awdurdod lleol. Mae'r cynigion wedi cael eu hasesu a'u blaenoriaethu'n fanwl ac fe wnaed y cyhoeddiad ar 19 Medi gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes y bydd y cyfanswm cyllid o £46 miliwn yr ymrwymwyd i'w ddarparu'n cyflawni 41 o brosiectau ar draws 16 o awdurdodau lleol ac yn creu 2,818 o leoedd mewn ysgolion a lleoedd gofal plant ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg.

***Sut y bydd camau gweithredu cyllideb Cymraeg mewn Addysg yn cefnogi Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru a'i tharged o un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?***

141. Cyhoeddwyd strategaeth Llywodraeth Cymru *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr* ym mis Gorffennaf 2017 ac mae'n cynnwys ymrwymiad ar draws y Llywodraeth i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae gan y system addysg rôl allweddol o ran cyrraedd y nod hwn, ac mae nifer o newidiadau trawsffurfiol a fydd yn ofynnol er mwyn cyrraedd y targedau.

142. Ar gyfer 2019-20 mae cyllideb o £29.361 miliwn wedi cael ei dyrannu o fewn y BEL Cymraeg mewn Addysg i ategu'r elfennau addysgol yn Cymraeg 2050. Gan fod y Gymraeg yn thema drawsbynciol, yn ychwanegol at y dyraniad cyllidebol hwn, mae adrannau eraill yn cefnogi datblygiad y Gymraeg o fewn y system addysg. Er na ellir ei feintioli'n rhwydd, mae cyfanswm y cymorth ariannol ar gyfer Cymraeg mewn addysg yn sylweddol uwch.

143. Mae'r dyraniad cyllidebol yn rhoi cymorth ar draws bob cyfnod addysg, o ddarpariaeth gofal plant a'r blynyddoedd cynnar i ddarparu cyrsiau Cymraeg i Oedolion drwy gyllido'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

144. Mae'r BEL Cymraeg mewn Addysg hefyd yn rhoi cymorth i ddatblygu sgiliau iaith ymarferwyr drwy'r Cynllun Sabothol a rhaglen o gymorth i roi anogaeth ar gyfer defnydd anffurfiol o'r iaith mewn ysgolion a chan bobl ifanc. Ceir ymrwymiad hefyd i gefnogi rhaglen barhaus i gomisiynu adnoddau dysgu ac

addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i gefnogi'r cwricwlwm a chymwysterau galwedigaethol ôl-16.

145. Hefyd, mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn arwain y gwaith o gyflawni gweithgareddau a chamau gweithredu mewn ymateb i'r blaenoriaethau addysg a nodir yn y strategaeth, er enghraifft cynyddu nifer yr athrawon, datblygu'r cwricwlwm a chymorth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd y MEG Addysg yn parhau i gefnogi'r gweithgareddau hyn yn 2019-20.

***Proffil amser y £4.2 miliwn a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Gorffennaf 2017 i gynyddu gallu cyfrwng Cymraeg y gweithlu addysgu (a ariennir gan BEL Safonau Codi Ysgolion yn 2018-19) - A yw hyn yn cael ei ailadrodd yn 2019-20?***

146. Mae'r cyllid ar gyfer gweithgarwch dysgu proffesiynol i gefnogi dysgu ac addysgu Cymraeg yn parhau, gyda £5.030 miliwn yn cael ei ddyrannu o'r BEL Codi Safonau Ysgolion yn 2019-20 i gefnogi datblygiad y Gymraeg yn y system addysg a'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017. Mae hyn wedi cynyddu'n flynyddol ers y dyraniad gwreiddiol o £4.2 miliwn yn 2017-18. Mae'r dyraniad ar gyfer 2018-19 yn £4.785 miliwn.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol**

***Goblygiadau ariannol Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2019-20.***

147. Fel y nodwyd yn yr adran ar ddeddfwriaeth, mae cyfanswm y dyraniad cyllidebol ar gyfer y Rhaglen Trawsnewid ADY yn £5.736 miliwn yn 2019-20, a bydd yn dod o'r BEL Anghenion Dysgu Ychwanegol (5115) a'r BEL Codi Safonau Ysgolion (5511). Caiff y costau sy'n gysylltiedig â rhoi'r Ddeddf ei hun ar waith eu nodi yn y Gyllideb ddrafft fanwl (Atodiad C) a gyhoeddwyd ar 23 Hydref. Gellir cwrdd ag unrhyw gostau gweinyddol cysylltiedig o'r gyllideb costau rhedeg ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus.

***Darpariaeth y gyllideb i gefnogi'r Rhaglen Trawsnewid ADY.***

148. Caiff y costau sy'n gysylltiedig â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Rhaglen Trawsnewid ADY ehangach eu nodi yn yr adran o'r papur hwn sy'n ymwneud â deddfwriaeth.

149. Ar gyfer 2019-20, bydd £3.2 miliwn o gyllideb y rhaglen trawsnewid yn dod o'r BEL Codi Safonau Ysgolion i gyllido'r Arweinwyr Trawsnewid ADY Rhanbarthol. Bydd y £2.536 miliwn sy'n weddill yn dod o'r BEL Anghenion Dysgu Ychwanegol i gyllido'r canlynol: cymorth i roi'r Ddeddf ar waith/pontio iddi; datblygu'r gweithlu; codi ymwybyddiaeth; a pholisi ategol.

***Diweddariad ar y trefniadau ar gyfer ariannu hyfforddiant seicolegwyr addysgol yng Nghymru.***

150. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn dyfarnu grant i Brifysgol Caerdydd sy’n talu ffioedd a bwrsariaethau ar gyfer 10 o fyfyrwyr y flwyddyn ar eu rhaglen hyfforddiant proffesiynol dair blynedd Doethuriaeth mewn Seicoleg Addysg. Rwyf wedi penderfynu parhau â’r trefniant hwn a’i gryfhau drwy gysylltu isafswm o fwrsariaethau i fyfyrwyr sydd eisoes yn gallu gweithio, neu sydd â’r potensial i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg, a thrwy annog myfyrwyr i aros a gweithio yng Nghymru yn syth ar ôl graddio.

**Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc**

***Y goblygiadau ariannol i'r MEG Addysg o ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor yn ei adroddiad Cadernid Meddwl, gan gynnwys yr alwad am adnodd a neilltuir i ysgolion ddod yn ganolfannau cymunedol o gefnogaeth draws-sector a chroesbroffesiynol ar gyfer lles a gwydnwch emosiynol.***

151. Ym mis Medi 2018, aeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a minnau ati ar y cyd i sefydlu grŵp tasg a gorffen gweinidogol i ystyried mater dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd a llesiant, gyda ffocws ar iechyd meddwl a mynd i’r afael â’r argymhellion a oedd yn ymwneud yn benodol ag addysg yn Cadernid Meddwl. Hyd yma rydym wedi cytuno ar gyllid wedi’i neilltuo hyd at uchafswm o £300,000 y flwyddyn (pro rata ar gyfer blwyddyn rannol 2018-19) i ddarparu adnoddau ar gyfer y gwaith, a hwnnw wedi’i rannu’n gyfartal rhwng y MEG Addysg a’r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd unrhyw oblygiadau ariannol pellach yn cael eu hystyried wrth i’r rhaglen waith fanwl ddatblygu.

152. Ar hyn o bryd mae’r Grŵp Tasg a Gorffen Canolfannau Dysgu Cymunedol a Hybiau Cymunedol yn ystyried ffyrdd o gynyddu i’r eithaf ddefnydd cymunedol o gyfleusterau ysgolion drwy ddarparu canllawiau ac enghreifftiau o arfer da. Trefnwyd fod £15 miliwn ar gael i hyrwyddo hybiau cymunedol a bydd cynigion ar gyfer cyllid yn cael eu hystyried gan swyddogion sy’n cynrychioli ystod o feysydd polisi gan gynnwys y rhai sy’n ymwneud ag iechyd a llesiant. Mae hyn yn cael ei gyllido o’r BEL Seilwaith Addysg, gyda £10 miliwn yn cael ei ddyrannu yn 2018-19 a’r £5 miliwn sy’n weddill yn y gyllideb hon ar gyfer 2019-20.

***Gwybodaeth am yr arian ar gyfer cynghorwyr ysgol a staff eraill yn yr ysgol sy'n cefnogi anghenion iechyd emosiynol ac iechyd meddwl y disgyblion.***

153. Fel y nodwyd mewn adran gynharach o’r papur hwn, mae’r mwyafrif helaeth o’r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol, gan gynnwys ar gyfer ysgolion, yn gyllid heb ei neilltuo drwy’r Grant Cynnal Refeniw. Gall Awdurdodau Lleol benderfynu sut y maent yn defnyddio’r cyllid hwn, ochr yn ochr â ffrydiau incwm eraill, i gyflawni eu dyletswyddau statudol a diwallu anghenion a chyflawni blaenoriaethau lleol. Felly, nid yw’n bosibl dweud faint o gyllid a ddarperir ar gyfer cwnselwyr a staff mewn ysgolion sy’n cefnogi anghenion iechyd emosiynol ac iechyd meddwl disgyblion.

**Gwaith ieuenctid**

***Gwybodaeth am ddarpariaeth y gyllideb o fewn y MEG Addysg i gefnogi Gwaith Ieuenctid, gan gynnwys***

154. Ar gyfer 2019-20, mae cyllideb o £7.3 miliwn o fewn y BEL Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid i gefnogi gwaith ieuenctid. Mae hyn yn cynnwys £2.5 miliwn yn ychwanegol a ddyrennir o’r Cronfeydd wrth Gefn i wella gwasanaethau iechyd meddwl. Mae Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes wedi dynodi’n glir ei bod yn ymrwymedig i sicrhau cyfeiriad strategol gwaith ieuenctid yng Nghymru, ac mae’r cyllid ychwanegol yn cydnabod rôl bosibl gwasanaethau gwaith ieuenctid o ran gwella iechyd emosiynol ac iechyd meddwl mewn ysgolion ac yn y gymuned.

155. Bydd y £2.5 miliwn ychwanegol ar gyfer 2019-20 yn cael ei dargedu’n benodol at wella gwasanaethau i bobl ifanc, canolbwyntio ar lesiant, cydnerthedd, a materion iechyd meddwl sy’n dod i’r amlwg. Bydd yn cael ei oleuo gan y dull addysgegol ar gyfer gwaith ieuenctid, sydd wedi’i fwriadu i gefnogi datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol pobl ifanc, ac sydd mewn sefyllfa dda i helpu i fynd i’r afael â materion iechyd meddwl a llesiant meddyliol sy’n dod i’r amlwg.

156. Er mwyn sicrhau ei fod yn rhan o’n dull cyffredinol o ran gwaith ieuenctid yng Nghymru, bydd yn cael ei ystyried a’i sefydlu fel rhan o’n Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd. Mae hon yn cael ei datblygu mewn partneriaeth gyda phobl ifanc a’r sector a bydd yn cael ei llywio gan ein Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim newydd.

***Unrhyw newidiadau a ddigwyddodd i'r dyraniad o £3.5 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer 2018-19 a 2019-20 o ganlyniad i'r adolygiad o waith Margaret Jervis ar Ymestyn Hawliau, fel y cyfeirir ato ym mhapur y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2018-19.***

157. Mae gwaith Margaret Jervis yn rhan hollbwysig o’r sail dystiolaeth, a fydd yn cael ei hystyried gan y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim, ac sydd eisoes wedi bod â rôl hanfodol o ran llywio camau cynnar datblygu Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd Cymru. Mae hyn wedi helpu i sicrhau ffocws ar bwysigrwydd y canlynol:

- strategaeth hirdymor sy’n cwmpasu ehangder y ddarpariaeth gwaith ieuenctid yng Nghymru;
- bod ‘â ffocws ar gyfleoedd’ yn hytrach nag ‘yn seiliedig ar broblemau’, gyda phobl ifanc yn cael gwarant y bydd ganddynt lais ystyrlon yn y broses o ddylunio a darparu gwasanaethau;
- gweithio mewn partneriaeth a deall yn fanwl sut orau i ddarparu adnoddau ar gyfer gwaith ieuenctid yn y dyfodol;
- fframweithiau hyfforddi a datblygu cadarn i sicrhau gweithlu medrus; a
- mecanweithiau i asesu ansawdd ymarfer gwaith ieuenctid yng Nghymru.

158. Bydd y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim yn adeiladu ar y dystiolaeth hon i lywio’r modd y byddwn yn gwireddu’r uchelgeisiau fel rhan o’r strategaeth newydd.

***Sut y mae effaith y gostyngiad o 10 y cant i'r Grant Cymorth Ieuenctid i £2.5 miliwn yn 2018-19 wedi cael ei fonitro, fel y cyfeirir ato ym mhapur y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2018-19. Beth oedd yr effaith?***

159. Yn ein Cyllideb ddrafft ar gyfer 2018-19 fe fabwysiadodd Llywodraeth Cymru ddull Llywodraeth gyfan o flaenoriaethu cyllid i Lywodraeth Leol ar gyfer ysgolion a gwasanaethau gofal cymdeithasol rheng-flaen. Fel rhan o’r ymarferiad hwn, adnabuwyd trosglwyddiad allan o £0.385 miliwn i’r Cronfeydd wrth Gefn canolog, a oedd yn cynnwys gostyngiad o 10% i’r Grant Cymorth Ieuenctid.

160. Fodd bynnag, yn dilyn ymgysylltu â’n partneriaid fe wnaethom gydnabod, er gwaethaf y mesurau yr oeddem wedi’u cymryd i ddiogelu llywodraeth leol rhag effaith lawn y cyni cyllidol, bod yr heriau yr oedd yn eu dwyn i feysydd gweithgarwch allweddol, gan gynnwys gwaith ieuenctid, yn risg i gyflawni. Adnabuwyd cyllid ychwanegol drwy ailflaenoriaethu adnoddau o fewn y MEG Addysg, gyda dyraniad ar gael i Awdurdodau Lleol drwy CLILC i gefnogi camau gweithredu y gallent hwy eu cymryd, gan gynnwys dwyn ymlaen waith i leihau i’r eithaf effaith y toriadau yn 2018-19. Fe wnaeth hyn eu galluogi i wneud buddsoddiadau wedi’u targedu, a oedd wedi’u hanelu at leihau’r effaith ar ddarparu gwasanaethau o ganlyniad i’r gostyngiad yn y grant a ddyfernir. Roedd y symiau a oedd ar gael yn gymesur â’r gostyngiad yn nyraniad Grant Cymorth Ieuenctid pob awdurdod lleol yn 2018-19. Rydym yn parhau i weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a’r Prif Swyddogion Ieuenctid, gan gynnwys drwy ein mecanweithiau cyllid grant, i fonitro’r modd y cyflawni’r cynlluniau gwaith yn unol â nodau’r grant.

***Dyraniadau ar gyfer y grantiau a ganlyn a gwybodaeth am sut y mae'r dyraniadau hyn wedi'u llywio gan yr adolygiadau ohonynt, a adroddwyd i Lywodraeth Cymru yn ystod haf 2017 ac y cyfeirir atynt ym mhapur y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2018-19. Hefyd, rhowch wybodaeth am y bwriadau tymor hwy o ran y grantiau hyn.***

- **Y Grant Cymorth Strategaeth Gwaith Ieuenctid**
- **Grant Blynyddol Llywodraeth Cymru i Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Ieuenctid Cymru (CWVYS)**
- **Grant Blynyddol Llywodraeth Cymru i Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru (ETS Cymru)**
- **Grant y Sefydliad Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol**
- **Sut y mae pobl ifanc wedi bod yn rhan o'r broses o lywio'r penderfyniadau ynghylch y dyraniadau ar gyfer gwaith ieuenctid yn y Gyllideb Ddrafft.**

161. Mae’r tabl isod yn darparu crynodeb o ddyraniadau grant cymorth ieuenctid ar gyfer 2018-19, a gyllidwyd â’r BEL Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid, i gefnogi gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol yng Nghymru. Bydd y dyraniadau ar gyfer 2019-20 yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol gan y

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar ôl cyhoeddi'r Gyllideb derfynol ym mis Rhagfyr.

| **Grant** | **Dyraniad 2018-19 £000** |
|---|---|
| Grant Cymorth Ieuenctid (mae'n cynnwys dyraniad sylfaen o £1.1 miliwn a chyfran ar sail fformiwla o £2.470 miliwn) | 3,470 |
| Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS) | 100 |
| Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru (ETS Cymru) | 35 |
| Y Grantiau Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol (NVYO) | 679 |
| **Cyfanswm** | **4,287** |

162. Nid yw'n bosibl darparu gwybodaeth am fwriadau mwy hirdymor mewn perthynas â'r grantiau hyn tra bo dull strategol newydd wrthi'n cael ei ddatblygu, ac o ystyried nad oes cyllidebau dros dro wedi cael eu pennu y tu hwnt i 2019-20. Fodd bynnag, mae'r adolygiadau a gynhaliwyd o'r grantiau hyn wedi profi'n bwysig o ran sicrhau ein bod yn cynnal cysondeb yn ystod y broses o ddatblygu ein dull strategol newydd, gan ein galluogi i wneud newidiadau (lle y bo'n briodol) i'r ffordd y cânt eu gweinyddu, a chan fod yn rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim wrth iddynt weithio gyda ni i ddatblygu Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd Cymru. Er enghraifft:

- Fe wnaeth yr Adolygiad o **Grant Cefnogi'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid** (sydd wedi'i ailenwi ers hynny'n Grant Cymorth Ieuenctid) gadarnhau'r cyfraniad cadarnhaol a wnaeth y grant i sicrhau darpariaeth gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mae wedi dylanwadu ar drafodaethau monitro gydag awdurdodau lleol am effaith strategol y grant – yn hytrach na chanolbwyntio ar allbynnau, fe'n helpodd i greu cysylltiadau mwy eglur â'r Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol, ac mae'n goleuo trafodaethau ynglŷn â'r dadansoddiad o anghenion sy'n tanategu dewisiadau strategol, yn ogystal â'r cysyniad o sicrhau 'digonolrwydd y ddarpariaeth';
- Fe wnaeth yr Adolygiad o grant blynyddol Llywodraeth Cymru i **Gyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS)** ddynodi bod y cyllid hwn yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan. Mae ei ganfyddiadau ac argymhellion wedi helpu i ddylanwadu ar y trafodaethau rheolaidd sy'n digwydd rhwng Swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr CWVYS mewn perthynas â monitro'r grant hwn;
- Fe wnaeth yr Adolygiad o grant blynyddol Llywodraeth Cymru i **Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru (ETS Cymru)** ddynodi bod y buddsoddiad hwn yn rhoi gwerth am arian. Hefyd, fe gyflawnodd ETS Cymru y rolau y caiff ei gyllido i'w cyflawni, ac fe wnaeth hynny'n effeithiol iawn, gyda chefnogaeth gref gan y sectorau a gynrychiolir yn ei aelodaeth. Bydd yr adroddiad yn parhau i oleuo trafodaethau am yr amcanion a'r targedau sy'n gysylltiedig â chyllid grant yn 2019/20; ac
- Fe wnaeth yr Adolygiad o **Grantiau Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol (NVYO)** ddynodi pwysigrwydd y Grantiau Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol a'i effaith gadarnhaol ar gapasiti mudiadau gwirfoddol cenedlaethol i gyflwyno darpariaeth gwaith ieuenctid i bobl ifanc ledled Cymru. Rydym wedi cyflawni'r argymhelliad i barhau i ddarparu cyllid craidd drwy'r grant hwn ond nid ydym yn gallu datblygu cylchoedd

cyllido mwy hirdymor (mwy na'r ddwy flynedd bresennol) ar hyn o bryd o ystyried yr ansicrwydd ynghylch ein cyllideb yn y dyfodol y tu hwnt i 2019-20. Rydym wedi cynnig cyngor a chymorth i'r mudiadau hynny a oedd yn aflwyddiannus gyda'u ceisiadau am gyllid, fel yr argymhellwyd gan yr adolygiad, a byddwn yn parhau i weithredu'r argymhellion a nodwyd mewn cylchoedd cyllido yn y dyfodol lle y bo'n bosibl.

163. Er nad yw pobl ifanc wedi cael eu cynnwys yn uniongyrchol mewn penderfyniadau ynghylch dyraniadau ar gyfer gwaith ieuenctid yn y gyllideb hon, maent wedi cael eu cynnwys ac fe ymgynghorwyd â hwy fel rhan o'r mwyafrif o adolygiadau a gynhaliwyd ac a gyhoeddwyd, gan gynnwys drwy drafodaethau â ffocws pendant a arweiniwyd gan Margaret Jervis a rhanddeiliaid gwaith ieuenctid i oleuo ei hadroddiad 'Ein Dyfodol'. Hefyd, mae nifer o'n meini prawf ar gyfer grantiau'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â phobl ifanc a'u cynnwys wrth weithredu cynigion ynghylch cyllido, ac mae hyn wedi cyfrannu at eu heffaith ganlyniadol ar ganlyniadau i bobl ifanc. Felly, maent wedi goleuo'r Gyllideb ddrafft yn anuniongyrchol, gan gynnwys ein penderfyniad i gynnal cysondeb wrth ddatblygu ein dull strategol newydd.

**Y cynnig gofal plant**

***Asesiad wedi'i ddiweddaru o oblygiadau cynnig gofal plant Llywodraeth Cymru i'r MEG Addysg, er enghraifft cyllid grant y Cyfnod Sylfaen, cyllid cyfalaf a'r berthynas â chyllid yn y Grant Cynnal Refeniw.***

***Cyfalaf***

164. Rydym wedi dyrannu £60 miliwn o gyllid cyfalaf o'r BEL Seilwaith Addysg o fewn y MEG Addysg dros y cyfnod o dair blynedd (2018-21) i gyllido'r Cynnig Gofal Plant. Diben y cyllid hwn yw rhoi cymorth i gydleoli darpariaeth Cyfnod Sylfaen bresennol gyda darpariaeth newydd y cynnig gofal plant ar un safle, lle bynnag y bo'n bosibl, a sicrhau bod gofal plant digonol yn yr ardaloedd cywir, gyda ffocws penodol ar ddatblygu darpariaeth newydd mewn ardaloedd lle ceir diffyg gwasanaethau gofal plant ar hyn o bryd, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig a difreintiedig.

165. Daeth ceisiadau ffurfiol a manwl i law ar ddiwedd mis Medi. Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu y bydd y cynigion a gafwyd yn sylweddol fwy na'r arian sydd ar gael. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r Awdurdodau Lleol unigol ynghylch eu cynigion ac mae nifer yn awyddus i ddefnyddio'u cyfle i ddatblygu cyfleusterau gofal plant, ochr yn ochr â'u cynigion Band B ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif ac fel rhan o'u cynllun i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, drwy gyfuno prosiectau a gyllidir â'r Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg. Cafodd canlyniad cynigion ar gyfer y Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg ei gyhoeddi'n ddiweddar ac roedd yn cynnwys prosiectau sy'n cyfuno cyllid o Grant y Cynnig Gofal Plant. Drwy gyfuno'r grantiau hyn rydym wedi gallu cyllido prosiectau sy'n bodloni meini prawf ac yn cyflawni amcanion polisi'r ddau, gan felly gynyddu i'r eithaf y gwerth a gyflawnir â'r cyllid sydd ar gael. Fel gyda'r Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg, bydd yr arian sy'n weddill o Grant y Cynnig Gofal Plant yn cael ei ddyrannu yn nhrefn sgôr pob cynnig yn erbyn meini prawf

y Grant hyd at y dyraniad sydd ar gael. Bydd cynigion sy'n syrthio o dan y llinell ddyrannu'n cael eu cadw ar restr aros, os bydd cyllid pellach ar gael, neu dan amgylchiadau lle mae cynigion llwyddiannus yn methu â dwyn ffrwyth neu'n cael eu cyflawni am lai nag a ddyrannwyd.

***Y Cyfnod Sylfaen***

166. Rydym yn dal i asesu'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o effaith gweithredu cynnar o ran y Cynnig Gofal Plant. Mae cyllid sylweddol i gefnogi'r Cyfnod Sylfaen eisoes yn cael ei ddarparu drwy'r Grant Cynnal Refeniw a'r Grant Gwella Addysg ar gyfer ysgolion.

167. Ym mis Medi, fe gyhoeddais ganllawiau statudol ynghylch darparu'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgwyr tair a phedair blwydd oed ar gyfer awdurdodau lleol sy'n nodi eu dyletswyddau cyfreithiol o ran sicrhau ansawdd addysg gynnar.

168. Byddwn yn parhau i adolygu'r maes hwn wrth i'r Cynnig Gofal Plant ddal i gael ei gyflwyno ledled Cymru a byddwn yn asesu unrhyw effeithiau posibl a allai effeithio'n niweidiol ar ddarparu'r cynnig addysg gynnar ac yn gweithredu ar yr effeithiau hynny.

**Cyllid cyfalaf ar gyfer seilwaith ysgolion a cholegau**

***Gwybodaeth am ddarpariaeth y gyllideb ar gyfer Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain a chynnydd y rhaglen hyd yma, gan gynnwys gwariant a niferoedd y prosiectau a gwblhawyd/a gymeradwywyd hyd yma.***

169. Bydd Band A o'r rhaglen yn darparu buddsoddiad o fwy nag £1.4 biliwn, gyda Llywodraeth Cymru yn darparu 50% o'r cyllid. Hyd yma mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer 167 o brosiectau, y mae 107 ohonynt wedi cael eu cwblhau a gwaith adeiladu'n digwydd ar gyfer 49 ohonynt. Ymrwymwyd i ddarparu cyllid o £736.6 miliwn hyd at 2020-21 ar gyfer y prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo yn unol â chyllidebau sydd wedi'u cymeradwyo. Hyd at 2017-18, fe ddarparodd Llywodraeth Cymru gyllid o £539.3 miliwn.

***Eglurhad o p'un a fydd Band A wedi'i gwblhau erbyn mis Ebrill 2019 ac amserlen Band B, gan gynnwys manylion am unrhyw gyfnod pontio rhyngddynt.***

170. Bydd y rhan fwyaf o brosiectau Band A wedi'u cwblhau erbyn mis Ebrill 2019. Bu oedi gyda rhai prosiectau am amrywiaeth o resymau ond byddant yn dal yn gymwys i gael cyllid. I wneud iawn am hyn, ac i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio mor effeithlon â phosibl, mae rhai prosiectau ym Mand B wedi dechrau'n gynnar.

***Y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch y defnydd o'r Model Buddsoddi Cyfnewidiol ar gyfer Band B a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar yr arian sydd ar gael.***

171. Mae Band B yn cynnwys swm cyfalaf sy’n gyfwerth â £500 miliwn a fydd yn cael ei ddarparu drwy’r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) ac rydym yn gweithio gyda’n partneriaid i sicrhau bod y gwariant hwn yn cael ei broffilio’n effeithiol. Bydd cynlluniau MIM yn cynnwys elfen gyfalaf, ar gyfer eitemau megis dodrefn, ffitiadau ac offer, a rhoddwyd cyfrif am hyn yn ein cyllideb.

**Addysg bellach**

***Dadansoddiad manwl o'r BEL Addysg Bellach i'w llinellau cyllido cyfansoddol, gan gynnwys symiau'r alwad gyntaf (ymrwymiad sefydliad addysg bellach 2018/19 sy'n weddill), yr ail alwad (Chweched Dosbarth), y trydydd galwad (swm i gael dyraniadau sefydliadau addysg bellach) a galwadau ychwanegol arni.***

Er bod y dyraniadau BEL wedi cael eu cyhoeddi, nid yw symiau penodol y cyllid i bob gweithgaredd wedi cael eu cytuno eto.

***Manylion am y broses gynllunio a sut y bydd setliad y gyllideb yn bodloni rhwymedigaethau statudol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â darparu addysg i bobl ifanc rhwng 16 a 19 oed o dan Fesur Dysgu a Sgiliau 2009 a'r rhai sy'n ceisio cyflawni'r Nodau Lles.***

172. Mae’r llythyrau cyllid grant SABau ar gyfer 2018/19 bellach yn cynnwys gofyniad i’r holl SABau gadarnhau’r data ynghylch arlwy eu cwricwlwm lleol yn 2019/20 ar Gyrfa Cymru Ar-lein a bydd gwiriadau’n cael eu gwneud i sicrhau y cydymffurfir â Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

173. Mae Mesur Dysgu a Sgiliau 2009 yn sicrhau bod yn rhaid i’r holl sefydliadau ôl-16 gynnig isafswm o 30 o gyrsiau i fyfyrwyr, y mae’n rhaid bod o leiaf 5 ohonynt yn rhai galwedigaethol. Rhaid i’r cyrsiau galwedigaethol berthyn i 3 maes o leiaf, y mae’n rhaid i un ohonynt fod ym maes mathemateg, gwyddoniaeth a thechnoleg.

174. Bydd swyddogion yn parhau i ymgysylltu â’r cydlynwyr 14-19 mewn consortia a chynrychiolwyr colegau i sicrhau bod yr holl ysgolion a cholegau’n ateb gofyniad y mesur.

175. Mae’r fethodoleg gyllido sy’n cyd-fynd â’r broses gynllunio’n cydnabod y rhwymedigaeth statudol gynyddol ar ddysgwyr 16-19 oed ac mae newidiadau mewn demograffeg sydd eisoes yn dylanwadu ar y dyraniadau ar gyfer Chweched Dosbarth mewn Ysgolion yn cael eu hystyried ar gyfer methodoleg gyllido AB hefyd.

***Mae copïau o ganllawiau Tybiaethau Cynllunio Rhagolygon Ariannol Addysg Bellach y ddwy flynedd ddiwethaf wedi'u cyhoeddi i sefydliadau addysg bellach.***

176. Mae canllawiau Tybiaethau Cynllunio Rhagolygon Ariannol Addysg Bellach y ddwy flynedd ddiwethaf a anfonwyd at SABau wedi’u hatodi yn **Atodiad H**.

***Manylion am y llinell sylfaen gynllunio arfaethedig sydd i'w defnyddio i ganiatáu i'r dyraniad cyllid craidd cyfansymiol ar gyfer y sector sefydliadau addysg bellach ar gyfer 2019/20 gael ei ddeillio.***

177. Bydd y dyraniadau cyllid ar gyfer AB yn 2019/20 yn seiliedig ar y cyllid sylfaen a gafodd colegau ar gyfer 2018/19; sef £293.443 miliwn. Bydd y ffigwr hwnnw'n cael ei ddiwygio wedyn i lwfio am newid demograffig a newidiadau eraill a gyflwynwyd gan y fformiwla cyllido newydd ar gyfer AB. Ni fydd manylion hynny ar gael tan ar ôl y gyllideb derfynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 a gyhoeddir ym mis Rhagfyr 2018.

***Manylion am unrhyw ddyraniadau arfaethedig ar gyfer 2019/20 (neu os nad oes penderfyniad yn eu cylch eto, yr adnoddau sydd ar gael yn y gyllideb ar gyfer 2019-20) ar gyfer sefydliadau addysg bellach y tu hwnt i 'arian craidd', gan gynnwys manylion am yr holl gyllid nad yw'n graidd ac sydd wedi'i neilltuo (gan gynnwys y contractau dysgu yn seiliedig ar waith a arweinir gan sefydliadau addysg bellach).***

178. Nid yw'n bosibl cyfrifo dyraniadau i SABau y tu hwnt i'r cyllid craidd ar yr adeg hon o'r flwyddyn; fodd bynnag, i roi enghraifft dangosir y dyraniadau cyfatebol ar gyfer 2018-19 isod:

| **Gweithgaredd** | **Cyllideb £000** |
|---|---:|
| Y Gronfa Datblygu Sgiliau | 6,700 |
| Prentisiaethau Iau | 502 |
| Y Biwro Cyflogaeth | 40 |
| REACH | 634 |

179. Mae bron pob SAB yn rhan o ddarparu Dysgu Seiliedig ar Waith (WBL); naill ai fel deiliad contract uniongyrchol, aelod o gonsortiwm neu is-gontractwr. Roedd yr incwm y mae SABau yn ei gael o gontractau Dysgu Seiliedig ar Waith yn £81.533 miliwn (yn seiliedig ar ddata 2016-17). Mae'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer contractau Dysgu Seiliedig ar Waith yn 2019-20 yn fwy nag oedd ar gael yn 2016-17. Felly, disgwylir y bydd cyllid Dysgu Seiliedig ar Waith y mae SABau yn ei gael yn cynyddu hefyd.

***Manylion am y cynnydd cyffredinol a fwriedir ar gyfer "cyfradd unedau" (cyllid craidd) i'w gymhwyso ar gyfer 2019/20 gyda rhesymeg ar gyfer y ffigur uwchraddio ac asesiad o ran ei ddigonolrwydd, gan ystyried cynnwys y Rhagdybiaethau Cynllunio Rhagolygon Ariannol Addysg Bellach perthnasol, gan gynnwys y dyfarniad cyflog tebygol ar draws y sector.***

180. Ar adeg ysgrifennu'r papur hwn nid yw canlyniad dyfarniad cyflog y sector ôl-16 yn hysbys; felly mae'n rhy gynnar ym mhroses pennu'r gyllideb i gadarnhau a fydd gyfradd unedau'n newid.

***Y rhesymeg dros unrhyw wyriad neu wyriad arfaethedig rhwng y rhagdybiaethau cynllunio y gofynnir i sefydliadau addysg bellach eu***

***gwneud yn eu rhagolygon a'r cynnydd "cyfradd unedau" arfaethedig (cyllid craidd) ar gyfer 2019/20, yn enwedig unrhyw ragdybiaethau sy'n ymwneud ag eitemau sylfaen cost sefydlog iawn fel staffio, dyfarniadau cyflog a phensiynau.***

181. Mae'r rhagolygon ar gyfer pum mlynedd ymlaen llaw ar hyn o bryd, ond byddant yn newid i dair o 2018-19, ac maent yn ffynhonnell wybodaeth allweddol i alluogi Llywodraeth Cymru i fonitro iechyd ariannol a threfniadau cynllunio ariannol Sefydliadau Addysg Bellach. Darperir tybiaethau i sicrhau rhagolygon cadarn a chymaradwy; fodd bynnag nid yw'r rhain yn gwbl ddigyfnewid. Mae'n bwysig nodi mai at ddiben monitro ariannol yn unig y mae'r rhagolygon hyn ac nad yw unrhyw dybiaethau a ddarperir ar gyfer eu paratoi gan Lywodraeth Cymru yn rhoi arwydd nac ymrwymiad o ran unrhyw benderfyniadau cyllido yn y dyfodol. Caiff y tybiaethau hyn eu rhannu ym mis Mawrth sydd, er enghraifft, cyn bod negodiadau ynghylch cyflogau wedi dechrau.

***Manylion am y dyraniad dangosol i sefydliadau addysg bellach ar gyfer 2020/21 a 2022/23 yn unol â'r setliad dangosol tair blynedd arfaethedig yn y Fframwaith Cynllunio a Chyllido Ôl-16 fel yr argymhellwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn yr adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2017. Os nad yw ar gael, y rhesymau pam na chyflwynwyd setliadau dangosol tair blynedd.***

182. Er mai ein nod yw cyhoeddi cyllideb ar gyfer gorwel tair blynedd, a fyddai'n rhoi mwy o sicrwydd i Golegau AB wrth gynllunio ar gyfer cyfnod cyllidebol hwy, dim ond gyda mwy o eglurder ynghylch yr adnoddau refeniw sydd ar gael i Lywodraeth Cymru o San Steffan y gellir gwneud hyn.

183. Rydym yn cydnabod – ac yn cydymdeimlo â – galwadau ein partneriaid yn y sector cyhoeddus am gyllidebu dros gyfnod hwy pryd bynnag y bo'n bosibl er mwyn rhoi cymorth gyda chynllunio ariannol at y dyfodol. Er gwaethaf yr ansicrwydd gwirioneddol iawn yr ydym wedi'i wynebu dros y blynyddoedd diwethaf, fe gyhoeddon ni gynlluniau refeniw dwy flynedd y llynedd a chynlluniau cyfalaf ar gyfer tair blynedd y mae gennym setliad ar eu cyfer.

184. Fodd bynnag, rhaid taro cydbwysedd rhwng ein huchelgais i gyhoeddi cynlluniau ar gyfer cyfnod hwy na 12 mis ar y naill law a'n gallu i ddarparu tybiaethau cynllunio realistig a synhwyrol ar y llaw arall. Mae'r ansicrwydd cyllidol parhaus; parhad Llywodraeth y DU i fynd ar drywydd cyni cyllidol a'r ansicrwydd sylweddol ynghylch ffurf a natur y trafodaethau ynglŷn â'r cytundeb â'r UE yn y dyfodol yn golygu ein bod wedi penderfynu cyhoeddi cynlluniau refeniw ar gyfer 2019-20 yn unig, gyda chynlluniau cyfalaf ar gyfer y ddwy flynedd nesaf – 2019-20 a 2020-21.

185. Er mwyn cynorthwyo gyda chynllunio ariannol y tu hwnt i'r blynyddoedd hyn, mae adroddiad y Prif Economegydd, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft, yn darparu dadansoddiad o'r rhagfynegiadau cyllidol dros y tymor canolig, a fydd yn helpu i oleuo senarios ar gyfer gwario adnoddau yn y dyfodol yng Nghymru.

***Manylion am y rhaniad a ragwelir mewn cyllid craidd a chyllid nad yw'n graidd rhwng darpariaeth Addysg Bellach amser llawn a rhan-amser, gan gynnwys asesiad wedi'i ddiweddaru o sut y bydd y setliad cyllideb i sefydliadau addysg bellach yn ategu'r gorchymyn polisi dysgu gydol oes sydd, yn ôl Llywodraeth Cymru 'yn bwysicach nag erioed' [Ffyniant i Bawb, tudalen 18]. Sut y mae Llywodraeth Cymru wedi asesu lefel yr arian rhan-amser i sicrhau ei fod yn ddigonol i wneud cynnydd rhesymol tuag at amcanion lles Ffyniant i Bawb a themâu allweddol sy'n ymwneud â dysgu a dysgu gydol oes?***

186. Mae'r fethodoleg gyllido ar gyfer AB yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd ac mae'r rhaniad rhwng cyllid ar gyfer darpariaeth lawn-amser a rhan-amser yn un elfen o hynny. Mae swyddogion yn cydweithio'n agos gyda'r sector ond ni fydd newidiadau a gyflwynir gan y fformiwla cyllido newydd ar gyfer AB ar gael tan ar ôl y gyllideb derfynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 a gyhoeddir ym mis Rhagfyr 2018.

187. Bydd y dull newydd hwn, a ysbrydolwyd gan adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Chwefror 2017 ac ymchwiliad dilynol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yn ategu'r cynllun Cymru'n Gweithio newydd cyfochrog, a threfniadau Diamond ar gyfer cymorth gyda ffioedd a chynhaliaeth i roi cymorth cyflogadwyedd a sgiliau i ddysgwyr sydd mewn gwaith ac yn ddi-waith.

***Manylion am y codiad arfaethedig ar gyfer darparu darpariaeth mewn ardaloedd anghysbell a difreintiedig ar gyfer 19/20.***

188. Ceir lwfans ar hyn o bryd o fewn y model cyllido i gydnabod costau ychwanegol darparu mewn ardaloedd sy'n amddifadus yn addysgol a hefyd ar gyfer dysgwyr sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Mae'r lwfansau hyn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd ac mae'n debygol y byddant yn cael eu cymhwyso o 2019/20 unwaith y bydd y gyllideb derfynol wedi'i chadarnhau ym mis Rhagfyr 2018.

189. Mae swyddogion wedi bod yn cydweithio'n agos gyda'r sector AB i adolygu'r lwfansau ar gyfer teneurwydd poblogaeth ac amddifadedd addysgol.

***Asesiad sy'n ymwneud â digonolrwydd y codiad ar gyfer ardaloedd anghysbell, gan ystyried sylwadau a wnaed gan ddau sefydliad addysg bellach yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn 2017 nad yw'n cynnwys cost darparu darpariaeth yn yr ardaloedd hyn.***

190. Cynhaliwyd yr adolygiad o'r lwfans teneurwydd poblogaeth mewn partneriaeth weithio glòs gyda'r colegau hynny sy'n darparu yn yr ardaloedd mwyaf gwledig i sicrhau bod ystyriaeth lawn wedi cael ei rhoi i'r costau ychwanegol. Mae'r gwaith hwn yn rhan o'r adolygiad o gyllid ar y cyfan, y dylai ei fanylion gael eu cadarnhau ym mis Rhagfyr 2018.

***Manylion am y codiad arfaethedig ar gyfer darparu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog ar gyfer 2019/20.***

191. Mae'r codiad ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y model cyllido'n cael ei adolygu hefyd. Fodd bynnag, ni ddisgwylir y bydd canlyniadau'r adolygiad hwn yn cael eu cwblhau mewn pryd ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20, ac felly bydd dyraniadau'r codiad ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yr un fath â'r rhai yn 2018/19.

***Manylion am unrhyw arian cyfalaf i sefydliadau addysg bellach.***

192. Nid yw'r cwestiwn yn nodi amser penodol; fodd bynnag, dyfarnwyd y cyllid canlynol i Sefydliadau Addysg Bellach dan y gwahanol raglenni.

| Rhaglen | Cyfnod | Cyfradd ymyrryd | Cyllid Llywodraeth Cymru £000 |
|---|---|---|---|
| Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif – Band A | 2014-2019 | 50% | 49,950 |
| Offer 'Troi Eich Llaw' | 2015-2017 | 100% | 370 |
| Grant Cyfalaf 2016/17 | 2016-2018 | 50% | 9,620 |
| Grant TG ac Offer 2016/17 | 2016-2018 | 100% | 11,380 |
| Grant Cynhaliaeth AB | 2018-2020 | 100% | 10,000 |
| Grant Sgiliau ac Offer | 2018-2020 | 100% | 10,000 |
| **Cyfanswm yr Ymrwymiad Hyd Yma** | | | **91,320** |

193. Dan Fand A Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif mae'r SABau wedi cael cymeradwyaeth ar gyfer gwerth £101.9 miliwn o brosiectau, ar draws y sector fel y dangosir isod:

| Sefydliad Addysg Bellach | £000 |
|---|---|
| Coleg y Cymoedd: Canolfan Hyfforddiant Rheilffyrdd | 3,080 |
| Coleg y Cymoedd: Campws Aberdâr | 22,000 |
| Grŵp Llandrillo Menai: Canolfan Peirianneg | 13,590 |
| Grŵp Llandrillo Menai: Canolfan Sgiliau Sylfaenol Llangefni | 2,530 |
| CCAF: Campws Canol y Dref | 45,800 |
| Coleg Cambria: Campws Ffordd y Bers | 8,250 |
| Coleg Penfro: Campws Dysgu – Canolfan Alwedigaethol | 6,600 |
| **Cyfanswm** | **101,850** |

194. Yn ogystal â'r cyllid uchod, dan Raglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif – Band B, mae cwmpasau dangosol o £191 mewn cyllid cyfalaf a £131.4 miliwn dan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol wedi cael eu dyrannu i SABau ledled Cymru.

***Rhagolwg ariannol cyfunol ar gyfer sefydliadau addysg bellach dros y tair blynedd nesaf.***

195. Caiff y rhagolygon gan SABau eu casglu i oleuo'r broses o fonitro iechyd ariannol fel rhan o'r cytundeb cyllido. Gwybodaeth trydydd parti a gesglir gan Lywodraeth Cymru yw hon ac nid yw'n briodol rhannu'r wybodaeth hon gyda'r pwyllgor gan nad yw SABau yn gyrff yn y sector cyhoeddus.

***Manylion ynglŷn â dyraniad Dysgu Oedolion yn y Gymuned ac asesiad ynghylch a yw strategaeth flaenorol Llywodraeth Cymru o ddiogelu'r cyllid ar gyfer Addysg Sylfaenol i Oedolion ac ESOL yn parhau'n berthnasol a pham.***

196. Mae'r Grant Dysgu Cymunedol ar gyfer 2018-19 yn £4.3 miliwn. Dyrennir y grant i awdurdodau lleol ar sail setliad ariannol a sefydlwyd yn 2000.

197. Mae ymgynghoriad ynghylch cynigion i ailstrwythuro trefniadau darparu a chyllido dysgu oedolion yng Nghymru newydd ddod i ben. Bydd crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi maes o law a bydd yr ymatebion hyn yn bwydo i mewn i bolisi diwygiedig a fydd yn pennu'r cyllid a'r trefniadau darparu ar gyfer dysgu oedolion.

198. Yn ôl y dystiolaeth ddiweddaraf o'r Arolwg Sgiliau Cenedlaethol (2010), mae gan 12% o'r oedolion yng Nghymru sgiliau llythrennedd lefel Mynediad ac mae gan 51% sgiliau rhifedd lefel Mynediad. Tra bo'r materion hyn yn dal i fod yn gymaint o broblem yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn dal i'w hystyried yn flaenoriaethau. Cyhoeddwyd y polisi Dysgu oedolion yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2017 ac roedd yn ailddatgan bod darparu Sgiliau Hanfodol, Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) a Llythrennedd Digidol yn flaenoriaethau i Lywodraeth Cymru.

199. Mae Polisi ESOL i Gymru wedi'i ddiweddaru yn ailddatgan yr ymrwymiad i gyllido ESOL fel Sgil Hanfodol a bydd yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.

200. Mae ein cymorth ar gyfer Llythrennedd Digidol yn dilyn y fframwaith Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol a ddyluniwyd gan Cymwysterau Cymru.

201. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys cyrsiau sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr hŷn, teuluoedd a phobl ddi-waith i'w helpu i gael mynediad i wasanaethau ar-lein a chymorth mewn dull diogel.

202. Mae'r cyrsiau'n amrywio o Lefelau Mynediad i ECDL (Trwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd) ac maent ar gael yn rhad ac am ddim i'r dysgwr.

203. Mae darparwyr yn gweithio o fewn eu cymunedau a phartneriaethau dysgu oedolion i sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni'r galw lleol ac yn cael ei gydlynu gyda chymorth ehangach drwy raglen Cymunedau Digidol Cymru.

204. Tra bo Sgiliau Hanfodol ac ESOL yn dal i fod yn flaenoriaethau, mae'n hanfodol ein bod yn dal i ddiogelu'r cyllid hwn ar gyfer oedolion.

**Addysg Uwch**

***Rhagolwg ariannol cyfunol ar gyfer y sector Addysg Uwch dros y tair blynedd academaidd nesaf o 2018/19 ymlaen:***

205. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei darparu ar gyfer CCAUC yn gyfrinachol gan SAUau ac nid yw'r Cyngor yn cyhoeddi'r lefel hon o wybodaeth ar lefel y sector gan fod cyn lleied o sefydliadau yng Nghymru. Deallaf fod y Cyngor Cyllido wrthi ar hyn o bryd yn coladu'r wybodaeth o'r rhagolygon a ddarparwyd ar ddiwedd mis Gorffennaf. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei hystyried gan Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg CCAUC ym mis Hydref a'r Cyngor ym mis Tachwedd.

206. Gan na all Llywodraeth Cymru ryddhau'r wybodaeth hon, dylai'r pwyllgor gysylltu â CCAUC gyda'r cais hwn am wybodaeth ac am eglurhad llawnach am eu prosesau.

207. Fodd bynnag, er gwybodaeth yn **Atodiad I**, atodaf gopi o'r dystiolaeth ysgrifenedig a ddarperais ar gyfer y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer y cyfarfod craffu AU/AB ym mis Hydref. Mae hon yn cynnwys crynodeb gan Lywodraeth Cymru o lefelau incwm y sector Addysg Uwch ym mhob blwyddyn ariannol ers 2012, gyda lefelau incwm a ragwelir ar gyfer pob blwyddyn ariannol hyd at 2021/22.

***Manylion am ddyraniad dangosol 2019/20 CCAUC, gan gynnwys manylion a symiau unrhyw elfennau sydd wedi'u neilltuo o'r dyraniad hwn.***

208. Caiff cyllid Llywodraeth Cymru i CCAUC ei ddyrannu ar sail blwyddyn ariannol a chyllid heb eu neilltuo ydyw. Mater i CCAUC wedyn yw pennu'r modd y dyrennir yr adnoddau hynny gan ystyried blaenoriaethau'r Llywodraeth a nodir yn fy llythyr cylch gwaith blynyddol. Bydd llythyr cylch gwaith 2019-20, a fydd yn cael ei anfon cyn diwedd mis Mawrth 2019, hefyd yn nodi'r adnoddau ariannol a ddyrennir i CCAUC ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20, yn dilyn cymeradwyo'r Gyllideb gan y Cynulliad.

209. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnig y dyraniad canlynol i CCAUC ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20:

| **Dyraniadau** | **2019-20<br>£000** |
|---|---:|
| Gwariant Refeniw CCAUC | 141,052 |
| Dibrisiant CCAUC | 90 |
| Cyfalaf CCAUC | 10,000 |
| **Cyfanswm** | **151,142** |

210. O'i gymharu, roedd y dyraniadau terfynol a ddarparwyd ar gyfer CCAUC yn y tair blynedd ariannol ddiwethaf (2017-18 i 2018-19) fel a ganlyn:

| Dyraniadau | £000 | | |
|---|---|---|---|
| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
| Costau Rhedeg CCAUC | 2,491 | n/a | n/a |
| Gwariant Refeniw CCAUC[9] | 87,575 | 114,242 | 122,216 |
| Er Mwyn Ein Dyfodol | 30,168 | n/a | n/a |
| Derbyniadau CCAUC | - 2,798 | n/a | n/a |
| Dibrisiant CCAUC | 82 | 90 | 90 |
| Gwariant Cyfalaf CCAUC | n/a | 5,900 | 10,000 |
| **Cyfanswm** | **117,518[10]** | **120,232** | **132,306** |

***Manylion am yr alwad ar y MEG Addysg ar gyfer 2019-20 ar gyfer cyfran Ebrill-Gorffennaf o ddyraniad CCAUC ym mlwyddyn academaidd 2018/19, ac arwydd a yw hyn yn gwyro oddi wrth ddyraniad dangosol CCAUC ar gyfer 2019-20. Deallwn fod CCAUC eisoes wedi defnyddio rhagolygon dangosol ar gyfer cyllideb 2019-20 i sicrhau ei gyllid ar gyfer 2018/19.***

211. Caiff cyllid Llywodraeth Cymru i CCAUC ei ddyrannu ar sail blwyddyn ariannol a chyllid heb eu neilltuo ydyw. Mater i CCAUC wedyn yw pennu'r modd y dyrennir yr adnoddau hynny gan ystyried blaenoriaethau'r Llywodraeth a nodir yn fy llythyr cylch gwaith blynyddol. Fy nealltwriaeth i yw bod CCAUC yn trosi eu dyraniad ar gyfer y flwyddyn ariannol yn gyllideb ar gyfer y flwyddyn academaidd er mwyn pennu eu dyraniadau ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd i ddod. Maent yn gwneud hyn drwy ddefnyddio cyfran o gyllideb un flwyddyn (tua 60% fel arfer) gyda'r gweddill (40%) yn cael ei ddeillio o'u dyraniad dangosol ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol.

212. Y Cyngor sydd i benderfynu sut y dosberthir arian a ddyrannwyd iddo gan Lywodraeth Cymru. Dylai'r pwyllgor gysylltu â CCAUC gyda'r cais hwn am wybodaeth ac am eglurhad llawnach am eu prosesau.

***Manylion ynghylch unrhyw arwydd ynghylch sut y mae'r sector yn bwriadu cymhwyso'r toriad gwerth £12.5 miliwn mewn cyllid ar gyfer 2018/19 a fydd yn effeithio ar un neu fwy o'r llinellau ariannu ar gyfer ymchwil sy'n gysylltiedig ag ansawdd, pynciau drud a darpariaeth rhan-amser sy'n seiliedig ar gredydau, ac a yw cyllideb 2019-20 yn gwneud darpariaeth i adfer yr arian hwn yn ystod rhan olaf blwyddyn academaidd 2018/19? Os felly, rhowch fanylion am y sail (telerau ac amodau ac ati) y bydd yr arian yn cael ei ddyrannu i CCAUC.***

***Asesiad o'r effaith a gafodd ac y bydd toriad CCAUC gwerth £22.5 miliwn ar gyfer 2017/18 a thoriad CCAUC gwerth £12.5 miliwn ar gyfer 2018/19 yn ei chael ar gytundeb Llywodraeth Cymru mewn egwyddor i gynnal cyllid ymchwil sy'n gysylltiedig ag ansawdd mewn termau real am bum mlynedd mewn ymateb i'r Adolygiad Diamond.***

[9] O flwyddyn ariannol 2017-18 mae Cyllideb Refeniw CCAUC yn cynnwys cyfuniad o linellau cyllideb Er Mwyn Ein Dyfodol, Costau Rhedeg CCAUC a Derbyniadau CCAUC a oedd yn bodoli mewn blynyddoedd blaenorol.

[10] Yn ogystal â'r dyraniadau cyllid a restrir, yn 2016-17, cafodd CCAUC gyllid ychwanegol o £4.178m i gefnogi ystod o weithgareddau gan gynnwys: cyllid i wella'r drefn o feithrin capasiti mewn ymchwil addysgol; cyllid i leddfu effaith gostyngiadau yn y gyllideb ar bremiwm Pynciau Drud CCAUC; cyllid i gynyddu'r cydweithio rhwng AU ac AB; ac addasiad i ystyried diffyg yn nerbyniadau disgwyliedig CCAUC.

213. Gan mai cyllid heb ei neilltuo yw'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, mater i CCAUC yw pennu sut y dosberthir y cyllid a ddyrannwyd a phennu sut i reoli unrhyw ostyngiadau yn ei gyllid. Fy nealltwriaeth i yw bod y Cyngor wedi penderfynu cymhwyso addasiad cyllido i'w ddyraniad ym mlynyddoedd academaidd 2017/18 a 2018/19 ar sail pro rata ar draws ei holl linellau cyllideb. Mae hyn yn adlewyrchu penderfyniad a wnaed gan y Cyngor bod ei gyllid ar gyfer Ymchwil o Ansawdd, ymchwil ôl-raddedig, addysgu israddedig rhan-amser a phynciau drud yn cael yr un faint o flaenoriaeth strategol. Yn eu tyb hwy, mae'r dull hwn yn galluogi darparwyr AU i wneud eu penderfyniadau eu hunain o ran ble a sut y dylid cymhwyso'r gostyngiad yn y cyllid o fewn eu sefydliadau eu hunain. Mae CCAUC yn disgwyl y bydd penderfyniadau ynghylch dyraniadau i adrannau a chyrsiau'n cael eu gwneud yn strategol gan sefydliadau yng ngoleuni amgylchiadau a blaenoriaethau lleol a chan roi sylw dyledus i effaith bosibl dyraniadau o ran eu cyfrifoldebau statudol, gan gynnwys ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ogystal â blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru.

214. Fel y nodir yn **Atodiad I** , rhwng 2010/11 a 2016/17, fe ostyngodd incwm o grantiau cyrff cyllido oddeutu £242 miliwn (o £416 miliwn i £174 miliwn), ond fe gynyddodd incwm o ffioedd dysgu llawn-amser oddeutu £435 miliwn (o £229 miliwn i £664 miliwn). Ar y cyfan, mae incwm i'r sector felly wedi cynyddu fwy na £200 miliwn dros y cyfnod, a rhagfynegir y bydd yn parhau i gynyddu yn y dyfodol.

215. Roedd gwybodaeth a ddarparwyd gan CCAUC mewn sesiwn ddiweddar gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn awgrymu bod incwm wedi gostwng mewn gwirionedd rhwng blynyddoedd academaidd 2015/16 a 2016/17. Er bod hyn yn cael ei gadarnhau yn y data swyddogol diweddaraf, sy'n awgrymu gostyngiad bach (tua £25 miliwn) mewn incwm ar lefel y sector, mae'r wybodaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol (a ddefnyddir yn holl wybodaeth ystadegol a chyllidebu Llywodraeth Cymru) yn dangos parhad cynnydd mewn incwm yn y flwyddyn honno.

216. Bydd fy llythyr cylch gwaith ar gyfer 2019-20, a fydd yn cael ei anfon erbyn diwedd mis Mawrth 2019, yn nodi fy mlaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ac yn gofyn i'r Cyngor barhau i flaenoriaethu cymorth ar gyfer darpariaeth ran-amser, pynciau drud ac ymchwil.

***Manylion am sut y mae sefydliadau wedi defnyddio'r arian a ddarparwyd gan y pecyn cymorth Meistr Interim a ddyrannwyd i CCAUC ar gyfer 2018/19.***

217. Ym mis Hydref 2017, fe gyhoeddais y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer sefydliadau yng Nghymru (drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)) i gynnig cymorth ychwanegol i fyfyrwyr ôl-raddedig cymwys sy'n dewis astudio yng Nghymru. Trefnwyd fod cyfanswm o £10.9 miliwn ar gael dros dair blynedd ariannol. Y nod yw helpu i annog myfyrwyr i wneud cynnydd ac annog myfyrwyr o Gymru i ddychwelyd i Gymru i astudio, yn unol

â'n hymateb i Adolygiad Diamond. Fe nododd CCAUC fanylion y cynllun mewn cylchlythyr[11] a gyhoeddwyd ym mis Ionawr:

218. Cafodd y cyllid a ddyrannwyd i CCAUC ei gyfrifo ar sail tua £4,000 i bob myfyriwr – yn seiliedig ar amcangyfrif cychwynnol o nifer y myfyrwyr a fyddai'n gwneud cais am gymorth yn 2018/19. Fodd bynnag, er mwyn aros o fewn y gyllideb, ac i ystyried amrywiadau posibl yn nifer y ceisiadau, roedd dull CCAUC o gyfrifo dyraniadau'n seiliedig ar £3,416 y myfyriwr. Caiff manylion cefndir, dyluniad a sail resymegol y cynllun a'r dull o gyfrifo dyraniadau i sefydliadau eu darparu yng nghylchlythyr CCAUC. Er y rhoddwyd disgresiwn i sefydliadau bennu eu dull eu hunain ar gyfer dosbarthu'r arian a ddyrannwyd iddynt, roedd y cylchlythyr yn ei gwneud yn glir y dylid rhoi dyfarniadau dim ond i'r myfyrwyr hynny sy'n gymwys ar gyfer benthyciadau a nodir yn rheoliadau Benthyciadau Graddau Meistr Ôl-raddedig 2017/18.

219. Er mwyn monitro defnydd o'r arian hwn, mae CCAUC wedi gofyn i ddarparwyr ddarparu manylion y cymorth sy'n cael ei gynnig a sut y mae'n cael ei hysbysebu i ddarpar fyfyrwyr. Mae'r manylion hyn wedi'u cynnwys yn **Atodiad J**.

***A fydd y Cyllid Lliniaru Ffioedd gwerth £10 miliwn y mae CCAUC yn bwriadu ei ryddhau ar gyfer 2018/19 yn parhau i flynyddoedd academaidd yn y dyfodol a manylion am unrhyw symiau yn y gyllideb ar gyfer 2019-20 sy'n ymwneud â chyllid lliniaru ffioedd y tu hwnt i 2018/19.***

220. Cafodd y cyllid lliniaru ffioedd o £10 miliwn ei ddyrannu i CCAUC ar ffurf £5 miliwn yn 2018-19 a £5 miliwn ar gyfer 2019-20 i helpu sefydliadau i ddygymod â goblygiadau'r cyhoeddiad ar gyfer cynlluniau byrdymor. Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ategu'r cyllid hwn y tu hwnt i'r ymrwymiadau a wnaed i roi'r diwygiadau i addysg uwch a chyllid myfyrwyr a byddwn wedi disgwyl i sefydliadau fod wedi cynllunio ar y sail honno.

***Manylion am y prosiectau a gytunwyd gyda CCAUC ac a ymgymerwyd gan sefydliadau gan ddefnyddio'r Gronfa Newid Strategol gwerth £20 miliwn.***

221. Darperir y manylion yng nghylchlythyr canlyniadau Cronfa Newid Strategol CCAUC[12].

***Manylion am unrhyw symiau yn 2019-20 a fwriedir ar gyfer cyflwyno Prentisiaethau Gradd o ystyried datganiad CCAUC y bydd rownd ariannu 2019/20 ar gyfer Prentisiaethau Gradd yn "fwy cynhwysfawr".***

222. Cafodd CCAUC gyllid ychwanegol yn 2016-17 i roi cymorth i ddatblygu buddsoddiad mewn prentisiaethau lefel uwch ac i alluogi sefydliadau i

[11] https://www.hefcw.ac.uk/documents/publications/circulars/circulars_2018/W18%2001HE%20Interim%20Postgraduate%20Taught%20PGT%20Masters%20support%20package%20for%20AY%202018_19.pdf

[12] https://www.hefcw.ac.uk/documents/publications/circulars/circulars_2018/W18%2022HE%20HEFCW%20Strategic%20Change%20Fund%20Outcomes.pdf

ddatblygu cymwysterau lefel gradd a allai yn y dyfodol gael eu hymgorffori mewn fframweithiau prentisiaethau. Mae £3 miliwn arall wedi cael ei ddyrannu yn 2018-19 a £5 miliwn yn 2019-20 i gefnogi darpariaeth prentisiaethau gradd gan sefydliadau yng Nghymru.

223. Ysgrifennais at CCAUC ym mis Mai i gadarnhau fy mod wedi gofyn i swyddogion flaenoriaethu cyllid ar gyfer Prentisiaethau Gradd yn eu hystyriaethau cyllidebol ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol er mwyn cwrdd â'r ymrwymiad parhaus sy'n gysylltiedig â'r costau a amcangyfrifir i roi cymorth i ddarparu Prentisiaethau Gradd yng Nghymru.

224. Roedd amcangyfrifon cychwynnol ar gyfer darparu prentisiaethau gradd yn nodi mai tua £20 miliwn oedd y gost dros dair blynedd gyntaf eu gweithrediad ond mae'r ffigyrau hyn yn ddibynnol ar nifer y cyflogwyr ac unigolion sy'n manteisio arnynt.

**Gweithredu Diamond a Reid**

***Yn ei chyflwyniad diwethaf o ran craffu ar y gyllideb i'r Pwyllgor hwn, rhagwelodd Llywodraeth Cymru y byddai cost y Grant Ffioedd Dysgu yn gostwng o £223 miliwn ar gyfer 2018-19 i £129.9 miliwn ar gyfer 2019-20. A fyddech cystal â diweddaru'r wybodaeth hon ar gyfer 2019-20 a thu hwnt, ac ystyried y defnydd o unrhyw arbedion yng nghostau'r Grant Ffioedd Dysgu yn y gyllideb ar gyfer 2019-20. Yn benodol, rhowch fanylion am unrhyw symiau sydd (a elwir weithiau yn Ddifidend Diamond), ac na ddylid eu 'hail-fuddsoddi' i'r sector Addysg Uwch a lle y cawsant eu hailddyrannu.***

225. Darperir rhagolwg wedi'i ddiweddaru o gost y grant ffioedd dysgu israddedig llawn-amser yn y tabl isod.

**Rhagolwg o gost y grant ffioedd dysgu israddedig llawn-amser**

*Rhagolygon o gostau mewn blynyddoedd ariannol*

| | £000 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** |
| Grant ffioedd dysgu | 223,000 | 134,000 | 59,000 | 14,000 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad mewnol yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru

226. Bydd y mwyafrif o'r arbedion o ddirwyn y grant ffioedd dysgu i ben yn cael eu defnyddio i gyllido'r broses barhaus o gyflwyno'r grantiau cynhaliaeth estynedig i israddedigion a'r grant cyfraniad at gostau ar gyfer myfyrwyr Meistr ôl-raddedig. Darperir rhagolygon o gostau'r polisïau hyn mewn ymateb i'r cais am wybodaeth am y grantiau newydd isod.

227. Mae cyllideb ddrafft 2019-20 yn cynnwys cynnydd mewn cyllid refeniw ar gyfer y sector AU, drwy CCAUC. Gwnaed dyraniadau ychwanegol i gyllideb CCAUC ar gyfer parhad y cynllun bwrsariaeth interim ôl-raddedig a phrentisiaethau gradd hefyd. Nid oes unrhyw gyllid wedi cael ei ddyrannu'r tu allan i Addysg Uwch, ond mae ansicrwydd yn dal i fodoli mewn rhai meysydd ynghylch gofynion cyllidebol. Er enghraifft nid yw'r cyllid sy'n ofynnol gan y Cwmni

Benthyciadau i Fyfyrwyr i barhau i weithredu'r diwygiadau i gyllid myfyrwyr (e.e. cymorth ôl-raddedig ar gyfer myfyrwyr newydd o 2019/20) yn hysbys eto a gallai'r costau i gyllidebau cyllid myfyrwyr fod yn uwch na'r rhagolygon cyfredol. Mae'n debygol y bydd hyn yn golygu y bydd y cyfnod pontio rhwng y system newydd a'r hen system yn fwy drud na gweithredu'r hen system – mae hyn yn debygol o fod yn wir ar gyfer 2017-18, 2018-19 ac o bosibl 2019-20.

***Manylion am unrhyw symiau o fewn y gyllideb ar gyfer 2019-20 a fwriedir i ariannu ail a thrydydd argymhelliad adroddiad Reid. Os na ddyrannwyd unrhyw arian i argymhellion Reid, nodwch y rheswm dros wneud hynny ac asesiad o sut y gallai unrhyw oedi wrth ariannu argymhellion yr adolygiad effeithio ar gyllid ymchwil ac arloesi yng Nghymru ac mae'r sector yn galw am gynnydd cyflym ar argymhellion yr adroddiad.***

228. Ar hyn o bryd, nid oes cyllid ychwanegol yn yr arfaeth yn 2019-20 i gefnogi ail a thrydydd argymhelliad Reid. Rydym yn cytuno y gall y Llywodraeth, gan weithio ar draws sectorau, wneud mwy i gynyddu gweladwyedd a dylanwad ymchwil o Gymru ac fe dderbynion ni'r holl argymhellion mewn egwyddor. Mae argymhellion dau a thri'n ymwneud ag adnoddau yn y dyfodol, y tu hwnt i gyllidebau presennol. Rydym yn croesawu'r cyfeiriad teithio a nodir yn yr argymhellion hyn, a ninnau wedi ymrwymo i dderbyn, mewn egwyddor, yr argymhellion perthnasol o Adolygiad Diamond. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, bod penderfyniadau polisi a chyllido gan Ymchwil ac Arloesi'r DU (UKRI) sydd newydd ei sefydlu yn dal i ddod i'r fei ac rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i ddylanwadu ar y newidiadau hyn ac ymateb iddynt ar ran Cymru ac ymchwil ac arloesi yng Nghymru.

229. Nid yw cadw'r cyllid ar lefelau cyfredol yn debygol o gael unrhyw effaith ar berfformiad y gymuned ymchwil ac arloesi yn y tymor byr.

230. Mewn perthynas ag ail argymhelliad Reid, cymeradwyaeth i'r argymhelliad yn Adolygiad Diamond ynghylch adfer cronfeydd ymchwil ar gyfer y sector AU oedd rhan o hwn. Mae'r gyllideb hon yn cadarnhau ein bod yn bwrw ymlaen â'r diwygiadau i addysg uwch a chyllid myfyrwyr ac yn unol ag ymateb y Llywodraeth i'r adolygiad mae hyn yn ymestyn i ystyried cymorth ychwanegol ar gyfer cyllid ymchwil mewn blynyddoedd ariannol yn y dyfodol fel y bo'n briodol.

***Gwariant a ragwelir yn 2019-20, 2020-21 a 2021-22 ar ddarparu Benthyciadau Meistr a Benthyciadau Doethuriaeth.***

231. Darperir rhagolygon o gost y pecynnau cymorth ôl-raddedig sydd ar gael i fyfyrwyr Meistr a doethuriaeth yn y tabl isod.

**Rhagolwg o gost y polisïau cymorth i fyfyrwyr ôl-raddedig**

*Rhagolygon o gostau mewn blynyddoedd ariannol*

| | £000 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** |
| **Meistr Ôl-raddedig** | | | | |
| Grant cyfraniad at gostau [1] | 0 | 11,000 | 19,000 | 23,000 |
| Benthyciad cyfraniad at gostau | 40,000 | 45,000 | 47,000 | 51,000 |
| Benthyciad cyfraniad at gostau yn ôl RAB | -1,000 | 1,000 | 2,000 | 2,000 |
| **Ôl-raddedig - doethuriaeth** | | | | |
| Benthyciad doethurol | 1,000 | 2,000 | 4,000 | 4,000 |
| Benthyciad doethurol yn ôl RAB | 0 | 1,000 | 1,000 | 1,000 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad mewnol yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru

[1] Nid yw'n cynnwys cyllid a ddarperir ar gyfer CCAUC i weithredu cynllun bwrsariaeth interim ar gyfer myfyrwyr newydd ym mlwyddyn academaidd 2018/19, cyn gweithredu ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamond o 2019/20.

***Gwariant a ragwelir yn 2019-20, 2020-21 a 2021-22 ar Grant Cynhaliaeth Diamond a'r Grant Cynhaliaeth Sylfaenol, gan gynnwys gwariant a ragwelir ar gyfer myfyrwyr a fydd yn astudio mewn sefydliadau yn y DU nad ydynt yng Nghymru.***

232. Darperir rhagolygon wedi'u diweddaru o gostau'r grantiau y trefnir eu bod ar gael i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig, mewn ymateb i argymhellion Adolygiad Diamond, yn y tabl isod. Mae'r rhagolygon hyn yn cynnwys yr elfennau cyffredinol (nad ydynt yn dibynnu ar brawf modd) a'r elfennau sy'n dibynnu ar brawf modd o'r grantiau.

**Rhagolwg o gost grantiau yn dilyn argymhellion Adolygiad Diamond**

*Rhagolygon o gostau mewn blynyddoedd ariannol*

| | £000 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** |
| **Grant cynhaliaeth israddedig llawn-amser** | **162,000** | **199,000** | **231,000** | **252,000** |
| Y mae'r myfyrwyr sy'n ei gael: | | | | |
| yng Nghymru | 98,000 | 120,000 | 140,000 | 152,000 |
| mewn rhannau eraill o'r DU | 64,000 | 79,000 | 91,000 | 100,000 |
| **Grant cynhaliaeth israddedig rhan-amser** | 7,000 | 15,000 | 20,000 | 22,000 |
| Y mae'r myfyrwyr sy'n ei gael: | | | | |
| yng Nghymru | 7,000 | 14,000 | 18,000 | 21,000 |
| mewn rhannau eraill o'r DU | 0 | 1,000 | 1,000 | 1,000 |
| **Grant cyfraniad at gostau ôl-raddedig** | | 11,000 | 19,000 | 23,000 |
| Y mae'r myfyrwyr sy'n ei gael: | | | | |
| yng Nghymru | | 9,000 | 15,000 | 18,000 |
| mewn rhannau eraill o'r DU | | 2,000 | 4,000 | 5,000 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad mewnol yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru

233. Israddedigion llawn-amser o Gymru sydd â'r llif trawsffiniol mwyaf, gyda thua 60% yn aros yng Nghymru i astudio a 40% yn mynychu sefydliad mewn rhan arall o'r DU. O'i gyferbynnu, mae'r mwyafrif helaeth (dros 90%) o israddedigion rhan-amser yn astudio mewn sefydliad yng Nghymru. Mae disgwyl i ychydig dros dri chwarter (76%) yr ôl-raddedigion astudio mewn sefydliad yng Nghymru. Caiff y rhaniadau hyn rhwng lleoliadau eu hadlewyrchu yn y rhagolygon o gostau uchod.

**Cymorth Myfyrwyr - Cyffredinol**

***Gwariant a ragwelir yn 2019-20, 2020-21 a 2021-22 ar grantiau cymorth myfyrwyr Llywodraeth Cymru sy'n weddill, gan gynnwys Addysg Bellach - Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg.***

234. Mae rhagolygon wedi'u diweddaru ar gyfer polisïau cyllid myfyrwyr nad ydynt yn cael sylw uchod wedi'u darparu yn y tabl isod. Disgwylir i'r costau aros yn gymharol ddigyfnewid dros y blynyddoedd nesaf.

**Rhagolwg o gostau grantiau wedi'u targedu ar gyfer myfyrwyr AU a chymorth i fyfyrwyr AB**

*Rhagolygon o gostau mewn blynyddoedd ariannol*

| | £000 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** |
| Grantiau a lwfansau wedi'u targedu [1] | 19,000 | 19,000 | 19,000 | 19,000 |
| Lwfans Cynhaliaeth Addysg (AB) | 18,000 | 18,000 | 18,000 | 18,000 |
| Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (AB) | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 5,000 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad mewnol yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru

[1] Mae'n cynnwys Grantiau i Ddibynyddion, Lwfansau Myfyrwyr Anabl a Grantiau Teithio.

**Crynodeb**

235. Cyflwynir Cyllideb Ddrafft y MEG Addysg ar gyfer 2019-20 i'r Pwyllgor er mwyn iddo'i hystyried.

**Kirsty Williams AC**
**Aelod Cabinet dros Addysg**

**Eluned Morgan AC**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**

**Crynodeb ar lefel camau gweithredu**

Fel y gofynnodd y y Pwyllgor, darperir crynodeb isod o newidiadau yn y gyllideb ddrafft yn ôl Camau Gweithredu sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn. Fel y nodir yn y papur, mae'r crynodeb yn adlewyrchu newidiadau ers ffigyrau'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2018-19 (fel y cymharydd o flwyddyn i flwyddyn) a Chyllideb derfynol 2018-19 (fel y ffigwr sylfaen).

***Cam Gweithredu Llythrennedd a Rhifedd***

| Cyllideb Atodol 2018-19 Mehefin 2018 £000 | Dyraniadau ar gyfer 2019-20 fel yng Nghyllideb Derfynol 2018-19 £000 | Newidiadau 2019-20 £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|
| 7,456 | 6,556 | - | 6,556 |

- Mae'r gyllideb yn cyllido ystod o ymyriadau i gefnogi'r agenda gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd plant a phobl ifanc. Mae cyllid o fewn y Cam Gweithredu hwn yn rhoi cymorth yn benodol i gyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y Rhaglen Llythrennedd a Rhifedd Genedlaethol. Mae'r gyllideb hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a darparu'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol a chyflwyno, dros gyfnod o dair blynedd, asesiadau wedi'u personoli a gynhelir ar-lein.

- Fodd bynnag, mae llythrennedd a rhifedd wedi'u sefydlu ar draws y broses o gyflawni polisïau addysg. Mae'r arlwy cymorth ar gyfer llythrennedd a rhifedd eisoes yn cael ei darparu mewn dull effeithiol ac effeithlon gan gonsortia drwy Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol, sy'n cynnwys llythrennedd a rhifedd fel blaenoriaethau o fewn ei gylch gwaith. Mae hyn yn ychwanegu'n sylweddol at gyfanswm y cymorth a gynigir ar gyfer y sgiliau hyn mewn ysgolion.

- Mae cyllid Buddsoddi i Arbed sy'n gyfanswm o £8.5 miliwn wedi cael ei gymeradwyo, a hwnnw'n rhychwantu'r cyfnod rhwng 2016-17 a 2019-20, gydag ad-daliadau'n dilyn am bum mlynedd bellach o 2020-21 tan 2024-25. Mae hyn yn cynrychioli tua 75% o gostau amcangyfrifiedig datblygu a darparu'r profion addasol ar-lein. Mae'r gyllideb ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd yn cynnwys dyraniadau Buddsoddi i Arbed o £3 miliwn ar gyfer 2018-19 a £2.1 miliwn ar gyfer 2019-20. Nid oes unrhyw newidiadau i'r cynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer 2019-20.

***Cam Gweithredu'r Cwricwlwm***

| Cyllideb Atodol 2018-19 Mehefin 2018 £000 | Dyraniadau ar gyfer 2019-20 fel yng Nghyllideb Derfynol 2018-19 | Newidiadau 2019-20 £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|

| | £000 | | |
|---|---|---|---|
| 13,517 | 13,233 | (1,403) | 11,830 |

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cynnwys BEL y Cyfnod Sylfaen (gwaith polisi yn unig, gan fod darparu cyllid bellach yn perthyn i'r Grant Gwella Addysg o fewn y Cam Gweithredu Safonau Addysg), BEL y Cwricwlwm ac Asesu ac Adolygu'r Cwricwlwm. Mae'r gyllideb yn gostwng £1.403 miliwn o'i gymharu â chynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer 2019-20.

- Mae'r gostyngiad hwn yn ymwneud â'r prosiect Cynnydd ar gyfer Llwyddiant a gyllidir ag arian o Gronfa Gymdeithasol Ewrop, yn seiliedig ar yr incwm o Gronfa Gymdeithasol Ewrop a broffiliwyd ar gyfer 2019-20. Mae grant Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer 2019-20 yn talu am holl wariant y Rhaglen gyfredol ac, o ganlyniad, nid yw'n ofynnol darparu unrhyw gyllid cyfatebol ychwanegol o BEL y Cyfnod Sylfaen i gefnogi'r prosiect hwn. Felly ni fydd y gostyngiad yn effeithio ar y gwaith hwn – os caiff y cynllun busnes ei gymeradwyo bydd grant Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn cefnogi'r estyniad i raglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a bydd capasiti o fewn y cyllidebau Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar (o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) yn ein galluogi i gyflwyno darpariaeth debyg yn Nwyrain Cymru i hwyluso Rhaglen Genedlaethol.

- Mae'r cynlluniau ar gyfer 2019-20 yn cynnwys y gostyngiadau a gyflwynwyd yng nghyllideb ddrafft y llynedd i adlewyrchu; y gostyngiad arfaethedig mewn cymorth ar gyfer Techniquest a Techniquest Glyndŵr (£0.220 miliwn) a diwedd rhaglen addysg coffau'r Rhyfel Byd Cyntaf (£0.054 miliwn).

- Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys £1 filiwn i gefnogi Blaenoriaethau Cerddoriaeth yn 2018-19 a 2019-20 fel rhan o'r cytundeb dwy flynedd ar y Gyllideb gyda Phlaid Cymru.

***Cam Gweithredu Addysgu ac Arweinyddiaeth***

| Cyllideb Atodol 2018-19 Mehefin 2018 £000 | Dyraniadau ar gyfer 2019-20 fel yng Nghyllideb Derfynol 2018-19 £000 | Newidiadau 2019-20 £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|
| 18,804 | 18,664 | 15,000 | 33,664 |

- Mae'r gyllideb yn cefnogi'r cyllid ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer gweithwyr addysgu proffesiynol, gan gynnwys y rhwydwaith Ysgolion Arloesi. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer cymhelliant hyfforddi athrawon (AU ac AB), y Rhaglen Athrawon Graddedig (GTP), ynghyd â'r Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) ran-amser newydd, i ddarparu dewis arall o ansawdd da yn lle astudiaeth AGA lawn-amser, a'r Llwybr sy'n Seiliedig ar Gyflogaeth (EBR) newydd, a fydd yn golygu bod darpar athro/athrawes yn cael ei g/chyflogi gan ysgol o'r dechrau un. Mae hefyd yn cyllido Cyngor y Gweithlu Addysg i weinyddu Statws Athro Cymwysedig a'r

Rhaglen Sefydlu mewn ysgolion, gan gynnwys dosbarthu cyllid i gefnogi trefniadau mentora a chymorth ar gyfer ANG.

- Mae'r gyllideb yn cynyddu £15 miliwn, o'i gymharu â chynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer 2019-20, o ganlyniad i'r £15 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd yng Nghyllideb ddrafft amlinellol 2019-20 ar gyfer ysgolion.

- Mae'r gyllideb sylfaen ar gyfer 2019-20 yn cynnwys gostyngiad o £0.2 miliwn ar gyfer y Rhaglen Gradd Meistr, a gyflwynwyd yng nghyllideb y llynedd, o ganlyniad i'r ffaith bod y contract yn dod i ben yn naturiol.

***Cam Gweithredu Cymwysterau***

| Cyllideb Atodol 2018-19 Mehefin 2018 £000 | Dyraniadau ar gyfer 2019-20 fel yng Nghyllideb Derfynol 2018-19 £000 | Newidiadau 2019-20 £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|
| 8,142 | 8,142 | 115 | 8,257 |

- Yn sgil *Deddf Cymwysterau Cymru 2015* sefydlwyd Cymwysterau Cymru fel y corff rheoleiddio annibynnol ar gyfer cymwysterau yng Nghymru ac mae'n rhoi prif nodau i'r sefydliad ynghyd ag ystod o swyddogaethau sy'n ymwneud â'r system cymwysterau a'r cymwysterau a ddyfernir yng Nghymru. Cyllidir Cymwysterau Cymru â grant gan Weinidogion Cymru.

- Mae'r gyllideb wedi cynyddu £0.115 miliwn ar gyfer 2019-20, i adlewyrchu'r costau nad ydynt yn arian parod sy'n deillio o amorteiddiad y gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru. Mae hyn yn cynyddu cyfanswm y gyllideb nad yw'n arian parod ar gyfer Cymwysterau Cymru i £0.215 miliwn. Nid oes unrhyw newidiadau i gyllideb cymorth grant Cymwysterau Cymru ar gyfer 2019-20 sy'n aros ar £8.042 miliwn.

***Cam Gweithredu Addysg Ôl-16***

| Cyllideb Atodol 2018-19 Mehefin 2018 £000 | Dyraniadau ar gyfer 2019-20 fel yng Nghyllideb Derfynol 2018-19 £000 | Newidiadau 2019-20 £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|
| 408,946 | 400,819 | 19,492 | 420,311 |

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cynnwys cyllid ar gyfer dysgu yn chweched dosbarth awdurdodau lleol, mewn lleoliadau Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL), a Sefydliadau Addysg Bellach (SABau). Defnyddir swm bach o'r adnodd i gefnogi mentrau a gweithgareddau gwella ansawdd newydd; yn ogystal â chyllid i roi cymorth i ddarparu'r rhwydweithiau Seren sy'n cynorthwyo ein dysgwyr mwyaf abl a thalentog i symud ymlaen i brifysgolion Ymddiriedolaeth Sutton.

- Mae'r gwerth is o £8.127 miliwn rhwng cynlluniau Cyllideb Atodol 2018-19 a Chyllideb Derfynol 2018-19 fel a ganlyn:
    - gostyngiad i gyllid ar gyfer Chweched Dosbarth £9.827 miliwn;
    - cynnydd net o £1.7 miliwn ar gyfer sgiliau diwydiannol.

- Bu cynnydd yn y gyllideb ar gyfer y Cam Gweithredu Addysg Ôl-16 yn 2019-20 o'i gymharu â Chyllideb Derfynol 2018-19 o £19.492 miliwn. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:
    - trosglwyddiad i mewn o £1.591 miliwn o'r BEL Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg ar gyfer JISC;
    - trosglwyddiad o £7.207 miliwn o'r Cronfeydd wrth Gefn fel rhan o'r cyllid o £18.3 miliwn ar gyfer Ffyniant i Bawb sydd, ar y cyd â'r £2.620 miliwn ychwanegol o'r Cronfeydd wrth Gefn yng Nghyllideb Ddrafft 2018-19, yn gwrthdroi yn llawn y toriad o £9.827 miliwn ar gyfer Chweched Dosbarth mewn Ysgolion a gyflwynwyd yng nghyllideb y llynedd;
    - cynnydd o £7 miliwn yn sgil ailflaenoriaethu o fewn y MEG Addysg, i roi cymorth ar gyfer cynnydd demograffig o 2.5% a ragwelir mewn dysgwyr 16-19;
    - dyraniad i mewn o'r Cronfeydd wrth Gefn o £1.074 miliwn i gyllido'r dyfarniad cyflog ar gyfer athrawon ysgol, yn benodol ar gyfer athrawon yn y chweched dosbarth mewn ysgolion, a fydd yn dal i gael ei gyllido y tu allan i'r setliad llywodraeth leol.

***Cam Gweithredu Addysg Uwch***

| Cyllideb Atodol 2018-19 Mehefin 2018 £000 | Dyraniadau ar gyfer 2019-20 fel yng Nghyllideb Derfynol 2018-19 £000 | Newidiadau 2019-20 £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|
| 121,519 | 129,760 | 11,382 | 141,142 |

- Mae'r cynnydd o £8 miliwn rhwng cynlluniau Cyllideb Atodol 18-19 a Chyllideb Derfynol 18-19 fel a ganlyn:
    - cynnydd o £5 miliwn fel penderfyniad i rewi ffioedd dysgu;
    - cynnydd o £3 miliwn mewn perthynas â phrentisiaethau gradd.

- Mae'r gyllideb ar gyfer y Cam Gweithredu Addysg Uwch wedi cynyddu £11.382 miliwn yn 2019-20 o'i gymharu â Chyllideb Derfynol 2018-19. Mae hyn yn cynnwys y trosglwyddiadau canlynol:
    - £5.0 miliwn o'r BEL Dysgu Seiliedig ar Waith mewn perthynas â phrentisiaethau gradd;
    - £5.0 miliwn o'r BEL Grantiau Cymorth Myfyrwyr i gyllido parhad y cynllun bwrsariaethau interim ôl-raddedig;
    - £1.382 miliwn o'r Cronfeydd wrth Gefn i dalu am gyllid Cymru Fyd-eang dan y gyfran gyntaf o Gyllid Pontio o'r UE

- Fel rhan o'r cytundeb ar y gyllideb gyda Phlaid Cymru, mae cyllid yn y gyllideb ar gyfer 2018-19 a'r gyllideb sylfaen ar gyfer 2019-20 yn cynnwys cyllid o £20

miliwn i gefnogi Addysg Uwch ac Addysg Bellach a fydd yn galluogi'r sectorau i baratoi ar gyfer rhoi ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamond ar waith. Yn unol â chanfyddiadau Adolygiad Diamond, bydd yr arian hwn yn rhoi anogaeth ar gyfer cydweithio agosach rhwng y sectorau yn barod ar gyfer diwygiadau i Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PCET).

- Mae'r gyllideb o fewn BEL cyfalaf CCAUC (Dibrisiant) o £0.090 miliwn wedi cael ei chynnal ar lefelau 2018-19.

***Cam Gweithredu Safonau Addysg***

| Cyllideb Atodol 2018-19 Mehefin 2018 £000 | Dyraniadau ar gyfer 2019-20 fel yng Nghyllideb Derfynol 2018-19 £000 | Newidiadau 2019-20 £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|
| 152,889 | 137,296 | 19,757 | 157,053 |

- Yn seiliedig ar gynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol, rhagfynegwyd y byddai'r Grant Gwella Addysg yn gostwng £11.093 miliwn yn 2019-20. Mae'r gostyngiad llawn o £11.093 miliwn wedi cael ei wrthdroi yn y gyllideb hon, drwy drosglwyddo rhan o'r cyllid *Ffyniant i Bawb* (sy'n gyfanswm o £18.3 miliwn) a ddyrannwyd yng Nghyllideb Derfynol 2018-19.

- Mae £8.7 miliwn pellach wedi cael ei ddyrannu o'r Cronfeydd wrth Gefn i'r BEL Grant Gwella Ysgolion yn 2019-20 ar gyfer dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, i gefnogi gwaith parhaus awdurdodau lleol i ddatblygu model cynaliadwy. Mae £8.7 miliwn yn ychwanegol wedi cael ei ddyrannu ar gyfer 2018-19 hefyd, yr oedd £5 miliwn ohono wedi'i gyflwyno yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2018-19. Bydd y £3.7 miliwn sy'n weddill yn cael ei ffurfioli yn Ail Gyllideb Atodol 2018-19.

- Mae'r BEL Llywodraethu Ysgolion wedi gostwng £0.036 miliwn, sy'n cynrychioli tynnu'r arian yn ei gyfanrwydd allan o'r BEL o 2019-20. Mae hyn yn dilyn gostyngiadau arfaethedig yng nghyllideb y llynedd o £1.088 miliwn ar gyfer Llywodraethwyr Cymru (£0.282 miliwn), y Gwasanaethau Ymchwilio Annibynnol (£0.106 miliwn) a'r Grant Gwisg Ysgol (grant llawn o £0.7 miliwn). Nid yw'r £0.036 miliwn sy'n weddill yn ofynnol mwyach yn dilyn y penderfyniad i ddirwyn contract y Gwasanaeth Ymchwilio Annibynnol i ben ar ddiwedd mis Gorffennaf 2018. Mae'r cymorth sy'n disodli'r Grant Gwisg Ysgol, Cronfa Mynediad y Grant Datblygu Disgyblion, bellach yn cael ei gyllido â'r BEL Grant Datblygu Disgyblion.

- Nid oes unrhyw newidiadau i'r BEL Codi Safonau Ysgolion, sy'n cynnwys dyraniad o £25 miliwn ar gyfer 2018-19 a £25.5 miliwn ar gyfer 2019-20, fel rhan o'n buddsoddiad o £100 miliwn dros dymor y Cynulliad hwn.

***Cam Gweithredu Grant Datblygu Disgyblion***

| Cyllideb Atodol | Dyraniadau ar gyfer | Newidiadau 2019-20 | Cynlluniau Newydd |
|---|---|---|---|

| 2018-19<br>Mehefin 2018<br>£000 | 2019-20<br>fel yng<br>Nghyllideb Derfynol<br>2018-19<br>£000 | £000 | Cyllideb Ddrafft<br>2019-20<br><br>£000 |
|---|---|---|---|
| 95,523 | 93,746 | 3,554 | 97,300 |

- Mae BEL y Grant Datblygu Disgyblion wedi cynyddu £3.554 miliwn yn 2019-20 yn dilyn y dyraniad o Gronfeydd wrth Gefn i gynnal ac ehangu ymhellach Gronfa Mynediad y Grant Datblygu Disgyblion, i gefnogi rhieni a theuluoedd ledled Cymru. Yn y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2018-19, trosglwyddwyd £1.777 miliwn o gyllid i gefnogi Cronfa Mynediad y Grant Datblygu Disgyblion o ddechrau'r flwyddyn academaidd hon.

- Nid oes unrhyw newidiadau i'r gyllideb ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion yn 2019-20.

***Cam Gweithredu TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth***

| Cyllideb Atodol<br>2018-19<br>Mehefin 2018<br>£000 | Dyraniadau ar gyfer<br>2019-20<br>fel yng<br>Nghyllideb Derfynol<br>2018-19<br>£000 | Newidiadau 2019-20<br><br>£000 | Cynlluniau Newydd<br>Cyllideb Ddrafft<br>2019-20<br><br>£000 |
|---|---|---|---|
| 6,609 | 6,609 | (2,139) | 4,470 |

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cefnogi trefniadau darparu'r cwricwlwm drwy ddarparu mynediad at ystod o offer ac adnoddau addysgu digidol o ansawdd da, gan gynnwys: Hwb drwy'r rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol; y prosiect Rhif Dysgwr Unigryw; a systemau rheoli data mewnol.

- Bu gostyngiad o £2 filiwn i'r gyllideb hon o ganlyniad i ddau drosglwyddiad o fewn y MEG sy'n deillio o newidiadau gweinyddol:
  - £1.591 miliwn i'r Cam Gweithredu Addysg Bellach (BEL Darpariaeth Addysg Bellach) ar gyfer JISC, rhwydwaith cydwasanaethau ar lefel y DU ar gyfer addysg ôl-16;
  - £0.548 miliwn i'r Cam Gweithredu Cyflogaeth a Sgiliau (BEL Cyflogadwyedd a Sgiliau) ar gyfer Cynnal a Chadw a Chymorth Cymwysiadau.

***Cam Gweithredu Llesiant Plant a Phobl Ifanc***

| Cyllideb Atodol<br>2018-19<br>Mehefin 2018<br>£000 | Dyraniadau ar gyfer<br>2019-20<br>fel yng<br>Nghyllideb Derfynol<br>2018-19<br>£000 | Newidiadau 2019-20<br><br>£000 | Cynlluniau Newydd<br>Cyllideb Ddrafft<br>2019-20<br><br>£000 |
|---|---|---|---|
| 18,997 | 18,997 | - | 18,997 |

- Mae'r mwyafrif o'r Cam Gweithredu hwn yn cyllido'r lleoliadau arbenigol mewn colegau preswyl ar gyfer myfyrwyr ôl-16 ag anawsterau dysgu difrifol (BEL Lleoliadau Arbenigol Ôl-16). Mae'r cyllid hwn yn statudol ac yn seiliedig ar y galw yn unol â dyletswyddau Gweinidogion Cymru dan y Ddeddf Dysgu a Sgiliau. Ni fu unrhyw newidiadau i'r gyllideb ar gyfer 2019-20 sy'n dal i fod yn £12.481 miliwn. Mae darpariaeth AB arbenigol yn hanfodol i sicrhau bod y bobl ifanc anabl hynny nad yw eu hanghenion yn gallu cael eu diwallu yn eu coleg lleol yn gallu cael mynediad at addysg bellach a hyfforddiant sy'n addas ar gyfer eu hanghenion.

- Rydym wedi parhau i ddiogelu cyllid o fewn y BEL Bwyd a Maethiad mewn Ysgolion ar gyfer y Cynllun Llaeth mewn Ysgolion yn y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 2 yn ôl cyfradd cymorthdaledig.

- Nid oes newidiadau yn yr arfaeth i'r BEL Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer 2019-20, er mwyn cefnogi ein rhaglen uchelgeisiol o ddiwygiadau i ADY.

***Cam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16***

| **Cyllideb Atodol 2018-19 Mehefin 2018 £000** | **Dyraniadau ar gyfer 2019-20 fel yng Nghyllideb Derfynol 2018-19 £000** | **Newidiadau 2019-20 £000** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £000** |
|---|---|---|---|
| 582,988 | 563,172 | (10,561) | 552,611 |

- Mae'r gyllideb ar gyfer y BEL Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr yn perthyn o fewn y Cam Gweithredu hwn. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys cyfrifon y rhaglen cymorth i fyfyrwyr statudol seiliedig ar y galw ar gyfer Addysg Uwch (AU) ac Addysg Bellach (AB). Mae'r gyllideb yn cefnogi Grantiau a Ffioedd Rhan-amser, Grantiau wedi'u Targedu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, Grantuiau Cymorth i Fyfyrwyr, Grant Ffioedd Dysgu a'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg.

- Bu gostyngiad ers Cyllideb Derfynol 2018-19 o (£10.561 miliwn). Mae'r elfennau sy'n cyfrannu at y gostyngiad net fel a ganlyn:

    - trosglwyddiad o £5.0 miliwn i BEL Gwariant CCAUC i gyllido parhad y cynllun bwrsariaethau interim ôl-raddedig;
    - gostyngiad o £5.561 miliwn i gael ei ailflaenoriaethu o fewn y MEG Addysg ac yn seiliedig ar yr amcangyfrif diweddaraf o niferoedd y myfyrwyr sy'n mynd i mewn i'r system a'r tueddiadau demograffig parhaus mewn AU. Ni fydd hyn yn rhoi unrhyw fyfyriwr dan anfantais gan fod yr hawl gyfreithiol i gymorth wedi'i sefydlu mewn deddfwriaeth.

- Rydym wedi cynnal ein hymrwymiad i roi cymorth ariannol i fyfyrwyr o'r aelwydydd ar yr incwm isaf yn 2018-19 ac 19-20 drwy barhau i roi'r mwyaf o gymorth i'r myfyrwyr y mae ei angen fwyaf arnynt.

***Cam Gweithredu Ennyn Diddordeb Disgyblion***

| **Cyllideb Atodol 2018-19 Mehefin 2018 £000** | **Dyraniadau ar gyfer 2019-20 fel yng Nghyllideb Derfynol 2018-19 £000** | **Newidiadau 2019-20 £000** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £000** |
|---|---|---|---|
| 515 | 515 | - | 515 |

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cyllido gweithgareddau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer prosiectau bach a gwella canlyniadau i ddysgwyr agored i niwed/difreintiedig drwy wella llesiant, ymddygiad a phresenoldeb mewn ysgolion; ennyn ymgysylltiad teuluoedd a chymunedau; lleihau gwaharddiadau; gwella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol.

- Nid oes unrhyw newidiadau i'r BEL Trechu Dadrithiad o £0.515 miliwn ar gyfer 2019-20.

***Cam Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid***

| Cyllideb Atodol 2018-19 Mehefin 2018 £000 | Dyraniadau ar gyfer 2019-20 fel yng Nghyllideb Derfynol 2018-19 £000 | Newidiadau 2019-20 £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|
| 8,154 | 8,154 | 2,500 | 10,654 |

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cyllido nifer o grantiau cymorth ieuenctid i gefnogi gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol yng Nghymru a darpariaeth gweithgarwch i gefnogi'r gwaith parhaus o weithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (BEL Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid). Hefyd, mae'r Cam Gweithredu'n rhoi cyllid i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) i gefnogi darpariaeth dysgu a sgiliau carcharorion mewn carchardai oedolion. Mae cyllid ar gael hefyd ar gyfer prosiectau peilot arloesol sy'n cefnogi'r agenda dysgu gan droseddwyr, ac i gefnogi darpariaeth sgiliau hanfodol ar gyfer y rhai sy'n bwrw dedfrydau yn y gymuned (BEL Dysgu gan Droseddwyr).

- Mae £2.5 miliwn yn ychwanegol wedi cael ei ddyrannu o'r Cronfeydd wrth Gefn yn y gyllideb hon i'r BEL Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid ar gyfer gwaith ieuenctid a gwella gwasanaethau iechyd meddwl. Ceir rhagor o wybodaeth am y dyraniad hwn yn y papur tystiolaeth.

***Cam Gweithredu Cymraeg mewn Addysg***

| Cyllideb Atodol 2018-19 Mehefin 2018 £000 | Dyraniadau ar gyfer 2019-20 fel yng Nghyllideb Derfynol 2018-19 £000 | Newidiadau 2019-20 £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|
| 31,361 | 31,361 | (2,000) | 29,361 |

- Mae Cymraeg mewn Addysg yn cefnogi'r broses o weithredu *Cymraeg 2050*, sy'n cynnwys:
  - cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg;
  - darparu hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr drwy'r Cynllun Sabothol;
  - darparu hyfforddiant iaith Gymraeg drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol;
  - comisiynu adnoddau dysgu ac addysgu;
  - ymchwil, gwerthuso a marchnata mewn perthynas â'r strategaeth;
  - cyllid ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

- Mae'r cyllidebau ar gyfer 2018-19 a 2019-20 yn cynnwys cyfanswm o £6.5 miliwn y flwyddyn o ganlyniad i'r cytundeb dwy flynedd ar y Gyllideb gyda Phlaid Cymru, gyda chyllid ar gyfer y canlynol:
  - £0.5 miliwn ar gyfer darpariaeth well o ran adnoddau addysg dwyieithog;
  - £1 filiwn ar gyfer Mudiad Meithrin;

- £5 miliwn ar gyfer cyllid y Gymraeg (cylchol).

- Nid yw'r gostyngiad o £2 filiwn i'r Cam Gweithredu Cymraeg mewn Addysg yn cynrychioli toriad yn y cyllid ar gyfer y Gymraeg. Mae'n gysylltiedig â throsglwyddiad o £2 filiwn i Gam Gweithredu'r Gymraeg i hyrwyddo'r Gymraeg, gan adeiladu ar weithgareddau a ddechreuodd yn 2017-18. Mae hyn yn rhan o'r cyllid o £5 miliwn ar gyfer y Gymraeg a gytunwyd gyda Phlaid Cymru.

***Y Gymraeg***

| Cyllideb Atodol 2018-19 Mehefin 2018 £000 | Dyraniadau ar gyfer 2019-20 fel yng Nghyllideb Derfynol 2018-19 £000 | Newidiadau 2019-20 £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|
| 6,964 | 6,964 | 2,000 | 8,964 |

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cefnogi gweithgareddau a rhaglenni dan thema 2 (Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg) a thema 3 (Creu amodau ffafriol) yn y strategaeth.

- Mae BEL y Gymraeg o fewn y Cam Gweithredu hwn, sydd â dyraniad o £5.913 miliwn, yn cefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru *Cymraeg 2050*, sy'n cynnwys ymrwymiad ar draws y Llywodraeth i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r gyllideb wedi cynyddu £2 filiwn yn 2019-20, sy'n adlewyrchu trosglwyddo elfen o'r cyllid o £5 miliwn yn y cytundeb ar y Gyllideb gyda Phlaid Cymru o'r Cam Gweithredu Cymraeg mewn Addysg i hyrwyddo'r Gymraeg.

- Nid oes unrhyw newidiadau i BEL Comisiynydd y Gymraeg o £3.051 miliwn i gefnogi gwaith Comisiynydd y Gymraeg mewn ystod eang o swyddogaethau a phwerau sy'n cynnwys:
  - sicrhau y cydymffurfir â safonau'r Gymraeg;
  - hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg;
  - cynnal ymchwiliadau i honiadau o ymyrryd â rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd; a
  - Datblygu terminoleg y Gymraeg.

***Cam Gweithredu Cymorth i Gyflawni***

| Cyllideb Atodol 2018-19 Mehefin 2018 £000 | Dyraniadau ar gyfer 2019-20 fel yng Nghyllideb Derfynol 2018-19 £000 | Newidiadau 2019-20 £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|
| 1,570 | 1,501 | - | 1,501 |

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cyllido marchnata a chyfathrebu, ymchwil a'r Rhaglen Addysg Ryngwladol. Nid oes unrhyw newidiadau yn yr arfaeth i'r gyllideb hon ar gyfer 2019-20. Mae'r gyllideb sylfaen ar gyfer 2019-20 yn

cynnwys nifer o ostyngiadau a gyflwynwyd yng nghyllideb y llynedd, gan gynnwys:

- £0.045 miliwn ar gyfer y BEL Cyfathrebu Strategol, o ganlyniad i'r ffaith bod Rhaglen Remploy wedi dod i ben yn naturiol (£0.028 miliwn) a thrwy wneud mwy o ddefnydd o adnoddau digidol a datblygu ymgyrchoedd mewnol (£0.017 miliwn);
- £0.024 miliwn ar gyfer y gyllideb Tystiolaeth ac Ymchwil yn seiliedig ar broffil taliadau ar gyfer PISA 2018.

***Ffyniant i Bawb***

| Cyllideb Atodol 2018-19 Mehefin 2018 £000 | Dyraniadau ar gyfer 2019-20 fel yng Nghyllideb Derfynol 2018-19 £000 | Newidiadau 2019-20 £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|
| 0 | 18,300 | (18,300) | 0 |

- Yng Nghyllideb derfynol 2018-19, o ganlyniad i gyllid ychwanegol a oedd ar gael yn dilyn Cyllideb y DU, dyrannwyd £18.3 miliwn yn ychwanegol i'r MEG Addysg i roi cymorth i gyflawni Ffyniant i Bawb. Cafodd hwn ei ddyrannu i BEL newydd o fewn y MEG nes bod penderfyniadau terfynol wedi cael eu gwneud ynghylch defnyddio'r cyllid hwn.

- Yn y gyllideb ddrafft hon, mae'r cyllid o £18.3 miliwn wedi cael ei ddyrannu fel a ganlyn:
  - £11.093 miliwn i'r BEL Grant Gwella Ysgolion i wrthdroi'r gostyngiad llawn i'r Grant Gwella Addysg a gyflwynwyd yng nghyllideb y llynedd;
  - £7.207 miliwn i'r BEL Darpariaeth Addysg Bellach sydd, ar y cyd â'r £2.620 miliwn yn ychwanegol o'r Cronfeydd wrth Gefn yng Nghyllideb Ddrafft 2018-19, yn gwrthdroi'n llawn y toriad o £9.827 miliwn ar gyfer Chweched Dosbarth Ysgolion a gyflwynwyd yng nghyllideb y llynedd.

***Cyfalaf – Cam Gweithredu Ystadau a Darpariaeth TG***

| Cyllideb Atodol 2018-19 Mehefin 2018£000 | Dyraniadau ar gyfer 2019-20 fel yng Nghyllideb Derfynol 2018-19 £000 | Newidiadau 2019-20 £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £000 | Dyraniadau ar gyfer 2020-21 fel yng Nghyllideb Derfynol 2018-19 £000 | Newidiadau 2020-21 £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 203,627 | 176,674 | 29,809 | 206,483 | 154,750 | 24,805 | 179,555 |

- Mae'r gyllideb hon yn cefnogi Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif sy'n fuddsoddiad strategol yn ein seilwaith addysg. Mae'n cael ei chyflawni mewn dwy don; Band A a Band B. Bydd y gyllideb hefyd yn cael ei defnyddio i ateb unrhyw ofynion o ran cyllid cyfalaf i gyflawni ein blaenoriaethau addysg, gan

gynnwys maint dosbarthiadau. Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys cyllid cyfalaf ar gyfer y Cynnig Gofal Plant o £60 miliwn dros dair blynedd (2018-2021).

- Mae'r cyllid a ddyrannwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2018-19 ar gyfer: Rhesymoli'r Ystâd AU (£10 miliwn y flwyddyn yn 2018-19, 2019-20 a 2020-21); cymorth ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol yn y sector AB (£5 miliwn y flwyddyn yn 2018-19 a 2019-20); ac offer o'r un safon â byd diwydiant yn y sector AB (£5 miliwn y flwyddyn yn 2018-19 a 2019-20) yn dal wedi'i gynnwys yn y gyllideb hon.

- Yng Nghyllideb Ddrafft 2019-20 rydym wedi dyrannu £29.8 miliwn yn ychwanegol a £24.8 miliwn yn 2019-20 a 2020-21. Caiff diben y dyraniadau ychwanegol ei nodi yn y papur tystiolaeth.

## PRIF GRŴP GWARIANT (MEG) ADDYSG

### CYLLIDEB ADNODDAU

| Cam gweithredu | Disgrifiad BEL | Alldro Terfynol 2017-18 | Cyllideb Atodol 2018-19 Mehefin 2018 | Rhagolwg 2018-19 (Cyfnod 6) | Cynlluniau 2019-20 yn unol â Chyllideb Derfynol 2018-19 | Newidiadau | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llythrennedd a rhifedd** | Llythrennedd a Rhifedd | 6,290 | 7,456 | 6,513 | 6,556 | 0 | 6,556 |
| | **Cyfanswm Llythrennedd a rhifedd** | **6,290** | **7,456** | **6,513** | **6,556** | **0** | **6,556** |
| **Cwricwlwm** | Cwricwlwm ac Asesu | 4,750 | 6,566 | 6,498 | 6,282 | 0 | 6,282 |
| | Adolygu'r Cwricwlwm | 5,190 | 5,400 | 6,100 | 5,400 | 0 | 5,400 |
| | Y Cyfnod Sylfaen | 1,663 | 1,551 | 148 | 1,551 | -1,403 | 148 |
| | **Cyfanswm Cwricwlwm** | **11,603** | **13,517** | **12,746** | **13,233** | **-1,403** | **11,830** |
| **Addysgu ac Arwain** | Datblygu a Chefnogi Athrawon | 16,366 | 18,804 | 30,624 | 18,664 | 15,000 | 33,664 |
| | **Cyfanswm Addysgu ac Arwain** | **16,366** | **18,804** | **30,624** | **18,664** | **15,000** | **33,664** |
| **Cymwysterau** | Cymwysterau Cymru | 7,211 | 8,142 | 8,265 | 8,142 | 115 | 8,257 |
| | **Cyfanswm Cymwysterau** | **7,211** | **8,142** | **8,265** | **8,142** | **115** | **8,257** |
| **Addysg Ôl-16** | Darpariaeth Addysg Bellach | 409,876 | 408,946 | 412,168 | 400,819 | 19,492 | 420,311 |
| | **Cyfanswm Addysg Ôl-16** | **409,876** | **408,946** | **412,168** | **400,819** | **19,492** | **420,311** |
| **Addysg Uwch** | Gwariant Rhaglenni CCAUC | 114,572 | 121,429 | 122,216 | 129,670 | 11,382 | 141,052 |
| | Cyfalaf CCAUC | 90 | 90 | 90 | 90 | 0 | 90 |
| | **Cyfanswm Addysg Uwch** | **114,662** | **121,519** | **122,306** | **129,760** | **11,382** | **141,142** |
| **Safonau Addysg** | Llywodraethu Ysgolion | 1,010 | 36 | 78 | 36 | -36 | 0 |
| | Grant Gwella Ysgol | 155,592 | 126,659 | 130,359 | 110,566 | 19,793 | 130,359 |
| | Gwella Safonau Mewn Ysgolion | 20,147 | 25,000 | 25,000 | 25,500 | 0 | 25,500 |
| | Cymorth gyda Safonau Ysgolion | 2,290 | 1,194 | 1,194 | 1,194 | 0 | 1,194 |
| | **Cyfanswm Safonau Addysg** | **179,039** | **152,889** | **156,631** | **137,296** | **19,757** | **157,053** |
| **Grant Datblygu Disgyblion** | Grant Datblygu Disgyblion | 91,982 | 95,523 | 96,250 | 93,746 | 3,554 | 97,300 |
| | **Cyfanswm Grant Datblygu Disgyblion** | **91,982** | **95,523** | **96,250** | **93,746** | **3,554** | **97,300** |
| **TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth** | Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg | 6,551 | 6,609 | 4,970 | 6,609 | -2,139 | 4,470 |
| | **Cyfanswm TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth** | **6,551** | **6,609** | **4,970** | **6,609** | **-2,139** | **4,470** |
| **Llesiant plant a phobl ifanc** | Anghenion Dysgu Ychwanegol | 2,405 | 2,786 | 2,758 | 2,786 | 0 | 2,786 |
| | Bwyd a Maetheg mewn Ysgolion | 3,293 | 3,730 | 7,312 | 3,730 | 0 | 3,730 |
| | Lleoliadau Arbenigol Ôl-16 | 13,084 | 12,481 | 13,537 | 12,481 | 0 | 12,481 |
| | **Cyfanswm Llesiant plant a phobl ifanc** | **18,782** | **18,997** | **23,607** | **18,997** | **0** | **18,997** |
| **Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16** | Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr | 448,981 | 455,980 | 446,110 | 436,303 | -10,561 | 425,742 |
| | Costau Gweinyddu y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr/Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi | 12,518 | 13,862 | 14,411 | 13,723 | 0 | 13,723 |
| | Darpariaeth Cyllideb Adnoddau Benthyciadau i Fyfyrwyr | 327,900 | 106,849 | 106,849 | 106,849 | 0 | 106,849 |
| | Dyfarniadau Cymorth i Fyfyrwyr wedi'u Targedu | 6,784 | 6,297 | 6,600 | 6,297 | 0 | 6,297 |
| | **Cyfanswm Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16** | **796,183** | **582,988** | **573,970** | **563,172** | **-10,561** | **552,611** |
| **Yr Ystad a'r Ddarpariaeth TG** | Y Seilwaith Addysg | 43 | 0 | -98 | 0 | 0 | 0 |
| | **Cyfanswm yr Ystad a'r Ddarpariaeth TG** | **43** | **0** | **-98** | **0** | **0** | **0** |
| **Ennyn Diddordeb Disgyblion** | Trechu Dadrithiad | 371 | 515 | 467 | 515 | 0 | 515 |
| | **Cyfanswm Ennyn Diddordeb Disgyblion** | **371** | **515** | **467** | **515** | **0** | **515** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid** | Dysgu ar gyfer troseddwyr | 3,996 | 3,328 | 3,331 | 3,328 | 0 | 3,328 |
| | Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid | 5,135 | 4,826 | 4,562 | 4,826 | 2,500 | 7,326 |
| | **Cyfanswm Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid** | **9,131** | **8,154** | **7,893** | **8,154** | **2,500** | **10,654** |
| **Y Gymraeg mewn Addysg** | Y Gymraeg mewn Addysg | 27,206 | 31,361 | 29,050 | 31,361 | -2,000 | 29,361 |
| | **Cyfanswm Y Gymraeg mewn Addysg** | **27,206** | **31,361** | **29,050** | **31,361** | **-2,000** | **29,361** |
| **Y Gymraeg** | Y Gymraeg | 6,181 | 3,913 | 6,224 | 3,913 | 2,000 | 5,913 |
| | Comisiynydd y Gymraeg | 3,051 | 3,051 | 3,083 | 3,051 | 0 | 3,051 |
| | **Cyfanswm Y Gymraeg** | **9,232** | **6,964** | **9,307** | **6,964** | **2,000** | **8,964** |
| **Cymorth Cyflawni** | Cyfathrebu Strategol | 781 | 662 | 718 | 617 | 0 | 617 |
| | Tystiolaeth Ymchwil a Rhyngwladol | 884 | 908 | 912 | 884 | 0 | 884 |
| | **Cyfanswm Cymorth Cyflawni** | **1,665** | **1,570** | **1,630** | **1,501** | **0** | **1,501** |
| **Dysgu Seiliedig ar Waith** | Dysgu Seiliedig ar Waith | 128,736 | 115,709 | 115,709 | 111,113 | -29,000 | 82,113 |
| | **Cyfanswm Dysgu Seiliedig ar Waith** | **128,736** | **115,709** | **115,709** | **111,113** | **-29,000** | **82,113** |
| **Cymorth Cyflawni – Sgiliau** | Sgiliau Marchnata | 1,304 | 648 | 648 | 648 | 0 | 648 |
| | **Cyfanswm Cymorth Cyflawni – Sgiliau** | **1,304** | **648** | **648** | **648** | **0** | **648** |
| **Polisi Sgiliau** | Ymgysylltu ar y Polisi Sgiliau | 887 | 1,061 | 1,219 | 1,061 | 0 | 1,061 |
| | **Cyfanswm Polisi Sgiliau** | **887** | **1,061** | **1,219** | **1,061** | **0** | **1,061** |
| **Cyflogaeth a Sgiliau** | Cyflogadwyedd a Sgiliau | 20,307 | 28,498 | 27,322 | 28,498 | 27,698 | 56,196 |
| | **Cyfanswm Cyflogaeth a Sgiliau** | **20,307** | **28,498** | **27,322** | **28,498** | **27,698** | **56,196** |
| **Dewisiadau Addysg a Gyrfa** | Gyrfa Cymru | 19,050 | 18,800 | 18,944 | 18,800 | 0 | 18,800 |
| | **Cyfanswm Dewisiadau Addysg a Gyrfa** | **19,050** | **18,800** | **18,944** | **18,800** | **0** | **18,800** |
| **Ffyniant i bawb (Dyraniad Addysg Ychwanegol)** | Ffyniant i bawb | 0 | 0 | 0 | 18,300 | -18,300 | 0 |
| | **Cyfanswm Ffyniant i bawb (Dyraniad Addysg Ychwanegol)** | **0** | **0** | **0** | **18,300** | **-18,300** | **0** |
| **ADDYSG - CYFANSWM Y GYLLIDEB ADNODDAU** | | **1,876,477** | **1,648,670** | **1,660,141** | **1,623,909** | **38,095** | **1,662,004** |

| CYLLIDEB CYFALAF | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cam gweithredu** | **Disgrifiad BEL** | **Alldro Terfynol 2017-18** | **Cyllideb Atodol 2018-19 Mehefin 2018** | **Rhagolwg 2018-19 (Cyfnod 6)** | **Cynlluniau 2019-20 yn unol â Chyllideb Derfynol 2018-19** | **Newidiadau** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2019-20** | **Cynlluniau 2020-21 yn unol â Chyllideb Derfynol 2018-19** | **Newidiadau** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21** |
| **Yr Ystad a'r Ddarpariaeth TG** | Y Seilwaith Addysg | 133,929 | 203,627 | 203,441 | 176,674 | 29,809 | 206,483 | 154,750 | 24,805 | 179,555 |
| | **Cyfanswm Yr Ystad a'r Ddarpariaeth TG** | **133,929** | **203,627** | **203,441** | **176,674** | **29,809** | **206,483** | **154,750** | **24,805** | **179,555** |
| **Addysg Uwch** | Gwariant Rhaglenni CCAUC | 5,900 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **Cyfanswm Addysg Uwch** | **5,900** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Cymwysterau** | Cymwysterau Cymru | 69 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **Cyfanswm Cymwysterau** | **69** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16** | Costau Gweinyddu y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr/Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi | 5,556 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **Cyfanswm Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16** | **5,556** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **ADDYSG - CYFANSWM Y GYLLIDEB CYFALAF** | | **145,454** | **203,627** | **203,441** | **176,674** | **29,809** | **206,483** | **154,750** | **24,805** | **179,555** |

| CYLLIDEB ADNODDAU - Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cam gweithredu** | **Disgrifiad BEL** | **Alldro Terfynol 2017-18** | **Cyllideb Atodol 2018-19 Mehefin 2018** | **Rhagolwg 2018-19 (Cyfnod 6)** | **Cynlluniau 2019-20 yn unol â Chyllideb Derfynol 2018-19** | **Newidiadau** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2019-20** |
| **Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16** | Benthyciadau i Fyfyrwyr - AME | -115,084 | -109,234 | -120,344 | -138,399 | 24,414 | -113,985 |
| | **Cyfanswm Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16** | **-115,084** | **-109,234** | **-120,344** | **-138,399** | **24,414** | **-113,985** |
| **Dewisiadau Addysg a Gyrfa** | AME Gyrfa Cymru | -2,784 | 12,000 | 12,000 | 12,000 | 0 | 12,000 |
| | **Cyfanswm Gyrfa Cymru** | **-2,784** | **12,000** | **12,000** | **12,000** | **0** | **12,000** |
| **ADDYSG - CYFANSWM Y GYLLIDEB AME ADNODDAU** | | **-117,868** | **-97,234** | **-108,344** | **-126,399** | **24,414** | **-101,985** |

| CYLLIDEB Cyfalaf - Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cam gweithredu** | **Disgrifiad BEL** | **Alldro Terfynol 2017-18** | **Cyllideb Atodol 2018-19 Mehefin 2018** | **Rhagolwg 2018-19 (Cyfnod 6)** | **Cynlluniau 2019-20 yn unol â Chyllideb Derfynol 2018-19** | **Newidiadau** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2019-20** |
| **Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16** | Benthyciadau i Fyfyrwyr - AME | 504,793 | 661,816 | 656,271 | 816,483 | -15,015 | 801,468 |
| | **Cyfanswm Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16** | **504,793** | **661,816** | **656,271** | **816,483** | **-15,015** | **801,468** |
| **ADDYSG - CYFANSWM Y GYLLIDEB AME CYFALAF** | | **504,793** | **661,816** | **656,271** | **816,483** | **-15,015** | **801,468** |

Annex B

| ADDYSG- CRYNODEB | Alldro Terfynol 2017-18 | Cyllideb Atodol 2018-19 Mehefin 2018 | Rhagolwg 2018-19 (Cyfnod 6) | Cynlluniau 2019-20 yn unol â Chyllideb Derfynol 2018-19 | Newidiadau | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2019-20 | Cynlluniau 2020-21 yn unol â Chyllideb Derfynol 2018-19 | Newidiadau | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | |
| Adnoddau | 1,876,477 | 1,648,670 | 1,660,141 | 1,623,909 | 38,095 | 1,662,004 | | | |
| Cyfalaf | 145,454 | 203,627 | 203,441 | 176,674 | 29,809 | 206,483 | 154,750 | 24,805 | 179,555 |
| **Cyfanswm Adnoddau a Chyfalaf** | **2,021,931** | **1,852,297** | **1,863,582** | **1,800,583** | **67,904** | **1,868,487** | **154,750** | **24,805** | **179,555** |
| | | | | | | | | | |
| AME AdnoddAU | -117,868 | -97,234 | -108,344 | -126,399 | 24,414 | -101,985 | | | |
| AME Cyfalaf | 504,793 | 661,816 | 656,271 | 816,483 | -15,015 | 801,468 | | | |
| **Cyfanswm AME** | **386,925** | **564,582** | **547,927** | **690,084** | **9,399** | **699,483** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | |
| **ADDYSG CYFANSWM Y GYLLIDEB** | **2,408,856** | **2,416,879** | **2,411,509** | **2,490,667** | **77,303** | **2,567,970** | **154,750** | **24,805** | **179,555** |

## Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer 'Gwasanaethau ysgolion' fesul Awdurdod Unedol, ar gyfer 2018-19 a 2019-20 (dros dro)

*£'000oedd*

| Awdurdod Unedol | 2018-19 Gwasanaethau Ysgolion | 2018-19 Gwasanaethau Ysgolion wedi'u haddasu ar gyfer trosglwyddiadau | 2019-20 Gwasanaethau Ysgolion | Newid yn 2019-20 o gymharu â 2018-19 | Newid yn 2019-20 o gymharu â 2018-19 (wedi'i addasu) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 51,293 | 51,601 | 51,610 | 317 | 9 |
| Gwynedd | 88,639 | 89,142 | 89,248 | 609 | 105 |
| Conwy | 76,672 | 77,075 | 76,773 | 101 | -302 |
| Sir Ddinbych | 74,746 | 75,141 | 75,393 | 647 | 252 |
| Sir y Fflint | 110,307 | 110,865 | 111,208 | 901 | 343 |
| Wrecsam | 93,614 | 94,115 | 94,232 | 618 | 117 |
| Powys | 94,000 | 94,476 | 93,811 | -189 | -665 |
| Ceredigion | 51,078 | 51,368 | 51,517 | 439 | 149 |
| Sir Benfro | 87,457 | 87,930 | 87,723 | 266 | -207 |
| Sir Gaerfyrddin | 135,972 | 136,706 | 136,993 | 1,021 | 286 |
| Abertawe | 163,624 | 164,506 | 164,947 | 1,324 | 441 |
| Castell-nedd Port Talbot | 102,181 | 102,760 | 103,341 | 1,159 | 581 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 101,575 | 102,134 | 102,060 | 485 | -74 |
| Bro Morgannwg | 95,539 | 96,018 | 97,007 | 1,468 | 989 |
| Rhondda Cynon Taf | 179,096 | 180,097 | 181,591 | 2,496 | 1,495 |
| Merthyr Tudful | 42,200 | 42,444 | 42,813 | 613 | 369 |
| Caerfffili | 136,018 | 136,763 | 136,946 | 929 | 183 |
| Blaenau Gwent | 46,311 | 46,587 | 46,699 | 388 | 112 |
| Torfaen | 68,247 | 68,619 | 69,321 | 1,074 | 702 |
| Sir Fynwy | 57,728 | 58,018 | 58,289 | 561 | 271 |
| Casnewydd | 111,948 | 112,581 | 114,227 | 2,279 | 1,646 |
| Caerdydd | 237,841 | 239,206 | 241,334 | 3,493 | 2,128 |
| **Cyfanswm yr awdurdodau unedol** | **2,206,082** | **2,218,151** | **2,227,082** | **21,000** | **8,931** |

Ffynhonnell: Tablau 4b a 4c o Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2018-19 a 2019-20

**Yr ymrwymiad £100m i Wella Safonau Mewn Ysgolion - dadansoddiad dros dro ar gyfer 2019-20**

| **Gwella Safonau mewn Ysgolion - Gweithgarwch** | **2019-20 £000** |
|---|---|
| Cymorth ar gyfer Cwricwlwm trawsnewidiol<br>• Cynllun Llefaredd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol Cynradd<br>• Meithrin Cysylltiadau rhwng Cyflogwyr ac ysgolion<br>• Codio a sgiliau Digidol | 1,700 |
| Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel<br>• Bwrdd Achredu Addysg Athrawon (BAAA)<br>• Cyflenwad Athro / Gweithlu<br>• Rhaglen Hyfforddiant i Raddedigion a chyfrwng Cymraeg<br>• Profi dulliau cyflenwi amgenach ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso<br>• Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALU)<br>• Safonau Addysgu Proffesiynol<br>• Rhwydweithiau Rhagoriaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg a Mathemateg<br>• Rhwydwaith Rhagoriaeth y Cyfnod Sylfaen (RRCS)<br>• Datblygu Cymraeg Proffesiynol<br>• Recriwtio i ddenu rhagor o athrawon i'r sector Cymraeg ac i ddysgu Cymraeg fel pwnc<br>• Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>• Cymhwysedd Digidol<br>• Meintiau dosbarthiadau babanod | 13,600 |
| Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau<br>• Sefydlu Academi Arweinyddiaeth<br>• Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP)<br>• Rhaglen Cymdeithion yr Academi<br>• Arweinyddiaeth ar gyfer y Dyfodol | 3,200 |
| Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth, tegwch a llesiant<br>• Rhaglenni llesiant Addysg ac Iechyd ar y cyd ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (GIMPG) mewn cynlluniau peilot ysgolion a hyrwyddo dull ysgol gyfan o weithredu tuag at iechyd a llesiant. | 500 |
| Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella<br>• Cefnogi arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws y rhanbarthau<br>• Capasiti Ymchwil a Gwerthuso<br>• Ymchwilio i fframweithiau Cymraeg<br>• Datblygu ysgolion i fod yn sefydliadau sy'n dysgu<br>• Cefnogi cydweithio a helpu i ddatblygu capasiti rhanbarthol<br>• Estyn effaith a manylder y Ffederasiynau<br>• Cynllun grant ar gyfer Ysgolion Bach ac Ysgolion Gwledig<br>• Ehangu'r defnydd o reolwyr busnes<br>• Cymorth Safon Uwch Ôl-16<br>• Datblygu atebolrwydd | 6,500 |
| **CYFANSWM** | **25,500** |

**Cyllidebau'n cefnogi codi safonau ysgolion  o fewn y MEG Addysg - 2016-17 i 2019-20**

*£'000oedd*

| Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) | 2016-17 Yr Ail Gyllideb Atodol | 2017-18 Yr Ail Gyllideb Atodol | 2018-19 Y Gyllideb Atodol Gyntaf | 2019-20 Cynllluniau newydd y Gyllideb Ddrafft |
|---|---|---|---|---|
| Llythrennedd a Rhifedd | 4,946 | 6,956 | 7,456 | 6,556 |
| Cwricwlwm ac Asesu | 10,021 | 6,434 | 6,566 | 6,282 |
| Adolygu'r Cwricwlwm (gan gynnwys Her Ysgolion ( | 20,400 | 7,100 | 5,400 | 5,400 |
| Y Cyfnod Sylfaen | 1,851 | 1,511 | 1,551 | 148 |
| Datblygu a Chefnogi Athrawon | 21,192 | 20,731 | 18,804 | 33,664 |
| Cymwysterau Cymru | 8,404 | 8,142 | 8,142 | 8,257 |
| Llywodraethiant Ysgolion | 1,353 | 1,124 | 36 | 0 |
| Grant Gwella Ysgolion | 134,711 | 136,282 | 126,659 | 130,359 |
| Codi Safonau Ysgolion | 4,470 | 20,000 | 25,000 | 25,500 |
| Cymorth Safonau Ysgolion | 1,249 | 1,394 | 1,194 | 1,194 |
| Grant Datblygu Disgyblion | 89,246 | 93,746 | 95,523 | 97,300 |
| Cefnogi Dysgu Digidol mewn Ysgolion | 6,935 | 6,659 | 6,609 | 4,470 |
| Y Gymraeg mewn Addysg | 18,267 | 27,247 | 31,361 | 29,361 |
| **Cyfanswm** | **323,045** | **337,326** | **334,301** | **348,491** |
| **Cynnydd ers 2015-16** | **15,187** | **29,468** | **26,443** | **40,633** |
| **Newid dros 4 blynedd** | | | | **111,731** |

Atodiad F

**Grant Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod - Dyraniadau Refeniw 2017-18 i 2020-21**

| Awdurdod lleol | Dyraniad refeniw |
|---|---|
| Ynys Môn | £ 306,504 |
| Blaenau Gwent | £ 338,108 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £ 747,436 |
| Caerffili | £ 961,983 |
| Caerdydd | £ 2,095,766 |
| Sir Gaerfyrddin | £ 870,490 |
| Ceredigion | £ 284,125 |
| Conwy | £ 512,256 |
| Sir Ddinbych | £ 486,569 |
| Sir y Fflint | £ 796,576 |
| Gwynedd | £ 530,722 |
| Merthyr Tudful | £ 303,532 |
| Sir Fynwy | £ 426,384 |
| Castell-nedd Port Talbot | £ 686,951 |
| Casnewydd | £ 908,923 |
| Sir Benfro | £ 569,373 |
| Powys | £ 540,652 |
| Rhondda Cynon Taf | £ 1,384,904 |
| Abertawe | £ 1,202,923 |
| Torfaen | £ 566,002 |
| Bro Morgannwg | £ 722,417 |
| Wrecsam | £ 757,404 |
| **CYFANSWM** | **£ 16,000,000** |

**Atodiad G**

**Dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig, Sipsiwn, Roma a Theithwyr – Dyraniadau cyllid ar gyfer 2018-19**

| **Awdurdod Lleol** | **Dyraniad 2018-19 (£)** |
|---|---|
| Ynys Môn | 35,045 |
| Gwynedd | 87,195 |
| Conwy | 69,423 |
| Sir Ddinbych | 66,919 |
| Sir y Ffint | 117,151 |
| Wrecsam | 312,497 |
| Powys | 74,513 |
| Ceredigion | 63,749 |
| Sir Benfro | 76,765 |
| Sir Gaerfyrddin | 132,838 |
| Abertawe | 1,237,900 |
| Castell-nedd Port Talbot | 85,527 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 96,207 |
| Bro Morgannwg | 180,649 |
| Rhondda Cynon Taf | 121,656 |
| Merthyr Tudful | 49,230 |
| Caerdydd | 4,072,474 |
| Caerffili | 76,265 |
| Blaenau Gwent | 31,791 |
| Torfaen | 56,489 |
| Sir Fynwy | 46,310 |
| Casnewydd | 1,609,407 |
| **Cyfanswm** | **8,700,000** |

**Atodiad H**

# RHAGDYBIAETHAU RHAGOLWG ARIANNOL ADDYSG BELLACH 2016/17

**Noder:** At ddibenion cynllunio yn unig y mae'r rhagdybiaethau hyn er mwyn sicrhau bod modd cymharu ffigurau rhwng sefydliadau. Nid ydynt i'w cymryd fel rhagolygon cyllid dangosol neu gyngor ar gytundebau cyflogau ar gyfer y dyfodol.

Gwneir y rhagdybiaethau ar sail cynghorol ac os yw unrhyw goleg yn teimlo nad ydynt yn briodol ar gyfer eu defnydd hwy, mae croeso iddynt ddefnyddio rhagdybiaethau eraill.

Dylid darllen y rhagdybiaethau yn y ddogfen ar y cyd ag unrhyw gyhoeddiadau eraill gan Lywodraeth Cymru sy'n rhoi cyngor penodol ar ffrydiau cyllido eraill.

**Cyllid Grant Llywodraeth Cymru**
Dylai Sefydliadau ddefnyddio'r dyraniadau terfynol a nodwyd ar gyfer blynyddoedd academaidd 2016/17 a 2017/18. Ar gyfer blynyddoedd y dyfodol, dylech gymryd mai dyraniad arian parod safonol a roddir.

**Cyflog**
Dylech gymryd y bydd dyfarniad cyflog o 1% bob blwyddyn

Dylai pensiynau ystyried unrhyw gynnydd sy'n hysbys yng nghyfraniadau'r cyflogwr i gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Dylai cyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwr adlewyrchu'r cynnydd o ganlyniad i gontractio allan newidiadau a thynnu'r ad-daliad o 3.4% o fis Ebrill 2016 a'r ardoll brentisiaethau o 1 Ebrill 2017 ymlaen os yw hynny'n gymwys.

**Cyllid Ewropeaidd**
Dylai cyllid Ewropeaidd gael ei seilio ar asesiad y sefydliad unigol o'r prosiectau sydd ganddynt ar y gweill. Bernir ei bod yn briodol bod unrhyw gynlluniau Ewropeaidd newydd yn cael eu hystyried i fod yn gyfartal o ran y gost.

**Cyfalaf**
Dylid cynnwys yr holl brosiectau cyfalaf sydd wedi'u cynllunio a'u cymeradwyo. Dylech gymryd na fydd cyllid cynnal a chadw ar gael.

**Dysgu Seiliedig ar Waith**
Dylai sefydliadau gynllunio ar sail dyraniadau contract presennol Dysgu Seiliedig ar Waith presennol.

**Chwyddiant mewn costau**

Gellir edrych ar y datchwyddydd cynnyrch domestig gros fel mesur o'r chwyddiant cyffredinol yn yr economi ddomestig.   Dyma'r datchwyddydd cynnyrch domestig gros, fel ag yr oedd ym mis Mawrth 2017:

| | |
|---|---|
| 2017-18 | 1.63 |
| 2018-19 | 1.56 |
| 2019-20 | 1.66 |
| 2020-21 | 1.88 |
| 2021-22 | 1.92 |

Dylai sefydliadau ddefnyddio'r cyfraddau hyn ar gyfer y cynnydd mewn costau nad ydynt yn gostau cyflogau oni bai bod ganddynt wybodaeth sy'n fwy penodol.

**Cyfradd Sylfaenol y Banc**
Cyfradd sylfaenol y banc ar hyn o bryd yw 0.25%  Os bydd y gyfradd yn cynyddu neu'n gostwng cyn cwblhau'r rhagolygon, defnyddiwr y gyfradd ddiweddaraf.

**Rhwymedigaethau pensiwn**
Dylai sefydliadau gymryd nad oes newid yn y rhwymedigaethau pensiwn oni bai bod gwybodaeth bellach benodol ar gael mewn adroddiadau actiwaraidd.

**Targedau**
Dylai sefydliadau ystyried y targedau dysgu a bennwyd a'r adfachiad cysylltiedig os na fodlonir y targedau hynny.

**Dadansoddiad o sensitifrwydd**
O ganlyniad i'r diffyg gwybodaeth ar hyn o bryd o ran cyllidebau Cymru yn y dyfodol, rydym yn argymell dadansoddiad o sensitifrwydd o 2.5% a 5% mewn cyllid rheolaidd.

**RHAGDYBIAETHAU RHAGOLWG ARIANNOL ADDYSG BELLACH 2017-18**

**Sylwer:**

1. **At ddibenion cynllunio yn unig y mae'r rhagdybiaethau hyn er mwyn sicrhau bod modd cymharu ffigurau rhwng sefydliadau. Nid ydynt i'w cymryd fel rhagolygon cyllid dangosol neu gyngor ar gytundebau cyflogau ar gyfer y dyfodol.**

2. **Gwneir y rhagdybiaethau ar sail cynghorol ac os yw unrhyw goleg yn teimlo nad ydynt yn briodol ar gyfer eu defnydd hwy, mae croeso iddynt ddefnyddio rhagdybiaethau eraill ar yr amod y datgelir hynny yn y rhagolwg.**

3. **Dylid darllen y rhagdybiaethau yn y ddogfen ar y cyd ag unrhyw gyhoeddiadau eraill gan Lywodraeth Cymru sy'n rhoi cyngor penodol ar ffrydiau cyllido eraill.**

**Cyllid Grant Llywodraeth Cymru**
Dylai Sefydliadau ddefnyddio'r dyraniadau terfynol a nodwyd ar gyfer blynyddoedd academaidd 2018/19 a 2019/20. Ar gyfer y dyfodol, dylech gymryd mai dyraniad arian parod safonol a roddir.

**Cyflog**
Dylech gymryd y bydd dyfarniad cyflog o 2% bob blwyddyn

Dylai pensiynau ystyried unrhyw gynnydd sy'n hysbys yng nghyfraniadau'r cyflogwr i gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

**Cyllid Ewropeaidd**
Dylai cyllid Ewropeaidd gael ei seilio ar asesiad y sefydliad unigol o'r prosiectau sydd ganddynt ar y gweill. Bernir ei bod yn briodol bod unrhyw gynlluniau Ewropeaidd newydd yn cael eu hystyried i fod yn gyfartal o ran y gost.

**Cyfalaf**
Dylid cynnwys yr holl brosiectau cyfalaf sydd wedi'u cynllunio a'u cymeradwyo. Dylech gymryd na fydd cyllid cynnal a chadw ar gael.

**Dysgu Seiliedig ar Waith**
Dylai sefydliadau gynllunio ar sail dyraniadau contract presennol Dysgu Seiliedig ar Waith.

**Chwyddiant mewn costau**
Gellir edrych ar y datchwyddydd cynnyrch domestig gros fel mesur o'r chwyddiant cyffredinol yn yr economi ddomestig. Dyma'r datchwyddydd cynnyrch domestig gros, fel ag yr oedd ym mis Mawrth 2018:

| Blwyddyn ariannol | % |
|---|---|
| 2017/18 | 1.86 |
| 2018/19 | 1.52 |
| 2019/20 | 1.57 |
| 2020/21 | 1.66 |
| 2021/22 | 1.74 |
| 2022/23 | 1.84 |
| Ffynhonnell: Rhagolygon OBR Mawrth 2018 | |

Dylai sefydliadau ddefnyddio'r cyfraddau hyn ar gyfer y cynnydd mewn costau nad ydynt yn gostau cyflogau oni bai bod ganddynt wybodaeth sy'n fwy penodol, gan nodi'r eithriadau.

**Cyfradd Sylfaenol y Banc**
Cyfradd sylfaenol y banc ar hyn o bryd yw 0.5% Os bydd y gyfradd yn cynyddu neu'n gostwng cyn cwblhau'r rhagolygon, defnyddiwr y gyfradd ddiweddaraf.

**Rhwymedigaethau pensiwn**
Dylai sefydliadau gymryd nad oes newid yn y rhwymedigaethau pensiwn oni bai bod gwybodaeth bellach benodol ar gael mewn adroddiadau actiwaraidd, a dylid datgelu hynny.

**Targedau**
Dylai sefydliadau ystyried y targedau dysgu a bennwyd a'r adfachiad cysylltiedig os na fodlonir y targedau hynny.


**Dadansoddiad o sensitifrwydd**
O ganlyniad i'r diffyg gwybodaeth ar hyn o bryd o ran cyllidebau Cymru yn y dyfodol, rydym yn argymell dadansoddiad o sensitifrwydd o 2.5% a 5% mewn cyllid rheolaidd.

**Atodiad I**

## Sefyllfa ariannol y sector Addysg Uwch

Fel y nodir yn y siart isod, mae sefyllfa ariannol y sector Addysg Uwch (AU) yng Nghymru wedi gwella'n sylweddol ers 2012, er gwaethaf newidiadau polisi ac amgylchedd economaidd heriol.

### Incwm i sector Addysg Uwch Cymru mewn termau ariannol, fesul blwyddyn academaidd




Ffynhonnell: Cofnod Ariannol HESA a dadansoddiad mewnol yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru

**Tabl 1: Incwm rhagamcanol sefydliadau AU Cymru, gyda chyfartaledd y ffioedd sy'n hysbys a'r grant ffioedd hyfforddi, termau ariannol (blwyddyn academaidd)** *£miliwn*


| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grantiau cyrff cyllido | 416 | 395 | 269 | 249 | 195 | 184 | 174 | 178 | 187 | 202 | 220 |
| Ffioedd is-raddedigion amser llawn / ffioedd TAR | 229 | 241 | 381 | 494 | 576 | 619 | 664 | 678 | 684 | 686 | 684 |
| Ffioedd eraill a chontractau addysgol | 180 | 191 | 179 | 159 | 167 | 180 | 172 | 176 | 182 | 187 | 193 |
| Grantiau / Contractau Ymchwil | 165 | 170 | 175 | 192 | 214 | 205 | 190 | 196 | 202 | 208 | 214 |
| Incwm arall | 254 | 278 | 271 | 285 | 284 | 328 | 296 | 304 | 314 | 323 | 332 |
| Cyfanswm | 1,244 | 1,275 | 1,274 | 1,379 | 1,436 | 1,514 | 1,496 | 1,533 | 1,569 | 1,606 | 1,642 |

*Ffynhonnell: rhagamcanion LlC, cofnod ariannol HESA a niferoedd myfyrwyr wedi'u rhagamcanu*

Rhwng 2010/11 a 2016/17, gwelwyd gostyngiad o tua £242m yn yr incwm o grantiau cyrff cyllido (o £416m i £174m), ond gwelwyd cynnydd o tua £435m yn yr incwm o ffioedd hyfforddi amser llawn (o £229m i £664m). Yn gyffredinol, cafwyd cynnydd o fwy na £200m dros y cyfnod, a rhagwelir y bydd yn parhau i gynyddu yn y dyfodol.

Roedd gwybodaeth a ddarparwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru mewn sesiwn bwyllgor yn ddiweddar yn awgrymu bod incwm wedi gostwng rhwng blynyddoedd academaidd 2015/16 a 2016/17. Er y caiff hyn ei gadarnhau yn y data swyddogol diweddaraf, sy'n awgrymu gostyngiad bach (tua £25m) mewn incwm ar lefel sector, mae'r wybodaeth am y flwyddyn ariannol (a ddefnyddir yn holl wybodaeth ystadegol a chyllidebol Llywodraeth Cymru) yn dangos bod y cynnydd mewn incwm yn parhau. Mae'r siart isod yn dangos cynnydd parhaus yn incwm y sector Addysg Uwch, ar sail blynyddoedd ariannol.

**Incwm i sector AU Cymru mewn termau ariannol, fesul blwyddyn ariannol**




Source: Ffynhonnell: Dadansoddiad mewnol Is-adran Addysg Uwch Llywodraeth Cymru

| **Incwm rhagamcanedig Sefydliadau Addysg Uwch Cymru HEIs, gyda ffioedd adnabyddus ar gyfartaledd a thelerau arian grant ffioedd dysgu (Blwyddyn Ariannol)** | | | | | | | | | | | *£miliwn* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
| Grantiau cyrff cyllido | 428 | 405 | 332 | 259 | 222 | 189 | 179 | 178 | 195 | 209 | 230 |
| Ffioedd is-raddedigion amser llawn / ffioedd TAR | 225 | 235 | 309 | 436 | 534 | 597 | 641 | 671 | 681 | 685 | 685 |
| Ffioedd eraill a chontractau addysgol | 166 | 186 | 185 | 169 | 163 | 173 | 176 | 174 | 179 | 185 | 190 |
| Grantiau / Contractau Ymchwil | 163 | 167 | 172 | 183 | 202 | 209 | 198 | 193 | 199 | 205 | 211 |
| Incwm arall | 248 | 266 | 275 | 278 | 285 | 305 | 312 | 300 | 309 | 318 | 327 |
| Cyfanswm | 1,230 | 1,259 | 1,273 | 1,325 | 1,406 | 1,474 | 1,505 | 1,516 | 1,563 | 1,602 | 1,643 |

**Atodiad J**

**Manylion am sut y mae sefydliadau wedi defnyddio'r arian a ddarparwyd gan y pecyn cymorth Meistr Interim a ddyrannwyd i CCAUC ar gyfer 2018/19**

O ystyried bod y sefydliadau wedi cael disgresiwn ynglŷn â dosbarthiad mewnol yr arian hwn, mae fformat eu hymatebion a lefel y manylder ynddynt yn amrywio’n fawr rhwng sefydliadau.

**Prifysgol De Cymru**

Mae Prifysgol De Cymru yn defnyddio’r arian hwn i gynnig cymorth i fyfyrwyr ôl-raddedig yn 2018/19 trwy ddau gynllun newydd, fel a ganlyn:

- Bwrsariaeth Ffioedd Ôl-raddedig Prifysgol De Cymru ar gyfer mynediad yn 2018-19
- Maent yn defnyddio cyfuniad o’r gronfa hon gan CCAUC a chronfeydd y Brifysgol i gynnig bwrsariaeth ffioedd o £3000 i fyfyrwyr o’r DU a’r UE sy’n dilyn graddau meistr a addysgir ar sail lawn-amser neu ran-amser.
- Bwrsariaeth Costau Byw Ôl-raddedig Prifysgol De Cymru ar gyfer mynediad yn 2018-19
- Maent yn defnyddio’r gronfa hon gan CCAUC i ddarparu Bwrsariaeth Costau Byw o £500 hefyd ar gyfer myfyrwyr llawn-amser a rhan-amser newydd o Gymru a’r UE sy’n dechrau cwrs meistr a addysgir cymwys ar un o gampysau Prifysgol De Cymru yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddwy fwrsariaeth yma, gan gynnwys Cwestiynau Cyffredin, ar gael yma https://www.southwales.ac.uk/study/fees-and-funding/postgraduate-fees-and-funding/ (cliciwch ar ‘University Scholarships and Bursaries’).

Yn ogystal â’r wybodaeth ar y wefan y cyfeiriwyd ati uchod a chyfathrebiadau gydag ymgeiswyr, mae’r Brifysgol yn hyrwyddo’r cyfle hwn i ddarpar fyfyrwyr mewn nifer o ffyrdd eraill. Mae hyn yn cynnwys ein Ffair Wybodaeth ddiweddar, nosweithiau agored i ôl-raddedigion a gynhelir cyn bo hir, a chyfathrebiad wedi’i dargedu at fyfyrwyr ar eu blwyddyn olaf.

**Prifysgol Aberystwyth**

Mae Aberystwyth yn darparu gwybodaeth am y cymorth ar eu gwefan yn:

http://www.aber.ac.uk/en/postgrad/fees-finance/uk-eu/taught/#postgraduate-loan-(wales)

“Yn ogystal â’r Benthyciad Uwchraddedig, bydd CCAUC yn darparu grant ychwanegol o £3,416 ar gyfer myfyrwyr llawn-amser sy’n dechrau cyrsiau Meistr Ôl-raddedig cymwys ym mis Medi 2018 ac a fyddai’n gymwys ar gyfer y benthyciad

hefyd. Bydd hwn ar gael yn ôl cyfran i fyfyrwyr rhan-amser. Grant unigol yw hwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-2019 yn unig gan na fydd argymhellion Adolygiad Diamond yn cael eu rhoi ar waith yn llawn tan 2019-2020. Bydd y grant ar ffurf eithriad rhag talu ffioedd. Rhaid i ymgeiswyr wneud cais am y grant, a'r dyddiad cau yw 4pm ar 31 Mai 2018.

Bydd cyfeiriad at hyn yn ymddangos yn eu Cyfrifiannell Cyllid hefyd yn:
https://www.aber.ac.uk/cy/postgrad/fees-finance/calculator/

**Prifysgol Bangor**

Mae Prifysgol Bangor yn defnyddio'i dyraniadau i ddarparu –

1. Eithriad rhag Talu Ffioedd gwerth £1,000 ar gyfer yr holl fyfyrwyr ôl-raddedig sy'n byw yng Nghymru / yr UE.

2. £5,000 yn ychwanegol ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig sy'n byw yng Nghymru yn unig ac sydd ag incwm is na £40,000 neu sy'n cael Lwfans Byw i'r Anabl, gofalwyr neu rai sy'n gadael gofal ar ffurf cymorth cynhaliaeth. Gellir defnyddio'r swm yma i wrthbwyso ffioedd neu gellir ei gael fel taliad gan y Brifysgol.

Mae hwn yn cael ei hyrwyddo ar eu gwefan ar hyn o bryd; gweler isod; mewn ffeiriau i ôl-raddedigion; trwy asiantau Ewropeaidd a thrwy ymgyrch ar bosteri a neges e-bost at fyfyrwyr presennol.

https://www.bangor.ac.uk/courses/postgrad/study-with-us/postgraduate-student-finance/cy

**Prifysgol Caerdydd**

Defnyddio'r dyraniad cymorth

Mae Caerdydd yn cynnig disgownt o £3,400 ar ffioedd dysgu i'r holl fyfyrwyr cymwys fel a ddiffinnir yn Rheoliadau Benthyciadau Graddau Meistr Ôl-raddedig 2017/18.

Gweithgarwch hysbysebu i hyrwyddo'r cyllid

Mae Caerdydd yn cynnal ystod eang o weithgareddau i hyrwyddo'r cymorth gyda chyllid i ymgeiswyr ôl-raddedig cymwys ac maent wedi datgan fel a ganlyn:

- Maent wedi sefydlu tudalen bwrpasol: http://www.cardiff.ac.uk/study/postgraduate/funding/welsh-government-masters-funding-for-2018-19

- Rhoddir sylw i'r cymorth gyda chyllid ar hafan y Brifysgol.

- Maent wedi ychwanegu hysbysebion ar gyfer cymorth ariannol ar draws yr adran astudiaethau ôl-raddedig ar y wefan.

- Maent wedi ychwanegu negeseuon rheolaidd am y cymorth ariannol at y sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol sydd wedi'u neilltuo i astudiaethau ôl-raddedig.

- Maent wedi e-bostio manylion y cyllid at y gronfa ddata darpar fyfyrwyr ôl-raddedig ar gyfer eu cylchlythyr ac ymgeiswyr.

- Mae manylion y cymorth wedi cael eu cynnwys mewn cylchlythyr at yr holl fyfyrwyr sydd yn eu blwyddyn olaf.

- Mae'r cymorth ariannol wedi cael ei hysbysebu ar arwyddion digidol ar draws y campws.

- Cyn bo hir byddant yn hyrwyddo'r cyllid ar sgriniau yn adeilad Capitol yng nghanol dinas Caerdydd.

- Maent wedi cynnwys manylion y cymorth yn ein nodiadau briffio ar gyfer staff ar gyllid ôl-raddedig.

- Maent wedi cynhyrchu taflenni i'w cylchredeg i'r cohort presennol o fyfyrwyr.

- Maent yn cynnwys manylion y cymorth yn eu sgwrs am gyllid ar gyfer darpar fyfyrwyr.

- Maent wedi ailddylunio eu hysbysebion ar gyfer y cynllun Ysgoloriaethau Rhagoriaeth Meistr i gynnwys manylion y cymorth ariannol.

- Maent wedi cynnwys manylion y cynllun mewn neges e-bost bwrpasol a anfonwyd trwy'r cwmni hysbysebu prospects.ac.uk

- Maent wedi cynnwys manylion y cymorth ariannol ar eu tudalen broffil ar postgrad-search.com

- Maent wrthi ar hyn o bryd yn archwilio sut y gellir cyfleu gwybodaeth am y cymorth gyda chyllid i gyn-fyfyrwyr a fyddai'n gymwys i gael y cymorth.

**Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant**

Mae'r wybodaeth am ddull gweithredu PCYDDS wedi cael ei chyhoeddi ar eu gwefan ar y dudalen ysgoloriaethau a bwrsariaethau (https://www.uwtsd.ac.uk/cy/bwrsariaethau/)

Gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

Bwrsariaethau Meistr Llywodraeth Cymru 2018/19

Bydd PCYDDS yn cynnig bwrsariaethau o £3,400 i fyfyrwyr cymwys sy'n derbyn cynnig o le i astudio cwrs meistr ar un o gampysau PCYDDS yng Nghymru.

Bydd Bwrsariaethau Meistr Llywodraeth Cymru yn agored i fyfyrwyr Llawn-amser a Rhan-amser (yn ôl cyfran trwy gydol eu hastudiaethau). Bydd PCYDDS yn cynnig 32 o Fwrsariaethau Llawn-amser a 139 o Fwrsariaethau Rhan-amser.

Bydd bwrsariaethau'n cael eu dyfarnu fel Gostyngiad ar Ffioedd

Cymhwystra:

Mae'r meini prawf cymhwystra ar gyfer y bwrsariaethau yr un fath ag ar gyfer Benthyciad Ôl-raddedig Cymru:

- Myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru/yn yr UE.
- O dan 60 oed.
- Ar gael i'r rhai nad ydynt eisoes yn meddu ar gymhwyster ar lefel meistr (Mae deiliaid PGCert a PGDip yn gymwys ar gyfer y benthyciad).
- Nid yw'n dibynnu ar brawf modd (nid yw'n ddibynnol ar incwm eich teulu).
- Mae cyrsiau meistr a addysgir a chyrsiau meistr ymchwil yn gymwys, gan gynnwys cyrsiau MA, MSc, LLM, MRes, MPhil, MA trwy Ymchwil, ac MSc trwy Ymchwil. (Ni fydd TAR, PhD, Meistr Integredig a Diplomâu Ôl-raddedig yn gymwys)

Bydd ceisiadau'n amodol ar gymeradwyaeth ffurfiol i'r cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Mae derbynyddion y Fwrsariaeth yn gymwys i wneud cais am Fenthyciad Ôl-raddedig Cymru hefyd.

Bydd derbynyddion y Fwrsariaeth yn gymwys i wneud cais am Fwrsariaeth Ôl-raddedig a Bwrsariaethau Gofal Plant Ôl-raddedig PCYDDS hefyd.

Ni fydd myfyrwyr sy'n cael y Fwrsariaeth Meistr Ôl-raddedig yn gymwys ar gyfer Bwrsariaeth Dysgu o Bell Ôl-raddedig PCYDDS.

**Prifysgol Abertawe**

Mae Prifysgol Abertawe wedi darparu dolen i'r dudalen lle maent yn hysbysebu'r cymorth ychwanegol yn 18-19 https://www.swansea.ac.uk/cy/ol-raddedig/ffioedd-ac-ariannu/ysgoloriaethau/. Maent hefyd yn hyrwyddo hwn yn ystod Diwrnodau Agored a gweithgarwch recriwtio myfyrwyr.

O ran eu dull maent wedi penderfynu trefnu bod y cyllid ar gael i'r holl fyfyrwyr o'r DU a'r UE sy'n derbyn cynnig o le i astudio yn Abertawe. Bydd yn cael ei weinyddu ar sail y cyntaf i'r felin er mwyn helpu i roi hwb i niferoedd ar gyrsiau Ôl-raddedig a Addysgir. Maent talgrynnu'r cynnig i fyfyrwyr i £3,400. Bydd y gweddill (£16.00) yn helpu i sicrhau eu bod yn gallu cefnogi ychydig o fyfyrwyr ychwanegol.

Gan fod y cynllun ar gyfer un flwyddyn yn unig, penderfynodd Abertawe fod angen dull syml ac y byddai hyn hefyd yn hawdd i fyfyrwyr ei ddeall. Ni roddwyd ystyriaeth i ddull sy'n dibynnu ar brawf modd gan y byddai'r math hwn o gynllun yn weddol gymhleth i'w gyflawni yn yr amser cyfyngedig a oedd ar gael gennym ac yn galw am adnoddau ychwanegol hefyd. Rhoi'r cyfle i'r holl fyfyrwyr gael mynediad at y cyllid oedd y ffordd decaf o wneud hyn ar gyfer y trefniant interim hwn.

**Prifysgol Glyndŵr**

Caiff y cymorth sydd ar gael ei grynhoi isod.

1. Bwrsariaeth Cymorth Ôl-raddedig ac Ysgoloriaeth Ôl-raddedig 2018/19 ar gyfer Myfyrwyr sy'n Byw yng Nghymru ac yn yr UE

Bydd Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Glyndŵr Wrecsam sy'n byw yng Nghymru ac yn yr UE (dan 60 oed) yn gymwys ar gyfer Bwrsariaeth Cymorth Ôl-raddedig ac Ysgoloriaeth Ôl-raddedig Prifysgol Glyndŵr Wrecsam i Gyn-fyfyrwyr yn seiliedig ar gyflawniad fel israddedigion.

Mae'r model isod yn dangos cost astudio i'r myfyrwyr hyn unwaith y mae'r Ysgoloriaeth Ôl-raddedig i Gyn-fyfyrwyr a Bwrsariaeth Cymorth Llywodraeth Cymru wedi cael eu cymhwyso i astudiaethau Llawn-amser a Rhan-amser;

| Dull astudio | Ffi - 2018/19 | Cymorth CCAUC – a weinyddir gan PGW | Gweddill ar ôl cymorth CCAUC | Dosbarth y radd | Disgownt i gyn-fyfyrwyr PGW | Cyfanswm cost astudio | Disgownt cyn-fyfyrwyr fel % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llawn-amser | £5,750.00 | £3,400.00 | £2,350.00 | 1af | £2,350.00 | Dim Cost | 41% |
| Llawn-amser | £5,750.00 | £3,400.00 | £2,350.00 | 2.1 | £1,350.00 | £1,000.00 | 23% |
| Llawn-amser | £5,750.00 | £3,400.00 | £2,350.00 | 2.2 | £600.00 | £1,750.00 | 10% |
| Llawn-amser | £5,750.00 | £3,400.00 | £2,350.00 | 3ydd neu is | Dim | £2,350.00 | 0% |

Ysgoloriaeth Lawn-amser a ddyfernir:

41% i raddedigion â gradd dosbarth cyntaf

23% i raddedigion â gradd 2:1

10% i raddedigion â gradd 2:2

(Sylwer bod gwerthoedd rhan-amser isod yn rhai am bob blwyddyn astudio)

| Dull astudio | Ffi - 2018/19 | Cymorth CCAUC – a weinyddir | Gweddill ar ôl cymorth | Dosbarth y radd | Disgownt i gyn-fyfyrwyr | Cyfanswm cost astudio | Disgownt cyn-fyfyrwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| | | gan PGW | CCAUC | | PGW | | fel % o’r cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhan-amser | £2,825.00 | £1,700.00 | £1,125.00 | 1af | £1,125.00 | Dim Cost | 40% |
| Rhan-amser | £2,825.00 | £1,700.00 | £1,125.00 | 2.1 | £625.00 | £500.00 | 22% |
| Rhan-amser | £2,825.00 | £1,700.00 | £1,125.00 | 2.2 | £250.00 | £875.00 | 9% |
| Rhan-amser | £2,825.00 | £1,700.00 | £1,125.00 | 3ydd neu is | Dim | £1,125.00 | 0% |

Ysgoloriaeth Ran-amser a ddyfernir:

40% i raddedigion â gradd dosbarth cyntaf

22% i raddedigion â gradd 2:1

9% i raddedigion â gradd 2:2

Cymhwystra:

- Ni ellir defnyddio’r ysgoloriaeth ar y cyd ag unrhyw ysgoloriaeth arall, bwrsariaeth neu becyn disgownt ffioedd arall a gynigir gan y Brifysgol.
- Mae’r ysgoloriaeth ar ffurf eithriad rhag talu ffioedd fel yn y tablau uchod. Ni thelir unrhyw swm cyfatebol mewn arian parod
- Mae myfyrwyr sy’n cael ysgoloriaeth yn gyfrifol am y gwahaniaeth mewn ffioedd rhwng gwerth yr ysgoloriaeth a ffioedd llawn y rhaglen, ynghyd ag unrhyw gostau ychwanegol sy’n gysylltiedig â’r rhaglen y gwnaethant gofrestru ar ei chyfer ac sy’n berthnasol i’r rhaglen honno.
- Mae’r ysgoloriaeth ar gael am raglenni astudio llawn-amser am 1 flwyddyn neu ran-amser am 2 flynedd
- Bydd yn rhaid i fyfyrwyr nad ydynt yn cwblhau eu rhaglen o fewn hyd arferol y rhaglen dalu swm llawn unrhyw ffioedd ychwanegol sy’n gysylltiedig â pharhad eu hastudiaethau.
- Ni fydd myfyrwyr a gofrestrodd yn flaenorol ar gyfer dyfarniad ôl-raddedig yn y Brifysgol, ond nad ydynt wedi cwblhau eu rhaglen astudio fwriadedig yn llwyddiannus yn gymwys ar gyfer yr ysgoloriaeth hon.
- Ni all yr ysgoloriaeth gael ei chymhwyso’n ôl-weithredol i flynyddoedd academaidd blaenorol.
- Rhaglenni sydd wedi’u cynnwys yn yr Ysgoloriaeth: MA; MSc (Llawn-amser am 1 fl, Rhan-amser am 2 fl)

- Nid yw rhaglenni astudio sydd heb eu rhestru (gan gynnwys y cyrsiau MBA Gweithredol, MA Rheoli Adnoddau Dynol, MRes, TAR ac ychwanegol) wedi'u cynnwys yn y cynllun ysgoloriaeth hwn.

- Mae nifer cyfyngedig o fwrsariaethau ar gael a byddant yn cael eu dyfarnu ar sail y cyntaf i'r felin i fyfyrwyr cymwys sy'n derbyn eu cynnig o le i astudio rhaglen MA:MSc ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam erbyn 30 Gorffennaf 2018.

- Mae'r Ysgoloriaeth ar gael dim ond i fyfyrwyr sy'n gwneud eu hastudiaethau yn y canlynol: Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Campws Wrecsam; Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Campws Llaneurgain; Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Campws Llanelwy; a'r Ganolfan Hyfforddiant a Datblygiad Cyfansoddion Uwch.

- Rhaid i fyfyrwyr fod yn bresennol am y flwyddyn academaidd lawn.

Sylwer: Nid yw hyn yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau Masnachfraint neu sefydliadau partner

2. Ysgoloriaeth Ôl-raddedig Prifysgol Glyndŵr Wrecsam 2018/19 i fyfyrwyr nad ydynt yn byw yng Nghymru na'r UE

Mae Ysgoloriaeth Ôl-raddedig Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn cael ei ddyfarnu i gyn-fyfyrwyr nad ydynt yn byw yng Nghymru na'r UE sy'n dilyn rhaglen gradd a addysgir ôl-raddedig i gyfrannu at y ffioedd dysgu. Mae'n ofynnol bod myfyrwyr wedi cael cynnig diamod o le ar gwrs perthnasol ac yn ateb yr holl ofynion mynediad. Sylwer bod dyddiad cau ar gyfer ceisiadau. Gweler y wefan am ragor o fanylion.

Ysgoloriaeth Lawn-amser a Rhan-amser a ddyfernir:

50% i raddedigion â gradd dosbarth cyntaf

25% i raddedigion â gradd 2:1

10% i raddedigion â gradd 2:2

| **Dull astudio** | **Ffi - 2018/19** | **Dosbarth y radd** | **Disgownt i Gyn-fyfyrwyr PGW** | **Cyfanswm cost astudio** | **Disgownt cyn-fyfyrwyr fel % o'r cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Llawn-amser | £5,750.00 | 1af | £2,875.00 | £2,875.00 | 50% |
| Llawn-amser | £5,750.00 | 2.1 | £1,437.50 | £4,312.50 | 25% |
| Llawn-amser | £5,750.00 | 2.2 | £575.00 | £5,175.00 | 10% |

(Sylwer bod ffioedd rhan-amser isod yn rhai am bob blwyddyn astudio)

| **Dull astudio** | **Ffi - 2018/19** | **Dosbarth y radd** | **Disgownt i Gyn-fyfyrwyr PGW** | **Cyfanswm cost astudio** | **Disgownt cyn-fyfyrwyr fel % o'r** |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhan-amser | £2,825.00 | 1af | £1,412.50 | £1,412.50 | 50% |
| Rhan-amser | £2,825.00 | 2.1 | £706.25 | £2,118.75 | 25% |
| Rhan-amser | £2,825.00 | 2.2 | £282.50 | £2,542.50 | 10% |

Cymhwystra:

- Ni ellir defnyddio’r ysgoloriaeth ar y cyd ag unrhyw ysgoloriaeth arall, bwrsariaeth neu becyn disgownt ffioedd arall a gynigir gan y Brifysgol.

- Mae’r ysgoloriaeth ar ffurf eithriad rhag talu ffioedd sy’n rhoi cyfrif am 50% o'r ffi gartref ar gyfer y rhaglen astudio fwriadedig ar gyfer gradd dosbarth cyntaf, 25% ar gyfer gradd 2:1 a 10% ar gyfer gradd 2:2. Ni thelir unrhyw swm cyfatebol mewn arian parod

- Mae myfyrwyr sy’n cael ysgoloriaeth yn gyfrifol am y gwahaniaeth mewn ffioedd rhwng gwerth yr ysgoloriaeth a ffioedd llawn y rhaglen, ynghyd ag unrhyw gostau ychwanegol sy’n gysylltiedig â’r rhaglen y gwnaethant gofrestru ar ei chyfer ac sy’n berthnasol i’r rhaglen honno.

- Mae’r ysgoloriaeth ar gael ar gyfer hyd arferol y rhaglen astudio (fel arfer llawn-amser am 1 flwyddyn neu ran-amser am 3 blynedd, ond nid dim ond hynny). Bydd yn rhaid i fyfyrwyr nad ydynt yn cwblhau eu rhaglen o fewn hyd arferol y rhaglen dalu swm llawn unrhyw ffioedd ychwanegol sy’n gysylltiedig â pharhad eu hastudiaethau.

- Ni fydd myfyrwyr a gofrestrodd yn flaenorol ar gyfer dyfarniad ôl-raddedig yn y Brifysgol, ond nad ydynt wedi cwblhau eu rhaglen astudio fwriadedig yn llwyddiannus yn gymwys ar gyfer yr ysgoloriaeth hon.

- Ni all yr ysgoloriaeth gael ei chymhwyso’n ôl-weithredol i flynyddoedd academaidd blaenorol.

- Rhaglenni sydd wedi’u cynnwys yn yr Ysgoloriaeth: MA; MBA; MSc; Tystysgrif Ôl-raddedig (heb gynnwys TAR); Diploma Ôl-raddedig.

- Nid yw rhaglenni astudio sydd heb eu rhestru (gan gynnwys y cyrsiau MBA Gweithredol, MRes, TAR ac ychwanegol) wedi’u cynnwys yn y cynllun ysgoloriaeth hwn.

- Mae’r Ysgoloriaeth ar gael dim ond i fyfyrwyr sy’n gwneud eu hastudiaethau yn y canlynol: Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Campws Wrecsam; Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Campws Llaneurgain; Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Campws Llanelwy; a’r Ganolfan Hyfforddiant a Datblygiad Cyfansoddion Uwch.

- Rhaid i fyfyrwyr fod yn bresennol am y flwyddyn academaidd lawn.

Sylwer: Nid yw hyn yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau Masnachfraint neu sefydliadau partner

**Y Brifysgol Agored**

Isod ceir crynodeb o'r Cymorth Ariannol Interim Ôl-raddedig y mae'r Brifysgol Agored yn ei gynnig i fyfyrwyr cymwys y Brifysgol Agored yng Nghymru yn 2018/19.

Cymorth Ariannol Interim: Bwrsariaeth nad oes rhaid ei ad-dalu o £5,000 i fyfyrwyr ag incwm aelwyd islaw £25,000

Manylion y wefan: http://www.open.ac.uk/postgraduate/fees-and-funding/postgraduate-bursaries-wales

Hyrwyddo:

- Ymgyrch y telir amdano ar y cyfryngau cymdeithasol o ganol mis Mai
- Cyfathrebiad at fyfyrwyr israddedig yng Nghymru sy'n cwblhau eu cymhwyster israddedig yn haf 2018 neu sydd eisoes wedi'i gwblhau
- Darperir Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad mewn Wythnosau Agored, Ffeiriau Ôl-raddedig a digwyddiadau perthnasol (gweler y copi o'r daflen a ddosbarthwyd)
- Cynnwys mewn cyfathrebiadau at bartneriaid/rhanddeiliaid allweddol, e.e. Undebau, Sefydliad Dysgu a Gwaith a.y.b.

**Prifysgol Fetropolitan Caerdydd**

Bwrsariaeth Meistr Llywodraeth Cymru 2018

Mae'r dyfarniad wedi cael ei hysbysebu fel un sy'n rhoi cyfraniad o £3,400 i fyfyrwyr tuag at eu ffioedd dysgu.

- Mae'r dyfarniad yn agored i'r myfyrwyr hynny a fydd yn astudio cwrs Meistr a addysgir a Meistr Ymchwil ôl-raddedig llawn-amser neu ran-amser ym mis Medi 2018 megis MSc, MA, Mphil, MRes, LLM, MLitt, MD, MFA, MED neu MBA mewn Prifysgol yng Nghymru.
- Maent wedi cadarnhau bod cymhwystra ar gyfer y Fwrsariaeth Meistr yr un fath â'r cymhwystra ar gyfer benthyciad ôl-raddedig Cymru ar gyfer astudiaethau Meistr
- https://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/myfyrwyr-ol-raddedig/cwrs-meistr-%C3%B4l-raddedig/cymhwyster.aspx
- Bydd y dyfarniad yn cael ei wneud i'r nifer cyntaf o fyfyrwyr cymwys sy'n derbyn eu cynnig o le i astudio cwrs meistr ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd.

Prifysgol Fetropolitan Caerdydd – Telerau ac Amodau

- Rhaid eich bod yn fyfyriwr sy'n byw yng Nghymru neu yn yr UE. Cyfeirier at y meini prawf cymhwystra ar Cyllid Myfyrwyr Cymru, gwybodaeth am gyrsiau meistr ôl-raddedig yng Nghymru, dan yr adran Cenedligrwydd a Phreswylfa. (dolen)

- Rhaid eich bod dan 60 oed ar ddechrau'r cwrs. Cyfeirier at y meini prawf cymhwystra o ran oedran ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru (dolen).

- Rhaid bod gennych le sydd wedi'i gadarnhau a bod wedi cofrestru ar gwrs Meistr a addysgir neu Feistr Ymchwil ôl-raddedig llawn-amser neu ran-amser ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd ar gyfer Medi/Hydref 2018. Cyfeirier at feini prawf cymhwystra'r cwrs ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru (dolen).

- Mae'r fwrsariaeth ar gael i ymgeiswyr sy'n ymgeisio am gwrs llawn-amser (un flwyddyn fel arfer) a rhan-amser (dwy flynedd fel arfer). Mae cyrsiau tair blynedd yn gymwys os nad oes cwrs llawn-amser yn bodoli.

- Nid yw cyrsiau TAR, Diplomâu Ôl-raddedig a chyrsiau a gyllidir gan y GIG yn gymwys ar gyfer y fwrsariaeth.

- Rhaid eich bod yn cael eich cyllido'n breifat.

- Bydd y fwrsariaeth yn cael ei dyrannu'n awtomatig i'r nifer cyntaf o fyfyrwyr cymwys sy'n derbyn eu cynnig o le i astudio cwrs meistr ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd, gan ddechrau ym mis Medi 2018. Bydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu eu bod wedi cael y dyfarniad unwaith y byddant wedi ymateb a bydd gostyngiad mewn ffioedd dysgu'n ddibynnol ar gofrestru'n llwyddiannus yn y Brifysgol.

- Bydd bwrsariaethau'n cael eu dyfarnu yn seiliedig ar yr wybodaeth a gedwir gan yr Adran Dderbyn. Felly cynghorir myfyrwyr i anfon prawf o gymwysterau gradd cyn gynted â phosibl.

- Bydd y fwrsariaeth yn cael ei didynnu o'r ffioedd dysgu ar gyfer eich dewis gwrs.

- Bydd myfyrwyr sy'n dewis talu'r ffioedd trwy randaliadau'n cael gostyngiad awtomatig yn y ffioedd dysgu yn seiliedig ar y dyfarniad, cyn cael eu hysbysu ynghylch swm pob rhandaliad.

- Bydd angen i fyfyrwyr rhan-amser lwyddo yn eu cwrs bob blwyddyn a chamu ymlaen er mwyn cael y dyfarniad ac er mwyn cael gostyngiad yn y ffioedd dysgu.

- Ni fydd myfyrwyr y dyfernir y fwrsariaeth iddynt ac sy'n gohirio eu hastudiaethau neu'n eu hatal dros dro ar ôl dechrau'r cwrs yn gallu gohirio'r dyfarniad.

- Bydd rhestr wrth gefn yn cael ei chadw fel bod y dyfarniad yn gallu cael ei ddyrannu i ymgeisydd arall os bydd ymgeisydd yn tynnu'n ôl cyn dechrau'r cwrs.

- Mae'r rhai sy'n cael y fwrsariaeth yn dal yn gymwys i wneud cais naill ai am Gynllun Ysgoloriaeth Ôl-raddedig Prifysgol Fetropolitan Caerdydd neu Ddisgownt Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, cyn belled â'u bod yn bodloni'r meini prawf cymhwystra.

- Mae'r rhai sy'n cael y fwrsariaeth yn gymwys i wneud cais am Fenthyciad Ôl-raddedig Cymru hefyd.

- Bydd Cyflogeion Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yn cael eu hystyried ar gyfer y dyfarniad ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwystra.

- Nifer cyfyngedig o fwrsariaethau sydd ar gael.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**Dyddiad:** **8 Tachwedd 2018**
**Oddi wryh:** **Llywodraeth Cymru**
**Amser:** **10:45 – 12:15**
**Teitl:** **Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2019-20**

## Cyflwyniad

Mae'r gyllideb hon yn cynnwys y cynlluniau gwariant ar gyfer 2019-20, yn ogystal â'r cynlluniau cyfalaf hyd at 2020-21.

Mae'r papur hwn yn darparu tystiolaeth i'r Pwyllgor ar ddyraniadau MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ac Addysg sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc fel sy'n berthnasol i bortffolio'r Gweinidog dros Blant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol. Cafodd y cynigion cyllideb hyn eu hamlinellu yn y Gyllideb Ddrafft Fanwl a gyflwynwyd ar 23 Hydref 2018.

## 1. Dyraniadau yn y MEG Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Cefnogi Plant** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithred** | **Cefnogi Plant** | | | | |
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Alldro terfynol 2017-18 £'000** | **Alldro a ragwelir 2018-19 * £'000** | **Cymorth Cyntaf 2018-19 £'000** | **Newidiadau £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000** |
| Cymorth i Ofal Plant a Chwarae | 8,871 | 30,345 | 30,345 | 13,006 | 43,351 |
| Cymorth i Hawliau Plant | 78 | 930 | 991 | 0 | 991 |
| Cefnogi Plant | 2,254 | 2,739 | 1,989 | -1,000 | 989 |
| Y Comisiynydd Plant | 1,543 | 1,543 | 1,543 | 0 | 1,543 |
| Eiriolaeth | 963 | 1,100 | 1,100 | -1,100 | 0 |
| Cymorth i Deuluoedd a Phlant | 8,375 | 2,538 | 3,122 | 0 | 3,122 |

*Mae'r alldro a ragwelir ar gyfer 2018-19 yn seiliedig ar y rhagolygon a ddarparwyd ddiwedd Medi 2018

Nid oes unrhyw ddyraniadau refeniw dangosol wedi'u pennu ar gyfer 2020-21.

Gwnaed newidiadau i'r **Weithred Cefnogi Plant** rhwng Cyllideb Ddrafft 2019-20 a Chyllideb Atodol Gyntaf 2018-19 o ganlyniad i:

- trosglwyddwyd £1 filiwn o'r BEL Cefnogi Plant mewn cysylltiad â Chronfa Dydd Gŵyl Dewi. Trosglwyddwyd £1 filiwn i'r Grant Plant a Chymunedau yn y MEG Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus;
- cynyddwyd cymorth i'r BEL Cymorth i Ofal Plant a Chwarae oherwydd cyllid ychwanegol o £15 miliwn ar gyfer y cynnig Gofal Plant sydd wedi cynyddu o £25 miliwn yn 2018-19 i £40 miliwn yn 2019-20;
- trosglwyddwyd £2.3 miliwn o'r BEL Cymorth i Ofal Plant a Chwarae mewn cysylltiad â'r Grant Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol;
- dyrannwyd £306,000 i'r BEL Cymorth i Ofal Plant a Chwarae yn ystod y gwaith ailstrwythuro MEG yn ystod cyllideb ddrafft 2018-19;
- trosglwyddwyd £1.1 miliwn o'r BEL Eiriolaeth ar gyfer Diogelu ac Eiriolaeth yn y Maes Rhaglenni Gwariant Gofal a Chymorth Cymdeithasol (gweler y tabl isod).

| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Gofal a Chymorth Cymdeithasol** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithred** | **Gofal Cymdeithasol a Chefnogi** | | | | |
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Alldro terfynol 2017-18 £'000** | **Alldro a ragwelir 2018-19 * £'000** | **Cymorth Cyntaf 2018-19 £'000** | **Newidiadau £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000** |
| Diogelu ac Eiriolaeth** | 285 | 563 | 560 | 1,100 | 1,660 |

*Mae'r alldro a ragwelir ar gyfer 2018-19 yn seiliedig ar y rhagolygon a ddarparwyd ddiwedd Medi 2018
** Nid yw'n adlewyrchu cyfanswm y Llinell Wariant yn y Gyllideb dim ond y rhan sy'n berthnasol i bortffolio'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc

Nid oes unrhyw ddyraniadau refeniw dangosol wedi'u pennu ar gyfer 2020-21.

Gwnaed newidiadau i'r **Weithred Gofal a Chymorth Cymdeithasol** rhwng Cyllideb Ddrafft 2019-20 a Chyllideb Atodol 2018-19 yn dilyn trosglwyddo £1.1 miliwn o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Eiriolaeth i'r Weithred Cefnogi Plant.

| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **CAFCASS** |
|---|---|

| **Gweithred** | **CAFCASS Cymru** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Alldro terfynol 2017-18 £'000** | **Alldro a ragwelir 2018-19 * £'000** | **Cymorth Cyntaf 2018-19 £'000** | **Newidiadau £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000** |
| CAFCASS Cymru | 10,219 | 10,298 | 10,267 | | 10,267 |

*Mae'r alldro a ragwelir ar gyfer 2018-19 yn seiliedig ar y rhagolygon a ddarparwyd ddiwedd Medi 2018

Nid oes unrhyw ddyraniadau refeniw dangosol wedi'u pennu ar gyfer 2020-21.

Ni wnaed unrhyw newidiadau i **Weithred CAFCASS** rhwng Cyllideb Ddrafft 2019-20 a Chyllideb Atodol Gyntaf 2018-19.

Mae gan y Cyfarwyddwr Cymunedau a Trechu Tlodi yn y gwasanaethau Addysg a Chyhoeddus gyfrifoldeb polisi am y Llinellau Gwariant yn y Gyllideb canlynol:

- Cymorth i Ofal Plant a Chwarae;
- Cymorth i Hawliau Plant;
- Y Comisiynydd Plant;
- Cymorth i Deuluoedd a Phlant.

Mae cyllidebau yn cael eu monitro gan Dîm Cyllid EPS Operations sy'n cydweithio gyda Thîm Cyllid Gweithrediadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol i sicrhau bod y MEG yn cael ei fonitro'n briodol yn ei gyfanrwydd.

Mae gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyfrifoldeb polisi am y Llinellau Gwariant yn y Gyllideb canlynol:

- Cefnogi Plant
- Diogelu ac Eiriolaeth
- CAFCASS Cymru

Mae'r cyllidebau ar gyfer y Llinellau Gwariant yn y Gyllideb hyn yn cael eu monitro gan Dîm Cyllid Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 2. Dyraniadau yn y MEG Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Galluogi Plant a Chymunedau** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithred** | **Ymyryd yn Fuan, Atal a Chymorth** | | | | |
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Alldro terfynol 2017-18 £'000** | **Alldro a ragwelir 2018-19 * £'000** | **Cymorth Cyntaf 2018-19 £'000** | **Newidiadau £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000** |
| Atal ac Ymyrryd yn Gynnar ** | 113,624 | 112,344 | 109,750 | -109,750 | 0 |
| Grant Plant a Chymunedau** | n/a | 0 | | 113,050 | 113,050 |
| **CYFANSWM** | **113,624** | **112,344** | **109,750** | **3,300** | **113,050** |

*Mae'r alldro a ragwelir ar gyfer 2018-19 yn seiliedig ar y rhagolygon a ddarparwyd ddiwedd Medi 2018
** Nid yw'n adlewyrchu cyfanswm y Llinell Wariant yn y Gyllideb dim ond y rhan sy'n berthnasol i bortffolio'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol

Nid oes unrhyw ddyraniadau refeniw dangosol wedi'u pennu ar gyfer 2020-21.

Yn ystod 2018-19, bu inni brofi ffordd newydd o weithio mewn saith awdurdod lleol, gyda'r nod o ddod â nifer o grantiau ynghyd er mwyn atgyfnerthu gallu awdurdodau lleol a'u partneriaid i ddarparu gwasanaethau ataliol sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ar gyfer y rhai â'r angen mwyaf.

Mae'r gwerthusiad interim o'r gwaith yn y saith awdurdod lleol braenaru yn dangos y posibilrwydd o gyflawni canlyniadau gwell yn sgil gwasanaethau sydd wedi'u hintegreiddio'n well. Mae'n rhaid i'r prosesau cynllunio, comisiynu a chyflenwi gwasanaethau sy'n adlewyrchu cymhlethdod bywydau pobl a'r rhyngberthynas rhwng eu hanghenion cefnogi fod y dull cywir. Dim ond ers ychydig fisoedd y mae'r ardaloedd braenaru wedi dechrau eu gwaith ac mae cyfeiriad eu gwaith yn ymddangos yn addawol.

Roedd y gwerthusiad yn pwysleisio'r safbwyntiau amrywiol a fodolai am y cyfleoedd ar gyfer alinio'r grantiau sydd wedi'u cynnwys yn y trefniadau braenaru. Nododd aliniad naturiol rhwng y grantiau sy'n gysylltiedig â thai sy'n ffurfio rhan o'r Grant Atal ac Ymyrraeth yn Gynnar ac aliniad tebyg rhwng y grantiau nad ydynt yn gysylltiedig â thai. Mae'r gwerthusiad interim yn dangos bod rhai o'r awdurdodau braenaru wedi llwyddo i alinio'r ddau faes hyn a bydd angen cynnal ymchwiliad pellach i weld a fyddai'n bosibl ailadrodd hyn ar draws pob awdurdod lleol.

Ar ôl ystyried canlyniadau'r gwerthusiad yn ofalus, rydym wedi penderfynu y dylem rannu'r Grant Atal ac Ymyrraeth Gynnar yn ddau, gan wahanu'r grantiau sy'n gysylltiedig â thai a'r elfennau hynny nad ydynt yn ymwneud â thai, i'r holl awdurdodau lleol.

O Ebrill 2019 byddwn yn sefydlu Grant Plant a Chymunedau, a fydd yn cwmpasu Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, y Gronfa Waddol, Hybu Ymgysylltiad Ymhlith Pobl Ifanc, Cronfa Dydd Gŵyl Dewi, Cymunedau am Waith a Mwy a Gofal Plant a Chwarae.

Byddwn hefyd yn cyflwyno Grant Cymorth Tai sengl, a fydd yn cwmpasu Cefnogi Pobl, Atal Digartrefedd a Gorfodaeth Rhentu Doeth Cymru.

Bydd y trefniadau hyn yn parhau ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad hwn a byddant yn berthnasol i bob awdurdod lleol yng Nghymru. Ni chynhwysir y Grant Cam-drin Domestig, y Grant Eiriolaeth Cenedlaethol a'r Grant Cydlyniant Cymunedol na'r Grant Cymorth Tai.

Dyrannwyd £13.4 miliwn ychwanegol yn 2019-20 i adfer toriadau arfaethedig blaenorol i'r rhaglenni gan ddefnyddio £5 miliwn a glustnodwyd yn flaenorol ar gyfer y cynnig gofal plant, a dyrannu £8.4 miliwn ychwanegol o gronfeydd wrth gefn. Bydd pob grant unigol a glustnodwyd yn flaenorol i ffurfio rhan o'r Grant Ymyrraeth, Atal a Chefnogi yn Gynnar yn ystod 2019-20 yn derbyn yr un gyllideb yn awr ag y gwnaethant yn 2018-19.

Credwn fod nifer o fanteision i'r dull gweithredu hwn. Bydd yn ein galluogi i weithio gyda phob un o'n partneriaid er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hollbwysig yn cael eu hintegreiddio mor effeithiol â phosibl a bydd yn sicrhau y gallwn ystyried yn llawn y dystiolaeth a'r argymhellion sy'n deillio o bwyllgorau ac adolygiadau diweddar. Bydd dyfodol y grantiau hyn yn cael ei benderfynu gan dystiolaeth y canlyniadau i bobl a chymunedau yng Nghymru.

Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol a'n rhanddeiliaid ehangach, gan gynnwyd darparu cefnogaeth i ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd braenaru, i ddatblygu'r trefniadau newydd i bwysleisio pwysigrwydd atal ac ymyrraeth gynnar.

Gwnaed newidiadau i'r **Weithred Ymyrryd yn Fuan, Atal a Chymorth** rhwng Cyllideb Ddrafft 2019-20 a Chyllideb Atodol Gyntaf 2018-19 o ganlyniad i:

- trosglwyddo £2.3 miliwn i Linell Wariant yn y Gyllideb y Grant Plant a Chymunedau o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Cefnogi Gofal Plant a Chwarae yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- trosglwyddo £1 filiwn i Linell Wariant yn y Gweithle y Grant Plant a Chymunedau o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Cefnogi Pobl yn y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn ystod 2018-19, roedd y **Llinell Wariant yn y Gyllideb Ymyrryd yn Gynnar, Atal a Chymorth** yn cynnwys y dyraniadau grant canlynol mewn cysylltiad â phortffolio'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol:

- £73.772 miliwn mewn cysylltiad â Dechrau'n Deg
- £35.978 miliwn mewn cysylltiad â Teuluoedd yn Gyntaf
- **cyfanswm o £109.750.**

Yn ystod 2019-20 bydd **Llinell Wariant yn y Gyllideb y Grant Plant a Chymunedau** yn cynnwys y dyraniadau grant canlynol mewn cysylltiad â phortffolio'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol:

- £73.772 miliwn mewn cysylltiad â Dechrau'n Deg
- £35.978 miliwn mewn cysylltiad â Teuluoedd yn Gyntaf
- £2.3 miliwn mewn cysylltiad â'r Grant Gofal Plant y tu Allan i Oriau Ysgol
- £1 filiwn mewn cysylltiad â'r Grant Dydd Gŵyl Dewi.
- **cyfanswm o £113.05 miliwn.**

Y Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Trechu Tlodi yn y maes Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus sydd â'r cyfrifoldeb polisi am Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Gofal Plant a Chwarae. Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio sydd â'r cyfrifoldeb polisi am y Gronfa Dydd Gŵyl Dewi yn y Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae pob cyllideb yn cael eu monitro gan Dîm Cyllid Gweithrediadau Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol sy'n gyfrifol am ddosbarthu'r cyllid a ddarperir i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Ardrethi ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, mabwysiadu, maethu, amddiffyn a gwasanaethau plant anabl. Awdurdodau unigol sy'n gyfrifol am bennu cyllidebu, yn unol â gofynion ac amgylchiadau eu poblogaeth leol.

Datblygir a chymeradwyir y fformiwla cyllido gyda Llywodraeth Leol, drwy'r Is-grŵp Dosbarthu ac Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru.

## Dyraniadau yn y MEG Addysg

| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Safonau Addysg a Hyfforddiant** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithred** | **Gweithred** | | | | | |
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Alldro terfynol 2017-18 £'000** | **Alldro a ragwelir 2018-19 * £'000** | **Cymorth Cyntaf 2018-19 £'000** | **Newidiadau £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20 £'000** | **Llinell Wariant yn y Gyllideb** |
| Seilwaith Addysg** | 3,009<br>0 | 2,238<br>3,470 | 566<br>20,000 | 37<br>0 | 529<br>20,000 | 860<br>20,000 |
| **CYFANSWM** | **£5,008.00** | **5,708** | **20,566** | **37** | **20,529** | **20,860** |

*Mae'r alldro a ragwelir ar gyfer 2018-19 yn seiliedig ar y rhagolygon a ddarparwyd ddiwedd Medi 2018
** Nid yw'n adlewyrchu cyfanswm y Llinell Wariant yn y Gyllideb dim ond y rhan sy'n berthnasol i bortffolio'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol

Gwnaed y newidiadau i'r **Weithred Darpariaeth Ystadau da TG** rhwng Cyllideb Ddrafft 2019-20 a Chyllideb Atodol Gyntaf 2018-19 oherwydd y rhaglen gyfalaf o wariant a gymeradwywyd yn flaenorol a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2018-19.

Y Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Threchu Tlodi o fewn Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus sydd â'r cyfrifoldeb polisi dros Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant.

Mae cyllidebau yn cael eu monitro gan Dîm Cyllid Gweithrediadau Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus.

## 3. Tryloywder o ran dyraniadau ar gyfer plant a phobl ifanc

Yn hytrach na chyflwyno naratif Cyllideb Ddrafft 2019-20 fel cyfres o benodau sy'n gysylltiedig â phob MEG, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y naratif ac esboniodd ein dyraniadau yn erbyn ein hymrwymiadau yn Ffyniant i Bawb a'r themâu trawsbynciol. Mae adran Blynyddoedd Cynnar y Gyllideb Ddrafft yn cyflwyno'r dyraniadau a'r newidiadau cyllidebol sy'n adlewyrchu fy mhortffolio.

Yn 2019-20 roedd bwriad cwtogi'r Grant Ymyrraeth, Atal a Chefnogi yn Gynnar o £13.4 miliwn. Mae trosglwyddiad o £5 miliwn o'r Cynnig Gofal Plant a dyraniad pellach o £8.4 miliwn o gronfeydd wrth gefn wedi atal y toriadau hyn. Bydd y grantiau unigol yn y Grant Plant a Chymunedau newydd, sydd â chyllideb o £135.442 miliwn yn derbyn yr un dyraniadau yn awr yn 2019-20 ag y gwnaethant yn 2018-19.

Mae'r gostyngiad o £5 miliwn yn y Cynnig Gofal Plant yn adlewyrchu'r ffaith bod y grant hwn yn seiliedig ar alw, ac ni fydd yn effeithio ar y cynlluniau i gyflwyno'r cynnig.

Ni fydd y Gwasanaeth Eiriolaeth Cenedlaethol yn rhan o'r Grant Plant a Chymunedau mwyach ac o ganlyniad trosglwyddir £550,000 yn ôl i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Diogelu ac Eiriolaeth yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o'r Grant Plant a Chymunedau yn y MEG Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Ni fu unrhyw newidiadau i gyllidebau cyfalaf Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant rhwng ffigurau'r gyllideb ddangosol ddrafft a gyhoeddwyd yng Nghyllideb 2018-19 a Chyllideb Ddrafft 2019-20.

## 4. Gwerth am arian a chanlyniadau

Mae sicrhau eglurdeb ynglŷn â'r defnydd effeithiol a wnawn o'n hadnoddau yn hollbwysig wrth gyflawni'r blaenoriaethau yn Symud Cymru Ymlaen a Ffyniant i Bawb. Mae fy mlaenoriaethau yn glir a sicrhau bod hawliau plant yn ganolog i'n polisïau. Yr wyf yn ymrwymedig i ddiddymu'r rhwystrau at gyflogaeth drwy greu'r cynnig gofal plant mwyaf hael unrhyw le yn y DU, gan ddarparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant yr wythnos wedi'i ariannu gan y llywodraeth ar gyfer pob rhiant sy'n gweithio sydd â phlant tair a phedair oed sy'n ei ddymuno am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Byddwn yn ystyried ffyrdd o sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn mwynhau'r un cyfleoedd bywyd â phlant eraill a diwygio'r ffordd y gofelir amdanynt os bydd angen.

Cynllunnir gwariant yn unol â'm blaenoriaethau; mae gennyf brosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol at y dibenion a fwriadwyd. Mae'r gweithdrefnau llywodraethu a monitro sydd ar waith yn adlewyrchu natur ein perthnasoedd gyda phartneriaid cyflenwi.

Yn ystod y flwyddyn mae cyllidebau'n cael eu monitro'n fisol. Mae timau'n cael eu herio i ddarparu esboniadau am amrywiaethau rhwng proffil cyllideb a'r alldro hyd yn hyn yn ogystal ag amrywiaethau rhwng cyllidebau a'r rhagolwg o'r alldro terfynol. Bydd unrhyw orwariant neu danwariant a nodir yn ystod y flwyddyn yn cael eu hadolygu a'u halinio lle bynnag y bo'n bosibl, gyda gorwariant a thanwariant o rannau eraill o'r portffolio plant.

Mae awdurdodau lleol yn derbyn rhan o'u cyllid ar gyfer y gwasanaethau plant a theuluoedd gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Nid yw'r grant hwn yn cael ei glustnodi oherwydd ystyrir mai'r awdurdodau lleol eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i bwyso a mesur anghenion ac amgylchiadau lleol ac ariannu darpariaeth yn unol â hynny. Ar ôl dosbarthu'r Grant Cynnal Refeniw, yr awdurdodau unigol sy'n gyfrifol am bennu cyllidebau, gan ystyried yr adnoddau eraill sydd ar gael iddynt, ar gyfer y gwasanaethau lleol a ddarperir ganddynt.

Mae'r dull hwn o gyllido yn rhan allweddol o bolisi Llywodraeth Cymru, mai'r awdurdodau lleol eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu gwasanaethau yn unol â gofynion ac amgylchiadau eu poblogaeth leol, ac maent yn atebol iddynt am y penderfyniadau a wneir ganddynt.

## 5. Hawliau Plant ac ystyriaethau trawsbynciol eraill

### Fframwaith newydd ar gyfer asesiadau effaith

Yn unol â phroses dau gam y gyllideb, a gyflwynwyd yn 2017, roedd yr Asesiad Effaith Integredig Strategol a gyhoeddwyd ar 2 Hydref yn canolbwyntio ar y penderfyniadau a nodwyd yng ngham amlinellol y Gyllideb ddrafft. Roedd y cam hwn yn nodi ffynonellau cyllid Llywodraeth Cymru gan gynnwys pwerau pennu trethi a benthyca newydd Cymru, ynghyd â'r dyraniadau portffolio lefel uchel a'r penderfyniadau gwario. Dilynwyd hyn gan gyhoeddi cynigion gwariant portffolio manwl ar 23 Hydref. Mewn ymateb i'r adborth gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, roedd hyn yn cynnwys Asesiad Effaith Integredig unigol o'r cynigion gwariant.

### Asesiad o'r Effaith ar Hawliau'r Plentyn sy'n berthnasol i'r portffolio

Fel rhan o'r broses pennu cyllideb, mae cyfrifoldeb i ystyried penderfyniadau drwy nifer o lensys er mwyn gallu deall yr effaith. Mae dull integredig yn ein galluogi i ddeall yn well effaith gyffredinol penderfyniadau ar y grwpiau gwahanol o bobl. Mae rhai o'n cyfrifoldebau yn statudol ac mae pob un yn hollbwysig er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol. Y rhain yw cydraddoldeb a hawliau dynol, hawliau plant, yr iaith Gymraeg, newid yn yr hinsawdd, prawfesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad, iechyd, bioamrywiaeth a datblygiad economaidd. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn ystyriaeth sylfaenol wrth asesu effaith penderfyniadau.

Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn esbonio sut mae'r ystyriaethau hyn wedi llywio ein dyraniadau cyllideb strategol er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

**Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau'r Plentyn (CRIA) a gynhelir gan Fyrddau Iechyd**

Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd gynhyrchu cynllun integredig tair blynedd; fel rhan o'r gofynion cynllunio sydd wedi'u nodi yn fframwaith Cynllunio GIG Cymru, mae'n rhaid iddynt sicrhau bod gwasanaethau ar gyfer plant yn cael eu hintegreiddio drwy'r cynllun cyfan. Yn ogystal, mae'n rhaid iddynt gadarnhau eu bod wedi ystyried gofynion yr asesiadau o effaith ar gydraddoldeb a dangos bod cynlluniau wedi'u datblygu yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Cyflwynir cynlluniau i Lywodraeth Cymru graffu arnynt, a rhoddir cyfle i'r maes polisi perthnasol graffu ar y cynlluniau er mwyn sicrhau bod yr holl feysydd blaenoriaeth yn cael eu cynrychioli'n ddigonol, a chymeradwyaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet yn dilyn hynny.

Felly, mae sicrhau bod hawliau'r meysydd blaenoriaeth amrywiol yn cael eu hymgorffori mewn cynlluniau yn gyfrifoldeb i'r Byrddau Iechyd eu hunain. Mae Llywodraeth Cymru yn monitro, yn rheoli perfformiad ac yn dwyn Byrddau Iechyd i gyfrif drwy amrediad o gyfarfodydd a chamau gweithredu amrywiol.

**CRIA a gynhelir gan CAFCASS**

Mae **Atodiad A** yn cynnwys copi o'r CRIA a gynhaliwyd ar y gyllideb ar gyfer CAFCASS, fel y'i diwygiwyd gan y Pwyllgor hwn yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2018-19 ac a dderbyniwyd ar dudalen 25 ymateb Llywodraeth Cymru.

**Goblygiadau'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd**

Mae'r penderfyniad i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd wedi achosi ansicrwydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu tîm penodol i gydlynu materion Pontio Ewropeaidd, sy'n gweithio'n agos gyda'r tîm presennol ym Mrwsel ac adrannau polisi.

Oherwydd bod effeithiau Brexit mor bellgyrhaeddol mae nifer o adrannau Llywodraeth Cymru hefyd yn blaenoriaethu eu hadnoddau presennol ar gyfer delio â materion penodol Brexit. Mae ail-flaenoriaethu adnoddau presennol yn ddull pwysig a chyfrifol ac yn un y bydd angen gwneud defnydd pellach ohono wrth i fwy o wybodaeth am newidiadau yn y dyfodol ddod i'r amlwg.

Mae datblygu polisïau yn blaenoriaethu ymgysylltiad drwy ymgynghori ar ein cynigion deddfwriaethol ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ar beth fydd Brexit yn ei olygu iddynt hwy.

Bu inni ymgynghori â phlant yn ystod 2018-19 ac yr ydym yn edrych yn awr ar opsiynau ar gyfer ymgynghori'n ymhellach â hwy yn 2019-20.

## 6. Costau deddfwriaeth

Mae asesu costau deddfwriaeth a'r effaith ar y rhai y maent yn effeithio arnynt yn rhan hollbwysig o'r broses datblygu polisi. Cydnabyddir nad oes siec wag ar gyfer deddfwriaethau ac y bydd pob ymrwymiad newydd yn y MEG hwn yn cael ei dalu drwy doriad mewn maes arall.

Dyna paham y mae pob bil yn destun asesiadau cadarn o'r costau a'r buddiannau, a gyflawnir drwy ymgynghori ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid yn y gwaith o ddatblygu'r asesiadau effaith rheoleiddiol sy'n cael eu paratoi ar gyfer Biliau'r Llywodraeth. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod ein penderfyniadau yn cael eu hysbysu gan y bobl y byddant yn effeithio arnynt.

Mae camau'n cael eu cymryd i wella eglurder a chysondeb yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol (RIA) ond bydd newidiadau i'r bil yn ystod y broses a ffactorau eraill yn anochel yn arwain at ryw amrywiaethau rhwng y costau amcangyfrifedig a'r cam RIA cyhoeddedig a'r costau gwirioneddol wrth weithredu.

Dyraniadau ar gyfer darnau penodol o ddeddfwriaeth:

**Diddymu amddiffyniad cosb resymol**

Mae asesiad effaith rheoleiddiol yn cael ei lunio ar hyn o bryd i nodi costau a manteision y ddeddfwriaeth arfaethedig. Caiff yr asesiad ei gyhoeddi yn unol â gweithdrefnau arferol y Llywodraeth.

Rydym wedi dyfarnu contract tair blynedd i SBW Advertising i gefnogi ein hymgyrch 'Magu Plant. Rhowch amser iddo' rhwng 2018 a 2021, gyda dyraniad gwerth hyd at £325,000 ar gyfer 2019-20. Mae'r ymgyrch yn cefnogi ein polisi o annog dulliau cadarnhaol yn lle cosbi plant yn gorfforol, a byddwn yn datblygu'r dull hwn o weithredu ymhellach er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r bil arfaethedig yn ystod 2019-20.

**Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)**

Cwblhawyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil sy'n nodi'r costau a'r manteision yn llawn. Bydd y £40miliwn sydd ar gael yn ystod 2019-20 ar gyfer y cynnig Gofal Plant yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Bil Cyllido Gofal Plant.

Nid oes unrhyw ddarnau eraill o ddeddfwriaeth yn berthnasol i'm portffolio.

## 7. Meysydd polisi penodol o fewn portffolio Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd

### *Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc, gan gynnwys CAMHS*

**Dyraniadau ar gyfer CAMHS arbenigol ar gyfer 2019-20 gan fyrddau iechyd**

Mae byrddau iechyd yn gyfrifol am bennu eu cyllidebau eu hunain ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, yn unol â'u hasesiadau o anghenion y boblogaeth a gofynion y cyllid a glustnodwyd ar gyfer iechyd meddwl. Mae unrhyw gyllid ychwanegol y gallai Llywodraeth Cymru ei darparu i gefnogi darpariaeth gwasanaeth penodol yn ddarostyngedig i broses pennu cyllideb 2019-20.

**Swm a chanran gwariant iechyd meddwl a glustnodwyd gan Fyrddau Iechyd a ddyrannwyd ar gyfer CAMHS.**

Nid yw'r cyllid a glustnodwyd yn gwahaniaethu rhwng gwahanol wasanaethau iechyd meddwl ac nid ydym yn casglu'r data hwn.

**Monitro gwariant gwirioneddol ar CAMHS gan Fyrddau Iechyd**

Mae cyllid ychwanegol wedi'i dargedu ar gyfer y meysydd hyn wedi bod ar gael ers 2015-16. Mae hyn wedi cynrychioli £8 miliwn y flwyddyn ac rydym yn adolygu'r cynnydd a wneir i ddatblygu gwasanaethau a'u perfformiad yn rheolaidd. Yn unol ag arfer arferol, ac ar ôl i wasanaethau newydd neu estynedig a ariannwyd gan y cyllid ychwanegol gael eu sefydlu a'u hymgorffori o fewn gwasanaethau CAMHS, mae'r cyllid yn cael ei gynnwys yn nyraniadau cyllido ehangach y bwrdd iechyd.

**Y gyllideb ragamcanol ar gyfer gwasanaethau CAMHS ar gyfer 2019-20, 2020-21 a 2021-22.**

Byrddau iechyd sy'n gyfrifol am bennu eu cyllidebau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, yn unol â'u hasesiadau o anghenion y boblogaeth a gofynion y cyllid a glustnodwyd ar gyfer iechyd meddwl. Mae unrhyw arian ychwanegol y gallai Llywodraeth Cymru ei ddarparu i gefnogi darpariaeth gwasanaeth benodol yn ddarostyngedig i broses pennu cyllideb 2019-20. Fodd bynnag, nodir bod y maes hwn yn un sydd wedi'i amlygu fel blaenoriaeth yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer proses pennu cyllideb 2019-20.

**Sut y bydd y blaenoriaethau yn y Rhaglen Er Lles Plant a Phlant a Phobl Ifanc yn cael eu cyflawni ar gyfer 2019-20.**

Mae'r Rhaglen Er Lles Plant a Phlant a Phobl Ifanc yn y broses o gwblhau ei chynllun gwaith 2019-20 ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd mis Medi 2019. Ar ôl cytuno arno, byddwn yn ymgysylltu â'r arweinwyr rhaglenni i gytuno ar y cynllun a chytuno pa adnoddau sydd eu hangen er mwyn cyflawni ei hamcanion, beth yw statws y rhain yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer darpariaeth iechyd meddwl plant a phobl ifanc, fodd bynnag, dylid nodi bod llawer o'r gwaith hwn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad Mind Over Matter.

Nid oes gan y rhaglen ei hun gyllid penodol, ar wahân i ddarparu'r tîm canolog. Rôl graidd y tîm hwn yw cynorthwyo byrddau iechyd a sefydliadau eraill i gyfeirio eu cyllid ar gyfer cyflawni blaenoriaethau'r rhaglen.

## *Iechyd meddwl Amenedigol*

**Dyraniadau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol**

Byrddau iechyd sy'n gyfrifol am bennu eu cyllidebau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, yn unol â'u hasesiadau o anghenion y boblogaeth a gofynion y cyllid a glustnodwyd ar gyfer iechyd meddwl.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i wella gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol. Ers 2015 rydym wedi buddsoddi £1.5 miliwn y flwyddyn yn y gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol ar draws Cymru, sy'n helpu i nodi, trin a rheoli salwch meddwl cyn ac ar ôl geni baban. Nid yw hyn wedi newid ers cyllideb ddrafft 2018-19.

Mae byrddau iechyd wedi cael cyfle hefyd i gyflwyno cynigion ychwanegol er mwyn cynyddu capasiti gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol o'r gronfa trawsnewid iechyd meddwl sy'n werth £7 miliwn.

Cafwyd cydnabyddiaeth hefyd yn y Gyllideb Ddrafft bod angen buddsoddiad pellach yn y maes hwn. Felly, bydd hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r drafodaeth fanwl ar y broses o bennu cyllideb.

**Dyraniadau i sefydlu gwasanaethau iechyd mewnol amenedigol ar gyfer cleifion mewnol**

Mae'r Byrddau Iechyd Lleol yn cwblhau yn awr eu cynigion drwy drefniadau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) ar gyfer gwasanaethau cleifion mewnol ac nid ydym wedi darparu unrhyw gyllid ychwanegol penodol yn benodol at y diben hwn.

Fodd bynnag, gall byrddau iechyd gyflwyno cynigion hefyd ar gyfer elfennau cyfalaf y prosiect hwn drwy'r broses Buddsoddi yn Seilwaith y GIG.

Noder hefyd y sylw uchod mewn cysylltiad â'r trafodaethau sy'n parhau ar gyllideb 2019/20.

## *Gwasanaethau newyddenedigol*

**Dyraniadau ar gyfer cyflawni Safonau Newyddenedigol Cymru Gyfan;**

Mae Rhwydwaith Newyddenedigol Cymru yn darparu cyngor amserol ar sail tystiolaeth i Fyrddau Iechyd, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) a Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â gwasanaethau newyddenedigol. Yn ystod Hydref 2016, symudodd Rhwydwaith Newyddenedigol Cymru i Gydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru, a gynhelir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, ar ôl bod o dan ymbarél WHSSC cyn hynny.

Mae Rhwydwaith Newyddenedigol Cymru yn sicrhau bod cynnydd yn cael ei fonitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn. Bu i'r Rhwydwaith Newyddenedigol ddiwygio'r safonau Newyddenedigol, gyda'r 3ydd Argraffiad yn cael ei gymeradwyo gan Grŵp Llywio'r Rhwydwaith Newyddenedigol ym Medi 2017. Mae'r safonau'n defnyddio'r dystiolaeth a'r canllawiau arfer gorau diweddaraf er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol yn glinigol ac yn weithredol. Mae datblygiadau newyddenedigol o bob cwr o'r Deyrnas Gyfunol yn dylanwadu arnynt ac maent yn ystyried argymhellion gan Gymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain (BAPM), y Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Cenedlaethol (NNAP), a Choleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH), Bliss a safonau eraill a gyhoeddwyd yn Lloegr a'r Alban.

O ddechrau 2019 gofynnir i Fyrddau Iechyd hunanasesu yn flynyddol yn erbyn y Safonau, fel rhan o broses adolygu cymheiriaid sy'n cael ei datblygu yn awr gan Gydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru yn awr.

Mae'r Rhwydwaith Newyddenedigol yn datblygu dangosfwrdd Newyddenedigol ar gyfer Cymru Gyfan, a fydd yn darparu gwybodaeth ar weithgareddau a pherfformiad; darparu sicrwydd ar ansawdd gwasanaethau newyddenedigol yng Nghymru; darparu llwyfan ar gyfer monitro mesur NNAP ar sail Cymru gyfan; cefnogi ceisiadau busnes WHSSC a Llywodraeth Cymru am wybodaeth ar y ddarpariaeth o wasanaethau newyddenedigol.

**Y blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol**

Ymhlith y blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaethau Newyddenedigol yn y 12 mis nesaf mae gweithio gyda'r Rhwydwaith Newyddenedigol i sicrhau trafnidiaeth 24 awr, gwasanaeth trafnidiaeth newyddenedigol 7 niwrnod yr wythnos ar draws De Cymru a sicrhau bod y capasiti gofal critigol gyda'r gweithlu priodol ar waith ar draws De Cymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn disgwyl i Fyrddau Iechyd weithio gyda'r Rhwydwaith Newyddenedigol i sicrhau bod eu cynlluniau gwasanaethau newyddenedigol yn ddigon cadarn i gyflawni Safonau Newyddenedigol Cymru Gyfan a gwelliannau ar draws y gwasanaeth.

**Sut y bydd y dyraniad cyllideb 2019-20 yn helpu i ysgogi newid / cyflawni gwelliannau perfformiad**

Mae gwasanaethau newyddenedigol byrddau iechyd yn cael eu hariannu drwy ddyraniad refeniw blynyddol yn ôl disgresiwn a bydd byrddau iechyd yn pennu eu blaenoriaethau lleol ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, a fydd hefyd yn nodi eu dyraniad cyllideb newyddenedigol i WHSSC ar gyfer 2018-19. WHSSCC sy'n rheoli'r mwyafrif o gyllideb byrddau iechyd ar gyfer comisiynu Gofal Dwys Newyddenedigol (Lefel 4) a gwasanaethau Dibyniaeth Uchel Newyddenedigol (Lefel 3). Mae'r gyllideb ar gyfer Unedau Gofal Arbennig Babanod yn cael ei rheoli gan y Byrddau Iechyd.

Rhwng 2015 a 2020, bydd Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi ychydig o dan £110 miliwn mewn datblygiadau newyddenedigol ar hyd a lled Cymru. Gwneir y buddsoddiad mewn nifer o safleoedd aciwt allweddol yng Nghymru, gyda'r nod o leihau nifer yr achosion o drosglwyddo mamau a babanod drwy ddarparu amgylchedd arbenigol, gyda'r gofod angenrheidiol, i sicrhau bod y gofal a roddir i fabanod yn ddiogel ac effeithiol. Bydd y cyllid ar draws y cyfnod hwn yn cynnwys:

- buddsoddi £19 miliwn yn y Ganolfan Gofal Dwys Newyddenedigol Isranbarthol (SuRNICC) yn Ysbyty Glan Clwyd, a agorwyd gan Brif Weinidog Cymru ym Medi 2018;
- dyrannwyd £37 miliwn ar gyfer y datblygiadau Cam II yn Ysbyty Athrofaol Caerdydd, a ddylai gael ei gwblhau yn 2019;
- dyrannwyd £25 miliwn ar gyfer Cam II y cynllun Menywod a Phlant yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin, a ddylai gael ei gwblhau yn 2020;
- dyrannwyd £10 miliwn ar gyfer Capasiti Newyddenedigol ac Ôl-enedigol ar safle Ysbyty Singleton, a ddylai gael ei gwblhau ddiwedd 2019;
- dyrannwyd £6 miliwn ar gyfer gwaith ar yr uned newyddenedigol yn Ysbyty Tywysog Charles, Merthyr Tudful a dylai gael ei gwblhau yn 2018;
- buddsoddi £2 filiwn mewn gwaith ar uned newyddenedigol safle Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd, a agorwyd yn ystod gwanwyn 2017
- buddsoddi £10 miliwn yng ngham 1 gwaith newyddenedigol yn Ysbyty Athrofaol Cymru a Glangwili er mwyn galluogi buddsoddiad pellach.

## *Gweithredu'r Fframwaith Nyrsio Ysgolion*

**Dyraniadau ar gyfer y fframwaith nyrsio ysgolion**

Mae grŵp gweithredu a monitro wedi'i sefydlu gyda chynrychiolaeth o bob bwrdd iechyd. Y gyllideb ar gyfer 2018-19 oedd £4,000 ar gyfer darparu cynhadledd arfer gorau ar ddechrau 2019 a £3,000 ar gyfer melin drafod arweinyddiaeth i ddatblygu cymysgedd sgiliau o fewn y gweithlu ymwelwyr iechyd / nyrsio ysgolion. Mae hyn yn gysylltiedig â £3,000 ar gyfer melin drafod ymwelwyr iechyd / nyrsio ysgolion ar y cyd yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Hyd nes y bydd y digwyddiadau hyn wedi'u cynnal ac y bydd y camau nesaf wedi'u cyflwyno yn y fframwaith, ni allwn amcangyfrif unrhyw wariant cysylltiedig yn gywir ar gyfer 2019-20.

**Costau ychwanegol a ragwelir ar gyfer gweithredu rhan 2 y fframwaith nyrsio ysgolion – nyrsio mewn ysgolion arbennig, pan gaiff ei gyhoeddi.**

Dyrannwyd cyllideb o £5,000 ar gyfer 2018-19. Mae'r gyllideb hon wedi'i dyrannu ar gyfer digwyddiad lansio a digwyddiad Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn y flwyddyn nesaf er mwyn cefnogi ei weithrediad. Ni ragwelir unrhyw gostau ychwanegol yn y cyfnod hwn.

Rhagwelir cyllideb o £5,000 i gefnogi'r cyflwyniad yn 2019-20.

## *Gordewdra Plant*

**Dyraniadau gofynnol arfaethedig ar gyfer gweithredu'r strategaeth genedlaethol arfaethedig ar ordewdra**

Byddwn yn ymgynghori ar y cynllun pwysau iach drafft ar gyfer Cymru yn ddiweddarach eleni, gyda fersiwn terfynol y cynllun yn cael ei gynhyrchu erbyn Hydref 2019. Ar y cam hwn, heb unrhyw gynigion cadarn wedi'u cadarnhau, ni wnaed unrhyw benderfyniadau ar y cyllid sy'n ofynnol, y tu hwnt i'r cyllid sydd ei angen i ddatblygu'r cynllun.

Bydd byrddau iechyd lleol yn parhau i ddyrannu cyllid ar gyfer gweithredu'r Llwybr Gordewdra ar gyfer Cymru yn eu hardaloedd perthnasol.

**Ardoll y diwydiant diodydd meddal**

Mae gan Lywodraeth Cymru ddisgresiwn ar sut y mae'n dewis defnyddio cyllid canlyniadol gan Lywodraeth y DU. Ochr yn ochr â chyflwyno'r ardoll, mae Llywodraeth y DU wedi cynyddu gwariant mewn nifer o feysydd yn Lloegr. O ganlyniad, rydym wedi derbyn rhywfaint o gyllid sydd eisoes wedi'i ddyrannu mewn cyllidebau dilynol, yn unol â'n blaenoriaethau.

Diben y dreth siwgr oedd cymell gweithgynhyrchwyr i addasu eu cynhyrchion drwy leihau'r swm o siwgr sydd ynddynt. Mae'r arwyddion cynnar yn galonogol. Mae tystiolaeth eisoes o ostyngiad yn y lefel o siwgr mae plant yn ei fwyta drwy ddiodydd llawn siwgr, o ganlyniad i weithgynhyrchwyr yn addasu eu cynhyrchion cyn i'r dreth siwgr gael ei chyflwyno. Mae mwy na 50% o weithgynhyrchwyr wedi newid eu fformiwlâu i leihau siwgr, yn ôl ffigurau gan y Trysorlys.

### *Darparu adnoddau ar gyfer Y 1000 Diwrnod Cyntaf / Hwb Cymorth ACE*

**Hwb Atal a Chymorth ACE Cymru**

Mae mynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACE) yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Mae'n awyddus i greu 'gwasanaethau cyhoeddus sy'n ymwybodol o ACE', ac un o'r ffyrdd y mae'n gweithio i gyflawni hyn yw drwy gefnogi datblygiad Hwb Cymorth ACE ar gyfer Cymru.

Bwriedir i'r Hwb fod yn ganolfan wybodaeth ac arbenigedd i helpu sefydliadau, cymunedau ac unigolion i fod yn ACE-wybodus, i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ACE a chefnogi gweithrediadau ar y cyd er mwyn mynd i'r afael ag ACE.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £400,000 ar gyfer 2018-19, £300,000 a £100,000 o'r cyllidebau Cymunedau ac Addysg yn y drefn honno.

Cafwyd cytundeb mewn egwyddor i barhau â'r cyllid ar gyfer 2019-20 ar lefel debyg, yn ddarostyngedig i gymeradwyo'r cynllun cyflawni 3 blynedd.

Yn ogystal â'r cyllid uniongyrchol hwn, mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi gwaith i atal ACE a lliniaru eu heffaith drwy ei rhaglenni cefnogi plant a theuluoedd, Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf, a mentrau eraill gan gynnwys Plant yn Gyntaf a'r ymgyrch Magu Plant 'Rhowch Amser Iddo'.

**Gwaith Y 1,000 Diwrnod Cyntaf a'r Rhaglen Plant Iach Cymru**

Mae'r ffocws ar y 1000 diwrnod cyntaf, yn ystod beichiogrwydd a hyd at ail ben-blwydd plentyn yn cydnabod y corff cynyddol o dystiolaeth ryngwladol y byddai blaenoriaethu adnoddau yn y blynyddoedd cynnar iawn yn creu buddiannau gydol oes ychwanegol a gwell elw ar fuddsoddiad i gymdeithas a'r gwasanaethau cyhoeddus.

Mae Rhaglen Gydweithredol Y 1,000 Diwrnod Cyntaf yn cael ei chyflenwi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ran Cymru Well, sy'n bartneriaeth o arweinwyr strategol o'r sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn gweithio i hwyluso gweithrediadau lleol drwy hwyluso cyrff gwasanaethau cyhoeddus i ddefnyddio dull cydweithredol i wella canlyniadau yn y 1,000 diwrnod cyntaf. Hefyd, mae'r rhaglen yn nodi ac yn cyfathrebu'r cyfleoedd sy'n bodoli i ddatblygu gwydnwch a chynyddu ffactorau amddiffynnol, atal problemau rhag datblygu i ddechrau ac ymyrryd yn gynharach pan fydd risgiau'n cael eu nodi.

Mae'r cyd-destun deddfwriaethol y mae menter Cymru Well yn bodoli ynddo yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae hefyd yn cael ei lywio gan egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus a gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael yng Nghymru.

Mae Rhaglen Plant Iach Cymru yn pennu’r cyfeiriad allweddol ar gyfer byrddau iechyd yng Nghymru, gyda ffocws ar ymyrraeth gynnar, a gynlluniwyd i sicrhau bod gan blant yr iechyd gorau.

Mae’r Rhaglen yn ymrwymedig i ddiogelu iechyd a llesiant plant drwy gyflwyno amrediad o fesurau ataliol ac ymyrraeth gynnar ar sail tystiolaeth a chyngor ac arweiniad i gefnogi rhieni i fagu plant a gwneud dewisiadau ar gyfer ffordd o fyw iach yn ogystal â nodi teuluoedd sydd angen cymorth ychwanegol.

## 8. Meysydd polisi penodol ym mhortffolio'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol.

| | Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19 | Cyllideb Ddrafft 2019-20 |
|---|---|---|
| **Cymorth i Deuluoedd** | **£3.122 miliwn** | **£3.122 miliwn** |

Mae'r dyraniad Cymorth i Deuluoedd yn darparu cyllid ar gyfer amrediad o feysydd polisi, gan gynnwys yr ymgyrch Magu Plant. Rhowch Amser Iddo, Rhaglen Integreiddio y Blynyddoedd Cynnar a Hwb Cymorth ACE.

| | Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19 | Cyllideb Ddrafft 2019-20 |
|---|---|---|
| **Refeniw Dechrau'n Deg** | **£73.772 miliwn** | **£73.772 miliwn** |
| **Cyfalaf Dechrau'n Deg** | **£566,000** | **£529,000** |

Nid yw cyllideb refeniw Dechrau'n Deg wedi newid ers 2018-19 ac mae'n cadarnhau ein hymrwymiad parhaus i'r rhaglen bwysig hon. Mae hyn yn adfer y lefelau cyllido i'r toriadau a gynlluniwyd yn flaenorol ar gyfer y rhaglen hon. Mae cadw'r lefel hon o gefnogaeth yn dangos ein bod yn blaenoriaethu ymyrraeth gynnar, gwaith atal a chefnogi er mwyn darparu'r dechrau gorau mewn bywyd i blant. O 1af Ebrill 2019, bydd y grant refeniw Dechrau'n Deg yn dod yn rhan o'r Grant Plant a Chymunedau mwy.

Mae adolygiad yn cael ei gynnal o'r rhaglen a gwneir hynny mewn ymgynghoriad llawn â'r awdurdodau lleol sy'n darparu'r rhaglen hon ar lawr gwlad. Rydym yn awyddus i adeiladu ar gyflawniadau sylweddol y rhaglen a dysgu o'r hyn sy'n gweithio'n dda, yn arbennig sut y gallwn atgyfnerthu trefniadau gwaith partneriaeth, cydweithredol ac amlasiantaeth ar draws y sectorau, wrth gefnogi plant a'u teuluoedd.

Yn dilyn cwblhau Cam 2 yr adolygiad, rhoddwyd y gallu i Awdurdodau Lleol ddefnyddio hyd at 10% o'u cyllideb refeniw i ariannu Allgymorth, ar yr amod nad yw hynny'n cael effaith negyddol ar neu'n tynnu sylw oddi ar ethos ac integredd y rhaglen, nac yn lleihau'r nifer o blant o fewn ardal Dechrau'n Deg a allai elwa o'r rhaglen. Fodd bynnag, mae yn galluogi Awdurdod Lleol nad ydynt wedi cyflawni eu CAP (y nifer targed o blant a bennwyd ar eu cyfer gan Lywodraeth Cymru) i ddefnyddio'r hyblygrwydd i gefnogi plant ychwanegol er mwyn cyflawni eu CAP. Pan fydd awdurdod lleol eisoes yn gweithredu i'w huchafswm CAP, mae'n llai tebygol y gallant ymestyn y ddarpariaeth allgymorth.

Ers ei gyflwyno, mae Dechrau'n Deg wedi buddsoddi mwy na £62.5 miliwn o gyfalaf yn datblygu'r seilwaith sydd ei angen ar hyd a lled Cymru i gyflenwi'r rhaglen. Mae hyn yn cynnwys creu lleoliadau gofal plant newydd i ddarparu tua 9,000 o leoedd rhan amser, o safon uchel, sydd eu hangen ar gyfer plant 2-3 oed a buddsoddiad sylweddol ar gyfer datblygu adeiladau ar gyfer y timau aml-asiantaeth sy'n cyflenwi'r rhaglen. Y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2019-20 yw £566,000 ac mae awdurdodau lleol yn cael eu hannog i fabwysiadu dull gweithredu strategol at gynllunio rhaglenni

cyfalaf, gan gynnwys Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Cynnig Gofal Plant er mwyn i flaenoriaethau allweddol gael eu cyflawni mewn ffordd fwy cydgysylltiedig.

| | Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19 | Cyllideb Ddrafft 2019-20 |
|---|---|---|
| **Teuluoedd yn Gyntaf** | **£35.978 miliwn** | **£35.978 miliwn** |

Nid yw cyllideb Teuluoedd yn Gyntaf wedi newid ers 2018-19 ac mae'n cadarnhau ein hymrwymiad parhaus i'r rhaglen bwysig hon. Mae hyn yn adfer y lefelau cyllido i'r toriadau a gynlluniwyd yn flaenorol ar gyfer y rhaglen hon. Mae'r buddsoddiad parhaus hwn yn helpu teuluoedd i greu amgylcheddau cefnogol a chyfoethog i'w plant, ac mae'n helpu i leihau'r achosion o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod sy'n effeithio ar ganlyniadau tymor hwy.

| | Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19 | Cyllideb Ddrafft 2019-20 |
|---|---|---|
| Cymorth i Oofal a Chwarae Plant | **£30.345 miliwn** | **£43.351 miliwn** |

Mae darparu'r **cynnig gofal plant** hwn yn cefnogi teuluoedd sy'n gweithio sydd â phlant tair a phedair oed ar hyd a lled Cymru, gan helpu rhieni i dderbyn cynigion am swyddi a chynyddu eu dewisiadau cyflogaeth, a gwella amgylchiadau eu teuluoedd. Mae'r cynlluniau i gyflwyno'r cynnig yn llawn erbyn 2020 yn mynd rhagddynt yn dda ac mae'r adborth cynnar gan yr ardaloedd braenaru cyntaf yn awgrymu ei fod yn cael effaith gadarnhaol, drwy gynorthwyo rhieni yn ariannol a'u galluogi i gydbwyso pwysau gwaith a bywyd teuluol.

Bydd cyllid o £40 miliwn ar gael yn 2019-20 i gefnogi cyflwyniad cynnar y cynnig gofal plant drwy raglen dreigl ar sail galw. Mae hyn yn ostyngiad o £5m o'r gyllideb a gyhoeddwyd yn flaenorol yn 2018-19, mewn ymateb i'r lefelau arfaethedig a fydd yn defnyddio'r cynnig a'r amcanestyniadau presennol. Ni fydd y gostyngiad yn effeithio ar y cyflwyniad arfaethedig. Rydym hefyd yn buddsoddi £60m o gyllid cyfalaf dros dair blynedd o 2018-19 er mwyn cefnogi cyd-leoliad darpariaeth bresennol y Cyfnod Sylfaen gyda darpariaeth Cynnig Gofal Plant newydd ar un safle, lle bynnag y bo'n bosibl, ac i sicrhau bod gofal plant digonol ar gael yn yr ardaloedd cywir, gyda ffocws penodol ar ddatblygu darpariaeth newydd mewn ardaloedd lle nad oes gwasanaethau gofal plant yn awr, yn arbennig ardaloedd gwledig a difreintiedig.

Mae gan y cynnig gofal plant y potensial i fod yn gatalydd ar gyfer trawsnewid y sector gofal plant yn fwy cyffredinol, gan gynyddu hygyrchedd, fforddiadwyedd ac argaeledd gofal plant i bob rhiant ac i blant o bob oed. Bydd hyn yn adeiladu ar y cymorth arall yr ydym yn ei ddarparu ar gyfer gofal plant a'r sector chwarae, gan gynnwys:

- Darparu **£1.43 miliwn** y flwyddyn i'r consortia Cwlwm, sy'n cynnwys y pum prif sefydliad gofal plant yng Nghymru, er mwyn cynorthwyo'r sector gofal plant a'n helpu ni i ddatblygu datrysiadau gofal plant arloesol a hyblyg a fydd yn cyflawni anghenion teuluoedd.

- Darparu **£360,000** y flwyddyn i Chwarae Cymru: darparu cymorth strategol i Awdurdodau Lleol a phartneriaid ar gyfer gweithredu'r Ddyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol; datblygu canolfan ragoriaeth ryngwladol ar sail chwarae; darparu cyngor i Lywodraeth Leol am bob maes polisi sydd â chysylltiad â chwarae; a darparu cyngor i Lywodraeth Cymru ar ddatblygu gweithlu chwarae.

- Darparu cyllid i Gofal Cymdeithasol Cymru fel partner cyflenwi allweddol a'r cyngor sgiliau sector ar gyfer y gweithlu gofal plant. Bydd y cyllid yn cael ei ddyrannu i Gofal Cymdeithas Cymru er mwyn cefnogi cyflwyniad y cynllun gweithlu 10 mlynedd a gyhoeddir yn Rhagfyr 2017, gan gynnwys cyfres newydd o gymwysterau gofal plant a gyhoeddir ym Medi 2019.

- Fel rhan o'n rhaglen Prentisiaethau a defnyddio Cronfa Gymdeithasol Ewrop fe wnaethom gyflwyno ein rhaglen **Cynnydd ar gyfer Llwyddiant** er mwyn cefnogi ymarferwyr presennol i uwchsgilio ar draws lefelau 2 a 3. Mae'r rhaglen hon wedi llwyddo i ddarparu cymorth a chyfleoedd i fwy na 950 o ymarferwyr presennol uwchsgilio. Rydym yn bwriadu adeiladu ar lwyddiant Cynnydd ar gyfer Llwyddiant ac rydym yn ystyried estyniad i'r rhaglen yn awr, a fydd yn galw am arian cyfatebol.

- Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda NDNA (National Day Nursery Association) i ddatblygu ein prosiect 'Childcare Works', sy'n ceisio cefnogi'r rhai sy'n ddi-waith yn awr ond sy'n meddu ar y sgiliau a'r rhinweddau personol cywir i weithio gyda'n plant ieuengaf. Yn ogystal â darparu profiad gwaith, mae'r prosiect hwn yn darparu hyfforddiant cyflwyniadol pwrpasol i alluogi cyfranogwyr i ddilyn gyrfa yn y sector. Rydym wedi gweld nifer o ganlyniadau cadarnhaol gyda llawer o gyfranogwyr wedi sicrhau cyflogaeth barhaol. Rydym yn ystyried cynnig ar gyfer ail Gam yn awr, a allai weithredu ar draws Cymru gyfan.

Yn ogystal, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ym Medi y bydd pob meithrinfa ddydd plant yng Nghymru, o Ebrill 2019, wedi'u heithrio rhag talu ardrethi annomestig mewn pecyn o gymorth sy'n werth £7.5 miliwn dros dair blynedd. Mae'r cymorth ychwanegol hwn i ddarparwyr gofal plant yn cefnogi busnesau lleol yn ogystal â chefnogi cyflwyniad y cynnig gofal plant a fydd, yn ei dro, yn gwneud cyfraniad pwysig i'n huchelgeisiau yn y flaenoriaeth y blynyddoedd cynnar.

| | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20** |
|---|---|---|
| **Plant yn Gyntaf** | **£100,000** | **0** |

Nid yw Plant yn Gyntaf yn rhaglen sy'n cael ei hariannu. Mae yna bum ardal Arloesi Plant yn Gyntaf ar hyn o bryd, sy'n cael eu cefnogi gan Lywodraeth Leol, ac maent yng Nghwm Taf, Gwynedd, Casnewydd, Caerffili a Sir Gaerfyrddin.

Er nad yw Plant yn Gyntaf yn rhaglen sy'n cael ei hariannu, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig cyllid sbarduno o £20,000 i bob ardal Arloesi i'w helpu i ddatblygu'r dull gweithredu. Bydd y grant hwn, sy'n gyfanswm o £100,000, ond ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19. Mae ardaloedd arloesi wedi cyflwyno eu cynlluniau ar sut y maent yn bwriadu defnyddio'r cyllid hwn a bydd cynnydd yn cael ei fesur a'i

werthuso yn erbyn eu cynllun cytunedig.  Bydd yr ardaloedd Arloesi yn cyflwyno adroddiad cynnydd yn ystod haf 2019.

| | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20** |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd** | **O fewn y Grant Cynnal Refeniw** | **O fewn y Grant Cynnal Refeniw** |

Darperir y cyllid ar gyfer y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd drwy Grant Cymorth Refeniw'r Awdurdod Lleol.  Er bod grant neu drefniant contract wedi bod ar waith yn flaenorol gan ddarparu cymorth allanol i'r rhwydwaith Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, mae'r Isadran Plant a Theuluoedd yn darparu cymorth uniongyrchol i'r Rhwydwaith hwn yn awr er mwyn sicrhau bod ymwybyddiaeth o bolisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, a allai effeithio ar blant a theuluoedd a galluogi i arfer da gael ei rannu ar hyd a lled Cymru.

| | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20** |
|---|---|---|
| **Cymorth Rhianta** | **£0.4 miliwn** | **£0.4 miliwn** |

Nodwyd cyllideb o £0.4 miliwn er mwyn datblygu gwaith rhianta cadarnhaol y flwyddyn nesaf drwy Magu Plant.  Rhowch Amser Iddo.

Rydym wedi dyfarnu contract tair blynedd i SBW Advertising i gefnogi ein hymgyrch Magu Plant. Rhowch Amser Iddo rhwng 2018 a 2021.  Mae'r ymgyrch yn cefnogi ein polisi o annog dewisiadau amgen cadarnhaol i gosbi corfforol, a byddwn yn datblygu ein dull gweithredu ymhellach er mwyn cefnogi'r Bil arfaethedig yn ystod 2019-20.

| | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20** |
|---|---|---|
| **Diogelu** | **£0.560 miliwn** | **£0.560 miliwn** |

Mae cyllid ar gyfer Diogelu yn cefnogi gweithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) yn bennaf ac yn hyrwyddo agenda ataliol er mwyn gwella canlyniadau i blant ac oedolion mewn perygl.

Mae'r blaenoriaethau diogelu ar gyfer 2018-19 yn cael eu cynnwys o dan Symud Cymru Ymlaen.  Y blaenoriaethau allweddol ar gyfer Diogelu yw: Datblygu a Gweithredu Polisi Diogelu, cynnwys adolygiad o Weithdrefnau Diogelu Cymru, cefnogi Wythnos Ddiogelu 2018, datblygu polisi a chanllawiau arfer diogelu a chefnogi'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (y Bwrdd Cenedlaethol) a Byrddau Diogelu rhanbarthol.

Mae Symud Cymru Ymlaen yn datgan y byddwn yn "archwilio ffyrdd o sicrhau bod plant mewn gofal yn mwynhau'r un cyfleoedd mewn bywyd â phlant eraill, a diwygio'r

ffordd y gofelir amdanynt os bo angen". Mae datblygu'r Gofal Cymdeithasol hwn hefyd yn un o'r 5 blaenoriaeth uchaf yn Ffyniant i Bawb ac mae'n datgan yn glir y dylid gwrando ar blant a'u cynorthwyo i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol.

Bydd cyllid ar gyfer diogelu hefyd yn galluogi i waith barhau gyda'r byrddau diogelu rhanbarthol i sicrhau gwelliannau i arfer ac arfer diogelu ar hyd a lled Cymru i blant ac oedolion mewn perygl. Bydd cyllid hefyd yn cael ei flaenoriaethu i gyflawni Gweithdrefnau Diogelu Cymru, sy'n deillio o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'r canllawiau a chanllaw arfer ategol er mwyn darparu diogelwch gwell i blant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu fathau eraill o niwed. Bydd y gwaith hwn yn helpu i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl i arwain bywydau iach a chyflawn.

Yn 2019-20 bydd y blaenoriaethau yn cynnwys parhau i gefnogi'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol i weithredu Gweithdrefnau Diogelu Cymru a'r canllawiau arfer ategol a chyllid ar gyfer y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, sy'n darparu cymorth i fyrddau rhanbarthol a chyngor i Weinidogion am effeithiolrwydd trefniadau diogelu yng Nghymru.

Bydd cyllid ar gyfer yr Wythnos Ddiogelu yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn 2019-20; bydd hyn yn cyfrannu at atal a diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl, gwaith ac amcan byrddau diogelu rhanbarthol drwy helpu i godi ymwybyddiaeth o'r cyfraniad y gall cymunedau, unigolion ac ymarferwyr ar draws sefydliadau ei wneud i ddiogelu plant ac oedolion mewn perygl.

Mae datblygu Gofal Cymdeithasol yn un o'r 5 blaenoriaeth uchaf yn Ffyniant i Bawb; bydd diogelu cyllid yn sicrhau bod llais plant sy'n derbyn gofal, plant sydd angen gofal a chefnogaeth ac unigolion penodol eraill yn cael ei glywed a'u bod yn derbyn cymorth i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol a'u bod yn derbyn cymaint o help a chymorth a chyfleoedd bywyd â phlant eraill.

| | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20** |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau ar Ffiniau Gofal** | **0** | **0** |
| **Plant sy'n derbyn gofal / gadael gofal** | **£0.270 miliwn** | **£0.270 miliwn** |
| **Gwasanaethau mabwysiadu gan gynnwys cymorth ar ôl mabwysiadu** | **£0.352 miliwn** | **£0.352 miliwn** |
| **Gwasanaethau Maethu** | **£0.173 miliwn** | **0*** |
| **Cronfa Dydd Gŵyl Dewi** | **£1 miliwn** | **0** |

Mae '*Symud Cymru Ymlaen'* yn cynnwys y bennod ar Uchelgeisiau a Dysgu sy'n datgan y byddwn yn "archwilio ffyrdd o sicrhau bod plant mewn gofal yn mwynhau'r un cyfleoedd mewn bywyd â phlant eraill, a diwygio'r ffordd y gofelir amdanynt os bo

angen”.  Gan adeiladu ar hyn, mae Gofal Cymdeithasol yn un o’r 5 blaenoriaeth uchaf yn *‘Ffyniant i Bawb’* ac mae’n datgan yn glir y dylid gwrando ar blant a’u cynorthwyo i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol.

Mae’r Grant Pontio Plant sy’n Derbyn Gofal (LACTG) yn darparu cyllid ar gyfer nifer o fentrau sy’n gwella canlyniadau i blant sy’n derbyn gofal er mwyn sicrhau bod pob plentyn mewn gofal yn cael yr un gofal a chyfleoedd bywyd â phlant eraill.  Yn yr un modd, mae’r gyllideb Plant Agored i Niwed yn cynorthwyo plant sydd wedi’u mabwysiadu er mwyn sicrhau bod ganddynt hwy a’u teulu y mynediad angenrheidiol i wasanaethau cefnogi er mwyn dechrau eu bywyd teuluol.  Mae’r ddwy gyllideb hyn wedi’u cynnwys yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Cefnogi Plant, ac mae eu ffrydiau gwaith yn cynnwys:

- Cyllid i gefnogi gwaith Grŵp Cynghori’r Gweinidog (cyllideb flynyddol o £270,000), gan gynnwys £200,000 i gefnogi datblygiad a chyflwyniad gwaith sy’n cael ei gynnwys o fewn rhaglen waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gofal Preswyl;
- Cronfa £1 filiwn Dydd Gŵyl Dewi sy’n cefnogi pobl ifanc sy’n gadael gofal i gael mynediad at gyfleoedd a fydd yn cefnogi eu hannibyniaeth a’u taith at fod yn oedolion;
- Yn 2018-19 darparwyd cyllid o £90,000 i’r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol er mwyn datblygu ymhellach a chyflenwi elfennau allweddol o’r Fframwaith Cefnogi Mabwysiadu (yn 2017-18 darparwyd £215,000, ac ychwanegwyd £125,000 ohono i’r Grant Cymorth Refeniw o Ebrill 2018) a chefnogi ei ddull gweithredu strategol a holistaidd ar gyfer y gwasanaethau cefnogi mabwysiadu.  Buddsoddwyd £178,000 pellach er mwyn cynnal cronfa ddata i ddarparu ar gyfer Cofrestr Fabwysiadu Cymru yn y dyfodol.  Rydym hefyd yn gobeithio hwyluso ymchwil pellach £32,000) drwy gefnogi’r astudiaeth o’r cohort mabwysiadu ac rydym wedi clustnodi £25,000 ar gyfer gwaith pellach ar drefniadau ar gyfer brodyr a chwiorydd a chyswllt yn y trefniadau ar gyfer plant sy’n derbyn gofal a phlant sy’n cael eu mabwysiadu ar draws Cymru gyfan yn ystod 2018-19.
- Clustnodwyd £0.173m yn 2018-19 ar gyfer y cynllun Peilot Llesiant Maethu – Addysgeg Gymdeithasol.  Mae’r rhaglen hon yn cael ei hariannu ar y cyd gan yr adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.  Mae cynlluniau’n cael eu datblygu yn awr ar gyfer 2019-20.

Yn ystod 2017-18 ac yn ychwanegol at yr uchod, darparwyd £8 miliwn o gyllid canlyniadol cyllideb y DU i gefnogi plant â phrofiad o ofal.  Defnyddiwyd y cyllid hwn i ddatblygu ac ehangu’r gwasanaethau ar ffiniau gofal, ymestyn y prosiect Reflect ar draws pob rhanbarth yng Nghymru, cynyddu cymorth i bobl ifanc sy’n gadael gofal, gan gynnwys cyflwyno cynlluniau hyfforddeiaethau awdurdodau lleol, ymestyn y ddarpariaeth cynghorwyr personol hyd at 25 oed a datblygu’r Fframwaith Maethu Cenedlaethol.  Trosglwyddwyd y cyllid rheolaidd i’r Grant Cynnal Refeniw yn ystod 2018-19.

Trosglwyddwyd £1 filiwn i'r Grant Plant a Chymunedau yn y MEG Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus o ran Dydd Gŵyl Dewi o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Cefnogi Plant yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2019-20.

| | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20** |
|---|---|---|
| **Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy 2016-19** | **£6.885 miliwn** | **£6.885 miliwn** |

Dyfarnwyd y Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy 2016-19 yn 2015 yn dilyn proses ceisiadau cystadleuol. Mae'r grant yn darparu cyllid ar sail prosiect i sefydliadau'r trydydd sector ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi'r canlyniadau a'r themâu allweddol sy'n sail i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn ogystal â chyflawni meini prawf penodol ac arddangos gwerth am arian da.

Mae'r grant wedi'i ymestyn am gyfnod o un flwyddyn, hyd at fis Mawrth 2020, tra bydd y cynlluniau ar gyfer Cam 2 y grant yn cael eu cymeradwyo a chynnal ymarfer ceisiadau cystadleuol pellach.

| | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20** |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau Eiriolaeth** | **£1.100 miliwn** | **£1.100 miliwn** |

Bwriedir i'r gwaith o ddatblygu'r **Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol** ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, plant mewn angen ac unigolion penodol eraill sicrhau cysondeb o ran hawl ac arfer da wrth gomisiynu a chyflenwi darpariaeth eiriolaeth statudol yng Nghymru, ac ymwybyddiaeth ohono.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r "Cynnig Gweithredol" er mwyn galluogi Awdurdodau Lleol i ddarparu dull cenedlaethol o gefnogi eiriolaeth i blant a phobl ifanc sydd â hawl awtomatig i eiriolwr proffesiynol annibynnol pan fyddant yn dechrau derbyn gofal neu os ydynt wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Mae'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithas wedi cymeradwyo cyllid o hyd at £550,000 i gefnogi'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth - Cynnig Gweithredol. Ar hyn o bryd mae hyn yn ail flwyddyn grant dwy flynedd i gefnogi gweithrediad y Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol i Blant a Phobl Ifanc, fel y'i nodir yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth Leol 2016-17.

**Llinell Gymorth Meic**: Meic yw'r llinell gymorth genedlaethol o wybodaeth, cyngor ac eiriolaeth sy'n darparu un pwynt cyswllt i blant a phobl ifanc drwy Radffôn, negeseua gwib a negeseuon testun.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r gweithgarwch hwn yn uniongyrchol ond mae'n cynnal cyfarfodydd contract monitro rheolaidd gyda Pro-Mo Cymru, y dyfarnwyd contract dwy flynedd iddynt (yn ogystal ag opsiwn ar gyfer dwy flynedd arall) yn Ebrill 2016 yn dilyn ymarfer tendro cyhoeddus yn 2015.

Yn Rhagfyr 2017, cymeradwyodd y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol gyllid ar gyfer 12 mis pellach. Mae'r uchafswm cyllideb flynyddol o £550,000 yn parhau yr un fath ond mae'r elfen farchnata wedi'i lleihau o £50,000 i £40,000.

Cymeradwywyd estyniad wrth i Lywodraeth Cymru gostio ac ystyried opsiynau amgen ar gyfer cyflenwi gwasanaeth cyngor ac eiriolaeth mwy integredig ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

| | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20** |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth Cynghori a Chefnogi Gwasanaeth Llys i Blant** | **£10.267 miliwn** | **£10.267 miliwn** |

Mae Cafcass Cymru yn wasanaeth gweithredol sy'n cael ei arwain gan alw i'r Llys Teulu yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru. Mae ymarferwyr Cafcass Cymru yn gweithio gyda bron i 9,000 o'r plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yn y system cyfiawnder teuluol, gan sicrhau bod ein hymyriadau yn hyrwyddo llais y plentyn, eu bod yn canolbwyntio ar eu hawliau, eu llesiant a'u budd gorau er mwyn cyflawni canlyniadau gwell i'r plentyn sy'n rhan o'r System Cyfiawnder Teuluol yng Nghymru.

Mae'r sefydliad yn ceisio dylanwadu ar y system cyfiawnder teuluol a'r gwasanaethau ar gyfer plant yng Nghymru, gan ddarparu cyngor o safon uchel i Weinidogion a sicrhau bod anghenion teuluoedd a phlant yng Nghymru yn cael eu hadlewyrchu mewn datblygiadau prosesau a pholisïau. O'r gyllideb £10.267 miliwn, mae 92% yn cynrychioli costau staffio ac 8% i'r gwasanaethau a gomisiynir a'r costau seilwaith.
Ar wahân i gostau staffio a rhedeg y sefydliad, mae'r gyllideb yn darparu cyllid grant i gefnogi rhieni sydd wedi gwahanu, yn dilyn cyfarwyddyd gan y Llys Teulu, i gael cyswllt gyda'u plant. Mae'r gyllideb hefyd yn ariannu darpariaethau'r rhaglen Gweithio Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant sy'n cefnogi rhieni sydd wedi gwahanu, neu sydd yn gwahanu, i reoli eu hymddygiad eu hunain yn well er mwyn sicrhau bod anghenion emosiynol, ymarferol a chorfforol a budd gorau eu plant yn flaenoriaeth.

| | Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19 | Cyllideb Ddrafft 2019-20 |
|---|---|---|
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19** | **£0.991 miliwn** | **£0.991 miliwn** |

Mae’r cyllid yn cefnogi Plant yng Nghymru i gyflawni yn erbyn eu cynllun cytunedig; mae hyn yn cynnwys cefnogi cyfranogiad drwy Cymru Ifanc. Yn ogystal, mae’r gyllideb hon yn cefnogi’r gweithgarwch canlynol:

- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP). Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer contract hyfforddiant gyda Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, er mwyn codi ymwybyddiaeth o CCUHP.
- Hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc, gan gynnwys cefnogi’r wefan Pobl Ifanc.
- Hyrwyddo hawliau plant yn gyffredinol, a chefnogi’r ddyletswydd sylw dyledus.

| | Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19 | Cyllideb Ddrafft 2019-20 |
|---|---|---|
| **Comisiynydd Plant Cymru** | **£1.543 miliwn** | **£1.543 miliwn** |

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn sefydliad hawliau plant annibynnol a sefydlwyd yn 2001. Prif nod y Comisiynydd, yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000, yw diogelu a hyrwyddo hawliau a llesiant plant. Mae Deddf Safonau Gofal 2000 yn gwneud darpariaethau i Weinidogion Cymru ariannu’r Comisiynydd Plant a’i swyddfa. Mae’r gyllideb yn cwmpasu costau rhedeg swyddfa’r Comisiynydd ar gyfer 2019-20 a’r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau statudol.

*Daeth y **Grant Cyflenwi Plant a Theuluoedd** i ben ar 30 Medi 2017.*

# Templed Asesiad Effaith ar Hawliau Plant

| | |
|---|---|
| **Teitl/Darn o Waith:** | Cynllunio cyllideb Cafcass Cymru. |
| **Rhif SF/LF perthnasol** (os yw'n berthnasol) | Ddim yn berthnasol |
| **Enw'r Swyddog:** | Matt Wright |
| **Adran:** | Cafcass Cymru |
| **Dyddiad:** | |
| **Llofnod:** | Matt Wright |

Cwblhewch yr Asesiad Effaith ar Hawliau Plant a'i gadw ar gyfer eich cofnodion ar iShare. Efallai y gofynnir i chi ddarparu'r ddogfen hon yn ddiweddarach er mwyn dangos tystiolaeth eich bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i feddu ar ystyriaeth briodol o hawliau plant e.e. ceisiadau mynediad Rhyddid Gwybodaeth, dibenion monitro neu i lywio adrodd i Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru.


Wrth ei chwblhau, dylech hefyd anfon copi o'r Asesiad Effaith ar Hawliau Plant i'r Tîm Gweithredu Mesurau at ddibenion monitro gan ddefnyddio'r blwch post dynodedig CRIA@wales.gsi.gov.uk

Os nad yw swyddogion yn sicr a ddylent gwblhau Asesiad Effaith ar Hawliau Plant ai peidio, dylent fod yn wyliadwrus a cheisio cyngor gan y Tîm Gweithredu Mesurau drwy anfon unrhyw gwestiynau i'n blwch post CRIA@wales.gsi.gov.uk

Efallai yr hoffech groesgyfeirio ag asesiadau effaith eraill yr ymgymerir â hwy.

**D.S. Mae'n rhaid cyhoeddi'r holl Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant ynghyd â'r darn o waith perthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'n rhaid rhestru'r holl Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant yng nghylchlythyr Asesiad Effaith ar Hawliau Plant Llywodraeth Cymru a dylent fod ar gael ar gais. Fodd bynnag, anogir Gweinidogion i gyhoeddi'r holl Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant sydd wedi'u cwblhau.**

# Chwe Cham i Ystyriaeth Briodol




## Cam 1. Beth yw'r darn o waith a'i amcan/amcanion?

Ariennir Cafcass Cymru gan Lywodraeth Cymru i gyflawni gwasanaeth statudol, yn unol â Deddf Plant 2004, i'r Llys Teulu ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r sefydliad wedi derbyn cyllideb flynyddol o £10.267m o 2016-17 tan 2018-19

Gwasanaeth gweithredol a arweinir gan y galw yw Cafcass Cymru ac yn 2017-18, gwnaeth weithio gydag oddeutu 9,000 o'r plant a'r bobl ifanc fwyaf diamddiffyn sy'n destun gweithgareddau'r llys teulu yng Nghymru. Bydd plant yn dod i gyswllt ag ymarferydd Cafcass Cymru os ydynt yn destun achosion yn llys teulu:

- Achosion cyfraith gyhoeddus yw pan fo corff cyhoeddus, megis yr awdurdod lleol, yn ymwneud â gweithgarwch plant megis cyflwyno cais am ofal neu oruchwyliaeth, ceisiadau i fabwysiadu neu orchmynion diogelu brys.
- Achosion cyfraith preifat yw pan fo rhieni sy'n gwahanu'n penderfynu na allant gytuno ar y trefniadau gorau i'w plentyn, naill ai'n anffurfiol neu drwy sesiynau cyfryngu.

Bob blwyddyn, mae'n rhaid i Uwch-dîm Rheoli Cafcass Cymru benderfynu sut i ddyrannu'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Ar wahân i gostau staffio a chynnal y sefydliad, mae'r gyllideb yn rhoi arian grant i ganolfannau cyswllt achrededig er mwyn cefnogi plant sy'n dechrau neu sy'n cynnal perthynas ag aelodau o'r teulu sydd wedi'u gwahanu dan gyfeiriad Llys Teulu. Mae'r gyllideb hefyd yn ariannu darparu'r rhaglen Gweithio gyda'n Gilydd i Blant. Os bydd y llys yn ei orchymyn, bydd yn rhaid darparu'r rhaglen hon i rieni sydd wedi gwahanu fel ffordd o'u hysbysu o effaith gwahanu ar blant a phwysigrwydd cyfathrebu cadarnhaol rhwng rhieni.

Wrth ystyried sut dylai'r gyllideb gael ei dyrannu, mae Cafcass Cymru'n ystyried y canlynol:

Yr egwyddorion allweddol sy'n sail i'n gwasanaeth:

- dylai plant a phobl ifanc gael eu diogelu rhag pob math o niwed
- anghenion plant a phobl ifanc yw'r prif bryder
- mae gan blant a phobl ifanc amrywiaeth eang o gefndiroedd ac anghenion
- lle y bo'n ddiogel, y peth gorau i blant a phobl ifanc yw cael eu magu gan eu teuluoedd eu hunain yn eu cymunedau eu hunain
- dylai trefniadau diogel ac effeithiol o ran cyswllt â rhieni, brodyr a chwiorydd, teulu estynedig a ffrindiau fod ar waith i blant a phobl ifanc nad ydynt yn gallu byw gydag aelodau o'u teulu
- mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael eu clywed
- mae pob ffurf ar ormes a gwahaniaethu'n niweidiol
- mae gan ddefnyddwyr gwasanaeth yr hawl i dderbyn gwasanaeth dwyieithog a chyfiawn, ni waeth beth yw eu hamgylchiadau neu lle maent yn byw
- mae gwelliant parhaus a sicrhau gweithlu amrywiol a dwyieithog yn elfennau hanfodol i effeithiolrwydd parhaus.

Deddf Plant 2004 a'r egwyddorion arweiniol i:

- Galluogi plant i fod yn iach
- Galluogi plant i fod yn ddiogel yn eu hamgylchedd
- Helpu plant i fwynhau eu bywydau
- Helpu'r plant yn eu hymgais i lwyddo
- Helpu i gyfrannu - cyfraniad cadarnhaol - i fywydau'r plant
- Helpu i gyflawni sefydlogrwydd economaidd i ddyfodol ein plant

Deddf Plant 2004

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chefnogi'r pedwar maes blaenoriaeth:

- Llesiant
- Atal
- Pobl
- Partneriaeth ac Integreiddio

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r pum ffordd o weithio:

- Tymor Hir
- Integreiddio
- Cynhwysiad
- Cydweithio
- Atal

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Cynllun Strategol 2016-2019 - *Rhoi Llais* wedi darparu pedwar nod strategol clir wrth osod cyfeiriad a darparu ffocws tymor hir ar gyfer y blynyddoedd nesaf:

- Darparu cyngor a gwybodaeth arbenigol o safon, amserol ac annibynnol i blant, teuluoedd a llysoedd
- Sicrhau bod ein hymyrraeth yn hyrwyddo llais y plentyn a'i bod yn ganolog i'w hawliau, eu llesiant a'u budd gorau
- Dylanwadu ar System Cyfiawnder Teuluol a gwasanaethau i blant yng Nghymru
- Galluogi staff i fod y gorau y gallant fod o fewn sefydliad deinamig, amrywiol ac agored.

Cynhelir y mwyafrif o waith craidd, cyfraith gyhoeddus a gwaith achosion cyfraith breifat Cafcass Cymru gan ein Hymgynghorwyr Llys Teulu. Mae pob Ymgynghorydd Llys Teulu'n weithiwr cymdeithasol cofrestredig, cymwys ag o leiaf tair blynedd o brofiad ar ôl cymhwyso. Mae Ymgynghorydd Llys Teulu wedi'i aseinio i bob achos gan Cafcass Cymru a dyma'u pedair prif ddyletswydd:

- hyrwyddo llesiant plant;
- rhoi cyngor i unrhyw lys/lysoedd y cyflwynir cais iddo;
- helpu plant i gael eu cynrychioli yn yr achosion;
- darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth arall i blant a'u teuluoedd.

## Cam 2. Dadansoddi'r effaith

Mae ein swyddogaethau statudol yn diffinio ein cyfrifoldebau craidd o ran darparu cyngor gwaith cymdeithasol annibynnol mewn perthynas â phlant mewn gweithgarwch llys teulu. Ar lefel achos, ein rôl yw diogelu a hyrwyddo llesiant y plant hyn, ac i sicrhau y clywir eu lleisiau yn yr achosion. Felly, mae gan ymarferydd Cafcass Cymru y rôl ddeuol o sicrhau bod dymuniadau a theimladau'r plant yn cael eu cyflwyno, ond hefyd i gynghori er eu budd gorau.

Ar lefel sefydliadol, un o'n nodau strategol allweddol a amlinellwyd yn ein '*Cynllun Strategol 2016-19: Rhoi Llais'* yw canolbwyntio ar ddylanwadu ar y System Cyfiawnder Teuluol a gwasanaethau i blant yng Nghymru. Mae hyn yn cysylltu ac yn ystyried daliadau canolog Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran meddwl am y tymor hir, gweithio'n well gydag eraill i atal problemau a meddu ar ymagwedd fwy cydlynol. Mae rhai enghreifftiau o'r gwaith hwn yn cynnwys y canlynol:

- Datblygu fframwaith perfformiad sy'n canolbwyntio'n fwy ar *'ganlyniadau'* h.y. ceisio cyflwyno mecanwaith a mesurau dirprwyol yn fwy systematig ynghylch effaith a *'gwerth ychwanegol'* a chysylltu a sicrhau bod hwn ar gael i randdeiliaid allweddol yn y System Cyfiawnder Teuluol megis awdurdodau lleol, y farnwriaeth a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi.
- Ymgymryd â rôl ragweithiol wrth ddatblygu Arsyllfa Cyfiawnder Teulu i Gymru a Lloegr gan gynnwys prosiect pedair blynedd a hanner i gynyddu'r defnydd o'n data gweinyddol er lles y system gyfan a dysgu ar y cyd â Cafcass (Lloegr), SAIL (Prifysgol Abertawe) a Phrifysgol Caerhirfryn.
- Yn gysylltiedig â'r uchod, gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ehangach o ran y potensial i gynyddu cyfleoedd wrth ddefnyddio setiau data presennol ar gyfer dysgu a newid ar draws y system, gan gynnwys datblygu dealltwriaeth ddyfnach o rai o'r rhesymau craidd dros deuluoedd yn dod yn rhan o'r System Cyfiawnder Teuluol yng Nghymru.
- Cydweithio ag adrannau gwasanaethau plant yr awdurdod lleol i rannu a dadansoddi gwybodaeth gyda'i gilydd, ac i lywio cyfleoedd ar gyfer datblygiad a gwelliant ar draws y system yn genedlaethol ac yn lleol.
- Cydweithio â meysydd eraill o Lywodraeth Cymru ar faterion o ddiddordeb cilyddol. Er enghraifft, gweithio'n agos gyda'r Adran Plant a Theuluoedd i alluogi ein cwrs Gweithio gyda'n Gilydd er Lles plant (wedi'i anelu ar rieni sydd wedi gwahanu) i ddod yn fwy hygyrch i deuluoedd y tu allan i'r System Llys Teulu.
- Datblygu ein hagenda gyfranogi drwy weithio gyda grwpiau megis y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc ar amrywiaeth eang o weithgareddau megis hwyluso cynhadledd staff Cafcass Cymru (Mai 2018), helpu i lywio ail-ddylunio'n gwefan ac wrth ddatblygu pecynnau gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar blant. Hefyd, er mwyn sicrhau ein bod yn recriwtio'r ymgeiswyr gorau i'n rolau sy'n seiliedig ar arfer, mae cynrychiolwyr y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc bellach ar ein paneli cyfweld ac yn cymryd rhan yn y broses recriwtio.

Ni nodwyd unrhyw gysylltiadau penodol rhwng amcanion allweddol y Strategaeth Tlodi Plant i Gymru a swyddogaethau statudol CAFCASS Cymru.

## Cam 3. Sut mae eich darn o waith yn cefnogi a hybu hawliau plant?

Diben sylfaenol Cafcass Cymru yw sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed mewn achosion llys teulu ac y gwrandewir arnynt. Mae ymarferwyr Cafcass Cymru yn diogelu ac yn hybu llesiant plant ac yn eu galluogi i gyfrannu at achosion a hyrwyddo canlyniadau llesiant personol. Wedi i ni gael ein penodi gan y llys, ein rôl yw darparu cyngor ac argymhellion ar gyfer y llys teulu ynghylch budd pennaf y plant.

Caiff ein gwasanaethau ni, fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar y plentyn, eu llywio gan gyfres o egwyddorion, sy'n cynnwys y canlynol:

- Dylai plant a phobl ifanc gael eu diogelu rhag pob math o niwed.
- Mae anghenion plant a phobl ifanc yn hollbwysig.
- Mae gan blant a phobl ifanc ystod amrywiol o gefndiroedd ac anghenion.
- Gyda'u teulu ac o fewn eu cymuned eu hunain yw'r lle gorau i fagu plant a phobl ifanc, pan fo'n ddiogel i wneud hynny.
- Os na all plant a phobl ifanc fyw gydag aelodau o'u teulu, dylai trefniadau diogel ac effeithiol fod ar waith iddynt gysylltu â rhieni, brodyr a chwiorydd, teulu estynedig a ffrindiau.
- Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael eu clywed.
- Mae pob math o orthrymder a gwahaniaethu yn niweidiol.

Mewn cyfraith breifat, nod ein gwaith gyda theuluoedd yw cynghori'r llys a'r partïon ar ba drefniadau fyddai orau i'r plentyn. Mae hyn yn cynnwys eu cynorthwyo i gytuno ar drefniadau ynghylch eu plentyn, sy'n ddiogel ac er budd pennaf y plentyn.

Caiff ymarferydd Cafcass Cymru hefyd ei benodi gan y llys mewn achosion cyfraith teulu cyhoeddus penodol (e.e. mewn achosion lle y mae'r awdurdod lleol yn gysylltiedig). Rôl yr ymarferydd yw canfod a lleisio dymuniadau a theimladau'r plentyn ac, yn dilyn hyn, rhoi cyngor ar bennaf les y plentyn.

Mewn rhai sefyllfaoedd ym maes gwaith cyfraith breifat, dyrennir arian grant i ddarparwyr cyswllt cynorthwyol dan oruchwyliaeth i gynorthwyo plant i ddatblygu a/neu gynnal perthynas gydag aelodau o'r teulu y maen nhw wedi'u gwahanu oddi wrthynt, e.e. fel rhan o achosion llys teulu. Mae'r rhaglen Gweithio Gyda'n Gilydd dros Blant yn cefnogi rhieni sydd wedi gwahanu neu sy'n gwahanu i reoli'r cyswllt rhwng aelodau o'r teulu'n well ac i bwysleisio pwysigrwydd cydnabod eu hanghenion emosiynol, ymarferol a chorfforol eu hunain a blaenoriaethu budd pennaf eu plant.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gydag rhanddeiliaid, gan gynnwys y Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol a grwpiau ieuenctid eraill er mwyn adolygu a gwella ein gwasanaeth.

Mae'r gwaith sydd wedi'i amlinellu yn yr adran hon yn ystyried llawer o agweddau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), yn enwedig y canlynol:

Erthygl 3
Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio tuag at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

Erthygl 9
Ni ddylai plant gael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni oni bai bod hynny er eu lles nhw. Mae gan blant rhieni sydd wedi gwahanu yr hawl i aros mewn cysylltiad â'r ddau riant

Erthygl 12

Mae gan blant yr hawl i ddweud yr hyn y maen nhw'n credu y dylai ddigwydd, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i gael eu safbwyntiau wedi'u hystyried.

Erthygl 18
Mae'r ddau riant yn rhannu'r cyfrifoldeb o fagu eu plant, a dylent bob amser ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn.

Erthygl 19
Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn cael gofal priodol, a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n gofalu amdanynt.

Erthygl 21
Pan fydd plant yn cael eu mabwysiadu, y flaenoriaeth yw'r hyn sydd orau iddyn nhw.

## Cam 4. Cynghori'r Gweinidog a phenderfyniad Gweinidogol

Fel yr eglurwyd uchod, y plentyn neu'r person ifanc sy'n ganolog i'r gwaith y mae Cafcass Cymru'n ei wneud wrth gwblhau ei swyddogaethau statudol. Ar lefel achos, mae ystyried y CCUHP yn rhan allweddol o'r gwasanaeth a ddarperir gan ymarferwyr Cafcass Cymru wrth weithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'r sefydliad yn cefnogi'r dull gweithredu hwn trwy ei waith gyda rhanddeiliaid, megis y Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol, ar draws nifer o feysydd, gan gynnwys ein ffordd o recriwtio ymarferwyr a datblygu gwasanaethau hygyrch ac ystyrlon i blant a phobl ifanc. Mae'r dull gweithredu hwn yn cyd-fynd ag egwyddorion ac athroniaeth y CCUHP.

Mae'r Gweinidog yn cael ei friffio'n rheolaidd ar sefyllfa gyllidebol Cafcass Cymru trwy brosesau dyrannu a monitro cyllideb Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â hyn, mae nodiadau briffio wedi'u darparu ar ddatblygiadau allweddol o fewn y sefydliad ac ar y gwasanaethau a ddarperir. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Datblygu fersiwn o adroddiad blynyddol Cafcass Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc
- Datblygu a chyhoeddi Cynllun Strategol a Chynllun Cyfranogi Cafcass Cymru
- Trefniadau cyllido ar gyfer gwasanaethau cyswllt plant yng Nghymru
- Darparu'r cwrs Gweithio Gyda'n Gilydd dros Blant

## Cam 5. Cofnodi a chyfathrebu'r canlyniad

Caiff yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â chyflawni swyddogaethau statudol Cafcass Cymru ei chadw ar system rheoli cofnodion Llywodraeth Cymru, iShare, ac ar system rheoli achos Cafcass Cymru, IRIS.

Mae'r asesiad hwn yn cynrychioli gwasanaeth Cafcass Cymru fel ag yr oedd ym mlwyddyn ariannol 2018-19, a bydd yn cael ei ddiweddaru yn unol ag unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol i'r gwasanaeth neu'r ddeddfwriaeth yn y dyfodol.

## Cam 6. Ailymweld â'r darn gwaith pan a phryd fydd angen

Fel y crybwyllwyd yng Ngham 5, mae'r asesiad hwn yn cynrychioli gwasanaeth Cafcass Cymru fel ag yr oedd ym mlwyddyn ariannol 2018-19, a bydd yn cael ei ddiweddaru yn unol ag unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol i'r gwasanaeth neu'r ddeddfwriaeth yn y dyfodol.

Fel y nodwyd yng Ngham 2, caiff y canlyniadau a gyflawnir trwy ymyriadau Cafcass Cymru â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd eu monitro er mwyn sicrhau effeithiolrwydd y gwasanaeth a'i gyfraniad at y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru.

**Cyllidebau**

| | |
|---|---|
| **A oes gan y darn gwaith hwn unrhyw gyllideb dyrannu gysylltiedig?**<br><br>**A allwch nodi faint o'r gyllideb hon fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer plant a phobl ifanc?**<br><br>Pan fydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i'r cynlluniau gwario, gan gynnwys pan fydd dyraniadau neu arbedion ychwanegol wedi'u gwneud, mae'n bwysig fod y rhain yn cael eu hasesu a'u tystiolaethu fel rhan o broses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. | Oes<br><br>Mae cyllideb Cafcass Cymru yn galluogi'r sefydliad i ddarparu gwasanaeth statudol i Lys Teulu Cymru ar ran gweinidogion Cymru. O'r gyllideb hon, caiff 92% ohoni ei neilltuo ar gyfer costau staffio ac 8% ohoni ei neilltuo ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir a chostau seilwaith |
| **A oes unrhyw wariant ychwanegol wedi'i nodi er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gyfrannu at y darn gwaith a bod eu safbwyntiau'n cael gwrandawiad teg? Os oes, faint?** | Mae Cynllun Cyfranogi 2016-19 Cafcass Cymru yn nodi sut mae'r sefydliad wedi bod yn adeiladu ar ein gwaith uniongyrchol gyda phlant unigol mewn achosion llys teulu. Mae'n golygu y gallwn roi llais i blant a phobl ifanc ynghylch y ffordd y maen nhw'n derbyn ein gwasanaethau a chyfle iddynt fynegi eu barn, eu pryderon a'u hawgrymiadau ar sut y gellir datblygu a gwella'r sefydliad ymhellach. Caiff y gwaith hwn ei wneud o fewn dyraniad cyffredinol y gyllideb. |
| **Nodwch unrhyw fanylion:**<br>Amherthnasol | |

**Monitro ac adolygu**

| | |
|---|---|
| **A oes angen i ni fonitro/adolygu'r cynnig?** | **Oes** |
| **Os yw'n berthnasol:trefnwch y dyddiad adolygu** | **Ebrill 2020** |

Anfonwch gopi o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn at **CRIA@wales.gsi.gov.uk** at ddibenion monitro

**Gweler y dudalen nesaf am Restr Gryno o erthyglau CCUHP**

Dear Cabinet Secretary

We are Neath Port Talbot Youth Council and are writing to you to express our concerns regarding how the Education Improvement Grant will affect the Minority Ethnic Services (MEAS) and also the Traveller Education Service (TES).

Being a youth council we see it as our duty to ensure all young people within Neath Port Talbot are supported and included in every way we can. We would appreciate it if you could take the liberty to explain why the funding for these learners is now included in one grant which serves disadvantaged learners across Wales.

Yn dilyn gweithdai comisiynu a hwyluswyd gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, mae dau Fwrdd Iechyd yng Nghymru wedi mynegi diddordeb mewn darparu gwasanaeth Uned Mamau a Babanod. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried ymarferoldeb unrhyw gynigion, costau amcangyfrifiedig a'r amserlenni. Rhagwelir y bydd y cyflwyniadau hyn yn barod i'w cyflwyno gerbron Cyd-bwyllgor y Gwasanaethau Iechyd Arbenigol ar 13 Tachwedd. Bydd opsiynau ar gyfer darparu gwasanaeth Uned Mamau a Babanod y gall menywod y Gogledd ei ddefnyddio yn cael ei gyflwyno hefyd.

Rydym wedi gofyn i Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ddarparu diweddariad yn uniongyrchol i chi yn dilyn y Cyd-bwyllgor ar 13 Tachwedd.

**Argymhelliad 5: Bod y rhwydwaith clinigol a reolir newydd (gweler argymhelliad 1) yn rhoi blaenoriaeth i gynhyrchu canllawiau i weithwyr proffesiynol a gwybodaeth i gleifion, yn seiliedig ar dystiolaeth, ynghylch sut gall cyfnod mewn uned mamau a babanod fod o fudd i famau, babanod a'u teuluoedd fel y gellir gwneud penderfyniadau mwy gwybodus am opsiynau triniaeth.**

Mae'r Gymuned Ymarfer sefydledig yn darparu'r ymchwil a'r wybodaeth ddiweddaraf i glinigwyr. Y tîm 1000 o fywydau sy'n hwyluso'r Gymuned ar hyn o bryd. Cynhaliodd y tîm 1000 o fywydau gynhadledd ym Mawrth 2018 hefyd a oedd yn canolbwyntio ar hybu iechyd meddwl rhieni a babanod yn y 100 diwrnod cyntaf.

Bydd yr Arweinydd Clinigol Iechyd Meddwl Amenedigol newydd, unwaith y bydd yn ei swydd, yn blaenoriaethu gweithio'n agos gyda Phwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru i greu canllawiau penodol ar dderbyniadau i Uned Mamau a Babanod.

**Argymhelliad 7: Bod Llywodraeth Cymru, yng ngoleuni'r ffaith na fydd uned mamau a babanod sydd wedi'i lleoli yn ne Cymru o reidrwydd yn addas i famau a theuluoedd yng nghanolbarth a gogledd Cymru, yn ymgysylltu fel mater o frys â GIG Lloegr i drafod opsiynau ar gyfer creu canolfan yn y gogledd-ddwyrain a allai wasanaethu poblogaethau o boptu'r ffin. Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o sicrwydd mewn perthynas â gallu GIG Cymru i gomisiynu gwelyau mewn unedau mamau a babanod mewn canolfannau yn Lloegr lle pennir bod angen clinigol amdanynt.**

Mae trafodaethau'n parhau gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Er bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, fel comisiynwyr y gwasanaeth cyfredol, wedi cael nifer o sgyrsiau â GIG Lloegr, ni chytunwyd ar drefniadau pendant i gaffael gwelyau yn y Gogledd hyd yn hyn. Mae'r Tîm Iechyd Meddwl Amenedigol Arbenigol yn y Gogledd yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cynlluniau ar gyfer model asesu a throsglwyddo lleol i welyau arbenigol naill ai yn GIG Cymru neu Loegr fel bo angen. Bydd papur yn cynnwys y gwahanol opsiynau ac amlinelliad o gostau'n cael ei gyflwyno gerbron Cyd-bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar 13 Tachwedd.

Fel y nodwyd uchod rydym wedi gofyn i Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru roi diweddariad uniongyrchol i chi yn dilyn y Cyd-bwyllgor.

**Argymhelliad 8: Bod Llywodraeth Cymru'n darparu cynllun gweithredu clir i sicrhau bod canolfannau sy'n darparu gwelyau mewn unedau mamau a babanod, pa le bynnag y bônt (yng Nghymru neu yn Lloegr) wedi'u hintegreiddio'n agos â thimau iechyd meddwl amenedigol cymunedol arbenigol a'u bod yn cael eu rheoli, eu cydgysylltu a'u hariannu ar sail genedlaethol, Cymru gyfan i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithlon a bod mynediad teg iddynt, yn enwedig gan fod eu hangen ar frys mewn sefyllfaoedd argyfwng yn aml.**

Rydym yn disgwyl i dimau cymunedol gysylltu â gwasanaethau cleifion mewnol yn Lloegr (neu Gymru) i sicrhau trosglwyddo di-dor o wasanaethau cartref i wasanaethau arbenigol ac yn ôl er mwyn cefnogi trosglwyddiad cam i fyny a cham i lawr didrafferth rhwng gofal cleifion mewnol a chymunedol. Mae'r Gymuned Ymarfer yn cynnwys aelodau o dimau cymuned pob bwrdd iechyd a fydd yn darparu gofal yng nghartrefi pobl gyda chysylltiadau i'r Uned Mamau a Babanod lle bo angen. Mae darpariaeth gyfredol yn cael ei rheoli fesul achos gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

**Argymhelliad 9: Ar sail dadl "buddsoddi er mwyn arbed" ac yn dilyn dadansoddiad o'r gwerthusiad o wasanaethau sydd ar droed, a chanlyniadau ymchwil Mind-NSPCC-Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl, bod Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid ychwanegol i'r Byrddau Iechyd er mwyn gallu mynd i'r afael ag amrywiadau yn well fel bod modd datblygu gwasanaethau a gwella ansawdd trwy ehangu'r timau presennol. Er mwyn sicrhau bod yr holl wasanaethau iechyd amenedigol cymunedol yn cyrraedd yr un safon â'r gorau, dylai'r dull a fabwysiedir gan Lywodraeth Cymru i ddyrannu cyllid ychwanegol anelu'n bennaf at yr angen i fynd i'r afael â'r gwahaniaeth mewn darpariaeth rhwng Byrddau Iechyd yng Nghymru.**

Roedd adroddiad Mind-NSPCC-Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl yn dangos y cynnydd a wnaed o ran darparu gofal iechyd meddwl amenedigol i fenywod a'u teuluoedd yng Nghymru ac yn gwneud cyfeiriadau penodol at y gwelliannau hyn. Mae monitro gweithgarwch timau iechyd meddwl amenedigol cymunedol yn barhaus hefyd wedi dangos tystiolaeth o gynnydd mewn galw.

Mae blaenoriaeth ar gyfer y gronfa trawsnewid iechyd meddwl £7 miliwn a ddechreuodd eleni yn cynnwys ystyriaeth i ehangu gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol fel maes blaenoriaeth allweddol. Gofynnwyd i fyrddau iechyd gyflwyno cynigion erbyn mis Gorffennaf ac mae swyddogion wedi bod yn asesu'r cynigion hyn. Mae byrddau iechyd wedi cadarnhau eu bwriad i wario tua £0.5 miliwn arall ledled Cymru ar wasanaethau iechyd meddwl amenedigol.

Mae buddsoddiad pellach yn y maes pwysig hwn hefyd wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2019-20. Byddwn yn gofyn i fyrddau iechyd ystyried adroddiad Mind-NSPCC- Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl wrth ddatblygu eu gwasanaethau ymhellach.

**Argymhelliad 10: Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y gwaith sy'n mynd rhagddo i wella mynediad at therapïau seicolegol ar gyfer menywod amenedigol (a dynion lle bo angen) yn cael ei flaenoriaethu o ystyried y cysylltiad sydd wedi'i sefydlu rhwng salwch amenedigol ac iechyd a datblygiad plentyn. Dylid rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod menywod beichiog a menywod sydd newydd roi genedigaeth sydd â phroblemau iechyd meddwl yn gallu cael therapïau siarad neu wasanaethau seicolegol (ar lefel gofal sylfaenol ac eilaidd) yn gyflym ac amserol, gydag amseroedd aros yn cael eu monitro a'u cyhoeddi. Gofynnwn am ddiweddariad ar gynnydd mewn perthynas â gwella mynediad at therapïau seicolegol ar gyfer menywod amenedigol (a dynion lle bo angen) o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.**

Rydym wedi darparu £4 miliwn o gyllid ychwanegol yn uniongyrchol i fyrddau iechyd i wella mynediad i therapïau seicolegol. Mae'r Pwyllgor Rheoli Therapïau Seicolegol Cenedlaethol wedi llunio cynllun gweithredu i helpu byrddau iechyd i asesu eu sefyllfa gyfredol a gwneud gwelliannau lleol. Rydym wedi cymeradwyo cynigion gan bob bwrdd iechyd i wella eu gwasanaethau lleol yn unol â'r cynllun cenedlaethol. Mae cymorth bellach wedi'i ddarparu i fyrddau iechyd i weithredu eu cynlluniau unigol.

Mae yna ofyniad eisoes bod rhaid cynnig asesiad gan Wasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol Lleol o fewn 28 diwrnod i dderbyn atgyfeiriad a bod ymyriadau therapiwtig dilynol gan y Gwasanaethau Cymorth yn dechrau o fewn 28 diwrnod i ganlyniad yr asesiad. Mae gan y ddau ofyniad darged perfformiad o 80%. Mae'r data diwethaf a gyhoeddwyd (Mehefin 2018) yn dangos bod Byrddau Iechyd yn bodloni'r targedau asesu ac ymyriadau ar sail pob oedran, drwy Gymru yn y Gwasanaethau Cymorth. Mae'r gwelliant hwn yng nghyd-destun mwy o atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Cymorth. Ledled Cymru, rhwng 2013 i 2015, derbyniwyd 4,863 o atgyfeiriadau bob mis, ond roedd y ffigur hwn wedi cynyddu i 5,589 ar gyfartaledd bob mis erbyn 2017-18. Mae hyn yn golygu bod mwy o bobl yn cael eu hatgyfeirio ac yn defnyddio'r Gwasanaethau Cymorth a bod mwy o bobl yn cael eu gweld ac yn derbyn ymyriadau therapiwtig yn brydlon lle bo angen.

Rydym yn cydnabod y bydd rhai menywod angen ymyriadau seicolegol mwy arbenigol ac mae'n buddsoddiad a'n cynllun cenedlaethol hefyd yn ceisio gwella mynediad i'r gwasanaethau hyn a sicrhau eu bod ar gael yn fwy amserol. Nid yw'n cynlluniau casglu data cyfredol ar gyfer y gwasanaethau mwy arbenigol hyn yn ein galluogi i ddadgyfuno'r data hwn mewn perthynas â gwasanaethau amenedigol ar hyn o bryd; bydd gwaith parhaus i ddatblygu set ddata craidd iechyd meddwl yn gwella'n gallu i wneud hyn yn y dyfodol.

**Argymhelliad 11: Bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod pob Bwrdd Iechyd yn buddsoddi mewn ymrwymo'n llawn i safonau ansawdd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol er mwyn gwireddu manteision adolygiad cymheiriaid, dysgu a rennir a meincnodi.**

Trwy Grŵp Llywio Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru Gyfan, mae pob bwrdd iechyd wedi ymrwymo i weithio tuag at safonau ansawdd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion. Cadarnhaodd adroddiad Mind-NSPCC-Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl fod dau dîm cymunedol wedi cofrestru ar gyfer y safon ansawdd hon gan roi gwybodaeth dda am ble ddylai timau cyfredol ganolbwyntio er mwyn gwella gwasanaethau a ddarperir.

Mae'r Grŵp Llywio a'r Gymuned Ymarfer yn parhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer dysgu a rennir a meincnodi.

**Argymhelliad 12: Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y llwybr gofal clinigol Cymru gyfan newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol yn gofyn am gysondeb o ran canlyniadau (gan gynnwys cyfnodau atgyfeirio ac amseroedd aros) ond yn galluogi Byrddau Iechyd i gadw lefel yr hyblygrwydd sydd ei angen o ran dulliau cyflwyno er mwyn rheoli a diwallu anghenion lleol. Dylai datblygu a gweithredu llwybr gofal clinigol Cymru gyfan integredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fewn y 12 mis nesaf (gyda rhai gwasanaethau lleol) fod yn flaenoriaeth. Dylai'r llwybr helpu i ddarparu gwasanaethau integredig a chymell ymyrraeth gynnar ac ymagweddau cyfannol tuag at ofal a gwella.**

Mae'r arweiniad ar lwybr integredig wedi'i ddatblygu – gweler yr ateb i gwestiwn 2.

**Argymhelliad 14: Bod Llywodraeth Cymru yn adolygu gwybodaeth a ddarperir mewn pecynnau cynenedigol ac ôl-enedigol safonol i fenywod yng Nghymru i sicrhau ei bod yn cynnwys y manylion angenrheidiol am les emosiynol, iechyd meddwl amenedigol a lle i ofyn am help a chymorth.**

Mae pob menyw feichiog yn derbyn y llyfr Naw Mis a Mwy (cyhoeddwyd yn 2014). Mae'r llyfr yn darparu gwybodaeth am feichiogrwydd a hyd at 5 mlynedd ar ôl i'r babi gael ei eni. Mae'n cynnwys gwybodaeth am lesiant a chyfeiriadau at ble i gael cymorth a chefnogaeth.

Mae swyddogion wrthi'n gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch gwybodaeth a ddarperir i rieni. Mae grŵp, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, yn ystyried yr opsiynau ar gyfer darparu gwybodaeth i rieni, yn cynnwys y defnydd posibl o blatfformau electronig ac apiau, yn hytrach na Naw Mis a Mwy yn unig.
http://www.wales.nhs.uk/documents/Pregnancy%20to%204%20Years%20Book%20FINAL%20English%20Revised%20E-Book%20Compressed.pdf

**Argymhelliad 15: Bod Llywodraeth Cymru yn dylunio fframwaith cenedlaethol ar gyfer dosbarthiadau cynenedigol, yn ei ddarparu i bob Bwrdd Iechyd a'i gwneud hi'n ofynnol iddynt wneud mwy i annog presenoldeb mewn dosbarthiadau. Dylai'r fframwaith gynnwys sgyrsiau am les emosiynol a realiti rhianta er mwyn chwalu'r stigma sylweddol a niweidiol ynghylch salwch meddwl amenedigol.**

Mae gan bob bwrdd iechyd ddarpariaeth crefft rhieni sy'n cael ei darparu'n lleol. Mae'r dulliau a ddefnyddir ledled GIG Cymru yn cael eu hadolygu fel rhan o'r gwaith o ddatblygu gweledigaeth ddarbodus ar gyfer gwasanaethau mamolaeth, sydd i'w gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn.

Rydym yn ymwybodol bod byrddau iechyd yn parhau i annog presenoldeb mewn nifer o ffyrdd. Mae enghreifftiau'n cynnwys cysylltu â chanolfannau hamdden lleol a chreu systemau archebu ar-lein. Rydym hefyd wedi cytuno i gysylltu â'r ffrwd waith addysg gynenedigol i lunio fframwaith cenedlaethol ar gyfer ymwybyddiaeth o iechyd meddwl amenedigol.

**Argymhelliad 16: Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r cyrff perthnasol i sicrhau bod iechyd meddwl amenedigol yn cael ei gynnwys yn hyfforddiant cyn-gofrestru a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yr holl weithwyr iechyd proffesiynol a chlinigwyr sy'n debygol o ddod ar draws menywod amenedigol. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod sylw i iechyd meddwl amenedigol fel pwnc ar ei ben ei hun ym maes bydwreigiaeth ac addysg ymwelwyr iechyd yn cael ei wella ac yn rhan o'r rhaglen nyrsio iechyd meddwl cyn cofrestru. Mae angen i gwricwlwm craidd Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer hyfforddiant ymarfer cyffredinol baratoi meddygon teulu yn well i ymdrin â phroblemau iechyd meddwl amenedigol hefyd.**

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yw rheoleiddiwr y DU ar gyfer nyrsys, bydwragedd a nyrsys iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol fel ymwelwyr iechyd. Rhan o'i rôl yw pennu'r safonau medrusrwydd sy'n arwain at gofrestru. Mae safonau medrusrwydd ar gyfer nyrsys a bydwragedd yn cael eu diwygio ar hyn o bryd a disgwylir iddynt gael eu cyflwyno ar gyfer rhaglenni sy'n dechrau ym mis Medi 2020.

Cyhoeddwyd y safonau medrusrwydd nyrsio newydd ac mae disgwyl i nyrsys gael gwybodaeth a sgiliau iechyd meddwl ym mhob maes ymarfer.

Mae yna weithgor gweithredu cenedlaethol sy'n cynnwys aelodau o'r sefydliadau addysg cymeradwy a GIG Cymru i ddatblygu'r rhaglenni nyrsio i'w cynnig yng Nghymru. Gofynnwyd i'r arweinydd rhaglen cenedlaethol sicrhau bod gofal iechyd meddwl amenedigol yn cael ei gynnwys yn benodol yn y rhaglenni nyrsio iechyd meddwl.

Tra bod y safonau bydwreigiaeth cyfredol yn cyfeirio at fonitro a chefnogi menywod sydd ag iselder neu salwch meddwl arall ôl-enedigol bydd cyfle i wella gwybodaeth a sgiliau bydwragedd ym maes iechyd meddwl amenedigol yn y dyfodol. Er mwyn sicrhau bod bydwragedd y dyfodol yn barod am yr heriau a ddaw, mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wrthi'n adolygu a gweithio i ddiogelu safonau medrusrwydd bydwragedd cofrestredig at y dyfodol. Bydd y safonau newydd yn amlinellu beth sy'n ofynnol gan fydwragedd dan hyfforddiant cyn y gallant ymuno â'r gofrestr a dechrau gweithio fel bydwragedd cymwysedig. Mae'r safbwyntiau a'r adborth amrywiol a gasglwyd yn helpu i ddatblygu safonau medrusrwydd drafft. Bydd y Cyngor yn cyflwyno'r safonau drafft gerbron cyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd 2018, yna'n cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arnynt ym mis Chwefror 2019. Bydd gweithgor gweithredu cenedlaethol yn cael ei sefydlu ar ôl cymeradwyo'r safonau. Mewn ffordd debyg i waith y safonau nyrsio, gofynnir i'r grŵp sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau iechyd meddwl amenedigol yn cael eu cynnwys yn y rhaglenni bydwreigiaeth a gynigir yng Nghymru.

Gallwn gadarnhau hefyd fod Iechyd Meddwl Amenedigol wedi'i gynnwys yng nghwricwlwm hyfforddiant meddygon teulu. O ran addysgu yn gysylltiedig â'r pwnc hwn, caiff hyn ei ddarparu drwy sesiynau Datblygiad Proffesiynol Parhaus grŵp yn bennaf yn ogystal â sesiynau tiwtorial un-i-un rhwng yr hyfforddai a'r Goruchwylydd Addysgol.

**Argymhelliad 17: Bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith i ddatblygu a chyflwyno strategaeth ar gyfer y gweithlu/fframwaith cymhwysedd er mwyn meithrin capasiti a chymhwysedd ar draws y gweithlu arbenigol, gan edrych ar brofiad yn Rhwydweithiau Clinigol a Reolir Lloegr a'r Alban sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb am hyfforddiant fel rhan o'u rôl arweinyddiaeth a chydlynu.**

Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen hyfforddiant a chymhwysedd a rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau gan y rhwydwaith amenedigol newydd. Mae byrddau iechyd hefyd wedi cyflwyno cynigion cyllido sy'n cynnwys agweddau ar hyfforddiant drwy gronfa trawsnewid iechyd meddwl. Bydd Llywodraeth Cymru'n monitro gweithrediad y gwaith hwn.

**Argymhelliad 18 – Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gan bob Bwrdd Iechyd fydwraig sy'n arbenigo mewn iechyd meddwl amenedigol er mwyn annog cyfathrebu gwell rhwng gweithwyr proffesiynol fel y gall menywod sy'n sâl gael y gofal a'r cymorth gorau sydd eu hangen arnynt.**

Mae gan bum bwrdd iechyd fydwraig iechyd meddwl amenedigol arbenigol erbyn hyn ac mae gan un bwrdd iechyd ymwelydd iechyd amenedigol arbenigol. Rydym yn parhau i weithio gyda byrddau iechyd ar ddatblygu'r timau iechyd meddwl amenedigol ymhellach i sicrhau bod menywod yn cael y gofal a'r cymorth gorau. Bydd y trafodaethau hyn yn seiliedig ar ganfyddiadau adroddiadau Mind-NSPCC-Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl a Chynghrair Iechyd Meddwl Mamau. Rôl arall yr arweinydd clinigol fydd parhau i wella cyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol.

**Argymhelliad 19: Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag at sefyllfa lle mae pob menyw yn cael perthynas barhaus gyda naill ai bydwraig neu ymwelydd iechyd. Er na fydd hi'n bosibl cyfarfod â'r un unigolyn ar bob achlysur, dylai pob Bwrdd Iechyd fynd at i glustnodi adnoddau er mwyn ceisio sicrhau parhad gofal, gydag arweinydd a enwir yn gyfrifol am ofal ôl-enedigol pob menyw.**

Mae ein Strategaeth Genedlaethol, Ffyniant i Bawb, yn nodi'r blynyddoedd cynnar fel maes blaenoriaeth. Gan adlewyrchu'r ymrwymiad yn y Strategaeth Genedlaethol i greu "system fwy cydgysylltiedig ac ymatebol a fydd yn rhoi lle canolog i anghenion unigryw pob plentyn", rydym wedi sefydlu rhaglen waith i ystyried sut i greu system blynyddoedd cynnar, ar lefel leol a chenedlaethol. Ein nod yw datblygu un dull cydgysylltiedig ar gyfer y blynyddoedd cynnar, a fydd yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd fwy cydweithredol ac integredig. Mae'r rhaglen waith hon wedi tanlinellu rôl allweddol y gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd i gefnogi teuluoedd, yn enwedig y rhai sydd wedi'u nodi fel rhai sydd angen cymorth ychwanegol. Cynhaliodd swyddogion Felin Drafod ar 21 Awst a oedd yn galluogi gweithwyr iechyd proffesiynol o wasanaethau Dechrau'n Deg a gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd cyffredinol i ystyried gweledigaeth ar gyfer darpariaeth gwasanaethau'r dyfodol a dysgu o beth sy'n gweithio. Mae ffrwd waith wedi'i sefydlu i ddatblygu argymhellion y Felin Drafod ac i greu cysylltiadau â darnau eraill o waith sydd ar droed mewn perthynas â'r blynyddoedd cynnar.

Yn ogystal, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn arwain gwaith gyda rhanddeilad ar ddatblygu gweledigaeth ar gyfer darpariaeth bydwreigiaeth y dyfodol. Cynigir y dylai pob menyw gael parhad o ofal cyn geni ac ar ôl geni drwy system cyfeillio a chynlluniau gofal ar gyfer unigolion.

**Argymhelliad 20: Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Byrddau Iechyd i sicrhau bod lefelau priodol o ddarpariaeth y trydydd sector yn cael eu hariannu'n briodol, yn enwedig lle gwneir atgyfeiriadau gan ac i wasanaethau statudol. Dylid creu cyfeiriadur o wasanaethau'r trydydd sector i gynyddu ymwybyddiaeth eu bod ar gael a dylai darparwyr perthnasol yn y trydydd sector gael eu gwahodd fel mater o drefn i fynychu hyfforddiant ar y cyd â gwasanaethau statudol.**

Fel yr ailadroddwyd yn ein hymateb blaenorol mae disgwyl i fyrddau iechyd gynllunio i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl i ddiwallu anghenion eu poblogaethau perthnasol. Gallant ddewis darparu'r gwasanaethau hyn mewn partneriaeth â sefydliadau'r trydydd sector neu'r sector annibynnol, neu gomisiynu gwasanaethau penodol ganddynt. O'n gwaith mapio rydym yn ymwybodol o enghreifftiau o hyn yn digwydd. Mae angen i unrhyw wasanaeth gael ei ategu gan hyfforddiant priodol a byddem yn disgwyl i gomisiynwyr gwasanaethau sicrhau bod hyn yn digwydd, yn cynnwys y rhai o'r trydydd sector. Mae'r trydydd sector hefyd yn aelodau allweddol o Grŵp Llywio Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru Gyfan a'r Gymuned Ymarfer, y ddau yn cynnwys rôl i rannu ymarfer a meithrin cyfleoedd dysgu.

Rydym yn cydnabod fod y galw am wasanaethau iechyd meddwl amenedigol yn fwy na'r capasiti ar hyn o bryd. Dyna pam y gwnaethom ei gynnwys fel maes blaenoriaeth allweddol ar gyfer y gronfa drawsnewid iechyd meddwl a'i gynnwys yn ein cyllideb ddrafft ar gyfer 2019/20.

Rydym yn parhau i gefnogi DEWIS Cymru sy'n 'siop un stop' ar gyfer gwybodaeth am lesiant yng Nghymru.

**Argymhelliad 21. Bod Llywodraeth Cymru'n amlinellu, o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, sut mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r diffyg cymorth seicolegol ar gyfer rhieni babanod newyddenedigol neu rieni sy'n mynd trwy brofedigaeth a bodloni'r safonau, a pha gamau y bydd yn eu cymryd os na sicrheir cydymffurfiaeth â'r safonau. Dylid cyhoeddi'r trydydd rhifyn o'r safonau newyddenedigol fel mater o flaenoriaeth.**

Mae gan bob bwrdd iechyd yng Nghymru arweinydd ar gyfer cymorth profedigaeth i famau. Mae'r arweinwyr profedigaeth wedi bod yn allweddol wrth ddarparu hyfforddiant Cymru Gyfan i staff clinigol, datblygu gwybodaeth i fenywod a theuluoedd, datblygu'r safonau gofal a chydweithio gyda'r Gymdeithas Marw-enedigaethau a Marwolaethau Newyddanedigion (SANDs) ar amgylcheddau gofal priodol. Dylai cymorth i fenywod a theuluoedd amrywio o gydnabod colled i ddechrau i drefniadau angladd ac ymchwiliadau a dibriffio ôl-enedigol. Cydnabyddir bod cael un pwynt cyswllt yn hanfodol i sicrhau bod teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn cael y wybodaeth angenrheidiol.

Mae yna brosesau cadarn ar waith i adolygu unrhyw farwolaeth. Mae hyn yn cynnwys gofyniad am adolygu'n lleol gan ddefnyddio'r Adnodd Adolygu Marwolaethau Amenedigol. Mae'r Adnodd hwn hefyd yn cynhyrchu adroddiadau i ysbytai eu hystyried ar lefel Bwrdd.

Bydd yr adroddiadau'n galluogi sefydliadau i nodi themâu ar draws nifer o farwolaethau i gefnogi dysgu a newidiadau lefel system yn narpariaeth a'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau i wella gofal yn y dyfodol. Bydd y Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol yn llunio adroddiad blynyddol yn unol ag argymhellion yr Adnodd.

Mae yna ofyniad hefyd i roi gwybod am farwolaethau i MBRRACE-UK (Mother and Babies: Reducing Risk though Audits and Confidential Enquiries across the UK) a gomisiynir gan HQIP i gynnal Rhaglen Adolygu Canlyniadau Clinigol Mamau, Babanod Newydd-anedig a Babanod. Nod y rhaglen yw casglu, dadansoddi ac adrodd data goruchwylio cenedlaethol a chynnal ymholiadau cyfrinachol cenedlaethol er mwyn ysgogi a gwerthuso gwelliannau mewn gofal iechyd i famau a babanod.

Diwygiwyd y Rhwydwaith Newyddenedigol y safonau newyddenedigol gyda'r 3ydd Argraffiad wedi'i gymeradwyo gan Grŵp Llywio'r Rhwydwaith Newyddenedigol ym mis Medi 2017 a'i gyflwyno'n llawn ddechrau 2018.

Mae Rhwydwaith Newyddenedigol Cymru'n sicrhau bod cynnydd tuag at gydymffurfiaeth lawn yn cael ei monitro lle mae yna gyfeiriad at ofal profedigaeth. Bydd pob uned yn sicrhau bod digon o seicolegwyr, cwnselwyr a gweithwyr iechyd meddwl eraill ar gael i alluogi rhieni, brodyr a chwiorydd a staff i gael gafael ar gymorth seicolegol.

O dan delerau'r Safonau, bydd cymorth profedigaeth yn cael ei gynnig i deuluoedd a gollodd fabi yn yr uned babanod newydd-anedig.

Mae swyddogion wedi darparu canllawiau i fyrddau iechyd ar ofal plant sy'n cael eu geni ar y trothwy goroesi. Fel rhan o'r gwaith hwn, cyhoeddwyd Cylchlythyr Iechyd Cymru yn cyfarwyddo byrddau iechyd i sicrhau bod ganddynt ddarpariaeth addas ar gyfer cymorth profedigaeth i deuluoedd sydd wedi colli babanod.

Rydym yn disgwyl i Fyrddau Iechyd weithio gyda'r Rhwydwaith Newyddenedigol i sicrhau bod eu cynlluniau gwasanaethau newyddenedigol yn ddigon cadarn i gyflawni Safonau Newyddenedigol Cymru Gyfan a gwelliannau ar draws y gwasanaeth.

Yn ogystal, mae'r Bwrdd Gofal Diwedd Oes yn gweithio gyda Chanolfan Ymchwil Marie Curie i gwmpasu darpariaeth gwasanaethau profedigaeth ledled Cymru. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gynnal o fis Tachwedd 2018 a Mai 2019.

**Argymhelliad 25. Bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod yr holl waith o gynllunio'r gweithlu ar gyfer darparu gwasanaeth iechyd meddwl amenedigol yn ystyried anghenion Cymraeg y boblogaeth ac yn darparu ar eu cyfer.**

Bydd Safonau'r Gymraeg ar gyfer y sector iechyd yn cael eu seilio ar Mwy na Geiriau ac mae disgwyl iddynt ddod i rym ym Mehefin 2019. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn penderfynu pa safonau fydd yn cael eu pennu ar fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, ond mae safonau yn y rheoliadau'n cynnwys y gofyniad i sefydliadau ddatblygu sgiliau Cymraeg eu staff; darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg; asesu'r angen am sgiliau Cymraeg wrth hysbysebu swyddi a'r gofyniad i sefydliadau gyhoeddi cynllun 5 mlynedd yn nodi i ba raddau y gallent gynyddu eu gallu i gynnig ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg.

**Argymhelliad 26. Bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud hi'n ofynnol i Fyrddau Iechyd adrodd ar i ba raddau y mae eu timau iechyd meddwl amenedigol yn ymgysylltu â gwasanaethau eraill ac yn gweithio ar y cyd â nhw – gwasanaethau fel CAMHS, Unedau Dibyniaeth Cymunedol a thimau iechyd meddwl gofal sylfaenol ac eilaidd.**

Fel rhan o'n gwaith monitro, rydym wedi cael cadarnhad gan yr holl fyrddau iechyd eu bod yn ymgysylltu a chydweithio â gwasanaethau eraill. Mae enghreifftiau'n dangos y timau arbenigol yn gweithio'n hyblyg i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau unigol ac wrth wneud hynny, yn cydweithio rhwng timau yn cynnwys CAMHS, timau Camddefnyddio Sylweddau, gofal sylfaenol a Thimau Iechyd Meddwl Cymunedol.

**Argymhelliad 27. Bod Llywodraeth Cymru'n gwneud rhagor o waith ar y cysylltiad rhwng anghydraddoldebau iechyd ac iechyd meddwl amenedigol, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y mecanweithiau gorau ar gyfer canfod problemau'n gynnar a thrin y poblogaethau hynny sydd â'r angen mwyaf.**

Mae'n cyllid i gefnogi Hyb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sail i'n dull hirdymor i dorri'r cysylltiad rhwng profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chanlyniadau gwaeth mewn bywyd, yn cynnwys problemau iechyd meddwl. Yn ogystal, mae yna enghreifftiau o Fydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd yn edrych ar sut i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarparant yn ystyried y profiadau hyn.

Mae'r tîm 1000 o fywydau hefyd wedi darparu cyfleoedd i ddysgu am waith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a amlinellwyd uchod a datblygu gwasanaethau iechyd meddwl sy'n ystyried trawma.

Gobeithio y byddwch yn gweld fy ymateb yn ddefnyddiol ac edrychaf ymlaen at roi mwy o wybodaeth i chi ym mis Ionawr.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

Atodiad 1

| Ymateb gwreiddiol i argymhellion | |
|---|---|
| 1 | Derbyn - Mae gwasanaethau amenedigol cymunedol ar gael ym mhob ardal yng Nghymru yn awr, ac mae gwaith Grŵp Llywio Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru Gyfan a'r gymuned ymarfer wedi gwneud cyfraniad hollbwysig at ddatblygu'r cysylltiadau a'r adnoddau angenrheidiol. Rwy'n cefnogi rôl ganolog y ddau grŵp yn y gwaith o ddatblygu'r agenda amenedigol yng Nghymru.<br>Fodd bynnag, rwy'n cytuno â'r angen i sefydlu rhwydwaith clinigol a reolir, wedi'i arwain gan glinigwyr, i gefnogi ymhellach ddatblygiad gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru. Bydd y Rhwydwaith yn dod â'r rolau arweinyddiaeth glinigol a datblygiad strategol ynghyd mewn un corff.<br>Bydd y gwaith o sefydlu'r Rhwydwaith Clinigol a Reolir yn dechrau yn awr, gyda'r nod o recriwtio i'r rôl arweinyddiaeth yn y flwyddyn ariannol hon. |
| 2 | Derbyn - Mae safonau a chanlyniadau is-grŵp Grŵp Llywio Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru Gyfan (AWPMHSG) yn datblygu fframwaith integredig ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r fframwaith hwn yn 2018, a bydd yn cynnwys dulliau mesur canlyniadau ansoddol a meintiol.<br><br>Bydd set ddata graidd newydd Cymru gyfan ar iechyd meddwl ac anableddau dysgu yn ymgorffori gwybodaeth amenedigol. Bydd y systemau TG, sy'n cael eu creu yn awr, yn gallu sicrhau bod trefniadau cadarn ar gyfer casglu data a monitro ar gael yn y dyfodol. Bydd hyn yn hollbwysig er mwyn deall yr angen a'r galw am wasanaethau amenedigol, oherwydd mae ymwybyddiaeth yn cynyddu ac mae stigma a gwahaniaethu yn dod yn llai cyffredin. |
| 3 | Derbyn - Mae'r dystiolaeth bresennol yn awgrymu bod angen gofal cleifion mewnol yn ne Cymru, er na fyddai galw digonol i ddarparu uned yng ngogledd Cymru yn unig, fel sy'n cael ei argymell yn eich adroddiad. Fel yr ydych wedi cydnabod, rydym eisoes wedi ymrwymo i ddarparu gofal i gleifion mewnol yng Nghymru o fewn y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2018-19 a 2019-20.<br><br>Mae is-grŵp Haen 4 AWPMHSG wrthi'n costio'r opsiynau i'w hystyried, ac yn ystyried y pryderon a godwyd gan Gydbwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC). Bydd yr opsiynau'n cael eu cyflwyno i'r Cydbwyllgor ym mis Ionawr.<br><br>Wrth gyflwyno'r opsiynau ar gyfer gofal cleifion mewnol, mae'r ffactorau pwysig i'w hystyried yn cynnwys lleoliad y gwasanaeth a'r pellter i deuluoedd ei deithio. Mae uned unigol i gleifion mewnol yn debygol o fod yn un o'r opsiynau hyn. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn disgwyl gweld opsiynau ar gyfer gofal mwy lleol i gleifion mewnol, gyda phellteroedd llai rhwng mamau a babanod a'u teuluoedd. Mae'n hollbwysig bod y model newydd ar gyfer cleifion mewnol yn darparu gofal rhagorol, gan sicrhau ar yr un pryd ei fod yn gynaliadwy yn y tymor hwy a'i fod yn diwallu anghenion ein poblogaeth gyfan. |
| 4 | Fel 2 |
| 5 | Derbyn - Rydym wedi gofyn i'r Gymuned Ymarfer bresennol ddechrau ar y gwaith o gynhyrchu canllawiau i weithwyr proffesiynol a gwybodaeth i gleifion er mwyn cefnogi dull mwy gwybodus o wneud penderfyniadau am opsiynau triniaethau. |
| 6 | Fel 3 |
| 7 | Derbyn - Rwyf wedi gofyn i WHSSC weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ystyried yr opsiynau yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys yr argymhelliad hwn. Bydd y canlyniadau yn sail i ddatblygiad cyffredinol y gofal a roddir i gleifion mewnol yng Nghymru, a fydd yn ystyried anghenion mamau a theuluoedd ar hyd a lled Cymru. Cyflwynir yr opsiynau ar gyfer y ddarpariaeth yng ngogledd Cymru i'r Cydbwyllgor ym mis Ionawr, fel rhan o ddatblygiad cyffredinol gofal i gleifion mewnol ar |

| | |
|---|---|
| | hyd a lled Cymru. |
| 8 | Derbyn - Rydym yn cytuno y bydd cysylltu gwasanaethau cymunedol amenedigol lleol gyda thimau eraill ar draws Cymru yn hollbwysig wrth ddatblygu'r ddarpariaeth newydd i gleifion mewnol, er mwyn cefnogi trosglwyddiad esmwyth o ran camu i fyny neu gamu i lawr rhwng gofal cleifion mewnol a gofal cymunedol.<br>Bydd y Rhwydwaith Clinigol a Reolir yn cynnwys cynrychiolaeth o dîm cymunedol pob bwrdd iechyd, fel sy'n digwydd gyda'r Gymuned Ymarfer ar hyn o bryd, a bydd yn ymgysylltu'n llawn wrth i ofal i gleifion mewnol gael ei ddatblygu yng Nghymru. |
| 9 | Derbyn mewn egwyddor - Bydd y gwerthusiad arfaethedig yn darparu mwy o eglurder o ran sut mae'r gwasanaethau cymunedol yn diwallu'r galw ar hyn o bryd. Mae'n hollbwysig bod mynediad cyfartal ar gael i wasanaethau ar draws Cymru gyfan a bod y byrddau iechyd yn gallu darparu gwasanaethau cymunedol sy'n diwallu anghenion eu poblogaeth leol.<br><br>Rydym wedi cynnwys £20 miliwn ychwanegol bob blwyddyn ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y gyllideb ddrafft ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Mae hyn ar ben yr £20 miliwn ychwanegol sydd wedi'i chynnwys yn y gyllideb eleni (2017-19). Rydym yn disgwyl i fyrddau iechyd ddefnyddio eu cyllideb iechyd meddwl uwch i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth gwasanaeth.<br><br>Bydd y Rhwydwaith Clinigol a Reolir yn gweithio gyda'r byrddau iechyd i bennu safonau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r broses yn galluogi'r byrddau iechyd i ddatblygu eu gwasanaethau er mwyn cyrraedd y safonau hyn. |
| 10 | Derbyn - Rwy'n derbyn pwysigrwydd sicrhau bod gan fenywod beichiog a menywod ôl-enedigol fynediad cyflym ac amserol i ymyriadau seicolegol. Mae Matrics Cymru - Canllaw ar gyfer Cyflenwi Therapi Seicolegol ar sail Tystiolaeth yng Nghymru yn cynnwys y dystiolaeth ar ddarparu ymyriadau seicolegol yn ystod y cyfnod amenedigol. Bydd cynllun gweithredu Cymru gyfan ar gyfer darparu therapïau seicolegol i gefnogi gweithredu Matrics Cymru yn cael ei ddatblygu yn awr a bydd yn cael ei gyhoeddi yn 2018.<br><br>Er bod timau cymunedol presennol yn darparu mathau gwahanol o gymorth, gan gynnwys therapi galwedigaethol, seicolegwyr clinigol arbenigol a seicolegwyr cynorthwyol, byddaf yn gofyn i fy swyddogion gael cyngor gan yr is-grŵp safonau a chanlyniadau ynglŷn â chasglu gwybodaeth ar wahân ar amseroldeb yr ymyriadau, yn unol ag argymhellion NICE ym Matrics Cymru, sef cynnig asesiad o fewn pythefnos i atgyfeiriad a chynnig ymyriadau o fewn mis i'r asesiad. Mae hyn yn cyd-fynd yn gyffredinol â'r targedau amseroedd aros yr ydym eisoes wedi'u pennu ar gyfer darparu ymyriadau therapiwtig sy'n cael eu cynnig gan wasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol.<br><br>Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru hefyd yn cefnogi gwaith ymchwil penodol i ymarfer sy'n seiliedig ar ymchwil yn y cyfnod amenedigol. Byddwn yn sicrhau bod tystiolaeth newydd yn cael ei hymgorffori yn y gwasanaethau a ddarperir ac wrth ddiwygio Matrics Cymru.<br><br>Bydd y Rhwydwaith Gofal a Reolir yn pennu agenda strategol ac yn nodi canlyniadau gydag amserlenni cyflawni priodol. |
| 11 | Derbyn - Rwy'n cefnogi argymhellion AWPMHSG yn llwyr y dylai byrddau iechyd hwyluso eu gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol drwy gofrestru i safonau ansawdd gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol Coleg Brenhinol y Seiciatryddion. Bydd angen gwneud hyn yn unol â deddfwriaeth benodol ar gyfer Cymru, megis y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| 12 | Derbyn - Bydd llwybr a safonau integredig newydd Cymru gyfan yn cefnogi'r broses o gyflawni canlyniadau cyson i fenywod a theuluoedd ym mhob rhan o Gymru. Bydd y |

| | |
|---|---|
| | dulliau o ddarparu gwasanaethau o'r fath yn ystyried y galw ac anghenion lleol.<br>Mae'n bwysig sicrhau bod yr amserlenni ar gyfer cyflwyno'r llwybr yn realistig ac yn gyfiawnadwy. Cyflwynir amserlenni priodol gan y Rhwydwaith Gofal a Reolir newydd. |
| 13 | Gwrthod |
| 14 | Derbyn mewn egwyddor - Mae is-grŵp safonau a chanlyniadau'r AWPMHSG, sydd â chynrychiolwyr o bob bwrdd iechyd yng Nghymru, mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn ystyried y dull mwyaf effeithiol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, o wella ymwybyddiaeth menywod o bwysigrwydd llesiant meddwl, yn ogystal â materion penodol sy'n ymwneud ag iechyd meddwl amenedigol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried a yw'n bosibl cynnwys gwybodaeth bellach yn y pecynnau cynenedigol ac ôl-enedigol. |
| 15 | Derbyn - Comisiynodd Llywodraeth Cymru y grŵp Bydwragedd Ymgynghorol yn ddiweddar i ymchwilio i brofiad menywod o feichiogrwydd a genedigaeth yng Nghymru, a lansiwyd gennyf ar 9 Hydref 2017. Roedd yr arolwg yn gwerthuso safbwyntiau menywod am y gwasanaethau cynenedigol a sut y gall y gwasanaethau presennol baratoi menywod ar gyfer esgor, genedigaeth a magu plant.<br><br>Roedd y canfyddiadau hyn yn cynnwys yr angen am fynediad gwell i ddosbarthiadau sy'n eu paratoi'n ddigonol ar gyfer yr enedigaeth a magu plant. Mae rhaglen i ddatblygu gweledigaeth strategol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth yn y dyfodol yn cael ei datblygu yn awr. Rwy'n cytuno â'r angen i gyfuno'r llif gwaith addysg cynenedigol er mwyn cynhyrchu fframwaith cenedlaethol ar ymwybyddiaeth o ofal iechyd amenedigol. |
| 16 | Cytuno mewn egwyddor - Mae is-grŵp hyfforddiant a chymhwysedd yr AWPMHSG yn datblygu fframwaith dysgu a datblygu iechyd meddwl amenedigol Cymru. Disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn 2018.<br>Mae iechyd meddwl amenedigol wedi'i gynnwys yn awr yn hyfforddiant cyn-cofrestru Bydwragedd ar draws Cymru. Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn adolygu'r fframwaith addysg ar gyfer 'Bydwragedd y Dyfodol' a byddaf yn gofyn i gynrychiolwyr o Gymru sicrhau bod hyn yn cael ei argymell ar gyfer y dyfodol.<br>Disgwylir i dimau amenedigol mewn byrddau iechyd ddarparu hyfforddiant a gwybodaeth ar ôl cofrestru i bob aelod o staff sy'n gysylltiedig â gofal menywod a theuluoedd yn ystod beichiogrwydd ac ar ôl genedigaeth.<br><br>Mae Meddygon Teulu yn gweithio ochr yn ochr â bydwragedd ac ymwelwyr iechyd i fonitro a rheoli anghenion iechyd meddwl menywod beichiog a mamau newydd. Bydd hyfforddiant pellach yn cael ei ddarparu i feddygon teulu drwy RCGP Cymru, gyda'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth o anhwylderau iechyd meddwl amenedigol a chyflwyno'r dulliau gorau o'u rheoli. Hwylusir yr ymgysylltiad â'r gymuned meddygon teulu drwy'r AWPMHSG. |
| 17 | Derbyn - Mae is-grŵp AWPMHSG eisoes yn datblygu fframwaith hyfforddiant a chymhwysedd integredig i sicrhau bod pob aelod o staff sy'n dod i gysylltiad â menywod a'u teuluoedd yn ystod y cyfnod amenedigol yn meddu ar wybodaeth a sgiliau digonol i gynnig asesiadau ar sail tystiolaeth ac, yn ôl yr angen, ymyriadau. Dylai'r gwaith hwn gael ei gwblhau yn 2018. |
| 18 | Derbyn mewn egwyddor - Yn yr un modd â'r ymateb i Argymhelliad 9, rwy'n aros am ganfyddiadau'r gwerthusiad, a fydd yn darparu darlun cliriach o'r ffordd y mae'r model presennol yn diwallu'r galw am wasanaethau ar hyd a lled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys sut mae gwasanaethau mewn ardaloedd â dwyster poblogaeth is yn gweithio gyda gwasanaethau lleol i gyflawni anghenion mamau a babanod newydd. |
| 19 | Derbyn - Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r grŵp Bydwragedd Ymgynghorol i ymchwilio i brofiadau menywod o feichiogrwydd a genedigaeth yng Nghymru, a lansiwyd gennyf ar 9 Hydref. Roedd yr arolwg yn ceisio casglu a gwerthuso safbwyntiau menywod am wasanaethau cynenedigol a sut y gall y ddarpariaeth bresennol baratoi menywod ar gyfer esgor, genedigaeth a magu plant. Un o |

| | |
|---|---|
| | ganfyddiadau allweddol yr arolwg oedd bod menywod yn dymuno datblygu perthynas gyda bydwragedd gwybodus, trugarog a charedig. Mae hyn nid yn unig yn gwneud i fenywod deimlo'n ddiogel, mae hefyd yn eu galluogi i ymddiried yn y wybodaeth a'r cyngor a roddir iddynt.<br>Pan fydd menyw yn dioddef o salwch amenedigol, byddai'r fydwraig a enwir a'r tîm iechyd meddwl amenedigol lleol yn cydweithio i sicrhau cynllun gofal unigol a pharhad gofal.<br>Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod pob bwrdd iechyd yn cyflogi'r nifer cywir o fydwragedd yn eu gwasanaethau. Mae offeryn y gweithly Birthrate Plus yn cael ei ddefnyddio ym mhob bwrdd iechyd, ac mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â chymarebau'r gweithlu. Mae hyn yn cael ei fonitro yng nghyfarfodydd blynyddol byrddau perfformiad mamolaeth ac mae'n galluogi i fydwraig a enwir gael ei neilltuo i bob menyw feichiog.<br><br>Cynhaliwyd digwyddiad cydweithredol gyda rhanddeiliaid allweddol yn y gwasanaethau mamolaeth i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y gwasanaethau mamolaeth yn y dyfodol, a fydd yn mynd i'r afael â'r negeseuon allweddol o'r Arolwg o Fenywod. |
| 20 | Derbyn - Disgwylir i fyrddau iechyd gynllunio i ddarparu gwasanaethau iechyd sy'n diwallu anghenion eu poblogaethau unigol. Gallant ddewis darparu'r gwasanaethau hyn mewn partneriaeth â sefydliadau'r trydydd sector neu'r sector annibynnol, neu gomisiynu gwasanaethau penodol ohonynt.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i phartneriaid i gydlynu'r gwaith o ddatblygu un cyfeiriadur 'rhithwir' o wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector a'r sector annibynnol. Bwriedir i'r cyfeiriadur hwn gael ei ddefnyddio gan y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol a bydd yn ategu'r wybodaeth, cyngor a'r gwasanaeth cynorthwyol newydd ar gyfer awdurdodau lleol, yn ogystal â'r gwasanaeth ffôn a gwefan 111. Bydd yn cynnwys yr amrediad eang o wasanaethau sydd ar gael mewn cymunedau lleol ac yn esbonio sut y gall pobl gael mynediad i'r gofal a'r cymorth hwn. |
| 21 | Derbyn - Bydd y safonau newyddenedigol diwygiedig yn cael eu cyhoeddi gan y Rhwydwaith Newyddenedigol a'u cyflwyno ar draws pob bwrdd iechyd yn y flwyddyn newydd. Mae'r safonau'n amlinellu'r angen i bob uned sicrhau bod cymorth seicolegol digonol ar gael i rieni, brodyr a chwiorydd a staff. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i fyrddau iechyd gydweithio, gyda chefnogaeth gan WHSSC a'r Rhwydwaith Newyddenedigol, i sicrhau gwasanaethau newyddenedigol o ansawdd uchel, yn unol â'r safonau proffesiynol.<br>Yn dilyn Ymchwiliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Farw-enedigaethau (2012), mae gwasanaeth profedigaeth Bydwreigiaeth ar gael ym mhob bwrdd iechyd yn awr. Mae'r gwasanaeth yn darparu cefnogaeth i fenywod a theuluoedd sydd wedi cael profedigaeth drwy farw-enedigaeth neu farwolaeth baban newydd-anedig. Mae'r byrddau iechyd hefyd yn gweithio gyda sectorau'r trydydd sector megis Cymdeithas Marw-enedigaethau a Marwolaethau Newyddanedigion (SANDS) i wella amgylcheddau gofal, darparu cefnogaeth a hwyluso hyfforddiant proffesiynol. |
| 22 | Gwrthod |
| 23 | Gwrthod |
| 24 | Gwrthod |
| 25 | Derbyn - Disgwylir i fyrddau iechyd ystyried anghenion ieithyddol eu poblogaeth leol wrth gynllunio gwasanaethau. Strategaeth Llywodraeth Cymru yw cryfhau gwasanaethau Cymraeg ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Mae Mwy na Geiriau..., yn ceisio sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaethau yn eu mamiaith. O dan Fesur y Gymraeg, mae gan y Gymraeg statws swyddogol, sy'n golygu na ddylai dderbyn triniaeth lai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.<br>Byddwn yn disgwyl i'r Rhwydwaith Gofal a Reolir newydd ystyried sut mae'r ddarpariaeth bresennol yn cyflawni anghenion iaith Gymraeg y boblogaeth fel rhan o'i |

| | |
|---|---|
| | waith. |
| 26 | Derbyn - Fel yn fy ymateb i Argymhelliad 22, rwyf wedi gofyn i'r AWPMHSG gasglu gwybodaeth ar sut mae'r timau cymunedol yn ymgysylltu yn awr â'r gwasanaethau perthnasol ac i ystyried pa waith sydd angen ei wneud i wella cydweithrediad.<br>Fel rhan o'r gofynion yn y Fframwaith Gwasanaeth ar gyfer Trin Pobl â Phroblem Iechyd Meddwl a Sylweddau yr Un Pryd, a gyhoeddwyd yn 2015, byddwn hefyd yn disgwyl protocol ar y cyd clir a llwybr integredig rhwng y gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Disgwylir hefyd i'r gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau gael eu teilwra i gyflawni anghenion eu poblogaeth leol (a fydd yn cynnwys menywod beichiog). Mae'r cynnydd ar weithredu'r fframwaith hwn yn cael ei fonitro drwy drefniadau presennol yn strategaethau 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' a 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed' Llywodraeth Cymru. |
| 27 | **Derbyn -** Bydd cais ar y cyd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru Llywodraeth Cymru am ymchwil i ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn y cyfnod amenedigol yn cynnwys data ar sut mae gwasanaethau yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Bydd fframwaith integredig Cymru gyfan hefyd yn cynnwys cyfeiriad penodol at yr angen i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau mynediad cyfartal i'r rhai â nodweddion gwarchodedig. |